# Cynllun Gwaith Cymraeg

## Awdurdod Addysg Castell-nedd a Phort Talbot

Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

Mawr yw fy nyled i'r canlynol am eu cyngor, cefnogaeth a'u hamynedd:

Pentan

Aled Evans

Gill Harrison

Diolch yn arbennig i'r Gweithgor Llythrennedd am eu llafur:

| | |
|---|---|
| Glenda Jones | Canolfan Gymraeg San Helen |
| Catherine Williams | Ysgol Gynradd Gymraeg GwaunCaeGurwen |
| Lisa Lewis Jones | Ysgol Gynradd Gymraeg Pontardawe |
| Siân Richards | Ysgol Gynradd Gymraeg Y Glyn |
| Carys Llywelyn | Ysgol Gynradd Gymraeg Pontardawe |
| Helen Davies | Ysgol Gynradd Gymraeg Y Glyn |
| Sandra Rees | Ysgol Gynradd Gymraeg GwaunCaeGurwen |
| Rhiannon Davies | Ysgol Gynradd Gymraeg Rhosafan |
| Nia Thomas | Ysgol Gynradd Gymraeg Castell-nedd |
| Sarah Daniel | Ysgol Gynradd Gymraeg Pontardawe |
| Fiona Archer | Ysgol Gynradd Gymraeg Cwmgors |
| Catherine Davies | Ysgol Gyrnadd Gymraeg Castell-nedd |
| Rhian James | Ysgol Gynradd Gymraeg Blaendulais |
| Helen Rowe | Ysgol Gynradd Gymraeg Rhosafan |
| Marc Tiplady | Ysgol Gynradd Gymraeg Castell-nedd |
| Meirwen Watts | Ysgol Gynradd Gymraeg Pontardawe |
| Lois Loader | Ysgol Gynradd Gymraeg Blaendulais |

ac i Ceri Edwards, Canolfan Gymraeg San Helen am y trefnu a'r gosod.

**Zac Davies**

**Swyddog Datblygu Cwricwlwm Cymraeg**

Neath Port Talbot Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

# Rhagair

Bwriad y Cynllun Gwaith hwn yw cynnig arweiniad a chanllawiau ar gyfer hybu a datblygu llythrennedd ar draws y sector cynradd cyfrwng Cymraeg.

Barn pawb a fu'n gysylltiedig â'r gwaith yw na ddylid bod yn rhy brescriptif, a di-fudd fyddai gormod o restri sgiliau a gweithgareddau.

Yn hyn o beth mae'n ddiddorol dyfynnu o ragair **Fframwaith Cynllun Gwaith Iaith Cynnal**:

(i) "Nid oes modd ateb gofynion pob ysgol gynradd mewn un model o Gynllun Gwaith Iaith, ond hyderir y bydd hon yn fan cychwyn teilwng, a / neu'n gadarnhâd o'r hyn sydd yn yr ysgol yn barod."

(ii) "Bydd angen i'r ysgol unigol ymateb drwy gyd-drafod, addasu ac adeiladu ar y ddogfen hon, fel ei bod yn adlewyrchu'r hyn a ddigwydd ar lawr y dosbarth. Rhydd hyn berchnogaeth yr ysgol arni. Da o beth fyddai ychwanegu taflenni defnyddiol a llyfryddiaeth sydd gan yr ysgol yn barod. Dylai Dogfen Iaith ysgol dyfu allan o'r hyn sy'n digwydd ar lawr y dosbarth, a dylai ddatblygu a chael ei haddasu wrth i arbenigedd staff ddatblygu yn y maes."

(www.cynnal.co.uk/llythrennedd/athrawon/canllawiau)

Mae dylanwad y Cynllun Gwaith Saesneg yn eithaf cryf ar agweddau o'r gwaith hwn ac mae'n bwysig cadw mewn cof y sgiliau generic trosglwyddadwy sy'n gyffredin i'r ddwy iaith.

Ar y llaw arall, rydym yn rhoi pwyslais mawr ar yr elfen lafar ar hyd y daith, ac mae ffocws penodol ar hyn yn yr Adran Meithrin / Derbyn.

**Zac Davies**

**Swyddog Datblygu'r Cwricwlwm / Llythrennedd**

Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

# Y Gwahanol Adrannau

 **= Materion Ysgol Gyfan**


**Tudalennau**

**1. Llafaredd yn y Blynyddoedd Cynnar** **6**

- Ardaloedd Chwarae
- Pa gwestiynau i'w gofyn i'r plantos

**2. Darllen ac ysgrifennu yn y Blynyddoedd Cynnar** **19**

**3. Datblygiad Iaith a Llythrennedd yn y dosbarthiadau Meithrin / Derbyn** **29**

**4. Gair o Gyngor o'r Rhyl** **38**

- Mrs Gwenfydd Williams, Ysgol Dewi Sant, Y Rhyl, yn dweud sut mae hi'n hybu sgiliau'r wyddor yn yr Uned Blynyddoedd Cynnar

**5. Dadansoddiad Iaith Meithrin / Derbyn** **41**

- Nodir yma y prif batrymau iaith y gellir eu defnyddio ymhob cyd-destun

 **6. Hybu Llafaredd CA1** **67**

 **7. Darllen ac Ysgrifennu CA1** **78**


Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

**8. Sillafu** **113**

- Yn cynnwys Gair o Gyngor o'r Barri

  Amlinelliad o'r gwaith a wneir yn Ysgol San Baruc,

  Y Barri, gan Mrs Menna Roberts

**9. Cyflwyniad byr i'r gwahanol destunau ffeithiol** **126**

**10. Ffocws Benodol Fesul Blwyddyn 1 – 6** **130**

**11. Atodiadau** **199**

**11 a.** Ysgrifennu CA2 – Cyngor gan Len Jones **201**

**11 b.** Y deunyddiau darllen a ddefnyddir yn

Ysgol San Baruc, Y Barri Derbyn – Blwyddyn 6 **218**

**11 c .** Hybu Llafaredd **239**

Plotio'r Plot / Cracio'r Cymeriad / Astudio Agoriad

/ Taclo'r Teitl

**11 ch.** Taith Iaith Powys Blwyddyn 1 – Blwyddyn 6 **245**

**11 d.** Trawsieithu **255**

**11 dd.** Geirfa **256**

# Y Blynyddoedd Cynnar

# Llafaredd

Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

## Gair o Gyngor …..

# Datblygu Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn y Blynyddoedd Cynnar

Mae'n hanfodol cofio bod:

- caffael a dysgu iaith yn broses anodd a chymhleth iawn
- angen parchu mamiaith y plentyn
- trochi ieithyddol ac ail-adrodd yr iaith darged yn hanfodol
- rhoi amser i blentyn feddwl a myfyrio cyn cynnig ateb yn well na saethu gormod o gwestiynau.

Yn sail i ddatblygiad iaith disgyblion meithrin / derbyn mae darparu ystod dda o brofiadau iaith sy'n fodd i feithrin datblygiad emosiynol, deallusol a chymdeithasol yn ogystal.

# Y Blynyddoedd Cynnar: Prif Ffocws

**Dechrau canolbwyntio wrth wrando ar ystod o symbyliadau perthnasol**

**Gweithgareddau datblygiadol**

- Gwrando ar: llais athro / cyfarwyddiadau / ei gilydd / y radio / y teledu ac ar dâp.
- Gwrando ar stori dda,
  defnyddio llyfrau lluniau,
  athro yn dweud stori – y plant yn gwrando,
  gwrando ar rigymau, hwiangerddi, cerddi.
- Gwrando ar stori gan ymuno yn yr effeithiau sain.
- Gwybod bod cyfathrebu yn broses ddwy-ffordd.
- Gwrando ac adnabod seiniau o fewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth, e.e. ceir, adar, plant eraill, taith wrando.
- Chwarae gêmau sain, e.e. Lotto.
- Stori sain.
- Gwrando ar gerddoriaeth.
- Gwrando ar y gwahaniaeth rhwng offerynnau taro, e.e. tambwrîn, drwm.
- Canolbwyntio ar rythmau syml, e.e. enwau, geiriau thematig, rhigymau.
- Rhagfynegi / rhagweld beth all ddigwydd nesaf mewn stori.

**Prif Ffocws**


| |
|---|
| **Dechrau ymateb ar lafar yn y Gymraeg i eraill ac i fynegi anghenion sylfaenol.** |

**Gweithgareddau datblygiadol**

- Ymuno mewn adrodd a chanu caneuon, rhigymau a phenillion.
- Defnyddio lleisiau mewn dulliau amrywiol: canu, siarad, gweiddi, sibrwd, rhuo.
- Codi ymwybyddiaeth o effeithiau sain, e.e. odlau syml, "Dau gi bach…….coed……troed."
- Dysgu geiriau newydd:
  Cynefino gyda geirfa'r dosbarth, y tŷ bach twt, yr ysgol, y neuadd, amser cinio, y gwasanaeth,
  Ailadrodd geirfa, ffenestr, cadair ….
- Dechrau defnyddio iaith lafar bwrpasol wrth gyfathrebu mewn gwahanol cyd-destunau, e.e. mynegi anghenion – *Ga' i?* Mynegi hoffter – *Rwy'n hoffi glas*. sôn am deulu, disgrifio'u hunain.
- Chwarae gêmau dyfalu / gêmau buarth, bocs teimlo.
- Ymarfer ailadrodd a dechrau dysgu ymadroddion a brawddegau, e.e. disgrifio gwrthrychau a brawddegau syml. (gweler atodiad – patrymau allweddol), e.e. cystrawennau syml mewn llyfrau da, e.e. Bili Broga – Ga i fyw gyda thi?
- Chwarae rôl – cornel ddychmygol, mygydau, pypedau.
- Cynnig safleoedd i sgwrsio.
- Dechrau adrodd bras drywydd stori gyfarwydd, e.e. tapio'r plant yn adrodd stori yn eu geiriau eu hunain.
- Creu cyfleoedd i'r plant ymateb ar lafar, e.e. cwestiynau, ymweliadau, digwyddiadau.
- Dechrau cyfarwyddo gyda geirfa'r gorffennol, e.e. newyddion, es i, ces i.
- Defnyddio iaith i drosglwyddo neges, e.e. *"Ewch i ôl ......"*
- Egluro digwyddiadau mewn lluniau / cartwnau.

**Mae rôl greiddiol gan y dychymyg yn y broses o gyfoethogi a hybu sgiliau llafar disgyblion.**

**Gweler ar y tudalennau nesaf rai awgrymiadau gwerthfawr, dadansoddiad iaith manwl a rhestr o weithgareddau posibl.**


PWYSIGRWYDD CHWARAE LLAWN DYCHYMYG
hybu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol
rhoi eu hunain yn lle plant arall a deall eu teimladau
datblygu sgiliau trin a chydsymudiad
datblygu sgiliau gwyddonol a rhifadol
ffurfio perthynas a chwarae cydweithredol gyda phlant eraill
Cael profiadau cyffyrddol o wrthrychau a defnyddiau
ysgogi dychymyg a chreadigrwydd
ysgogi iaith a chynyddu geirfa

# Mannau Chwarae Rôl Ar Raddfa Fach

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Caer** | Milwyr<br>Cerbydau<br>Pobl | **Sŵ** | Anifeiliad gwyllt<br>Pobl<br>Adeilad<br>Ffensys<br>Pyllau |
| **Maes Awyr** | Awyrennau<br>Pobl<br>Bagiau<br>Cerbydau<br>Adeiladau | **Fferm** | Pobl<br>Anifeiliad<br>Cerbydau<br>Adeiladau |
| **Y Ffair** | Reidiau<br>Pobl<br>Seddau | **Rheilffyrdd** | Trenau / tryciau<br>Adeiladau<br>Cerbydau<br>Traciau<br>Pobl<br>Bagiau |
| **Parc** | Siglenni<br>Sglefrau etc<br>Pobl<br>Meinciau<br>Pwll Tywod | **Garej** | Ceir<br>Tryciau<br>Offer atgyweirio<br>Pobl |
| **Pentre** | Parc<br>Tai<br>Cerbydau<br>Pobl<br>Siopau | **Doliau** | Tŷ / Byngalo<br>Pobl<br>Dodrefn<br>Gardd / Offer<br>Car / Garej |

Bydd chwarae "esgus bod" yn annog plant i gwestiynu ac arbrofi.

Drwy chwarae rôl ar raddfa fach mae'r plant yn cael profiad ymarferol o'r byd real drwy drefnu ac ailosod dodrefn, penderfynu a chael profiadau o drefn a phatrwm.

# Awgrymiadau Ar Gyfer Gosod Ardal Chwarae Llawn Dychymyg

Gallai peth o'r cyfarpar yn yr ardaloedd hyn gael eu gwneud gan y plant a'r staff, h.y. bwyd, llenni, papur wal, teledu / radio.



**Siop Trin Gwallt**

- Drychau (rhai drychau llaw)
- Cyrlwyr (i'w glanhau bob dydd)
- Tywelion
- Sychwyr gwallt (y polyn wedi ei osod mewn sment gyda bin sbwriel ynghlwm wrtho)
- Stolion (drymiau cardbord bach)
- Powlenni
- Brwsys / cribiau (i'w glanhau bob dydd)
- Wigiau / stand wigiau
- Ffôn
- Llyfr apwyntiadau / pensil
- Cylchgronau (creu rhai eich hun)
- Clipiau, rhubanau, bandiau gwallt
- Oferôls / clogyn ysgwydd
- Til / arian



**Cornel Cartref**

- Bwrdd smwddio / haearn
- Stôf / sinc
- Peiriant golchi / hŵfer
- Oergell / rhewgell
- Bwrdd / cadeiriau / bwyd (wedi ei wneud o glai a'i baentio)
- Llestri / cwpanau / soseri / sosbenni / tebot
- Cyllyll a ffyrc (4 gosodiad bwrdd)
- Ffôn / pensil a phapur
- Teledu / cloc / drych
- Lliain / matiau bwrdd
- Ffiol o flodau / bwrdd ochr bach
- Cadair freichiau / clustogau
- Pramiau / cadeiriau gwthio doliau
- Llenni (a grëwyd gan y plant)



**Gwerysll yr Indiaid**

- Wigwam (printio cynfansau a'u paentio)
- Boncyff ar gyfer seddau
- Polyn Totem (wedi ei wneud o focsys maint gwahanol)
- Gwisgoedd
- Penwisgoedd (wedi ei gwneud o gerdyn printiedig)
- Gleiniau (papur newyddion wedi ei rolio a'i ludo a'i baentio)
- Gwlân wedi ei blethu ar gyfer gwallt
- Blanced
- Tân
- Mygydau llwythol
- Ceffyl pren (polyn â phen cardbord)
- Gwair artiffisial
- Lluniau o'r Indiaid



**Ystafell Wely**

- Gwely / dillad gwely
- Gwelyau doliau / dillad gwely
- Doliau / dillad doliau
- Drych
- Pyjamas / gŵn nos
- Sliperi
- Gŵn tŷ
- Teganau meddal ar gyfer amser mynd i'r gwely
- Lluniau (gwaith y plant wedi ei osod a'i fframio)
- Cloc larwm
- Lamp bwrdd
- Llenni (a brintiwyd gan y plant)

# Awgrymiadau Ar Gael Gosod Ardal Chwarae Llawn Dychymyg

* Mae angen darparu cyfleoedd i blant 'ddarllen' ac 'ysgrifennu' ymhob ardal.



**Gwisgo Lan**

- Stand dillad (polyn wedi ei osod mewn sment gyda darn o bren wedi ei heolio ar draws gyda bachau)
- Dillad mewn gwahanol ddefnyddiau (melfed, ffabrig ffwr, cotwm, gyda gleiniau, tryloyw, p.v.c. (diddos), dillad gwlân gyda gwahanol ffasneri (botymau, toglau, bach a llygad, stydiau clecian, sip, felcro, rhubanau)
- Bocsys storio esgidiau (a baentiwyd gan y plant)
- Amrywiaeth o esgidiau (slliperi, sandalau, welingtons, sodlau uchel, clocsiau, esgidiau dynion)
- Stand hetiau / wigiau (tebyg i'r stand dillad)
- Amrywiaeth o hetiau (mawr, bach, defnyddiau gwahanol gydag ardduniadau, gyda feiliau, hetiau pelen, sgarff, ffwr ffug)
- Llyfr o bobl mewn dillad (casgliad o luniau gan y plant)
- Amrywiaeth o wigiau (siâp, hyd, lliw)
- Gwisgoedd thema (sy'n berthnasol i storïau, caneuon, pantomeim, rigymau)
- Gemwaith, watsys, drychau (hyd llawn, llaw)
- Clipiau gwallt
- Bwrdd gwisgo / stolion

**Parti Pen-blwydd**



- Bwrdd / cadeiriau
- Platiau / cwpanau / hetiau parti (rhai wedi'u gwneud gan y plant)
- Stribiau parti / balwnau
- Bwyd parti (weithiau defnyddio bwyd iawn – wedi ei baratoi mewn sesiynau coginio)
- Dillad parti
- Anrhegion wedi ei lapio (papur a brintwyd gan y plant)
- Cardiau pen-blwydd (rhai wedi'u gwneud gan y plant)
- Llyfrau stori thema
- Teisen gyda chanhwyllau



**Garej**

- Offer go iawn i "weithio" ar geir
- Teiars
- Ceir ( a waned o focsys cardboard mawr)
- Oferôls
- Allweddi i "agor / dechrau" ceir
- Posteri
- Pwmp petrol (bocs cardboard a thiwbin)
- Arddangosfa o geir bach (i ddangos gwahanol wneuthuriadau)
- Rac offer i storio offer
- Til, pad arian / pensil (ar gyfer biliau)



**Ysbyty**

- Gwely / dillad gwely / gobennydd
- Gŵn nos / pyjamas
- Rhwymynnau / slingiau
- Gwisg nyrs (gyryw / benyw)
- Cot wen doctor
- Stethosogop
- Cwpwrdd ochr gwely
- Ffrwythau mewn powlen / hancesi papur
- Crud babanod (dol fabi)
- Llyfr nodiadau / pensiliau i blant bach
- Botel fwydo
- Blodau mewn ffiol
- Cardiau brysiwch wells (rhai a waned gan y plant)
- Llyfrau i'w "darllen" yn y gwely

# (i) Iaith Berthnasol

**Chwarae Ysbyty:**
Anhwylus, sâl, tost, babi newydd, i mewn, allan, cysgu, meddyg, nyrs, claf, moddion, stethosgop, gwrando, curiad calon, presgripsiwn, ymwelwyr, darllen, llyfrau, cymryd, mynd i nôl, gwella, llawdriniaeth, gwely


**Chwarae Garej:**
Crwn i gyd, rhai yn syth, llawn, gwag, wedi gorffen, cerbyd, atgyweirio, talu, newid, arian, biliau, trwsio, morthwyl, sbaner, lifer, teiar, brêc, troi, allwedd, dechrau, stopio, petrol, wedi torri, llenwi, mawr, bach, tu fewn, tu allan, llym, meddal.

**Gwisgo Lan:**
Gwthio, tynnu, gwisgo'r dillad, ffitio, rhy fawr, rhy fach, hoffi, casáu, pert, llydan, byr, hir, cul, sgleiniog, fferfryn, twym, oer, tynnu, i fyny, i lawr, ychydig, bachau, datod, edrych, gwisgo, tynn, llac.

**Parti Pen-blwydd:**
Dewch i mewn, chwarae gêmau, gwisgo gwisg ffansi, anrhegion, balŵnau, cacen/teisen, canhwyllau, chwythu'r canhwyllau, cyfrif, canu, hŷn / henach, iau / ifancach, yr un oedran, hapus, darllen, bwyta, jeli, diod, brechdanau, ffrindiau, mynd adref, diwedd, mawr, bach, sgwâr, crwn, crensionllyd, melys, sur.

**Siop Trin Gwallt:**
Cwsmer, golchi, sychu, chwythu'n, sych, cribo, cyrlio, siampŵ, plethu, clymu, drych, sychwr gwallt, eistedd, llyfr apwyntiadau, edrych, hoffi, adlweyrchiad, talu, newid, hwyl fawr.

**Cornel Cartref:**
Ymwelydd, ffrind, cwpwrdd, bwyta, coginio, llenwi, gwagio, drôr, taclus, anniben, oer, poeth/twym, gwisgo, golchi llestri, sychu, torri, babi, llwgu, cywir, anghywir, ffitio, gormod, drws nesaf i, wrth ochr, eistedd, sefyll, o dan, paratoi, glanhau, brwsio, ysgubo, dwstio, mwy, llai, mawr, bach, tu fewn, crwn, syth, tynnu, gwthio, cau, agor, clirio, gosod y bwrdd, blinedig, gwylio.



# Rhai cwestiynau i'w gofyn

**Sut gallwn ni** →

wneud dodrefn ar gyfer tŷ dol?
ddefnyddio bocsys matsys, riliau cotwm, gleiniau, topiau poteli, gwneud rhuglen i fabi?
ei addurno?
roi pethau gwahanol y tu fewn iddi i wneud synau gwahanol.
fynd â'n siopa adref o'r siop? / mewn beth? (beth os yw'r siopa'n drwm?)

**Pa** →

siâp yw'r siâp gorau am olwynion car, lori, bws? Pam? Pa siâp yw'r gorau ar gyfer lliain ar fwrdd crwn?
ar gyfer y ryg ar y llawr ger y gwely?
Pa ffrwythau sy'n felys, sur? (Cael sesiwn blasu, nodi eich canfyddiadau ar graff.)

**Beth sy'n digwydd pan** →

fyddwn yn canu caneuon i fabanod?
fyddwn yn eu magu yn ein breichiau?
fyddwn yn weindio blwch cerdd?
fyddwn yn golchi llestri brwnt?

**Gadewch i ni weld beth sy'n digwydd** →

os byddwn yn ychwanegu dŵr at fwyd babi, ychwanegu llaeth, ychwanegu dŵr twym, llaeth twym?
os byddwn yn rhoi dŵr ar gewyn babi?
pan fyddwn yn coginio ffrwythau a llysiau – blasu / arogli nhw pan yn amrwd / wedi'u coginio.

# Rhagor o Gwestiynau i'w Gofyn

**Beth** → sydd eisiau i osod ar y bwrdd ar gyfer swper / ar gyfer parti?
yw'r ffordd orau i wneud y gwely, storio briciau yn y cwpwrdd, gosod olwynion ar y car, gwneud pont, gwneud pabell?

Wyt ti'n gallu → paentio llun ar gyfer y tŷ, y garej, yr orsaf dân, y siop?
Dangos pa ddoliau sy'n cysgu ym mha wely? Dod o hyd i'r dillad cywir ar gyfer doliau o faint gwahanol?
casglu lluniau i wneud llyfr ar geir, pobl sy'n ein helpu / siopau / babanod / tai?

**Sut gallwn** → drefnu'r siop / tuniau e.e. o'r mwyaf i'r lleiaf?
sicrhau bod ein babi'n sych cyn ei wisgo?
wneud mwclis?

# Dull o Gefnogi Asesu

**Annibynnol** → dewis, tacluso, canolbwyntio ar dasg benodol, gwneud dewisiadau, ymateb i gyfarwyddyd, hunanymwybyddiaeth, - hyderus, arwain y chwarae.

**Cymdeithasol** → chwarae cyfochrog, ochr yn ochr â phlant eraill, chwarae cysylltiadol, weithiau'n rhannu, chwarae'n gydweithredol â chyfoedion – tacluso, cymryd tro, rhannu syniadau, ymwybodol o emosiynau, dysgu i resymu a deall rheolau chwarae – beth i'w wisgo, sut i osod bwrdd, pam tacluso, rhinweddau personol – hapus, trist, aeddfed, prysur, gweithgar, gwydn.

**Cydsymud, trin a gwneud lluniau** → rheoli eu cyrff, defnyddio cyfarpar, cydsymudiad llaw / llygad, defnyddio siswrn, paent, creonau – i greu llyfrau, trin offer, gosod byrddau, gwneud offer, gwisgo doliau, cau botymau, sipiau, ffasneri, felcro.

# Y Blynyddoedd Cynnar

# Darllen ac Ysgrifennu

**Prif Ffocws**

| |
|---|
| **Trwytho plant i ddeall fod llyfrau yn ffrindiau a bod yn rhaid eu parchu trwy ofalu amdanynt.** |

**Gweithgareddau datblygiadol**

- Mwynhau edrych ar lyfrau, h.y. codi llyfrau heb anogiad gan wybod beth yw ei swyddogaeth, e.e. edrych ar lyfrau yn y gornel lyfrau.
- Dal llyfr yn gywir, yna agor y llyfr a throi tudalennau ar hap ac yn olaf troi tudalennau un ar y tro.
- Rhoi'r llyfr gadw yn y lle pwrpasol.
- Gallu darllen llyfrau lluniau, h.y. siarad am y llun a thrafod gyda'r athro / gyda'i gilydd.
- Deall bod llyfrau yn adrodd storïau ac yn rhoi gwybodaeth.
- Plentyn yn cael tro i ddweud y stori.
- "Darllen" stori gyfarwydd i'w hunain ac eraill, e.e. esgus darllen, darllen ysgrifen ei hun, llyfrau lluniau.
- Dechrau deall bod gan symbolau ysgrifenedig sain ac ystyr.
- Pwyntio at brint, e.e. defnyddio arddangosfeydd / labeli ar furiau'r ystafell / cardiau fflach llun a gair / defnyddio llyfrau syml.
- Dechrau adnabod llythrennau'r wyddor trwy gyfrwng y golwg a'r glust, e.e. cyfatebu siâp a sŵn, gêmau lotto, llythrennau sengl, dwbl a bras.
- Dangos geiriau sydd yn dechrau gyda llythyren arbennig.
- Pwyntio at eiriau unigol pan fo rhywun yn gofyn, e.e. *mae, dyma, rwy'n, yn* – geiriau cyfarwydd.
- Codi ymwybyddiaeth o'r awdur / darlunydd / teitl / rhagfynegi'r cynnwys o'r teitl a'r clawr. Trafod teimladau'r prif gymeriad / cymeriadau.
- Seilio themau – îs-themau ar lyfr neu gymeriad o lyfr.
- Gêmau ymuno seiniau, e.e. dwy sain cyntaf y gair – *pam, mam, clown, clust*.
- Pwyntio at y print wrth ddarllen yn eithaf cywir, e.e. darllen stori wal / llyfrau mawr.
- Ymarfer a gwella'r sgil o ddarllen wrth ddarllen arwyddion, rhigymau, cyfarwyddiadau sydd ar y wal.

- Gêmau cyfatebu gair a llun, llun a brawddeg / gair a gair.
- Aildrefnu brawddeg gyda chardiau geiriau.
- Cyfnodau darllen unigol gyda'r athrawes.

# Darllen – Derbyn

**Ffocws**: Storïau, rhigymau, hwiangerddi, cerddi a dramâu a thestunau ffeithiol

- Datblygu sgiliau a strategaethau er mwyn 'darllen' a gwneud synnwyr o destunau.
- Drwy ddarllen ar y cyd, darllen dan arweiniad a darllen yn annibynnol dylai'r plant wneud y canlynol: -

| Testun | Brawddeg | Gair |
|---|---|---|
| • Dewis a thrin llyfrau. | | |
| • Dal y llyfr yn gywir, troi'r tudalennau a sganio'r darluniau. | • Ateb cwestiynau am y darluniau. | • Dechrau deall a defnyddio termau am lyfrau'n gywir, e.e. llyfr, clawr, tudalen, llinell, gair, teitl, llythyren. |
| • Trafod y clawr a rhagfynegi cynnwys y stori / testun. | | |
| • Defnyddio teitl y llyfr i ragfynegi cynnwys. | | |
| • Bod yn ymwybodol o'r awdur a'r darlunydd. | • Nodi brawddegau / ymadroddion, h.y. y teitl, neu'r ymadrodd 'darluniau gan' – 'lluniau a dynnwyd gan.' | • Deall y gwahaniaeth rhwng yr awdur / a'r darluniwr. |
| • Dysgu bod gan brint ystyr trwy olrhain y testun yn y drefn gywir, h.y. top – gwaelod, chwith – dde. | | |
| • Dechrau adnabod y gyfatebiaeth un i un rhwng y gair llafar a'r gair ysgrifenedig, h.y. trwy bwyntio at eiriau wrth 'ddarllen' neu ailddweud stori. | | |
| • Ailddweud storïau gan ddefnyddio lluniau i brocio'r cof. | • Gan ddefnyddio ffelt neu fyrddau magnetig, ailddweud storïau / rhannu storïau cyfarwydd. | |

| | | |
|---|---|---|
| • Nodi dechrau, canol a diwedd stori.<br><br>• Nodi dechreuadau cyffredin i storïau.<br><br>• Rhagfynegi gweithredoedd cymeriadau.<br><br>• Trafod sut y mae'r cymeriadau'n teimlo.<br><br>• Myfyrio ar gymeriadau a digwyddiadau. | • Dilyniannu lluniau i ailddweud storïau.<br><br>• Cyfateb brawddegau i luniau er mwyn dilyniannu stori.<br><br>• Marcio testun y frawddeg agoriadol wrth rannu stori.<br><br>• Adnabod swigod siarad mewn testunau â darluniau.<br><br>• Gofyn ac ateb cwestiynau yn ystod gweithgaredd cadair boeth. | • Deall y termau – dechrau, canol, diwedd, trefn.<br><br>• Nodi ac enwi cymeriadau mewn storïau.<br><br>• Meddwl am eiriau i ddisgrifio cymeriadau / gweithredoedd, digwyddiadau. |

# Darllen – Derbyn

**Dechrau defnyddio strategaethau i ddehongli a gwella adnabod geiriau.**

| | | |
|---|---|---|
| • Dangos i'r plant sut i ddefnyddio ciwiau gwahanol: -<br><br>**Graffoffonig**<br>Adnabod llythrennau / grwpiau cysylltiedig, ee. ll, th, ch, rh. | | • Nodi seiniau mewn geiriau. |
| **Cyd-destunol**<br>Darllen / ailddarllen, ail ddweud storïau gan ddefnyddio lluniau a gwybodaeth flaenorol i ragfynegi a dyfalu'n gall. | | • Chwarae gêmau gwahaniaethol, e.e. cyfateb seiniau / lotto, I Spy neu gêmau o gynllun ffonig. |
| **Cystrawennol**<br>Defnyddio ymwybyddiaeth o ramadeg brawddeg (trefn geiriau / dosbarth geiriau) i ddyfalu'n gall. | • Deall pwysigrwydd trefn geiriau mewn brawddegau.<br><br>- Aildrefnu brawddeg ar stribed brawddegau.<br><br>- Llunio brawddegau gan ddefnyddio waliau geiriau.<br><br>- Torri ac ailwneud brawddegau. | |
| • Darllen testunau syml sy'n odli. | • Nodi geiriau sy'n odli mewn brawddegau.<br><br>• Marcio testun sy'n odli mewn brawddegau. | • Adnabod patrymau sillafu mewn geiriau trwy ddefnyddio olwynion geiriau, llythrennau magnetig a byrddau gwyn i lunio rhestrau. |
| • Creu llyfr dosbarth o frawddegau sy'n odli ar gyfer cornel lyfrau. | ♦ Estyn y patrymau hyn trwy gyfatebiaeth e.e. llinynnau odli / brawddegau dwl. | • Nodi cyflythreniad mewn testunau hysbys a newydd. |

Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

| | | |
|---|---|---|
| • Ymuno gydag ymadroddion ieithyddol ailadroddus neu ragweladwy.<br><br>• Adnabod ychydig o atalnodi wrth rannu testunau.<br><br>• Trafod sut y mae hyn yn effeithio ar ddarllen.<br><br>• Nodi rhai nodweddion print neu drefniadol eraill a ddefnyddir i greu effaith, e.e. print bras neu fwy o faint / testun tonnog.<br><br>• Dechrau gwella adnabod geiriau trwy ddarllen / ailddarllen testunau cyfarwydd yn yr ystafell ddosbarth.<br><br>• Darllen ailddywediadau. Gallai'r rhain fod yn ailddywediadau a luniwyd gan yr athro / athrawes mewn ysgrifennu a fodelwyd / rannwyd sy'n adlewyrchu gweithgareddau ym meysydd eraill y cwricwlwm. | • Gwneud darluniau ar gyfer brawddegau.<br><br>• Tynnu sylw at ymadroddion / brawddegau ailadroddus wrth rannu testunau (marcio'r testun ar droshaen / orddalen).<br><br>• Defnyddio troshaen / gorddalen i farcio priflythrennau, atalnodi llawn a marciau cwestiwn ar y testun.<br><br>• Sylweddoli bod brawddeg yn gorffen gydag atalnod llawn ac nad yw bob amser ar ddiwedd llinell.<br><br>• Darllen arwyddion wrth chwarae rôl.<br><br>• Darllen rheolau / cyfarwyddiadau ystafell ddosbarth. Darllen labeli / arddangosiadau.<br><br>• Darllen enwau – ei enw / henw ei hun a phlant eraill yn amgylchedd yr ystafell ddosbarth.<br><br>• Dilyniannu lluniau er mwyn cyfleu digwyddiadau yn eu trefn.<br><br>• Cyfateb brawddeg i luniau<br><br>• Dilyniannu brawddegau er mwyn ailddweud digwyddiad / ymweliad. | ♦ Estyn trwy ychwanegu geiriau newydd.<br><br>• Tanlinellu geiriau sy'n cael eu cyflwyno'n wahanol e.e. mewn llythrennau italig, bras neu briflythrennau.<br><br>• Trafod y rhesymau dros wneud hyn.<br><br>• Chwarae gêmau geiriau – lotto, snap, bingo geiriau.<br><br>• Dod o hyd i'r gair sydd wedi'i guddio yn yr ystafell ddosbarth a'i ddarllen, e.e. hela'r gair yn yr un modd â hela'r gwniadur.<br><br>• Llunio geiriau ar fyrddau magnetig.<br><br>• Darllen ac ysgrifennu 'geiriau anodd' ar fyrddau gwyn. |

# Ysgrifennu - Derbyn

**Prif Ffocws**

| |
|---|
| **Dechrau deall rhai o brif swyddogaethau ysgrifennu.** |

**Gweithgareddau datblygiadol**

- Mwynhau defnyddio deunyddiau ysgrifennu, e.e. defnyddio bwrdd ysgrifennu, ysgrifennu wrth chwarae rôl.

- Ehangu'r defnydd o offer marcio i wahanol bwrpasau – paentio, tynnu llun, sgriblo, ysgrifennu.

- Datblygu'r sgil o dynnu llun / defnyddio pensil fel amlinelliad wedyn lliwio i mewn.

- Gwybod y gwahaniaeth rhwng darlunio ac ysgrifennu.

- Sgriblo i bwrpas, e.e. *"Cer i ysgrifennu llythyr at mam-gu" / "Cer i wneud rhestr siopa i Sali Mali."*

- Ysgrifennu enw.

- Tros ysgrifennu, tan ysgrifennu.

- Cynhyrchu a darllen ei "ysgrifennu" ei hunan, h.y. ysgrifen ymddangosiadol

- Recordio wrth ymateb i brofiad, e.e. ymweliad, plannu bwlb, coginio.

- Edrych ar wahanol ffurfiau o ysgrifennu, e.e. newyddion, ymwelwyr, llythyrau, storïau, cardiau.

- Dechrau defnyddio llythrennau a geiriau cyfarwydd.

- Ysgrifennu symbolau llythrennau wrth ymateb i synau.

- Cynhyrchu ymadroddion a brawddegau darllenadwy.

- Cyfleoedd iddynt ddatblygu yn ysgrifenwyr annibynnol.

(Gweler yn ogystal tudalen 52 o'r Cynllun Saesneg).

# Ysgrifennu - Derbyn

**Ffocws**: Sefyllfaoedd cyfarwydd ac ystyrlon, storïau, rhigymau, cerddi ac adroddiadau 'dwyn i gof'

- Dechrau datblygu sgiliau ysgrifennu cynnar.
- Wrth weithio ar y cyd, weithio dan arweiniad a gweithio yn annibynnol dylai'r plant wneud y canlynol

| Testun | Brawddeg | Gair |
|---|---|---|
| • Cael cyfleoedd i gyfathrebu'n ysgrifenedig mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd chwarae, archwilio a chwarae rôl. | • Ysgrifennu negeseuon wrth chwarae rôl, e.e. negeseuon ffôn mewn siop neu gornel gartref.<br><br>• Crynhoi bwydlenni / rhestrau prisiau a labelu eitemau.<br><br>• Ysgrifennu rhestrau siopa.<br><br>• Gwneud cardiau cyfarch.<br><br>• Ysgrifennu 'storïau' a gwneud llyfrau mewn gwaith rhydd / creadigol/ | • Arbrofi gydag amrywiaeth o offer ysgrifennu / offer, e.e ysgrifbinnau, pensiliau, sialc, papur, cerdyn, byrddau (du a gwyn).<br><br>• Ysgrifennu ei enw / henw ei hun.<br><br>• Peintio, lluniadau a llunio llythrennau mewn tywod.<br><br>• Dargopïo a chwblhau patrymau llythrennau.<br><br>• Dargopïo lluniau.<br><br>• Olrhain, dargopïo a chopïo llythrennau.<br><br>• Dysgu ysgrifennu llythrennau'n gywir (yn nhrefn ffurfiad tebyg, e.e. (c o a g d) |
| Ymestyn sgiliau ysgrifennu cynnar | | |
| • Dangos i'r plant mewn gweithgareddau a fodelwyd bod y broses ysgrifennu yn cynnwys: -<br>(a) Gwneud penderfyniadau h.y. Beth yw diben yr ysgrifennu? (pwrpas / cynulleidfa)<br>Beth wnaf i ei ysgrifennu?<br>Ble wnaf i ddechrau? | • Dangos i'r plant bod testun ysgrifenedig yn cael ei drefnu'n frawddegau.<br><br>• Bod atalnodi'n cael ei ddefnyddio i osod terfynau brawddegau.<br><br>• Ailddarllen brawddegau gyda'r athro / athrawes. | |

Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

| | | |
|---|---|---|
| (b) Myfyrio<br>A ydyw'n gwneud synnwyr?<br>A ydyw'n dweud yr hyn rwyf am iddo ei ddweud?<br><br>• Cyfrannu at ysgrifennu ar y cyd.<br><br>• Ysgrifennu / marcio fel ymateb i storïau a cherddi.<br><br>- Ailddweud rhan o stori.<br><br>- Amnewid rhan o stori.<br><br>- Estyn neu newid diwedd stori. | ♦ Ymateb i gwestiynau.<br><br>♦ Ffurfio brawddegau ar lafar.<br><br>• Dilyniannu lluniau / capsiynau ar gyfer storïau.<br><br>• Ysgrifennu a darlunio brawddegau naill ai i ailddweud neu ymateb i storïau / cerddi h.y. marcio / gwneud / defnyddio llythrennau cyntaf geiriau. | • Awgrymu geiriau priodol i'w ddefnyddio.<br><br>• Llafarganu / canu'r wyddor gan ddefnyddio enwau'r llythrennau.<br><br>♦ Clywed a nodi seiniau mewn geiriau.<br><br>• Defnyddio bwrdd gwyn i ysgrifennu'r llythyren gywir fel ymateb i enw'r llythyren. |

# Datblygiad Iaith a Llythrennedd

**Materion i'w cadw mewn cof.**

# Datblygu Llafaredd

Mae'r gweithgareddau canlynol yn darparu cyd-destun i ddatblygu sgiliau siarad, gwrando a meddwl.

**Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu**

- Siarad am lyfrau / storïau.
- Ailadrodd storïau – gan ddefnyddio pypedau / drama.
- Gofyn / ateb cwestiynau – y gadair goch, amser newyddion, mynd â tedi adref.
- Rhagfynegi / adlewyrchu – digwyddiadau mewn storïau, patrymau iaith, gweithredoedd, cymeriadau.
- Chwarae rôl – trefnu, rhyngweithio, cynllunio, cyfarwyddo eraill, dynwared.
- Darllen hysbysiadau / labeli'r dosbarth.
- Cyfleu negeseuon.
- Sesiwn lawn – rhannu gwaith unigol / esbonio'r hyn a wnaethpwyd.

**Mathemateg**

- Gweithgareddau rhyngweithiol gyda'r wal fathemateg.
- Cyfarwyddo eraill – llinell rif.
- Modelu a defnyddio iaith leoliad – tŷ dol / chwarae tu allan / gêmau cylch.
- Iaith gymharol – chwarae rôl / disgrifio a hrafod 8 gwrthrych diddorol / adeiladu / jigsos.
- Gêmau mathemateg.

**Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd**

- Trafod – myfyrio ar ddigwyddiadau, ymweliadau, arsylwi'r tywydd, ymwelwyr, gweithgareddau TGCh / adeiladu.
- Siarad am arsylwadau – penbyliad, ieir bach yr haf yn dod allan, tyfu bylbiau, coginio.
- Rhagdybio – deunyddiau gwlyb a sych, arnofio a suddo, coginio, plannu, ceir ar rampiau.

**Creadigol**

- Trafod dewisiadau – dewis deunyddiau, cymysg paent, gwneud llyfrau / pypedau / mygydau.
- Myfyrio – canlyniadau, deunyddiau gwahanol h.y. priodoldeb / effaith.
- Rhannu gwaith unigol – esbonio sut mae rhywbeth yn cael ei wneud / beth ddigwyddodd pryd .....?
- Cyfansoddi cerddoriaeth – trafod hoffterau, cas bethau, effaith

**Corfforol**

- Dilyn cyfarwyddiadau – offer mawr.
- Disgrifio symudiadau – dros, trwy, dan ac ati.
- Chwarae gêmau cyfarwyddiadol – *"Mae Simon yn dweud"*

  Defnyddio geirfa: symud (carlamu, llithro, rhedeg)
  cyfarwyddo (dilyn, arwain, dynwared)
  teimlo (dicter / cyffro)
  mewn sesiynau dawns / A.G.

**Personol a Chymdeithasol**

- Siarad am reolau / ymddygiad.
- Trafod materion
  - gofalu am anifeiliad anwes.
  - yr amgylchedd, sbwriel.
- Siarad am deimladau – storïau, y gadair goch.
- Gwrando ar eraill, cymryd eich tro – chwarae rôl, gêmau.
- Gêmau cylch.

# Datblygu Darllen

“Mae plant yn dysgu sut i ddarllen trwy ddarllen ac nid trwy feistroli set o sgiliau arwahanol.” (Frank Smith)

Mae angen darparu llawer o gyfleoedd i blant ‘ddarllen’ mewn ffordd ddymunol, anfygythiol ac nid o fewn strwythur hierarchaidd llym. Felly, dylai amgylchedd y dosbarth fod yn gyfoethog, yn llythrennog ac yn ystyrlon gyda chyfleoedd i ddarllen o fewn amrediad o gyd-destun: - hysbysiadau, negeseuon, rheolau, storïau ar y wal, siartiau tywydd, arddangosiadau pen-blwydd, waliau geiriau a chapsiynau ar waith arddangos.

Dylid meddu hefyd ar ardal ddarllen gyffyrddus gydag amrediad o ddeunyddiau darllen hygyrch sydd wedi’u harddangos yn dda, lle mae plant yn gallu trafod a ‘darllen’ llyfrau y maen nhw wedi’u dewis. Gallai gynnwys gorsaf wrando hefyd lle mae plant yn gallu mwynhau gwrando ar hoff stori.

**Mae’n bwysig bod yr athrawes yn fodel da o ddarllen i’w disgyblion.**

# Darllen ar y Cyd

Dylai plant ddarllen ar y cyd bob dydd. Mae darllen testunau mawr ar y cyd yn helpu plant i ddatblygu’r sgiliau a’r stategaethau y mae eu hangen arnynt i ddod yn ddarllenwyr annibynnol ac mae’n eu helpu nhw i ddechrau deall nodweddion iaith a strwythur storïau, cerddi, rhigymau, dramâu a testunau gwybodaeth. Maen nhw hefyd yn dysgu uniaethu â chymeriadau a digwyddiadau a deall syniad plot neu thema mewn storïau. Trwy gael profiad o amrediad o fathau o destunau mae modd eu dysgu bod gan ysgrifennu ffurfiau gwahanol, sydd wedi’u penderfynu gan ei bwrpas a’i gynulleidfa.

Dylid gwerthfawrogi rôl rhieni a’u cynnwys fel partneriaid yn y broses datblygu darllen hon, pam fo’n bosibl.

# Datblygu Ysgrifennu

Mae gwaith ysgrifenedig plant yn datblygu wrth iddynt gael cyfleoedd i ysgrifennu at ddibenion amrywiol sy'n glir iddyn nhw.

Yn y cyfnod cynnar hwn mae plant yn dechrau dysgu agwedd newydd ar iaith – bod symbolau ysgrifenedig yn gallu cyfleu neges sy'n aros yn barhaol. Mae modd cadarnhau'r cysylltiad hwn rhwng iaith lafar a iaith ysrgifenedig, h.y. bod modd ysgrifennu lleferydd i lawr a'i ddarllen yn ôl, mewn sawl ffordd. Mae angen amgylchynu plant ag amgylchedd printiedig cyfoethog y maen nhw wedi helpu ei greu. Mae angen iddynt weld ysgrifennu yn cael ei fodelu bob dydd, mewn cyd-destun ystyrlon, lle mynegir pwrpas yr ysgrifennu yn glir. Yn ystod y broses hon, mae modd arddangos y rhyngberthynas rhwng darllen, siarad a gwrando.

Wrth i blant ddysgu ysgrifennu trwy ysgrifennu, mae angen rhoi cyfleoedd iddynt arbrofi ysgrifennu at ddiben bob dydd. Mae modd gwneud hyn trwy: -

- Chwarae rôl – negeseuon, rhestrau, bwydlenni
- Cornel ysgrifennu – darparu amrediad o offer ysgrifennu, papur y mae plant yn gallu darlunio ac ysgrifennu arno wrth ymateb i storïau, ymweliadau ac ati.
- Blychau neges / bwrdd arddangos. Mae modd defnyddio'r rhain i ddangos bod ymdrechion plant yn cael eu gwerthfawrogi ac i gadarnhau pwysigrwydd diben a chynulleidfa.

# Ysgrifennu sydd wedi'i fodelu

Mae hon yn ffordd ddefnyddiol o arddangos prosesau a chynhyrchion ysgrifennu. Mae'r athro / athrawes yn penderfynu beth i'w ysgrifennu ac yn 'meddwl yn uchel' wrth ysgrifennu. Mae'n dangos i blant sut mae ysgrifenwyr yn penderfynu beth i'w ysgrifennu ac sut i'w ysgrifennu.

# Ysgrifennu ar y Cyd

Yn y broses hon, mae'r athro / athrawes yn cydweithio gyda'r plant trwy gymryd syniadau ac awgrymiadau ynghylch cynnwys a strwythur yr ysgrifennu. Mae'r athro'n gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch beth i'w ysgrifennu ond mae'r plant yn cymryd rhan ym mhob cam o ran trafod y broses. Dylid ailddarllen gwaith ysgrifenedig sawl gwaith.

# Ysgrifennu annibynnol

Mae plant yn mwynhau ysgrifennu ymhell cyn iddynt feistroli sgiliau rheolaeth gorfforol neu berthnasau sain / symbol. Mae angen eu hannog nhw i adeiladu ar yr hyn y maent yn ei wybod ac arbrofi gyda'r system iaith ysgrifenedig. Mae'n bwysig gwerthfawrogi'u hymdrechion fel bod plant yn meddu ar yr hyder i gymryd risgiau gyda'u hysgrifennu eu hun. Bydd athrawon yn meithrin brwdfrydedd.

Ar ôl i blant ddatblygu'r hyder a'r brwdfrydedd hwn i 'ysgrifennu' ar ddibenion a chynulleidfeydd amrwyio mae modd eu helpu i gymhwyso, i ymarfer ac i fireinio eu gwybodaeth o ddarllen ac ysgrifennu sydd wedi'i rannu a'i fodelu er mwyn gwella eu gwaith ysgrifenedig eu hunain.

# Datblygu Ysgrifennu Cynnar

Mae'n rhaid i athrawon ystyried y ddwy agwedd ar ysgrifennu, h.y. cynnwys a chyflwyniad er mwyn cynnal y dull datblygiadol hwn.

| Cyfansoddiad / Cynnwys | Cyflwyniad |
|---|---|
| • Ysgrifennu annibynnol. Ysgrifennu h.y. ysgrifennu allddodol (gwneud marciau / llythyren, cyfatebiaeth sain).<br>• Plant yn ysgrifennu wrth ymateb i storïau / digwyddiadau / ymweliadau. Maen nhw'n cymryd risgiau ac yn gwybod bod brasamcanion yn cael eu derbyn a'u gwerthfawrogi. Maen nhw'n arbrofi gyda strwythur brawddeg / patrymau iaith / desiwiadau sillafu a geirfa.<br>• Cynorthwyir y broses hon trwy ddysgu llythrennau, cyfuniadau, patrymau sillafu (geiriau cychwynnol ac odli) a geiriau syml dryslyd,(e.e. roedd) yn systematig.<br>• Mae athrawon yn gallu trawsgrifio gwaith y plentyn tan fod modd ei ddarllen yn hawdd, er mwyn darparu model da i'w ailddarllen.<br>• Mae gwaith y plentyn yn dangos y cam datblygu ac yn dangos ffocws clir ar gyfer dysgu yn y dyfodol.<br>• Mae canmol a chodi hunan-barch yn allweddol i gynnydd a datblygiad | • Copïo brawddegau o'r hyn maen nhw wedi darllen (stripiau brawddeg / torri trwodd)<br>• Torri, aildrefnu a chopïo brawddegau.<br>• Bydd y sgiliau llawysgrifo / cyflwyno hyn yn cael eu datblygu'n systematig trwy ddargopïo / copïo tuag at ffurfio a chyfeirio llythrennau yn gywir gyda maint a bylchiad cywir. |

# COFIWCH!

- Mae sgiliau ysgrifennu plant yn datblygu pa gânt gyfleoedd i ysgrifennu i amrywiaeth o bwrpasau sy'n glir iddynt.
- Yn y cyfnod cynnar hwn mae plant yn dysgu ac yn rhyfeddu at y ffaith bod 'symbolau' ysgrifenedig yn cyfleu ystyr neu neges. Mae angen lledaenu'r neges hon drwy greu 'amgylchedd ysgrifennu' gyfoethog – a'r plant eu hunain wedi cyfrannu ati.
- Dylid sicrhau bod plant yn gweld mathau o ysgrifennu'n cael ei fodelu bod dydd – gyda phwrpas arbennig iddo.
- Mae angen cyfleoedd amrywiol ar blant i arbrofi gydag ysgrifennu i bwrpas penodol, **bob dydd.**

# Llawysgrifen

**Prif Ffocws:**

| **Dechrau dilyn llwybrau, patrymau a ffurfiau.** |
|---|

- Teimlo siapiau llythrennau, e.e. llythrennau papur tywod, llythrennau sbwng a.y.y.b
- Marcio, sgriblo, darlunio a lliwio gan ddefnyddio sialc, penau a phensiliau, cyfrifiadur, tywod a phaent bysedd.
- Datblygu rheolaeth law trwy ddefnyddio siswrn, gleiniau, pegiau, brwsys, paent, sialc, tywod, clai, gwehyddu, lliwio, amlinellu.
- Gwneud patrymau gan ddefnyddio paent bysedd.
- Cyfarwyddo gyda thracio, cysylltu'r dotiau o'r chwith i'r dde.
- Gwneud siâp y llythyren i'r plant – plant yn gwneud siâp y llythyren yn y tywod, yn yr awyr. Defnyddio clai, toes a phaent.
- Sicrhau amrywiaeth o gyfleoedd i ymarfer ffurfio llythrennau yn gywir, e.e. tros ysgrifennu, tan ysgrifennu, copïo, uno dotiau, dilyn siâp gyda'r bys, ar y bwrdd gwyn.
- Ysgrifennu symbolau llythrennau wrth ymateb i synau.

# Gair o Gyngor ..... o'r Rhyl .....

## *Datblygu Sgiliau'r Wyddor*

*"Gan mai llythrennedd yw'r pwnc yr wyf yn gyfrifol amdano yn yr Uned Blynyddoedd Cynnar, teimlas yr angen i geisio cyflwyno'r wyddor yn ddiddorol.*

*Dechreuais drwy ddod o hyd i gymeriadau a fyddai'n cyd-fynd â llythrennau'r wyddor er mwyn tynnu sylw a chadw diddordeb y plant. Es ati wedyn i gasglu lluniau 'real' o'r cymeriadau er mwyn gallu trafod y cymeiriadau, fel teganau, ac hefyd, yn eu cynefin ym myd natur. Y mae'r plant, felly, yn cael gwell dealltwriaeth o'r byd o'u cwmpas.*

*Mae'r cymeriadau a'r darluniau yn galluogi'r plant i ddatblygu eu dealltwriaeth yn gyffredinol ac y maent yn adnawdd da i gyflwyno geirfa newydd a datblygu iaith. Ond, yn bennaf, maent yn rhoi cychwyn i'r plant ar y gwaith o adnabod a chlywed seiniau.*

*Byddaf yn ofalus wrth gyflwyno'r llythyren a byddaf yn sicrhau nad yw y plant yn glynu'n rhy agos at y 'cymeriad' wrth feddwl am y sain. Hynny yw, rhaid gwylio rhag iddynt ddweud "Cledwyn y clown" bob tro y gwelant y llythyren C. Byddaf yn pwysleisio mai Cledwyn sydd yn dod â C yn anrheg i ni i'r dosbarth.*

*Wrth ddefnyddio'r dull yma sylwais for y plant yn mwynhau ac felly es ymlaen i feddwl am fwy o adnoddau ar gyfer cefnogi'r dysgu, fel â ganlyn:*

- *Stori fer am y cymeriad. Bydd y stori yn cynnwys y llythyren yn aml iawn. Gall y plant wrando ar y sain ar ddechrau, canol a diwedd geiriau wrth i'w sgiliau adnabod llythrennau a'u seiniau ddatblygu, e.e. yn stori **F**alyri y **F**alwen **F**ach – mae'r **f**alwen yn mynd i **f**yny'r ardd heibio'r **f**asged **f**lodau a'r **f**erfa at y **f**resychen **f**awr **f**endigedig.*
- *Defnyddiaf lythrennau "Roll and Write" a'u cyflwyno fel anrheg gan bob cymeriad ac yna caiff y plant gyfle i weld y bêl fach yn llithro ar hyd y llythyren i greu'r siâp. Byddwn yn dweud gyda'n gilydd;*

  ***Abra-ca-dabra***

  ***Abra-ca-di***

  ***Bêl fach hud***

  ***I ffwrdd â thi.***

*Yna, rhown gynnig ar ffurfio'r siâp gyda'r bys yn yr awyr ac yna ar y mat – gellir defnyddio bwrdd tywod hefyd.*
*Holaf wedyn pa sŵn mae'r llythyren yn ei wneud, e.e. wrth ystyried y llythyren* ***a.*** *Yna byddwn yn canu'r llythyren;*

| | | | |
|---|---|---|---|
| **d** | **s,** | **l,** | **t,** |
| ***a*** | ***a*** | ***a*** | ***a*** |
| | | | |
| **d** | **s,** | **l,** | **t,** |
| ***a*** | ***a*** | ***a*** | ***a*** |
| | | | |
| **d** | **s,** | **l,** | **t,** |
| ***a*** | ***a*** | ***a*** | ***a*** |
| | | | |
| **d** | **d** | **d** | **d** |
| ***a*** | ***a*** | ***a*** | ***a*** |

*Mae'r Llyfr Mawr Sŵn ar gael i ddangos y llythrennau hefyd ac mae'n cael ei osod ar stand fel bo'r plant yn gallu dod ato i droi'r dudalen a chwilio am y lythyren berthnasol ac hefyd cânt redeg ei bys ar hyd y siâp.*


| | |
|---|---|
| h | H |

*Yn aml, byddaf yn gweld plant yn chwarae rôl athrawes gyda'r llyfr yma ac yn brysur yn gwneud y siâp ac yn dweud y sain. Byddwn yn* **dweud** *y siâp hefyd, mewn rhythm, os yn bosib, 'rownd i fyny ac i lawr a stopio'.*

*Caiff y plant gyfle i ffurfio'r lythyren dan sylw ar fwrdd mawr gwyn sydd wrth law yn ystod amser trafod, a defnyddiaf fyrddau gwyn bach ar gyfer ymarfer ar y cyd ac arbrofi.*

*I helpu'r dysgu 'rwyf yn llunio cliwiau ar gyfer pob sain. Mae hyn wedi gafael, ac mae rhai o'r plant sy'n methu cofio siâp y llythyren yn gallu cofio'r symudiad ac felly yn gwneud y sŵn cywir. Byddwn yn chwarae'r gêm cliwiau yn aml, am gyfnodau byr, cyflym, er mwyn ymarfer y synau ac maent wrth eu boddau gyda'r symudiadau doniol.*

*Mae set o daflenni i gyd-fynd â'r llythrennau gyda llun y cymeriad ar bob un. Mae cyfle yma i'r plant liwio, ymarfer eu sgiliau ysgrifennu drwy ddilyn y patrwm a darllen ychydig o eiriau syml.*




*Ar ôl gwneud set o daflenni a'u gosod fel llyfryn, bydd y plant yn hoffi edrych yn ôl arnynt a darllen y seiniau ac ambell i air. Dyma ddull effeithiol o ymarfer neu asesu. Mae canu yn ffordd effeithiol iawn o ddysgu geirfa newydd, felly cyfansoddias gân ar gyfer pob llythyren sydd yn cynnwys gerifa syml iawn a phwysleisir sŵn pob llythyren. Mae tâp o'r cyfeiliant ar gael a thâp o'r caneuon, ond yn aml iawn canu o'r frest y byddwn, heb gyfeiliant. Mae hyn yn ddidrafferth ac yn gallu digwydd ar y casgliad o lythrennau a fyddai'n galluogi iddynt adeiladu cymaint o eiriau â phosib fel arf i ddarllen ac ysgrifennu.*

*Ein bwriad yn awr yw creu llyfrau trafod sy'n cynnwys y synau a'r cymeriadau a chael artist i'w dylunio, yn ogystal â chreu gêmau geiriau, a fideo – efallai! Pwy â wyr? Ymlaen â'r gwaith a gobeithio y plant yn cael 'sbort a sbri gyda'n ffrindiau ni'."*

***Gwenfydd Williams – Ysgol Dewi Sant, Y Rhyl***
***Hyfforddiant Mewn Swydd***

# Dadansoddiad Iaith

## Meithrin / Derbyn

Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

# Meithrin / Derbyn

## Cymraeg Bob Dydd: Y Cyfarchion a'r Gorchmynion Cyffredin

Bore da.

Prynhawn da.

Hwyl fawr!

Sut wyt ti?

Sut y'ch chi?

Siwmai?

Da iawn, diolch, a chi?

Da iawn diolch.

Gweddol.

Beth sy'n bod?

Dim byd.

Rydw i wedi blino.

Wedi blino'n lân.

Os gwelwch yn dda.

Diolch.

Pen-blwydd hapus Gareth!

Beth yw dy enw di?

….. ydw i.

Trueni!

Pawb i rannu.

Croeso nôl.

Croeso i'r dosbarth.

Croeso i ddosbarth Mrs Jones.

Nos da.

Da boch chi.

Sut y'ch chi?

Dim ots.

Esgusodwch fi.

Ga'i dy helpu di?

Wyt ti eisiau help?

Dewch gyda fi.

Pwy sy'n siarad?

Mae rhywun yn siarad nawr!

Arhoswch funud.

Beth wyt ti'n wneud?

Wyt ti'n deall?

Pawb yn deall…

Paid â becso!

Paid â phoeni!

Beth sy'n digwydd fan hyn?

Beth sy'n mynd ymlaen fan hyn?

# Cymraeg Bob Dydd: Y Cyfarchion a'r Gorchmynion Cyffredin

Dewiswch.

Rho.

Rhowch y llyfrau heibio.

Gorffennwch.

Aros.

Aros funud.

Arhoswch
- funud

Rhowch
- ar y

Gwnewch res.

Sefwch wrth y drws.

Dilyn fi.

Dilynwch fi.

Dere gyda fi.

Dewch gyda fi.

Dewch i mewn.

Dere 'ma.

Dwylo i fyny.

Ar unwaith.

Gofynnwch i ….

Ewch at ….

Rhowch eich gwaith
- Heibio / gadw
- mewn pentwr

Agorwch eich bocs bwyd.

Golcha dy ddwylo.

Golchwch
- eich brws
- eich dwylo

Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

# Cymraeg Bob Dydd: Y Sesiwn Gofrestru

## Dechrau a Gorffen Gwersi

Dim sŵn.

Wyt ti'n barod?

Barod.

Pawb yn barod.

Yma, Miss.

Dyma fi!

Dim siarad.

Gwrandewch.

Edrychwch.

Eisteddwch.

Tynnwch eich cotiau.

Rhowch eich cotiau ar y bachyn.

Rho dy got ar y bachyn.

Oes nodyn gyda ti?

Oes llythyr gyda ti?

Ble mae dy lythyr di?

Ble mae nodyn di?

Wyt ti'n well?

Dewch i mewn yn dawel

Brysiwch!

Pwy sy' yma?

Mae Ceri'n dost.

Dewch yma.

Dere yma.

Eisteddwch ar y mat / carped.

Ga'i fynd i'r toiled / tŷ bach?

Ble mae'r gofrestr?
- ar y bwrdd
- yn y drôr
- gyda Siân

Wyt ti'n barod?

Sawl un sydd yma?

Sawl un / faint sy yma / ddim yma?

Ble mae Siân?

Mae Siân yn dost.

Dydw i ddim yn gwybod.

Wn i ddim.

Gwnewch res / sefwch mewn rhes.

Byddwch yn dawel.

Cer i nôl.

Caewch y drws.

Pwy sy'n absennol heddiw?

Beth sy'n bod ar …..?

Mae bola tost gyda Ceri.

Ydy ….yma?

Pwy sy' yma'r bore 'ma / prynhawn 'ma?

Ydy pawb yma?

Ydyn / Nag ydyn.

Ydy e'n dost / sâl?

Trueni.

Cer i nôl y gofrestr.

Mae ….. yn y tŷ bach.

Sefwch mewn llinell syth.

Ewch allan.

Ar eich traed.

Byddwch yn blant da.

Pawb i chwarae'n hapus.

Byddwch yn ofalus.

Cerddwch yn y rhodfa.

Dim rhedeg!

Peidiwch rhedeg.

Dyna blant da.

Pwy biau hwn?

Pwy sy' wedi colli .....?

Roedd y bws yn hwyr.

Druan ag e / o / hi

Tacluswch.

Pwy sy'n dod i dy nôl di heno?

Dere â'r gofrestr yma.

Oes rhywun yn absennol?

Oes / Nac oes.

Oes pen tost gyda hi / fe / fo?
Oes ganddo fo / fe / hi gur pen?

Dim syniad.

Gartref.

Estynnwch y gofrestr os gwelwch yn dda.

Dydy / Dyw o / e / hi ddim yma.

Mae hi wedi mynd at y deintydd.

Mae hi wedi torri ei bys etc

Mae annwyd arni hi.

Ewch â'r gofrestr i / at …..

Wyt ti'n well?

Ydw diolch.

Rwyt ti'n hwyr.

Mae e / o / hi gartre achos mae e / o / hi'n sâl / dost.

Dw i ddim yn gwybod.

Ble rydych chi wedi bod?

Ewch nôl i'r dosbarth.

Ewch allan yn dawel.

Llyfr pwy yw hwn?

# Iaith Canmol a Dwrdio

| | |
|---|---|
| Paid!<br><br>Paid â neud na!<br><br>Dim siarad nawr!<br><br>Bachgen drwg.<br><br>Merch ddrwg.<br><br>Ddylet ti ddim cymeryd pensil .....<br><br>Ddylet ti ddim neud ‘na.<br><br>Dim gweiddi.<br><br>Dim gwthio yn y rhes.<br><br>Peidiwch â rhedeg yn y rhodfa.<br><br>Byddwch yn dawel.<br><br>Dyna ddigon!<br><br>Sefwch.<br><br>Codwch.<br><br>Gwrandewch ar Mrs Jones<br>- yn ofalus<br><br>Dywedwch ar fy ôl.<br><br>Dywedwch gyda fi.<br><br>Dwylo ynghyd.<br><br>Llygaid ynghau.<br><br>Rwy / Dw i wedi bod at y doctor. | Rhagorol.<br><br>Da iawn ti!<br><br>Gwych.<br><br>Arbennig.<br><br>Gwaith hyfryd.<br><br>Llongyfarchiadau.<br><br>Gwaith da.<br><br>Dyna fachgen da.<br><br>Dyna ferch dda.<br><br>Gwaith taclus.<br><br>Mae pawb wedi gweithio’n dda. |

| | |
|---|---|
| Golchwch eich dwylo.<br><br>Gwisgwch ffedog.<br><br>Brysiwch.<br><br>Amser ….<br>- tacluso<br>- mynd adre<br>- cinio<br>- chwarae<br>- stori<br>- newid grŵp | Siwmper pwy yw hon?<br><br>Pwy sy biau?<br><br>Gaf i<br>- weld?<br>- fynd?<br>- fenthyg<br>- beintio?<br><br>Dy dro di!<br><br>Fy nhro i!<br><br>Oes gwelltyn gyda ti?<br><br>Pwy sy' eisie gwelltyn?<br><br>Pwy sy' eisie ffrwyth?<br><br>Mae'n amser ffrwyth a llaeth.<br><br>Mae hi bron yn amser ….<br><br>Mae hi bron yn amser mynd adre.<br><br>Cyn bo hir.<br><br>Pwy sy'n cael brechdanau / cinio? |

# Iaith y Disgyblion: Rhai Enghreifftiau

| | |
|---|---|
| Mae 'mhenblwydd i heddiw.<br><br>Mae …. newydd 'da fi.<br><br>Rwy wedi colli ….<br><br>Rwy wedi gorffen….<br><br>Mae …. wedi cwympo.<br><br>Does dim …. 'da fi.<br><br>Ble mae'r rwbwr?<br><br>Pryd mae amser chwarae?<br><br>Ydy hi'n amser chwarae eto?<br><br>Aros i fi<br><br>Be ti'n neud? | Mae …. yn dod i gael te gyda fi<br><br>Mae …. wedi torri.<br><br>Rydw i wedi colli ….<br><br>Ga'i ddarllen?<br><br>Ydyn ni'n peintio heddiw?<br><br>Rwy'n hoffi ….<br><br>Dydw i ddim yn hoffi…<br><br>Dydw i ddim yn hoffi peintio<br><br>Dydw i ddim eisiau chwarae.<br><br>Wnewch chi helpu fi i ddarllen stori?<br>- gwnaf wrth gwrs.<br>- Iawn. |

# Y Tywydd

| |
|---|
| Mae hi'n braf heddiw.<br><br>Mae hi'n bwrw glaw heddiw.<br><br>Mae hi'n oer heddiw.<br><br>Mae hi'n wyntog heddiw.<br><br>Shwd mae'r tywydd heddiw?<br><br>Sut dywydd yw hi heddiw?<br><br>Mae hi'n bwrw eira.<br><br>Mae hi'n oer tu allan.<br><br>Mae'n oer mas. |

| |
|---|
| Mae hi'n boeth / gymylog / sych / stormus.<br><br>Dydy / Dyw hi ddim yn bwrw glaw.<br><br>Ydy hi'n …. heddiw?<br><br>Ydy / Nag ydy.<br><br>Mae hi'n ddiflas.<br><br>Mae'n llithrig ar yr iard / buarth. |

# Y Blynyddoedd Cynnar

## Y Prif Batrymau Iaith i'w Cyflwyno a'u Hybu

**1.** Dyma ….

**2.** Ydy …. yma?
Ydy, mae …. yma.
Nag ydy, dydy …. ddim yma.

**3.** Wyt ti'n hoffi / ydych chi'n hoffi?
(Ymateb un gair neu ymateb llawn).

**4.** Lliwiau.

**5.** Rhifau.

**6.** Ble mae ….?
Ble mae'r ….?
Ymatebion

**7.** Ydy'r ….
Ydy'r llyfr yn y bag?
Ydy, mae'r ….
Nag ydy, dydy'r …. ddim etc.

**8.** Ga' i ….?
Cei, wrth gwrs.
Na chei.

**9.** Arddodiaid syml

yn y

ar y

o dan y

yn ymyl y

wrth ochr

o flaen y

tu ôl i / i'r

rhwng

**10.** Oes ….?

Oes ffedog gyda ti?

**11.** Rwy'n …..

Rydw i'n hoffi ….

**12.** Beth wyt ti'n 'neud?

**13.** Beth mae …. yn ei wneud?

Mae …. yn ….

**14.** Sawl / Faint o ….?

**15.** Mae'n nhw'n ….

**16.** Ydyn nhw'n …?

**17.** Beth sy' gyda fi yn y cwdyn?

**18.** Ansoddeiriau

| | | |
|---|---|---|
| Mawr | Tenau | Tew |
| Bach | Meddal | Llyfn |
| Hir / byr / tal | Caled | Garw |

**19.** Rydyn ni'n mynd i, e.e.

- beintio
- adeiladu
- ysgrifennu llythyr
- chwarae yn y tywod

**20.** Wyt ti eisiau ….?

**21.** Pwy sy' eisiau ….?

Pwy sy'n barod?

Pwy sy'n siarad?

**22.** Cyflwyniad byr yn unig i'r gorffennol cryno, e.e.

*Ble est ti?*

*Beth wnest ti?*

*Es i.*

*Aethom ni.*

**23.** Hoffet ti?

(Ymateb – diolch, dim diolch, os gwelwch yn dda)

**24.** P'un yw'r lleia / tryma? Etc.

**25.** Mae ….. wedi.....

e.e. Mae Lisa wedi cwympo

cael loes

torri pensil Aled

# Yn y Siop

Oes afalau gyda ti? *Oes / Nac oes*

Oes afal coch gyda ti?

Ga'i oren os gwelwch yn dda? *Cei wrth gwrs / Na chei*

Diolch.

Dyma oren.

Dyma arian.

Sawl oren wyt ti eisiau?



Ble mae'r basgedi?

Mae'r basgedi ar y llawr

yn y gornel

o dan y bwrdd

tu ôl i'r drws

yn ymyl y bwrdd

ar bwys

Beth yw pris yr afalau?

Faint yw'r afalau?

Beth wyt ti'n mo'yn?

Rydw i mo'yn / eisiau …. os gwelwch yn dda.

Beth wyt ti eisiau ei brynu?

Beth sydd gyda fi / ti yn y fasged?

Lliwiau – Dau afal coch os gwelwch yn dda


Ansoddeiriau – Dau afal mawr os gwelwch yn dda.

Rydw i'n mynd i'r siop / i siopa / i brynu …..

Ydy'r afal yn felyn? Ydy / Nag ydy

# Gweithgareddau Penodol yn y Blynyddoedd Cynnar a'r Eitemau Iaith i'w Hybu o Fewn y Gweithgareddau Hynny

## Mathemateg




Sawl cylch sy' yma?

Faint o blant sydd yn y tŷ bach twt?

Rhifolion 1 i 10, a 10 i 20

Rhowch y siapiau coch yn y cylch.

Rhowch y trionglau yn y bocs mawr.

Mae'r llyfr yn drwm ond mae'r pensil yn ysgafn.

Ewch i chwilio am …

Ydy'r blociau coch yn y cylch?

Oes tri bloc gyda ti?

Rhifwch i ddeg.

Ble mae rhif 3?

Ga'i ddwy geiniog os gwelwch yn dda?

Dere â un bloc i mi.

Rho'r ceiniogau mewn rhes.

Rho'r ateb yn y bocs.

Gwna batrwm **coch**, **glas, coch**, **glas**.

Pwy sy'n gwisgo esgidiau **du**?

Sawl bloc sy'n cydbwyso ag un afal? Mae ….. bloc yn …..

Sawl plentyn sydd â llygaid **glas**?

Pa un yw'r talaf / hiraf / trymaf?

P'un yw'r ysgafnaf?

Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

# Tŷ Bach Twt

Dewch i mewn.

Eisteddwch.

Wyt ti'n hoffi coginio / golchi dillad?

Ydw, diolch.

Rhowch y lliain ar y bwrdd.

Beth mae ….. yn ei wneud?

Mae ….. yn golchi'r llestri / coginio / bwyta brecwast.

Ga'i pizza os gwelwch yn dda?

Ga'i ddod i mewn?

Cewch.

Na cewch.

Beth wyt ti'n ei wneud?

Rwy'n / Rydw i'n …..

| | |
|---|---|
| Oes llaeth yn y te? | Oes / Nac oes |
| Oes teisen yn y ffwrn? | Oes / Nac oes |
| Oes llestri yn y cwpwrdd | Oes / Nac oes |

| | |
|---|---|
| Ydy'r ffôn yn canu? | Ydy / Nac ydy |

Pwy sy'n siarad?

Sawl cwpan sydd ar y bwrdd?

Faint o ffenestri sydd yn y tŷ?

Pwy sy' eisiau teisen?



# Chwarae â'r ceir

Lliwiau

Ble mae'r car coch?

Mae'r car coch yn y garej.

Mae car coch gyda fi.

Arddodiaid tu ôl i

o flaen

ar etc.

Mae'r blociau ar y lori.

Mae car melyn y tu ôl i'r car coch.

Mae'r golau'n goch.

Stopiwch

Ewch

Peidiwch mynd yn rhy gyflym.


Pwy sy' yn y bws?

….. sy' yn y bws.

Ga' i chwarae gyda'r car coch? *Cei / Na chei.*

Oes car gyda ti?

Sawl car coch sy' ar y mat?





# Teganau Mawr (tu allan)

Pwy sy' eisiau mynd ar y beic?

Pwy sy'n gyrru'r car coch?

Ga' i fynd ar y beic mawr?

Bydd yn ofalus.

Ga' i chwarae gyda'r bêl ar ôl …..

Rydw i eisiau chwarae gyda…..

Dere i chwarae gyda fi.

Wyt ti'n hoffi mynd ar y llithren?

Paid!

Stopia!

Ewch rhwng y cônau.

Dy dro di yw hi nesaf.

Sawl beic sy' gyda ni?

Ble mae'r lori las?

Rho'r blociau yn y lori.

Pwy sy' tu ôl i John?

Edrychwch! Mae ….. yn mynd yn gyflym.

Beth mae ….. yn ei wneud?

Lliwiau.

Ansoddeiriau.

Ydy John ar y beic nawr?

Gan bwyll nawr.

Cymer ofal.

Bant â chi.



# Tywod

***Disgyblion***

Ble mae'r bwced / rhaw?

Mae'r bwced yn wag / llawn.

Mae'r tywod yn wlyb / sych.

Mae'r castell yn fawr / fach.

Ble mae'r baneri?

Beth yw'r annibendod yna?

Oes rhaw i gael?

Ga' i adeiladu castell?

Wrth ochr y bwced / o dan …..

**Geirfa**

| | |
|---|---|
| y lliwiau | mawr |
| gwlyb | bach |
| sych | gwag |
| llyfn | llawn |

***Oedolyn***

Ydy'r bwced yn llawn?

Hoffet ti chwarae yn y tywod?

Wyt ti'n hoffi chwarae yn y tywod?

Sawl bwced / rhaw?

Beth wyt ti'n ei wneud?

Cei.


Ble mae'r rhidyll coch?

Paid taflu'r tywod.

Gad i ….. gael tro



# Blociau



***Disgyblion***

Ga' i chwarae gyda'r blociau?

Wyt ti'n hoffi'r tŵr?

Oes bloc coch gyda ti?

Ga' i 'r bloc gwyrdd?

Sawl bloc sydd gyda ti?

Ble mae'r blociau coch?

Arddodiaid

**Geirfa**

| | |
|---|---|
| lliwiau | byr |
| mawr | llydan |
| bach | cul |
| tal | |

***Oedolyn***

Cer i nôl y blociau.

Faint o flociau melyn?

Beth wyt ti'n wneud?


Ydy'r blociau'n drwm?

Paid â baglu.

Ydy'r castell wedi gorffen?

Paid taflu'r blociau.

Mae'r tŵr yn uchel iawn.



# Dŵr

***Disgyblion***

Ga' i chwythu swigod?

Cei, wrth gwrs.

Ble mae'r twndish?

Mae'r dŵr yn oer / gynnes / dwym.

Rwy'n hoffi dŵr cynnes.

Rwy'n llanw bwced.

**Geirfa**

| | | |
|---|---|---|
| dŵr | dwfn | swigod |
| lliwiau | suddo | arllwys |
| twndish | arnofio | sarnu |
| bas | chwythu | llawn |
| gwag | gorlifo | |

Does dim ffedog ar ôl.

Bydd yn ofalus.

Beth wyt ti'n ei wneud?

Paid tasgu'r dŵr.

Llewys lan.

Mae fy llewys yn wlyb.


Torcha dy lewys.

Ti'n wlyb diferu.



# Celf

***Disgyblion***



Ga' i beintio / clai?

Ga' i chwrae gyda'r toes?

Ble mae'r ffedog?

Ydy'r clai yn y cwpwrdd?

Dim gormod o lud.

Oes creonau gyda ti?

Mae'r paent yn y cwpwrdd.

Paid â dodi fe yn dy geg.

Beth mae e'n wneud?

Tynn e mas o dy geg.

**Geirfa**

| | | | |
|---|---|---|---|
| cymysgu | golchi | meddal | rholio |
| lliwiau | glanhau | caled | |
| arllwys | siapiau | torrwyr | |

Does dim ffedog ar ôl.

Beth wyt ti'n wneud?

Wyt ti'n hoffi modelu?

Pwy sy' eisiau peintio?


Beth wnest ti?

Amser gwehyddu – cerwch mewn a mas gyda'r gwlân / rhuban.

Torrwch y papur yn stribedu.

Gwasgwch y ffrwyth yn galed ar y papur.

Rhowch e yn y paent yn ysgafn.



# Cyfrifiadur

***Disgyblion***



Ga' i chwarae â'r cyfrifiadur?

Ble mae'r papur?

Dydy'r llygoden ddim yn gweithio.

Rydw i'n hoffi….

**Geirfa**

| | |
|---|---|
| symud | argraffu |
| clicio | argraffydd |
| rhaglen | sgrîn |
| disg | |

***Oedolyn***

Pwy sy' eisiau chwarae â'r cyfrifiadur?

Ydy'r gêm yn sbri?

Gwna lun coeden wrth ochr y tŷ.

Beth wyt ti'n wneud?

Rho dy enw ar y sgrîn.

Clicia'r botwm

Gwasga'r bylchwr.



# Dathliadau  - Y Pasg



**Geirfa**

Wrth greu cerdyn / het / cyw / cywion etc.

ŵy / wyau

plisgyn ŵy

ŵy pasg

siocled


cwningen

het basg

nythod pasg

deor

nyth



**Ymadroddion**

Rhowch y ……. yn y fowlen / ffwrn.

Cymysgwch y ..... a'r .....

Mae'r siocled yn toddi / boeth.

Trowch y gymysgedd

Arllwyswch …..

Byddwch yn ofalus!

***Disgyblion***

Ga' i'r glud?

Ga' i'r paent melyn?

Ga' i'r paent?

Ble mae'r ffedog?

Ble mae'r paent?

Oes gwlân cotwm gyda ti?

Oes papur lliwgar gyda ti?

Coginio

Nythod / bisgedi Pasg

**Geirfa**

| | | | |
|---|---|---|---|
| bowlen | toddi | coginio | stori'r Iesu |
| llwy | arllwys | asyn | |
| ffwrn | twymo / cynhesu | | |
| cymysgu | troi | | |



# Dathliadau – Y Nadolig

**Geirfa**

Siôn Corn - barf gwyn
cot goch
sach a thegannau
ceirw
anrhegion

Coeden Nadolig

Addurniadau – lliwiau a siapau

Goleuadau

Seren

Angel

Hosan

Celyn

Aeron

Stori'r geni – y Baban Iesu, Mair, Joseff (mam a dad)

Gwely gwair / preseb

Asyn

Llety a lletywr

Bugeiliad

Doethion / tri gŵr doeth

Stabl

Defaid

Camelod



Dathlu - cerdyn, cardiau, cracer, hetiau, parti

Bwyd – cinio, twrci, llysiau – moron, tatws, pŷs, sosej, pwdin

Cyngerdd – gwisgo lan, carolau

Tywydd – sut mae'r tywydd?

Ydy hi'n bwrw eira?

Ydy hi'n oer? Rhewi?

Cerdyn – i mami / dadi

Nadolig Llawen

Oddi wrth

Calendr

Cwestiynau

C. Beth wyt ti eisiau oddi wrth Siôn Corn / i'r Nadolig?

A. Rydw i eisiau …..

(Neu – Beth hoffet ti gael y Nadolig yma?

Hoffwn i gael …..)

Stori'r Geni

Holi – Pwy? Ble?

Bwyd – Wyt ti'n hoffi ……?

Llythyr at Siôn Corn

Annwyl …. Oddi wrth

Beth sydd yn y sach?

….. yn y sach

Sawl / Faint o … sydd …..

Nadolig Llawen

Blwyddyn Newydd Dda

Geirfa crefft

**Wedi'r Wŷl**

Ces i Power Ranger.

Ces i .....dedi, doli, cyfrifiadur, feic, a.y.y.b



# Guto Ffowc



**Geirfa**

| | |
|---|---|
| Guto Ffowc | cynnu |
| tân gwyllt | peryglus |
| coelcerth / ffagl | lle arbennig |
| roced | coed |
| canhwyllau | papur |
| nos | saethu |
| fflamau | swnllyd |
| llosgi | gwylio |
| lliwiau llachar | Tachwedd |
| ofnus | |
| bang | |

Peidiwch â chwarae â thân gwyllt.

Peidiwch â mynd yn rhy agos i'r tân.

Byddwch yn ofalus.

Gwnewch yn siwr bod yr anifeiliad yn saff / ddiogel.

Ydych chi'n mynd i weld y tân gwyllt?
Ydw.

Ydych chi'n hoffi tân gwyllt?
Ydw.

# CA1

# Llafar

Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

# Datblygu Llafaredd

Wrth gynllunio ar gyfer datblygiad iaith rhaid cofio bod plant yn eu hanfod yn mwynhau bod yn weithredol (active) yn y broses ddysgu.

Mae angen egluro nôd, amcan a chyd-destun y dysgu a phlethu i mewn gyfleoedd ar gyfer:

- gweithgareddau
- rhyngweithio
- darganfod
- myfyrio
- atgyfnerthu

Gwnaed gwaith datblygol gan Gwmni Cynnal 2004

**Testun Siarad**
Datblygiad llafaredd trwy'r ysgol gynradd.

# Cyfnod Allweddol 1

## Llafaredd

**Prif Ffocws:**

Gwrando ac ymateb yn briodol ac yn effeithiol i ystod o symbyliadau a dechrau strwythuro eu hymatebion llafar gan eu defnyddio i ddatblygu eu syniadau a rhoi gwedd gliriach arnynt.

**Gweithgareddau datblygiadol:**

Gwylio a gwrando ar ystod o symbyliadau gweledol a chlywedol: -

- storïau
- cerddi
- ymadroddion
- cyfarwyddiadau / gorchmynion
- rhaglenni teledu / fideos
- storïau ar dâp neu CD Rom's
- cyflwyniadau llafar, e.e. sioeau, pantomeim, dramâu
- gêmau sain / gwrando
- caneuon, rhigymau a hwiangerddi
- amrywiaeth o gerddoriaeth
- amrywiaeth o seiniau, e.e. offerynnau cerdd

Dechrau deall bod amrywiaeth yn yr iaith a glywant o'u cwmpas, e.e. bod yn ymwybodol o dafodiaith a bod rhai pobl yn defnyddio gwahanol eiriau am yr un gwrthrych fel llaeth / llefrith, nain / mamgu

Ymateb yn briodol i'r hyn a glywant a bod yn barod i holi ymhellach, e.e.gwybod bod eisiau iddynt wrando'n dawel ar ddarlleniad o stori a bod disgwyl iddynt wrando'n ofalus ac ymateb yn briodol i eraill yn ystod trafodaeth dosbarth / grŵp.

Siarad yn hyderus ac yn glir gan ynganu a goslefu'n ddealladwy.

Siarad yn gywir, defnyddio geiriau, ymadroddion ac ystod o frawddegau addas i'w mynegi eu hunain yn drefnus a bod yn ymwybodol o gywirdeb a dechrau defnyddio Cymraeg idiomatig.

Amrywio peth a datblygu ar eirfa a phatrymau brawddegol.

Siarad am brofiadau personol a dychymygus.

Dweud storïau byrfyfyr, adrodd neu ganu hwiangerddi, rhigymau, caneuon a cherddi.
Ymateb mewn gwahanol sefyllfaoedd ac i wahanol gynulleidfaoedd, e.e. wrth chwarae rôl, sesiynau holi ac ateb, cadair goch, mewn cyflwyniadau llafar, dramatig, wrth chwarae gêmau, wrth gyflwyno gwybodaeth ar draws y cwricwlwm, wrth esbonio ac wrth ddilyn a rhoi cyfarwyddiadau.
Cyfarch, sefydlu perthynas a sgwrsio yn anffurfiol ac yn ffurfiol gyda chyd-disgyblion, athrawon ac oedolion eraill gan ddatblygu eu syniadau, egluro a thrafod a defnyddio iaith briodol i wneud hynny.
Dechrau sylweddoli bod siarad ag eraill yn gofyn am wahanol raddau o ffurfioldeb, e.e. ffurfiau llafar a ffurfiau safonol.
Dechrau annog y plant i fynegi teimladau, barn, hoffter diffyg hoffter am angen.
Darparu cyfleoedd i'r plant gymryd rhan mewn deialogau a gweithgareddau dramatig amrywiol gan ddefnyddio iaith addas i'r cymeriad a'r sefyllfa, e.e.cymeriad arbennig wrth weithio gyda phypedau.

**Ti / Chi**

Y farn gyffredinol yw y dylid ceisio sicrhau bod ein disgyblion yn ymwybodol o'r ffurfiau **TI / CHI** erbyn diwedd CA1.
Bydd angen adeiladu ar hyn ar draws CA2.

# Y Continwwm Siarad

Gellir nodweddu'r iaith lafar o ran amrediad fel continwwm.

anffurfiol → ffurfiol

heb ei ymarfer → wedi ei ymarfer

di-raen → graenus

digymell → wedi'i baratoi

rhyngweithiol / cydweithredol → unigol

tro byr → tro hir

wedi'i ganolbwyntio ar y gwrandawr → wedi'i ganolbwyntio ar neges

archwiliol → cyflwyniadol

anstrwythuredig → strwyuredig

pwyslais isel → pwyslais uchel

Mae angen i'r plant ddysgu sut i siarad mewn ffyrdd penodol i gyfleu syniadau cynyddol gymhleth a gwrando'n astud ac yn ymatebol ar amrywiaeth eang o fathau o iaith lafar. Gellir ymdrin â hyn trwy: -

- creu amgylchedd dysgu cydweithredol.
- cynnwys amcanion penodol ynghylch iaith lafar mewn unedau gwaith a'u cysylltu'n briodol â darllen a / neu ysgrifennu.
- datblygu trafodaeth ynghylch ysgrifennu. Yn ystod sgwrs â ffocws clir iddi ynghylch ysgrifennu gall y plant ddysgu oddi wrth ei gilydd ac egluro eu syniadau a'u dealltwriaeth eu hunain am ysgrifennu.
- mae defnyddio drama er mwyn ysgogi ac archwilio yn gallu datblygu sgiliau meddwl ac ymatebion emosiynol ar lefel uwch sy'n fuddiol i hybu ysgrifennu.

# Trefnu a Rheoli Siarad

Wrth gynllunio ar gyfer gwaith llafar mae'n bwysig datblygu'n araf er mwyn sefydlu rheolau sylfaenol a rhannu. Bydd y plant yn elwa o brofiad o weithio mewn pâr a thrafodaeth dosbarth cyfan cyn symud ymlaen i waith grŵp.
Mewn gwaith pâr neu grŵp bydd y plant yn datrys problemau neu'n cwblhau tasgau gyda'i gilydd ac yn dysgu oddi wrth ei gilydd; mae iaith yn cael ei defnyddio fel cyfrwng i ddysgu.

Awgrymiadau ar gyfer gwaith partner â ffocws iddo: -

- gweithgareddau didoli a dosbarthu
- tasgu syniadau a gwrando
- datrys problemau
- archwilio
- ymchwilio
- dilyniannu gweithgareddau
- gweithgareddau diagramatig / mapio

# Gwaith Grŵp Cydweithredol

Mae trafod a rhyngweithio mewn grŵp yn herio ffordd plant o feddwl, gan eu hannog i ystyried materion o wahanol safbwyntiau. Mae gwaith grŵp cydweithredol yn addysgu plant sut i ddefnyddio sgiliau cyfathrebu i ddatrys gwrthdaro mewn gwahanol ffyrdd. Sgil bywyd bwysig yw'r gallu i gyfaddawdu a chyrraedd cytundeb.
Cyn dechrau defnyddio gwaith grŵp fe allai fod yn ddefnyddiol i: -

- sefydlu rheolau sylfaenol trwy drafod gyda'r plant.
- trafod y sgiliau y mae eu hangen ac egluro'r disgwyliadau.
- creu gwaith sy'n annog rhyngweithio (mae adfyfyrio ar drafodaeth yn rhan bwysig o'r broses).

Un o anawsterau cychwyn trafodaeth mewn grŵp bach yw sicrhau bod y plant yn cyfranogi'n gyfartal. Mae rhai unigolion yn tynnu'n ôl oherwydd maent yn hunanymwybodol ac yn bryderus. Mae eraill yn tueddu i fod yn uchel eu cloch yn y

drafodaeth, gan reoli gweithrediadau a phenderfyniadau'r grŵp. Fe allai fod yn ddefnyddiol dyrannu rolau ar gyfer y plant yn eu grŵp.

Gallai pob grŵp gynnwys: -

**Rheolwr**

**Anogwr**

**Cofnodydd**

**Adroddwr**

Mae'n bwysig modelu'r sgiliau hyn er mwyn sicrhau bod y plant yn deall eu rolau. Gellir defnyddio fideos o waith grŵp llwyddiannus i hybu trafodaeth ac adfyfyrio ar y gwahanol rolau o fewn y grŵp.

Mae maint y grwpiau'n bwysig – gall y tabl canlynol fod yn ddefnyddiol wrth ystyried y maint delfrydol ar gyfer gweithgaredd grŵp penodol.

| Maint | Manteision | Cyfyngiadau | Pryd i'w ddefnyddio |
|---|---|---|---|
| **Dosbarth cyfan** | Gall yr athro / athrawes fonitro a chefnogi'r sgwrs.<br>Bydd pawb yn cael yr un profiad. | Sawl plentyn yn aros yn dawel.<br>Rhwystredigaeth wrth geisio cyfrannu, gorfod aros, a'r drafodaeth yn symud ymlaen etc.<br>Perygl bod plant disglair, hyderus a siaradus yn rheoli'r drafodaeth.<br>Perygl bod yr athro / athrawes yn gwneud y rhan fwyaf o'r siarad | Pan fydd yn hanfodol bod y plant i gyd yn clywed yr un neges. |
| **Pâr** | Mae'n rhaid siarad.<br>Diogel, difygythiad.<br>Dim angen symud byrddau.<br>Cyflym. | Tueddol o gael cytundeb cyflym.<br>Braidd dim her o wahanol safbwyntiau.<br>Sut i gynnwys y plant unig. | Pan fydd y pwnc yn bersonol neu'n sensitif.<br>Pan fydd angen trafodaeth fer yn unig. |
| **Grŵp Bach** | Amrywiaeth barn heb fod yn rhy fygythiol.<br>Gall cyfuno parau greu grwpiau'n gyflym | Mae pwysau cymdeithasol yn dechrau ymddangos – 'rydym yn hoffi gweithio gyda'n gilydd.'<br>Mae'n bosib aros yn dawel | Adeiladu hyder.<br>Cynyddu rhyngweirhio cymdeithasol yn y dosbarth.<br>Cyfnod dros dro cyn trafodaeth dosbarth cyfan. |
| **Grŵp mawr 5 - 7** | Amrywiaeth o ran syniadau, profiadau a barn.<br>Pontio'r bwlch rhwng profiad grŵp bach a chyfrannu at drafodaeth dosbarth cyfan. | Mae'n rhaid symud byrddau.<br>Mae angen sgiliau cadeirio a chymdeithasol.<br>Mae'n hawdd i rai plant reoli'r drafodaeth.<br>Mae mwy o blant yn aros yn dawel. | Ar gyfer trafodaeth sy'n gofyn am amrywiaeth o safbwyntiau a barn.<br>Ar gyfer datblygu gwaith tîm. |

Byddai'n ddefnyddiol cofio'r rheolau canlynol wrth drefnu gwaith grŵp: -

- dylai'r grwpiau gael eu rheoli gan yr athro / athrawes a'u cynllunio i weddu i'r dasg.
- dylai pob gweithgaredd siarad gael canlyniadau clir ac eglur.
- dylid pennu amserlen glir ar gyfer y gweithgaredd.
- dylid dyrannu rolau i aelodau'r grŵp – rheoli, arsylwi, cefnogi, gwrthwynebu, crynhoi, cofnodi etc
- Dylai pob aelod o'r grŵp gael cyfle i siarad.

Gallai strategaethau ar gyfer sicrhau bod trafodaeth grŵp yn bwrpasol ac yn hybu amrywiaeth o sgiliau siarad a gwrando gynnwys: -

## Parau i bedwarawdau

Mae'r plant yn gweithio gyda'i gilydd mewn parau. Yna mae pob pâr yn ymuno â phâr arall i esbonio a chymharu syniadau.

## Triawdau gwrando

Grwpiau o dri – mae pob disgybl yn cyflawni rôl siaradwr, holwr a chofnodwr.
Mae'r siaradwr yn esbonio rhywbeth, neu'n gwneud sylw at fater, neu'n mynegi barn.
Mae'r holwr yn procio ac yn ceisio cael eglurhaud.
Mae'r cofnodwr yn gwneud nodiadau ac yn cyflywno adroddiad ar ddiwedd y sgwrs.
Mae'r rolau yn newid y tro nesaf.

## Negeseuwyr

Pan fydd y grwpiau wedi cwblhau tasg, bydd un person o bob grŵp yn cael ei ddewis fel negeswr ac yn symud i grŵp newydd er mwyn esbonio a chrynhoi, yna bydd yn cael gwybod barn y grŵp newydd neu'r hyn a benderfynwyd neu a gyflanwyd ganddynt. Yna mae'r negeswr yn dychwelyd i'r grŵp ac yn rhoi adborth. Mae hyn yn osgoi sesiynau adrodd yn ôl ailadroddus ac yn hybu gwrando'n astud.

## Pêl Eira

Mae parau'n trafod mater, neu'n tasgu syniadau cychwynnol, yna maent yn dyblu i bedwar er mwyn cymharu syniadau a phenderfynu ar yr un gorau neu gytuno ar sut i weithredu. Yn y diwedd, mae'r dosbarth cyfan yn dod at ei gilydd a bydd llefarydd pob grŵp o wyth yn rhoi adborth am eu syniadau.

## Grwpiau enfys

Ffordd o sicrhau bod plant yn cael eu hailgrwpio ac yn dysgu sut i weithio gydag amrywiaeth o blant eraill. Pan fydd grwpiau bach wedi trafod gyda'i gilydd, bydd y plant yn cael lliw neu rif. Bydd plant sydd â'r un rhif yn ymuno – gan wneud grwpiau sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob grŵp gwreiddiol. Yn eu grwpiau newydd bydd y plant yn cymryd tro i adrodd yn ôl ar waith eu grwpiau gwreiddiol.

## Jig – so

Mae pwnc yn cael ei rannu'n adrannau. Mewn grwpiau 'cartref' o bedwar neu bump, mae'r plant yn dyrannu adran yr un ac yna'n ailgrwpio i grwpiau 'arbenigol'. Yn y grwpiau hyn bydd arbenigwyr yn gweithio gyda'i gilydd ar y maes arbenigedd o'u dewis. Yna rhoddir tasg i'r grŵp 'cartref' sy'n gofyn i'r plant ddefnyddio'r holl feysydd arbenigedd gwahanol i gael canlyniad ar y cyd.
Mae angen llawer o gynllunio gofalus i wneud hyn ond mae'n strategaeth siarad a gwrando effeithiol iawn am ei bod yn sicrhau bod yr holl blant yn cymryd rhan.

## Adborth ac Adfyfyrio

Mae angen i'r plant gael cymorth i adfyfyrio'n fwy meddylgar ar yr iaith y mae ei hangen arnynt a'r broses y maent newydd ei phrofi. Gallai'r canllawiau canlynol gynorthwyo plant i fod yn fwy hunanwerthusol ac athrawon wrth osod targedau ar gyfer plant.

- Addysgwch derminoleg allweddol i'r plant er mwyn trafod iaith lafar: cymryd tro, stori, priodoldeb, pwyslais, amwysedd etc.

- Trafodwch a chytunwch ar feini prawf llwyddiant cyn gweithgaredd neu dasg lafar. Gwyliwch / gwrandewch ar enghreifftiau yn gyntaf os yw'n bosib ac yn briodol.
- Cyflwynwch 'gofnodyddion siarad' neu ddyddiaduron. Anogwch y plant i nodi cyfraniadau llwyddiannus a wnaethant, neu asesu cyfraniadau plant eraill, ac adfyfyrio ar hyn y maent wedi ei ddysgu.
- Cynlluniwch amser ar ddiwedd gweithgaredd llafar i drafod ac adrodd yn ôl gyda'r plant. Defnyddiwch drafodaethau pâr yn gyntaf neu gofynnwch i'r plant nodi pethau'n fyr yn eu cofnodyddion cyn gwahodd sylwadau.

Mae'n bosib y bydd safon y sgwrs mewn gwaith grŵp yn amrywio'n fawr.
Mae'n bosib y bydd rhan helaeth o'r sgwrs yn ymwneud â chadw'r grŵp yn gytûn a gallai'r adegau hynny pan fydd y tair elfen (cyfathrebol, cymdeithasol, gwybyddol) yn bresennol yn brin. Ond yr elfen bwysicaf yw cydnabod swyddogaeth y sgwrs yn glir ac osgoi cymhwyso meini prawf anghywir.

## Asesu Llafaredd

Mae angen i gofnodion sgyrsiau: -

- fod yn seiliedig ar amrywiaeth o gofnodion, arsylwadau, samplau gwaith etc.
- cynnwys nodiadau perfformiad dros amser, mewn gwahanol gyd-destunau a grwpiau.
- cynnwys gwybodaeth ac arsylwadau gan rieni, athrawon a phlant eraill.

Natur y math hwn o asesu yw bod darlun llawn yn cael ei greu dros gyfnod o amser o gyfres o 'gipluniau'.

Gellir cadw taflen gofnodi gynyddol, un ar gyfer pob plentyn mewn ffeil. Gellir defnyddio taflenni arsylwi ond mae angen iddynt fod yn hawdd i'w ddefnyddio. Gellir defnyddio nodiadau 'post-it' ar gyfer arsylwadau cyflym heb eu paratoi.

Beth gellir ei asesu wrth i'r plant siarad a gwrando?

- Yr hyn y mae'r plant yn ei ddeall a'i wybod am y cwricwlwm.
- Yr hyn y mae'r plant yn ei ddeall a'i wybod am sut y mae iaith yn gweithio.
- Sut y maent yn defnyddio iaith i gyflawni dealltwriaeth. Sut y mae plant eraill yn gwrando arnynt ac yn eu deall.
- Sut y maent yn defnyddio iaith i gyfathrebu, defnyddio tôn ac ystumiau i gyfleu ystyr.
- Sut y maent yn ymateb i blant eraill trwy ddefnyddio geirfa briodol ac addasu'r ffordd y maent yn siarad yn ôl y sefyllfa, sut y maent yn ailffurfio eu syniadau eu hunain a syniadau plant eraill, dadlau, anghytuno, crynhoi a chyrraedd cytundeb.
- Pa mor dda y maent yn cyfranogi mewn gwaith grŵp.
- Sut y maent yn rhyngweithio'n gymdeithasol.

# COFIWCH!

- **Y neges bwysicaf o ran hybu gwaith llafar mewn deuoedd / grwpiau yw'r angen i roi i'n disgyblion yr arfau ieithyddol Cymraeg i gyflawni'r dasg.**
- **Os oes gofyn i ddisgyblion drafod a gwerthuso modelau mewn gwers Dylunio a Thechnoleg yna rhaid drilio a bwydo'r iaith berthnasol ar gyfer y dasg.**
- **Gellir paratoi stoc o bysgod iaith cardfwrdd sy'n cynnwys enghreifftiau o'r patrymau angenrheidiol a gadael i'r disgyblion ddewis ohonynt a'u cadarnhau – cyn cychwyn ar y dasg.**

# CA 1
# Darllen ac Ysgrifennu

Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

# Gair o Gyngor

- Cofiwch am Ffeil Llythrennedd Glenda Jones a Margaret Mathews – yn enwedig y gwaith hybu cyflwyno llythrennau unigol, cytseiniad clwm ag ati.
- Cadwch mewn cof yr angen i gael plant i ryfeddu at sut y mae geiriau'n cael eu ffurfio, e.e
  - (i) ymchwil geiriau – llythrennau clwm
  - (ii) ymchwil geiriau – geiriau unsill
  - (iii) creu geiriau – deuseiniaid

**(i) Ymchwil Geiriau**
**Llythrennau Clwm**

**1.** Ysgrifennwch hynny a fedrwch o eiriau tair llythyren sy'n cynnwys y llythrennau clwm – sef ch, dd, ff, ng, ll a rh
e.e dydd ….hyll….llwy….cath

**2.** Gwnewch grwpiau o'r rhai hynny sy'n odli.

**3.** Ydy'r llythyren glwm bob amser yn yr un lle yn y gair?
Oes posib llunio rheol, felly?

*Mewn geiriau tair llythyren sy'n cynnwys …*

**4.** Tybed oes yna eiriau sy'n eithriad i'r rheol?

**(ii) Ymchwil Geiriau**
**Geiriau unsill**

Sawl gair fedrwch chi ei wneud?

Defnyddiwch y llythrennau sydd o gwmpas y patrwm i ffurfio geiriau byr.

d p r
rh ff
b **ae** s
c f th
t ll m

**(iii) Creu geiriau**

Sawl gair fedrwch chi ei greu?

Defnyddiwch y llythrennau sydd o gwmpas y patrwm 'oe' i ffurfio geiriau byr. Cewch eu defnyddio fwy nag unwaith.

Chi neu eich ffrind gaiff hyd i'r nifer mwyaf, tybed?

dd n th

p d

**oe**

s r ll

Mae 'na le pwysig i ddarllen 'er mwyn pleser' ond gofaler rhag uniaethu hyn â rhoi dewis rhydd i ddisgybl bob tro adeg amser darllen tawel.

- Datblygwyd nifer dda o gynlluniau darllen ar draws y blynyddoedd.

  **ABAD** – 'Anghofiwch Bobeth a Darllenwch'

  **MAD** – 'Mwynhau a Darllen'

  **ALLWEDD** – 'Agor Llyfr Wedyn ei Ddarllen'

- Yr ochr arall i'r geiniog yw cynllunio a strwythuo'n ofalus fesul cam:
  - Modelu Darllen.
  - Darllen ar y cyd.
  - Darllen dan arweiniad.
  - Darllen annibynnol.

**Nid yw'n ddigonol gwrando yn unig ar ddisgybl yn darllen: rhaid dysgu'r plentyn sut mae darllen.**

# Datblygu Darllen

“Darllen yw’r ffenestr i’r byd. Trwy ddarllen y gallwn ddianc, bodloni ein chwilfrydedd, chwerthin a chael gwybodaeth.” (Makgill, 1999)

Mae darllen yn cynnwys dwy broses sy’n cyd-fynd â’i gilydd – dehongli’n weledol a deall. Mae’n amhosib deall testun heb ei brosesu a sŵn diystyr yw darllen geiriau heb ddealltwriaeth (Makgill, 1999). Mae angen i blant ddefnyddio amrywiaeth o wybodaeth i brosesu print. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth flaenorol (am y byd a thestunau), gwybodaeth am yr hyn sy’n gwneud synnwyr, ymwybyddiaeth o ramadeg (parthed trefn geiriau / dosbarthiadau geiriau, llafaredd), yn ogystal â dealltwriaeth o eirfa, llythrennau a seiniau mewn geiriau. Mae angen eu haddysgu i ddefnyddio’r ffynonellau gwybodaeth hyn trwy ragfynegu, ailddarllen a darllen ymlaen i wneud synnwyr o’r hyn y maent yn ei ddarllen a defnyddio eu gwybodaeth am lythrennau a seiniau i ddehongli.

Wrth iddynt brosesu print, mae angen helpu’r plant i ddatblygu eu sgiliau deall. Mae angen iddynt symud y tu hwnt i’r lefel lythrennol a dysgu sut i gasglu a dehongli neges yr awdur. Gall athrawon wella sgiliau deall a grymuso plant i gael mwy o ddealltwriaeth o’r hyn y maent wedi’i ddysgu trwy holi’n effeithiol.

# Holi

Mae’r technegau holi canlynol yn galluogi plant i ddefnyddio ac estyn eu deallusrwydd trwy resymu, holi, ystyried a meddwl yn rhesymegol ac yn greadigol yn ogystal â phroses adfyfyrio a gwerthuso.

Dylai cwestiynau annog y canlynol: -

- rhagfynegi (digwyddiadau, ymateb cymeriadau, patrymau neu strwythur ieithyddol).
- adfyfyrio (effaith gweithred, ymateb cymeriadau, geirfa neu batrymau ieithyddol).
- dealltwriaeth o’r cymeriadau (teimladau, cymhellion).
- dealltwriaeth o’r plot (cyfres o ddigwyddiadau).

- nodi thema (neges).
- nodi nodweddion trefn.
- nodi nodweddion print.
- nodi nodweddion ieithyddol.
- dealltwriaeth o fwriad yr awdur.

Mae tair lefel o feddwl y mae angen eu datblygu, sef: -

| | | |
|---|---|---|
| **Llythrennol** | – | y gallu i ddarganfod a chofio ffeithiau o'r testun |
| **Dehongliadol** | – | defnyddio gwybodaeth o'r testun (casgliadau syml). |
| **Cymhwysol** | – | angen cyfiawnhad; meddwl fel ymateb i'r hyn a ddarllenwyd. |
| | - | casgliad cymhleth |

Cyfeirir at y rhain weithiau fel ar y llinell, rhwng y llinellau a'r tu hwnt i'r llinellau. Mae hefyd angen addysgu'r plant i ddarllen mewn ffyrdd gwahanol at ddibenion gwahanol.

# Strategaethau Darllen

**Darllen di-dor**

Darllen darnau estynedig o destun yn ddi-dor.

Enghraifft: Mwynhau stori.

**Darllen yn fanwl**

Darllen yn ofalus er mwyn astudio, sydd fel arfer yn cynnwys aros i feddwl neu edrych yn ôl er mwyn archwilio'r testun yn fanwl.

Enghraifft: Llyfr gwybodaeth.

**Sgimio (Cip-ddarllen)**

Edrych trwy'r darn yn gyflym er mwyn cael ei hanfod.

Enghraifft: Cael hanfod darn mewn testun hanesyddol.

**Sganio (llithr-ddarllen)**

Chwilio am ddarn penodol o wybodaeth.

Enghraifft: Darganfod gwybodaeth berthnasol yn y mynegai.

# Rhaglen Ddarllen Gytbwys

Dylai ysgolion ystyried defnyddio amrywiaeth o ymagweddau darllen. Mae angen rhoi cyfle i'r plant wrando ar rywun yn darllen iddynt, darllen gydag oedolyn ac ymarfer darllen ar eu pen eu hunain.

Felly dylai rhaglen ddarllen gytbwys gynnwys: -

- darllen i'r plant
- darllen ar y cyd
- darllen dan arweiniad
- darllen yn annibynnol

# Darllen ar y Cyd, Darllen dan Arweiniad a Darllen yn Annibynnol

**Darllen ar y Cyd**

Cam rhwng darllen i blant a phlant yn darllen llyfrau'n annibynnol yw darllen ar y cyd. Mae darllen ar y cyd llwyddiannus yn galluogi'r plant i gymryd y cyfrifoldeb yn raddol dros ddarllen testun a fyddai'n rhy anodd fel arall. Estynnir gwybodaeth am lythrenedd trwy dynnu sylw'r plant at elfennau ieithyddol fel priflythrennau a llythrennau bach, cyflythreniad, geiriau sy'n odli ac atalnodi.

Anogir y disgyblion i ragfynegi ynghylch y testun a chadarnhau neu addasu'r rhagfynegiadau hyn gan ddefnyddio ciwiau o'r ystyr, y gystrawen ac elfennau gweledol y print. Yn aml mae gweithgaredd dysgu yn dilyn y darllen.

**Darllen dan Arweiniad**

Mae'n bosib mai darllen dan arweiniad yw'r fethodoleg gyfarwyddiadol fwyaf pwerus ar gyfer addysgu'r sgiliau a'r strategaethau sy'n galluogi plant i ddarllen testunau cynyddol gymhleth. Yr ymagwedd hon at addysgu darllen sy'n galluogi plant i ddangos eu rheolaeth dros destun ar y darlleniad cyntaf.

Mae darllen dan arweiniad llwyddiannus yn rhoi cyfle i'r plant: -

- ddyfnhau ac estyn eu dealltwriaeth o destunau.

- dysgu sut i ddefnyddio agweddau ar iaith fel strwythur, odl, rhythm a chyflythreniad i ddehongli a deall testunau.
- defnyddio strategaethau darllen fel rhagfynegi, lleoli, gwirio, cadarnhau a hunangywiro.
- dysgu am iaith llyfrau a chysyniadau o brint, e.e. awdur, darlunydd a theitl.
- estyn geirfa weledol.
- datblygu sgiliau ymchwil.

**Darllen Annibynnol**

Darllen yn annibynnol yw pan fydd plentyn yn darllen testun ar ei ben / phen ei hun heb gymorth oedolyn neu blentyn arall mwy galluog. Gall darllen yn annibynnol ddigwydd unrhyw adeg o'r dydd. Dylid paratoi ardaloedd o gwmpas yr ystafell sy'n rhoi mynediad hawdd i'r plant i amrywiaeth o ddeunyddiau darllen, e.e. bocsys barddoniaeth, corneli darllen, arddangosiadau ystafell ddosbarth ac ardaloedd chwarae rôl. Mae darllen yn annibynnol llwyddiannus yn galluogi plant i ymarfer ac estyn sgiliau darllen newydd, dewis llyfrau am bynciau y maent yn eu mwynhau a darllen ar eu cyflymder eu hunain.

Mae pob ymagwedd yn rhoi cyfle i helpu'r plant i ddefnyddio eu gwybodaeth flaenorol, rhagfynegi, prosesu print a deall y testunau.

Yn bwysicaf oll dylid eu helpu i ddatblygu awydd i ddarllen. Gellir helpu hyn trwy baratoi arddangosiadau deniadol o lyfrau a rhoi cyfle iddynt ddarllen amrywiaeth o wahanol ddeunyddiau darllen, gan gynnwys y Rhyngrwyd. Dylid galluogi'r plant i wneud penderfyniadau a gwneud camgymeriadau wrth iddynt adfyfyrio ar eu dewisiadau a hyd yn oed dylanwadu ar eraill. Dylid rhoi digon o wybodaeth i'r rhieni a'u cynnwys fel partneriaid gwerthfawr yn y broses hon o ddatblygu darllen.

**Gweler hefyd tudalen 106.**

# Banc Sylwadau – Proffilau Darllen

**1. Hyder ac annibyniaeth cynyddol y disgybl fel darllenwr**

- Yn adnabod geiriau cyfarwydd.
- Yn dewis llyfrau ar lefel addas.
- Yn dangos diddordeb mewn darllen.
- Yn mwynhau darllen.
- Yn awyddus i ddarllen / cymhelliad cryf.
- Yn canolbwyntio'n dda, ac yn gyson.

**2. Disgybl yn darllen yn uchel**

- Yn darllen yn gywir.
- Yn darllen yn glir.
- Yn darllen yn rhugl.
- Yn darllen yn hyderus.
- Yn defnyddio mynegiant.
- Yn defnyddio atalnodi'n gywir.
- Yn amnewid / cyfnewid geiriau addas.
- Yn cywiro'i hunan.

- Yn darllen yn gyflym iawn.
- Diffyg eglurder.
- Yn darllen yn betrus.
- Diffyg hunanhyder.
- Yn ddifynegiant.
- Ddim yn defnyddio atalnodi'n gywir.
- Camddarllen geiriau – gan golli'r ystyr.
- Gadael geiriau allan.

**3. Darllen a gwybodaeth - y strategaethau adfer a ddefnyddiwyd**

- Rhoi cynnig ar eiriau newydd.
- Defnyddio'r lluniau i ddod o hyd i'r ystyr.
- Datgodio geiriau newydd.
- Defnyddio ystyr y frawddeg / stori i roi cynnig ar eiriau newydd.
- Defnyddio'r cyd-destun / tudalennau mynegai yn gywir.

**4. Ymateb y disgyblion i ddarllen**

- Yn mwynhau darllen.
- Yn siarad am y llyfr â diddordeb.
- Yn gallu rhagfynegi y diweddglo / neu hyn sy'n digwydd nesaf.
- Yn gallu mynegi hoffter.
- Yn esbonio eu safbwynt / barn.
- Yn cyfeirio at y testun i esbonio eu barn.

**5. Ystod ac anhawster y testunau a ddarllenwyd ac a ddeallwyd**

- Yn darllen ystod eang o destunau.
- Yn gallu ailadrodd y stori.
- Yn adalw'r stori'n dda.
- Dealltwriaeth dda o'r stori.
- Yn darllen ystod eang o destunau.

# Darllen CA1 – Taflen Tystiolaeth Perfformiad

**Enw:** ____________________________________

**Lefel:** ____________________________________

**Lefel 1**

- Adnabod geiriau cyfarwydd yn y testun wrth ddarllen ar goedd.
- Cyfleu ystyr drwy roi pwyslais addas ar ambell air neu ymadrodd allweddol.
- Ymateb i gwestiynau drwy siarad am rai agweddau o'r testun.

**Lefel 2**

- Darllen ar goedd tua 100 gair yn eithaf cywir.
- Llai na 8 ymyrraeth.
- Defnyddio ystod o strategaethau i gynorthwyo i sefydlu ystyr.
- Ymgeisio i ddarllen rhai geiriau anghyfarwydd.
- Darllen yn synhwyrol gan gyfleu ystyr.
- Ymwybodol o saib ar ddiwedd brawddeg.
- Goslefu'n briodol ar gyfer ebychnod, gofynnod neu ddyfnodau.
- Ymateb i gwestiynau drwy godi gwybodaeth o'r stori.
- Mynegi barn yn syml wrth sôn am gymeriad neu ddigwyddiad.

**Lefel 3**

- Darllen darn estynedig ar goedd gyda rhuglder a chywirdeb.
- Defnyddio pwyslais addas.
- Defnyddio amrywiaeth o strategaethau ar gyfer sefydlu ystyr.
- Ymateb i gwestiynau drwy godi'r prif ffeithiau a sôn am fanylion arwyddocaol.
- Mynegi barn yn syml ar agweddau o'r testun.

# Y Blynyddoedd Cynnar

# Cyfnod Allweddol 1

# Proffil Darllen

**Enw: ______________________**

**Ysgol: _____________________**

Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

# Proffil Darllen y Blynyddoedd Cynnar / CA 1

**Dyddiad: ________________**

| | D | B 1 | B 2 |
|---|---|---|---|
| Darllen ei enw / henw ei hun | | | |
| Darllen enwau plant eraill | | | |
| Dewis llyfr | | | |
| Dal llyfrau'n gywir | | | |
| Gwybod pa un yw'r clawr blaen a chefn | | | |
| Edrych trwy'r llyfr heb gael ei (h) ysgogi i wneud hynny | | | |
| Troi'r tudalennau un ar y tro | | | |
| Gwahaniaethu rhwng testun / darluniad | | | |
| Ailddweud stori gan ddefnyddio darluniadau | | | |
| Ailddweud ffeithiau o lyfr ffeithiol gan ddefnyddio lluniau i gyfleu'r ystyr | | | |
| Dilyn y testun (o'r chwith i'r dde) wrth ddarllen ar y cyd trwy ailddweud neu 'ddarllen' testun cyfarwydd | | | |
| Pwyntio at lythyren | | | |
| Pwyntio at air | | | |
| Pwyntio at atalnod llawn | | | |
| Pwyntio at farc cwestiwn | | | |
| Pwyntio at briflythyren | | | |
| Nodi odl | | | |
| Gallu odli gair penodol | | | |
| Gwybod enw'r llythyrennau | | | |
| Gwybod sain y llythyrennau | | | |
| Adnabod geiriau sy'n codi'n aml | | | |
| Darganfod geiriau mewn geiriau | | | |
| Adnabod rhai ffurfiau treigledig geiriau cyfarwydd. | | | |

# Proffil Darllen y Blynyddoedd Cynnar / CA 1

**Dyddiad: ________________**

| | D | B 1 | B 2 |
|---|---|---|---|
| Darllen geiriau cyfarwydd yn eu cyd-destun, h.y. | | | |
| - geiriau am y tywydd | | | |
| - arwyddion chwarae rôl | | | |
| - cyfarwyddiadau i'r dosbarth | | | |
| - storïau ar y wal | | | |
| - rheolau'r dosbarth | | | |
| - stribedi brawddegau | | | |
| | | | |
| Wrth darllen ar y cyd a darllen dan arweiniad: - | | | |
| - trafod digwyddiadau / rhesymau | | | |
| - ailddweud digwyddiadau yn eu trefn | | | |
| - rhagfynegi canlyniadau / gweithrediadau posib | | | |
| - sylwi ar batrymau mewn storïau ailadroddus | | | |
| - adfyfyrio | | | |
| - rhoi ymateb personol gan gyfeirio at y testun | | | |
| | | | |
| Nodi strwythur stori: - | | | |
| - cymeriadau | | | |
| - sefyllfa | | | |
| - plot (trefn digwyddiadau) | | | |
| - themâu (neges) | | | |
| - problem | | | |
| - datrysiad | | | |
| - iaith y stori | | | |

# Proffil Darllen y Blynyddoedd Cynnar / CA 1

**Dyddiad:** ________________

| | D | B 1 | B 2 |
|---|---|---|---|
| **Ceisio darllen testun gyda chymorth oedolyn: -** | | | |
| - defnyddio llythrennau cyntaf fel ciwiau (gwybodaeth ffonig a graffig) | | | |
| - defnyddio ciwiau semantig (ystyr / cyd-destun) | | | |
| - defnyddio gwybodaeth am gystrawen (gramadeg) | | | |
| - hunangywiro | | | |
| | | | |
| **Darllen yn annibynnol: -** | | | |
| - darllen gyda mynegiant gan ystyried nodweddion atalnodi / print | | | |
| - defnyddio amrywiaeth o giwiau i ymdrin â geiriau anghyfarwydd, e.e. rhannau a chyfuniadau, geiriau treigledig / darllen ymlaen a dychwelyd i wneud synnwyr o'r testun | | | |
| Dechrau defnyddio mynegai | | | |
| Dechrau defnyddio geirfa | | | |
| Dechrau defnyddio geiriadur syml | | | |

# CA1

# Ysgrifennu

Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

# Datblygu Ysgrifennu

'Mae plant yn dysgu i ysgrifennu ac yn ysgrifennu i ddysgu.' (First Steps, 1997)

Mae iaith ysgrifenedig yn wahanol i iaith lafar oherwydd ei diben yw cyfathrebu dros amser a phellter. O'r cychwyn mae angen i blant ddysgu bod gan ysgrifennu ddiben a chynulleidfa a bod hyn yn dylanwadu ar ei ffurf. Mae angen iddynt ymarfer eu sgiliau trwy ysgrifennu at ddibenion dilys ac ar gyfer cynulleidfaoedd heblaw am eu hathro / athrawes. Gall yr ysgrifennu hyn fod yn gysylltiedig â phrofiadau darllen, siarad a gwrando sy'n codi ym mhob un o feysydd y cwricwlwm.

Mae angen iddynt ddadansoddi testunau a darganfod sut y mae strwythur a fformatau'n amrywio a sut y defnyddir rhai arferion (trefniadaethol a ieithyddol) i greu effaith.

Mae angen iddynt ddarllen amrywiaeth o wahanol fathau o destunau (ffuglen a ffeithiol) a dysgu sut i strwythuro eu hysgrifennu a dewis y ffurf fwyaf priodol er mwyn creu'r effaith orau ar gyfer y gynulleidfa.

# Ysgrifennu mewn gwahanol fathau a ffurfiau

| Ffurf y Testun | Dyddiadur | Adroddiad Papur Newydd | Llythyr Ffurfiol | Darllediad | Cyfweliad | Cylchlythyr | Llythyr anffurfiol | Rysait | Taflen cyfarwyddiadau | Poster | Taflen | Gwerthusiad | Cyflwyniad | Stori | Cerdd | Sgript ddrama | Bywgraffiad / Hunangofiant |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Math o Destun** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Naratif** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Dwyn i gof** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Trefniadol / Cyfarwyddiadol** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Adroddiad** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Trafodaeth** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Esboniad** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Dadl / Perswadiol** | | | | | | | | | | | | | | | | | |

# Proses Addysgu Ysgrifennu

Mae'n bosib y bydd athrawon yn teimlo bod y broses ganlynol yn ddefnyddiol wrth gyflwyno neu estyn ysgrifennu ar fath newydd o destun neu ffurf newydd o gyflwyno.

| Cam | Rhai Strategaethau |
|---|---|
| **Ymgyfarwyddo** | - Arddangos<br>- Darllen ar y cyd<br>- Darllen dan arweiniad |
| **Rhannu Gweithgareddau** | - Darllen<br>- Adfyfyrio<br>- Rhagfynegi<br>- Gwneud nodiadau / marcio'r testun<br>- Dadansoddi modelau mewn grŵp – nodi fframwaith o fewn testun<br>- Rhestrau nodweddion<br>- Dilyniannu |
| **Modelu / Rhannu** | - Rhannu / plotio ar fframiau mawr<br>- Ysgrifennu ar y cyd |
| **Sgaffaldio / Cefnogi** | - Fframiau cynllunio – mapiau meddwl / cydsyniad, diagramau corryn<br>- Fframiau ysgrifennu |
| **Cyfansoddi / Golygu / Adfyfyrio / Cyhoeddi** | - Ysgrifennu mewn parau<br>- Ysgrifennu'n annibynnol<br>- Golygu mewn parau<br>- Ffrindiau beriniadol<br>- Prawf - ddarllen |

# Ysgrifennu wedi'i fodelu

Strategaeth effeithiol iawn yw hon ar gyfer dangos amrywiaeth o brosesau, sgiliau a thechnegau. Mae'n galluogi plant i weld y prosesau y mae ysgrifenwr da yn eu dilyn ac yn dangos y dewisiadau y mae'n rhaid eu gwneud. Mae'r athro / athrawes yn rheoli'r broses gwneud penderfyniadau ond mae'n meddwl yn uchel wrth i bob penderfyniad gael ei wneud, e.e.

- Ble i ddechrau
- Beth i'w ysgrifennu
- Pa eirfa i'w defnyddio
- Sut i addasu, golygu neu amnewid geiriau

## Ysgrifennu ar y Cyd

Ysgrifennu ar y cyd yw pan fydd dosbarth neu grŵp yn cael eu harwain i lunio testun ar y cyd ar ôl gweld oedolyn yn modelu'r broses yn gyntaf. Gall y plant gyfrannu at y testun trwy wneud awgrymiadau ynglŷn a chynnwys, geirfa, strwythur brawddegau etc. Fe allai ddechrau trwy dasgu syniadau a chronni gwybodaeth am bwnc. Gallai'r cam nesaf gynnwys plotio rhai o'r syniadau hyn ar gynllun cyffredin a'u trefnu o fewn strwythur penodol. Yna bydd yr athro / athrawes yn ysgrifennu o'r nodiadau ar y cynllun, gan eu trawsffurio'n frawddegau. Anogir y plant i gyfrannu eu syniadau wrth i'r athro / athrawes ysgrifennu.

## Ysgrifennu'n Annibynnol

Y cam olaf yw pan fydd plant yn ysgrifennu'n annibynnol yn yr un ffurf. Gallant weithio o ffrâm neu gynllun sy'n debyg i'r un a ddefnyddir wrth ysgrifennu ar y cyd. Mae angen sicrhau bod strategaethau cefnogol ar waith er mwyn helpu'r plant i wella ac addasu eu hysgrifennu, e.e. strategaethau i helpu sillafu – waliau geiriau, banciau geiriau, padiau rhoi cynnig arni, thesawrws, matiau / fframiau ysgrifennu etc. Dylid arddangos y gwaith ysgrifennu er mwyn gwella amgylchedd llythrennedd y dosbarth.

# Asesu Ysgrifennu

Dylid defnyddio asesu fel modd o 'symud y plant ymlaen' yn hytrach nag yn grynodol yn unig er mwyn dyrannu lefel. Gall ysgolion gadw ffolderi neu bortffolios unigol gyda samplau o amrywiaeth o waith ysgrifennu ar gyfer pob plentyn a allai fod yn ddefnyddiol ar gyfer asesu.

Mae athrawon yn gyfarwydd ag edrych ar waith ysgrifennu plant yn ofalus er mwyn asesu ac ymateb iddo, ond yn aml iawn mae'r pwyslais ar agweddau technegol yn hytrach nag elfennau dewis neu gynulleidfa. Mae'n bosib anwybyddu agweddau pwysig o ran bwriad yr awdur ac ymwybyddiaeth y darllenydd mewn sawl fformat asesu. Mae'n rhaid ystyried asesu fel cyfrwng o ddathlu llwyddiant, dadansoddi anawsterau a nodi'r camau nesaf yn y broses o ddatblygu sgiliau ysgrifennu'r plant. Mae asesu ysgrifennu yn gymhleth oherwydd defnyddir ysgrifennu fel gwrthrych asesu ac fel modd o asesu.
Mae asesu ysgrifennu yn fodd o ddangos yr hyn y mae'r plant yn ei wybod ym mhob pwnc arall, sy'n golygu bod gwyddoniaeth, hanes….oll yn dibynnu ar ysgrifennu i ddangos yr hyn y mae'r plant wedi ei ddysgu. Felly, mae'n bwysicach fyth sefydlu egwyddorion ac arferion clir wrth asesu ysgrifennu – ac wrth ddefnyddio ysgrifennu i asesu.

Mae'n bwysig symleiddio'r ddau brif fath o asesu: -

1. **Asesu ffurfiannol** – mae'n disgrifio'r broses o ddysgu ac addysgu.
2. **Asesu crynodol** – mae'n digwydd ar ôl y dysgu a'r addysgu.

Gobeithio y bydd y gyfatebiaeth ganlynol yn ychwangeu at ddealltwriaeth o ddiben asesu: -
*Petawn yn ystyried plant fel planhigion….asesu'r planhigion yn gyfansymiol yw'r broses o'u mesur yn unig. Mae'n bosib y byddai'n ddiddorol cymharu a dadansoddi'r mesuriadau, ond ni fyddant yn effeithio ar dŵf y planhigion eu hunain. Asesu ffurfiannol, ar y llaw arall, yw'r un peth â bwydo a dwrhau'r planhigion mewn gardd – a fydd yn effeithio'n uniongyrchol ar eu tŵf.'*

E. Bearne

Er bod y ddau fath o asesu yn angenrheidiol, yr ystyriaeth bwysicaf yw y dylai fod eglurhad ynghylch pryd y dylid defnyddio'r mathau hyn o asesu.

Mae arfer cyfredol o ran asesu Cymraeg yn grynodol yn dueddol o gynnwys y canlynol: -

- profion sylfaenol wrth ddechrau yn yr ysgol.
- lefel asesiadau statudol gan athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol.
- profion statudol ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2.
- profion a gynhyrchwyd yn fasnachol.
- profion ysgol a dosbarth a grëwyd gan athrawon.
- lefelau diwedd y flwyddyn er mwyn i blant unigol weld a ydynt yn cyrraedd targedau amcanol ar gyfer Blwyddyn 6.

Gallai'r enghreifftiau canlynol fod yn ddefnyddiol er mwyn egluro arferion mewn asesiadau ffurfiannol: -

- egluro'r bwriad dysgu neu'r nod / allnod yn y cyfnod cynllunio.
- rhannu'r bwriadau dysgu ar ddechrau gwersi.
- cynnwys y plant wrth hunanwerthuso yn erbyn bwriadau dysgu.
- defnyddio gosod targedau unigol sy'n seiliedig ar gyflawniad blaenorol y plant yn ogytsal ag anelu am y lefel nesaf.
- defnyddio holi priodol.
- canolbwyntio adborth llafar ac ysgrifenedig ar fwriadau dysgu'r gwersi a'r tasgau.
- cynyddu hunanbarch y plant trwy iaith yr ystafell ddosbarth a'r ffyrdd y rhoddir adborth.

Mae'n amlwg mai un o'r agweddau pwysicaf ar asesu yw ei ddylanwad mawr ar gymhelliad a hunanbarch y plant, sy'n cael dylanwad hollbwysig ar ddysgu. Mae angen cynnwys y plant yn ymarferol yn eu dysgu eu hunain a sicrhau eu bod yn teimlo'n hyderus y gallant wella. Mae angen i addysgu ystyried asesu er mwyn cyflawni hyn. Mae'n rhaid i asesu effeithiol gynnwys adborth sy'n ymgorffori'r camau nesaf a sut i'w cymryd.

Mae’n bosib y bydd athrawon yn teimlo bod y dangosyddion cynnydd canlynol yn ddefnyddiol ar gyfer ysgrifennu. Gellir eu defnyddio mewn sawl ffordd: -

- o ran ysgrifennu ar y cyd a sgaffaldio ysgrifennu, nodi targedau grŵp ac unigol, darparu ffocws ar gyfer addysgu grŵp a helpu i gynllunio cynnydd.
- asesu a chofnodi cynnydd plant bob tymor gan ddefnyddio’r disgrifwyr graddedig er mwyn helpu i osod targedau.
- arwain penderfyniadau ynglŷn â sut i ddefnyddio ysgrifennu ym meysydd eraill y cwricwlwm yn ystod y tymor – mae’n bosib y bydd ysgrifennu esboniadau yn amlwg mewn gwyddoniaeth ac mai’r ffordd orau o gyflwyno’r math hwn o destun fydd yn y pwnc hwnnw.
- trosglwyddo cofnodion am ysgrifennu i’r athro / athrawes ddosbarth nesaf ar ddiwedd y flwyddyn.
- cynnal trafodaethau â ffocws iddynt gyda’r plant a rhieni / gofalwyr ynglŷn â chyflawniadau a datblygiadau pellach.

## Defnyddio gosod targedau ar gyfer ysgrifennu

Mae pwyslais cynyddol wedi cael ei roi ar osod targedau ym maes addysg.
Mae’n bwysig ailadrodd y ffaith mai’r gofyniad statudol yw adrodd am lefelau i rieni ar ddiwedd blynyddoedd 2 a 6 yn unig. Mae ymchwil ar raddio plant yn dangos bod plant yn dangos llai o gymhelliad ac yn aml yn digalonni pan fyddant yn cael eu cymharu â’u gilydd yn barhaus.

Mae’r rhan fwyaf o ysgolion yn defnyddio tair elfen gosod targedau: -

- Meintiol – trin rhifau
- Ansoddol – targedau ysgrifenedig unigol
- Heb ei cofnodi

Gall plant ymarfer sgiliau ysgrifennu ansoddol a ‘dargedwyd’ ar lefel ystafell ddosbarth yn hawdd yn ystod eu gwersi. Mae mesur cyrhaeddiad y plentyn yn erbyn ei gyrhaeddiad blaenorol ef / hi wedi cael ei nodi fel ffactor cymhellol iawn. Mae sawl system ar gyfer datblygu targedau ar gardiau, mewn llyfrau etc. Gallai’r canllawiau canlynol fod yn ddefnyddiol: -

- er mwyn cyflawni cynnydd mae angen i’r plant ddeall y targedau.

- mae angen iddynt fod yn weladwy pan fydd y plentyn yn gweithio er mwyn sicrhau bod yr athro / athrawes a'r plentyn yn eu gwybod a'u cofio.
- gellir defnyddio targedau 'iaith y plentyn' i benderfynu ar y targed nesaf – gan ddileu'r lefelau er mwyn osgoi cymharu.

## Targedau ysgrifennu iaith y plentyn -
## Rhestr Wirio Ddatblygol

**Lefel 1: Rwy'n dysgu sut i:**

- ysgrifennu fy llythrennau'n ofalus, fel bod pobl eraill yn gallu eu deall.
- ysgrifennu fy llythrennau yn y cyfeiriad cywir.
- ysgrifennu fy llythrennau yn y maint cywir.
- ysgrifennu llythrennau a geiriau a fydd yn dweud wrth rywun arall beth rwyf yn ei feddwl.
- darllen fy ngwaith ysgrifennu i bobl eraill gan ddefnyddio'r geiriau a'r llythrennau rwyf wedi eu hysgrifennu.
- ysgrifennu storïau, rhestrau a llythrennau.

**Lefel 1: Rwy'n dysgu sut i:**

- ysgrifennu mewn brawddegau byr neu grwpiau o eiriau.
- ysgrifennu fel bod pobl eraill yn gallu darllen fy ngwaith ysgrifennu heb fy help.
- defnyddio atalnod llawn ar ddiwedd rhai brawddegau.
- ysgrifennu storïau, rhestrau a llythrennau.
- ysgrifennu fy llythrennau yn y cyfeiriad cywir y rhan fwyaf o'r amser.
- ysgrifennu fy llythrennau gan ddechrau yn y lle cywir bob tro.

**Lefel 1: Rwy'n dysgu sut i:**

- ysgrifennu mewn brawddegau byr.
- defnyddio geiriau diddorol yn fy ngwaith ysgrifennu.
- sillafu rhai geiriau'n gywir.

- defnyddio priflythyren ar ddechrau brawddeg.
- defnyddio atalnod llawn ar ddiwedd brawddeg.
- ysgrifennu storïau, rhestrau a llythrennau.

**Lefel 2: Rwy'n dysgu sut i:**

- ysgrifennu mwy a defnyddio dau neu dri syniad gwahanol.
- cysylltu syniadau gan ddefnyddio geiriau fel 'a' ac 'yna'
- ysgrifennu stori gyda dechrau, canol a diwedd.
- rhoi priflythyren ac atalnod llawn mewn rhai o'm brawddegau.
- sillafu rhai geiriau syml (fel .....).
- defnyddio sain llythrennau er mwyn fy helpu i ysgrifennu geiriau mwy cymhleth
- meddwl am eiriau eraill y gallaf eu sillafu sy'n swnio fel y gair rwyf am ei sillafu.
- ysgrifennu'n daclus, gan ysgrifennu fy llythrennau ar y llinell.

**Lefel 2: Rwy'n dysgu sut i :**

- ysgrifennu storïau sy'n gwneud synnwyr o'r dechrau i'r diwedd.
- ysgrifennu stori sy'n cynnwys mwy nag un person neu anifail.
- ysgrifennu stori sy'n cynnwys sawl digwyddiad.
- defnyddio geiriau diddorol a gwahanol wrth ysgrifennu.
- defnyddio 'ond', 'yna' a geiriau eraill i uno brawddegau.
- defnyddio priflythrennau ac atalnodau llawn ar gyfer y rhan fwyaf o'm brawddegau.
- sillafu geiriau hawdd rwyf yn eu defnyddio'n aml yn gywir ar fy mhen fy hun.
- defnyddio patrymau llythrennau i'm helpu i sillafu geiriau.
- defnyddio odlau i'm helpu i sillafu geiriau (llaw, rhaw).
- gwneud yn siwr bod *g ng p y* yn cael eu hysgrifennu ar y llinell.
- gwneud yn siwr bod *t ll f ff d dd b* yn dalach na'r llythrennau eraill.
- gwenud yn siwr nad wyf yn rhoi priflythrennau yng nghannol geiriau.

**Lefel 2: Rwy'n dysgu sut i:**

- ddefnyddio priflythrennau ac atalnodau llawn y rhan fwyaf o'r amser
- uno brawddegau mewn ffyrdd gwahanol, e.e. *Roeddwn i wedi blino ond roedd Aled mas yn chwarae pêl.*
- dechrau brawddegau mewn ffyrdd gwahanol, e.e. *Glaw, glaw ond roeddwn i'n hapus.*
- defnyddio geiriau disgrifiadol diddorol (ansoddeiriau) fel 'lori goch enfawr' neu 'noson stormus ddu'.
- sillafu llawer o eiriau'n gywir, a rhai geiriau treigledig.
- defnyddio ychydig o 'iaith storïau', fel *'Un diwrnod cynnes yn yr haf ..... '* neu *'Blynyddoedd maith yn ôl ...... '*
- ysgrifennu stori ar gyfer pobl eraill, e.e. ar gyfer plant Blwyddyn 1
- ysgrifennu llythyr gan ei osod yn briodol.
- ysgrifennu'n glir ac yn daclus trwy'r amser.

**Lefel 3: Rwy'n dysgu sut i:**

- ysgrifennu storïau, adroddiadau a chyfarwyddiadau.
- ysgrifenuu storïau, adroddiadau a chyfarwyddiadau gyda dechrau, canol a diwedd clir.
- gwneud yn siwr bod rhannau fy stori neu fy adroddiad yn dilyn ei gilydd mewn trefn gall.
- defnyddio geiriau sy'n addas ar gyfer 'sefyllfa' fy stori, e.e. ogof dywyll, traeth euraidd, 'Io ho ho', meddai'r prif môr-leidr.
- defnyddio geiriau i gysylltu fy syniadau, fel pryd, 'felly', 'o achos', 'yna'.
- sillafu rhai geiriau hirach yn gywir.
- ysgrifennu storïau gyda digwyddiadau diddorol yn y canol.
- ysgrifennu diwedd diddorol ar gyfer fy storïau.

**Lefel 3: Rwy'n dysgu sut i:**

- ddechrau disgrifio pobl a phethau yn fanwl, e.e. *Roedd yn fenyw denau, dal gyda het las*
- dechrau disgrifio teimladau a meddyliau pobl
- cynnwys ychydig o sgyrsiau yn fy storïau a dechrau defnyddio dyfnodau
- defnyddio marciau cwestiwn ac ebychnodau
- dechrau defnyddio cyflythreniad, e.e. *Mae Ceri'n gwisgo cap coch.*
- uno fy llythrennau
- llunio rhestr fer o'r pethau pwysig mewn stori rwyf wedi ei darllen
- disgrifio ble mae fy stori'n digwydd er mwyn i'r darllenydd ddychmygu'r sefyllfa.

**Lefel 3: Rwy'n dysgu sut i:**

- ddarllen fy ngwaith er mwyn gwirio am gamgymeriadau (prawf-ddarllen).
- newid rhannau o'm gwaith er mwyn ei wella
- disgrifio pam mae rhywun yn gwneud rhywbeth a dweud sut y maent yn teimlo gan ddefnyddio geiriau priodol
- defnyddio hiwmor neu ansicrwydd yn fy storïau
- ysgrifennu mewn sawl ffordd – storïau, rhestrau, cerddi, adroddiadau, llythyrau
- defnyddio'r ffordd gywir o osod fy ngwaith ysgrifennu, e.e. gosod llythyr yn gywir

**Lefel 4: Rwy'n dysgu sut i :**

- wneud yn siŵr bod popeth yn y drefn gywir yn fy storïau a bod dim bylchau
- rheoli cyflymder fy storïau'n dda
- dangos perthynas ddiddorol rhwng y cymeriadau, gan ddweud sut y maen nhw'n teimlo ac yn ymateb
- dangos pa fath o bobl yw fy nghymeriadau trwy'r hyn y maent yn ei ddweud a'i wneud
- bod yn ymwybodol o ddarllenwyr fy stori, trwy gyfeirio sylwadau atynt
- defnyddio paragraffau i wahanu pynciau neu ddigwyddiadau newydd
- defnyddio comas pan fydd mwy nag un ymadrodd neu mewn rhestr
- defnyddio dyfynodau, marciau cwestiwn ac ebychnodau'n briodol bob amser
- defnyddio geirfa a ddewiswyd yn dda, gan gynnwys cysyllteiriau ar gyfer trefn a phwyslais, e.e. *ac yn sydyn – Aaaaaaaa!*
- dechrau defnyddio adferfau, e.e. *'Roedd e'n siarad yn dawel, dawel'*

## Plant yn gwerthuso eu gwaith ysgrifennu eu hunain.

Gall gwerthuso fod yn broses gadarnhaol a darparu sylfaen ar gyfer datblygu hyder yr ysgrifennydd. Ond mae angen i'r plant werthuso eu gwaith ysgrifennu mewn cyd-destun rhannu er mwyn eu galluogi i ddysgu sut i werthuso a datblygu uwchiaith (datblygu ffordd o siarad am iaith). Mae angen i'r plant gael arddangosiadau a modelau er mwyn eu helpu i ddysgu sut i wneud sylwadau. Mae helpu'r plant i werthuso eu gwaith eu hunain yn golygu darparu: -

- modelau, enghreifftiau ac arddangosiadau gan yr athro / athrawes o gynllunio a drafftio, golygu, prawf-ddarllen, ffyrdd o ymateb.
- fframweithiau er mwyn eu helpu i ofyn cwestiynau am ddarn penodol o destun.
- datganiadau o'r bwriad dysgu a meini prawf ar gyfer asesu.
- cyfleoedd i drafod eu gwaith ysgrifennu gyda'r athro / athrawes a chytuno ar dargedau ar gyfer gwella.

# Gair o Brofiad: Wendy Body

## Gwella Gwaith Ein Plant

## Ysgrifennu Naratif: Pwyntiau er Gwella

Mae ysgrifenwyr yn dysgu trwy roi eu gwaith dan chwyddwydr ac ystyried y canlynol:

- pa rannau oedd yn llwyddiannus a pham felly?
- pa rannau sy ddim yn gweithio a pham felly?
- pa frawddegau sy'n effeithiol a pham?
- pa frawddegau neu eiriau y gellir gwella arnynt?
- a yw'r dechrau / cyflwyniad yn llwyddiannus ac a yw'n denu'r darllenwr i ddarllen ymhellach.
- a yw'r diwedd yn llwyddiannus – ydy e'n bodloni'r darllenwr? Ydy e'n gadael cwestiynau heb eu hateb? Ydy'r awdur yn cael y maen i'r wal neu datrys problemau yn rhy gyflym ac yn rhy hawdd? Ai Diweddglo Diog a geir?
- ydy'r cymeriadau yn gredadwy neu beidio?
- ydy'r lleoliad yn eglur neu beidio?

I wneud hyn mae angen **AMSER** ac **ARWEINIAD** arnynt

**"Camau" ysgrifennu**

| |
|---|
| **Modelu Arddull:**<br>Yr athro / athrawes yn ysgrifennu ac yn rhoi sylwadau ar y broses. Byddant yn canolbwyntio'n arbennig ar eitemau arbennig, e.e. strategaethau sillafu neu nodweddion math arbennig o destun. |

| |
|---|
| **Ysgrifennu ar y cyd:**<br>Yr athro / athrawes yn arddangos sgiliau, strategaethau a nodweddion iaith arbennig wrth iddo fe / iddi hi ysgrifennu, adolygu a golygu cyfraniadau a chyfansoddiadau'r plant. |

**Ysgrifennu dan Arweiniad:**
Yr athro / athrawes yn gweithio'n agos gyda grŵp o blant, gan roi adborth manwl a chefnogi eu hysgrifennu, gan ganolbwyntio ar nodweddion arbennig y *genre* a ddefnyddiant. Efallai y bydd plant yn ysgrifennu ar y cyd neu'n defnyddio 'fframwaith', e.e. ffrâm ysgrifennu.

**Ysgrifennu'n Annibynnol:**
Plant yn gweithio'n annibynnol / ar y cyd, gan ddefnyddio profiadau blaenorol. Ceir cyfle wedyn yn ddiweddarach i drafod a rhannu.

**Enghreifftiau o Ysgrifennu ar y Cyd yn seiliedig ar Destunau**

- Cuddio'r testun, edrych ar y lluniau. Ysgrifennu eich fersiwn eich hun.
- Newid y testun: defnyddio strwythur ac iaith y testun gyda rhai newidiadau, e.e. enw / lleoliad / cymeriad i ysgrifennu fersiwn newydd.
- Creu eich rhigymau a'ch cerddi eich hun.
- Creu swigod geiriau neu swigod meddwl i'r cymeriadau yn y lluniau.
- Defnyddio'r wybodaeth a geir yn y testun i lunio portread o gymeriad.
- Trafod a rhestru syniadau am ddilyniant i'r stori.
- Ailysgrifennu rhan gyntaf y stori fel dyddiadur cymeriad
- Llythyrau i'r cymeriadau neu rhwng y cymeriadau neu lythyrau i'r awdur.
- Rhestrau o resymau o blaid ac yn erbyn dull o weithredu.
- Ystyried sut mae'r awdur yn defnyddio disgrifiadau i greu awyrgylch; ysgrifennu paragraff i ddarlunio awyrgylch gwahanol.
- Ailysgrifennu rhan o'r stori ar gyfer cynulledifa iau.
- Ysgrifennu gwybodaeth ychwanegol ar agwedd arbennig o lyfr ffeithiol.
- Ad-drefnu neu gyflwyno gwybodaeth mewn ffordd wahanol neu ysgrifennu crynodebau.

# Cyngor i'r Ysgrifenwyr yn ein dosbarthiadau

- Wrth i ti ysgrifennu, darllen dy waith yn dy ben.
- Mae'n bwysig i ti 'fyw' yn y testun a gofyn cwestiynau i ti dy hun –
  Beth fyddet ti'n ei wneud nesa'?
  Sut fyddet ti'n teimlo?
  Beth fyddet ti'n ddweud?
- Yn gynnar yn y broses ysgrifennu, meddylia am y diwedd: Beth yw trywydd y stori? Sut ydw i'n mynd i gyrraedd y diweddglo yna?
- Cadwa restr o wendidau mewn cof wrth ddarllen trwy dy waith.
- Cofia – nid yw ysgrifennu da yn digwydd dros nos – mae'n rhaid i ti weithio'n galed.

**Diweddglo Diog**

- *Dihunais i ddarganfod mai breuddwyd oedd y cyfan.*
- *Felly aeth pawb adref a mynd i'r gwely.*
- *Felly aeth pawb adref a chael te / cinio / brecwast.*
- *A dyna ddiwedd yr antur.*
- *Y DIWEDD.*

Os oes rhaid i ti **DDWEUD** wrth dy ddarllenwr mai dyna'r diwedd, yna mwy na thebyg nid yw diwedd dy stori yn dda iawn!

**Ffeindio dy wendidau!**

- Wyt ti'n osgoi defnyddio geiriau na fedri di eu sillafu?
- Wyt ti'n ysgrifennu fel arfer mewn brawddegau syml, gweddol fyr?
- Wyt ti'n anghofio atalnodi yn aml?
- Wyt ti'n cael problem ysgrifennu mewn paragraffau?
- Wyt ti'n aml yn anghofio darllen trwy dy waith wrth i ti ysgrifennu?
- Mae pawb yn methu meddwl am syniadau ar adegau ond a yw hyn yn digwydd yn aml i ti?
- Wyt ti'n ei chael yn anodd cael dechrau da i dy storïau?

- Wyt ti'n blino cyn dod i'r diwedd ac felly'n gorffen y stori'n gyflym?
- Wyt ti'n ysgrifennu am yr un pethau dro ar ôl tro gan ddefnyddio cymeriadau a lleoliadau tebyg?
- Wyt ti'n treulio cyn lleied o amser â phosib yn adolygu dy waith?

# Nodweddion a Stwythur Stori

Beth sy'n gyffredin i bob stori?

**Ar gyfer CA1:**

- cymeriadau – pobl, anifeiliad, pethau dychmygol.
- mannau lle mae'r stori'n digwydd *(y lleoliad)*.
- pryd bydd popeth yn digwydd.
- dechrau fel man cychwyn i'r stori.
- canol pan fydd popeth yn digwydd.
- diweddglo pan fydd y stori'n dod i ben a phopeth yn iawn wedi'r cyfan.

**Ar gyfer CA2:**

- lleoliadau daearyddol, tymhorol, diwylliannol.
- prif gymeriadau a chymeriadau eilaidd.
- naratif person cyntaf neu drydydd person.
- cychwyn digwyddiad – *Beth yw'r broblem? Beth sy'n mynd o'i le? Beth sy wrth wraidd y digwyddiad?*
- ymateb – *Beth sy'n digwydd oherwydd hyn? (achos ac effaith)*.
- efallai y bydd patrwm gweithredu – ymateb yn cael ei ailadrodd.
- uchafbwynt.
- datrysiad – *Sut mae'r broblem yn cael ei datrys? Beth sy'n sicrhau bod popeth yn iawn yn y diwedd? Allai'r stori fod wedi gorffen yn wahanol?*
- neges neu wers foesol – *Ydy'r prif gymeriad yn dysgu rhywbeth neu'n newid mewn unrhyw ffordd? Ddylai'r darllenydd ddysgu rhywbeth?*

**Cymeriadau**

**Meddwl am y canlynol:**

*Sut mae'r person yn edrych yn gorfforol* *Oedran*

*Personoliaeth* *Arwr neu Ddihiryn?*

- Mae gan bawb yr un nodweddion corfforol sylfaenol ac eto mae pawb yn wahanol. Beth sy'n arbennig am y cymeriad hwn?
- Ydw i eisiau dweud popeth wrth y darllenydd ar unwaith neu gyflwyno rhagor o fanylion wrth i'r stori ddatblygu?
  - *Rhedodd fel y gwynt ar ei goesau bach tew.*
- Beth fyddwn i'n ei wneud / ei ddweud / ei feddwl / ei deimlo petawn yn y sefyllfa hon? Sut byddwn i'n symud / ymateb / siarad?
- Alla'i **DDANGOS** i'r darllenydd beth mae fy nghymeriad yn ei deimlo yn hytrach na'i ddweud?
  - *Teimlodd ei chalon yn dechrau curo'n fwy cyflym.*
  - *Ceisodd weiddi ond roedd wedi colli ei wynt yn lân.*
- Alla i ddefnyddio metaffor / trosiad neu gyffelybiaeth i wneud disgrifiadau'n fwy byw?
  - *Roedd yn cysgu fel mochyn. Roedd y nos yn ddu fel bol buwch.*
- Ydy'n well ychwanegu manylion a disgrifiadau ar ôl y drafft cyntaf?
  Beth ydw i **WEDI'i** ddweud wrth y darllenydd?
  Beth **ALLWN** i fod wedi'i ddweud wrth y darllenydd?

**Rhestr Wirio Cymeriad**

- Oedran
- Rhyw
- Lliw
- Nodweddion yr wyneb
- Gwallt
- Maint corff a thaldra
- Dillad
- Golwg gyffredinol, e.e. bach ac anniben
- Sut mae e / hi yn siarad
- Sut mae ef / hi yn symud
- Teulu / cefndir
- Personoliaeth
- Hoff bethau / cas bethau, e.e diddordebau
- Arwr / dihiryn – yn dda i gyd? Yn ddrwg i gyd?
- Gwaith? Ysgol?
- Prif gymeriad / cymeriad eilaidd

**Rhestr Wirio Lleoliadau**

- Gorffennol / presennol / dyfodol?
- Gwir neu ffantasi?
- Ble mae'r prif leoliad?
- Pa mor hanfodol yw'r lleoliad i'r stori?
- Fydd y lleoliad yn newid? Pam mor aml?
- Nodweddion amlwg y lle?
- Pa adeg o'r dydd / nos?
- Ydy hyn yn effeithio ar ymddangosiad y lleoliad?
- Pa fanylion a ellir eu cynnwys i wneud y stori'n "fyw"?
- Fydd y lleoliad yn effeithio ar sut mae'r cymeriadau yn symud / ymddwyn?
- Oes seiniau / aroglau / golygfeydd arbennig sy'n gysylltiedig â'r lleoliad?
- Fyddan nhw'n newid mewn tywydd gwahanol?
- Yn gyfarwydd neu'n anghyfarwydd i'r cymeriadau?

**Cwestiynau Allweddol!**

- Ydw i wedi creu cymeriadau go iawn a chredadwy?
- Fydd fy narllenwyr yn poeni am yr hyn fydd yn digwydd i'm cymeriad?
- Ar ddiwedd y stori, fyddan nhw'n teimlo iddynt gwrdd â ffrind newydd ac yn ystyried y person fel ffrind?
- Os bydd fy narllenwyr yn gofyn cwestiynau i mi am fy nghymeriad, fydda' i'n gallu ateb y rhain?
- Ydw i wedi creu lleoliad go iawn a chredadwy?
- Fydd fy narllenwyr yn gallu dychmygu sut le yw e?

Ceisiwch atgoffa'r plant am y canlynol:

Mae storïau da fel brechdanau da ….

Y **Cymeriadau** a'r **Lleoliad** yw'r ddwy dafell o fara
Y **Gweithredoedd** yw'r llenwad.

I wneud brechdan go iawn mae'n rhaid i chi gael y cyfan …. Nid oes unrhyw werth cael y llenwad heb y bara na'r bara heb y llenwad!

**I grynhoi ….**

- Dylai plant glywed amrywiaeth eang o wahanol fathau o lyfrau ffuglen a ffeithiol, a dylent ddarllen y rhain eu hunain hefyd.
- Dylai athrawon helpu'r plant i adnabod y dulliau gwahanol mae awdurdon yn eu defnyddio o drefnu eu hysgrifennu a'i strwythuro i'w diben.
- Dylai plant ddeall y prosesau ysgrifennu a chael digon o gyfle i arbrofi ac archwilio gydag amrywiaeth o *genres*.
- Mae angen adborth ar y plant er mwyn datblygu'n awduron hunan-feirniadol.
- Mae plant yn dysgu orau am nodweddion gwahanol *geners* a phrosesau trwy i'r athrawon fodelu, sylwebu a thrafod.
- Os bydd plant yn dysgu dibenion a stwythurau gwahanol *genres*, gallant ddewis ffurfiau priodol ar gyfer eu gwaith eu hunain.

# Sillafu

Mae sillafu yn fedr y mae angen ei ddysgu mewn ffordd systematig gyda chyd-destun. Mae'n rhan o'r broses ddysgu ysgrifennu ddatblygiadol. Mae angen cyfleoedd cyson i ysgrifennu at ddiben ar blant, a dylid eu hannog i ddefnyddio geirfa newydd a diddorol. Dylid gweld gwallau yng ngwaith ysgrifenedig plant fel arwyddbyst datblygiadol a'u defnyddio i benderfynu'r ffocws dysgu.

Mae angen dysgu amrediad o strategaethau i blant er mwyn datblygu rhagor o annibyniaeth wrth sillafu. Mae'r rhieny'n cynnwys: -

- datblygu sgiliau gweledol i adnabod llinynnau a phatrymau cyffredin yn ogystal â nodweddion allweddol eraill fel siâp a hyd y gair.
- defnyddio sillafiadau cyfarwydd fel sail i sillafu geiriau eraill gyda sain debyg, h.y. sillafu trwy gyfatebiaeth – bydd, dydd, sydd.
- defnyddio sillafiadau cyfarwydd ar gyfer geiriau sydd ag ystyron perthynol, e.g. cwmwl, cymylau, cymylog, h.y. ymwybyddiaeth o ystyr a diffiniadau
- cymhwyso gwybodaeth am reolau sillafu ynghyd ag eithriadau.
- ymarfer sillafiadau newydd yn gyson trwy ddefnyddio'r strategaeth 'edrych, dweud, gorchuddio, ysgrifennu, gwirio'.
- defnyddio waliau geiriau i gynorthwyo ysgrifennu.
- defnyddio pad 'rhowch gynnig' wrth ysgrifennu.


Er mwyn prawf-ddarllen a gwirio eu gwaith eu hunain dylai plant gael eu dysgu i: -

- ddefnyddio geiriaduron
- chwilio waliau geiriau / banciau geiriau
- defnyddio pecynnau gwirio sillafu TGCh
- defnyddio dyddiadur sillafu

**Defnyddio pad 'rhowch gynnig'**

Wrth i blant ysgrifennu maen nhw'n gallu rhoi cynnig ar eiriau nad ydynt yn sicr o'u sillafiad ar bad "Rhowch gynnig". Mae modd defnyddio byrddau gwyn, post-its, neu badiau papur sgrap, ond fe ddylen nhw fod yn bersonol ac yn dafladwy.

**Pad 'Rhowch Gynnig'**



**Defnyddio Dyddiadur Sillafu**

Swyddogaeth dyddiadur yw unigoli sillafu er mwyn cynorthwyo anghenion ysgrifennu plentyn. Mae modd ei ddefnyddio'n effeithiol i estyn a mwynhau ysgrifennu annibynnol. Mae modd hefyd iddo roi'r gallu i blant ddysgu geiriau 'lletchwith' sy'n cael eu camsillafu'n gyffredin, neu eiriau pwnc penodol o feysydd eraill y cwricwlwm.

Cofnodir geiriau dethol yn nyddiaduron unigol y plant a gosodir amser ar wahân i ymarfer ac i ddysgu'r geiriau trwy ddefnyddio strategaethau gwahanol. Mae plant hŷn yn gallu amlinellu'r strategaethau sy'n fwyaf defnyddiol iddynt. Ar ddiwedd sesiwn, mae plant yn gallu gweithio gyda phartner i brofi ei gilydd. Dylid defnyddio dyddiaduron mewn ffordd hyblyg a'u haddasu i gwrdd ag anghenion unigolion a'r ysgol.

Gallai'r canlynol fod yn ddefnyddiol fel awgrymiadau:

**CA1**

| Geiriau Lletchwith | 1 | 2 | 3 | T |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

**Edrych, Dweud, Gorchuddio, Ysgrifennu, Gwirio**

| Geiriau Lletchwith | Awgrymiadau Defnyddiol | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | T |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |

**Edrych, Dweud, Gorchuddio, Ysgrifennu, Gwirio**

| |
|---|
| **Ffocws sillafu'r dosbarth .....** |
| **Fy archwiliad i .....** |
| **Fe wnes i ddarganfod .....** |

# Cyfleoedd i ddysgu sillafu yn ystod amser llythrenedd

**Sesiwn Lawn**
- Cyflwyno canlyniadau'r archwiliad

**Darllen ar y Cyd**
- Darganfod patrymau ac enghreifftiau
- Cofio patrymau sillafu a ddysgwyd yn flaenorol
- Geiriau diddorol achlysurol

**Ysgrifennu ar y Cyd**
- Modelu strategaethau i adeiladu geiriau anhysbys

**Ysgrifennu Dan Arweiniad**
- Cymhwyso strategaeth i eiriau anghyfarwydd
- Cyfarwyddyd personol ar broblemau sillafu penodol

**Gwaith Annibynnol**
- Archwiliadau mewn grŵp
- Defnyddio strategaethau hunangymorth, geiriaduron ac ati.
- Gêmau a gweithgareddau sillafu

**Lefel Gair**
- Dysgu rheolau sillafu
- Archwilio patrymau sillafu
- Dysgu strategaethau sillafu

# Gair o Gyngor ..... o'r Barri .....

## *Manylion Polisi Sillafu*

***Nod***

*Ein nod yn Ysgol Sant Baruc yw:*

- *sicrhau bod y disgyblion yn medru sillafu geiriau allweddol CA1 a CA2 yn gywir yn Gymraeg a Saesneg erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol.*
- *ymestyn eu geirfa a dysgu sillafu geiriau anghyfarwydd.*
- *annog y disgyblion i ddeall bod arnyn nhw gyfrifioldeb am gywirdeb sillafu wrth gyflwyno gwaith ysgrifenedig.*

***Amcanion Cyffredinol***

- *canmol disgyblion am eu hymdrechion.*
- *ynganu synau geiriau yn gywir.*
- *datblygu gwybodaeth ffonetig.*
- *gweld gwahaniaeth a thebygrwydd geiriau.*
- *clywed gwahaniaeth a thebygrwydd geiriau.*
- *cofio patrwm gweladwy geiriau.*
- *ffurfio ac ymuno llythrennau yn gywir a rhwyddineb (gweler y polisi llawysgrifen).*

***Amcanion Penodol***

- *defnyddio geiriadur a thesawrws.*
- *defnyddio banc geiriau yn CA1.*
- *defnyddio rhestrau geiriau yn CA2.*
- *gwersi penodol ar agweddau sillafu.*
- *dewis a dethol gwaith sillafu o wahanol ffynonnellau (Strategaeth – Geiriau Allweddol / Aml eiriau, Sillafu Sarff, Cynllun Sillafu Dinbych, Spelling Made Easy a'r Key Words).*
- *pwysleisio cywirdeb gair newydd mewn gwersi heblaw gwersi iaith.*

- *dysgu'r fformiwla* ***EDRYCH, CUDDIO, YSGRIFENNU, GWIRIO***

  ***LOOK, COVER, WRITE, CHECK***
- *profi sillafu yn rheolaidd o fewn y dosbarth.*
- *ymarferion arddweud (Spelling Made Easy).*
- *chwarae gêmau sillafu ar y cyfrifiadur (Starspell).*
- *chwarae gêmau sillafu yn y dosbarth (Stile).*

## *Cwricwlwm Cymreig*

*Tarddiad geiriau Cymraeg.*

## *Technoleg Gwybodaeth*

*Gwirio gwaith ar 'Spellcheck'.*

*Defnyddio CD Roms sillafu.*

# Llawysgrifen

- Mae ‘na bolisiau llawysgrifen rif y gwlith.
- Y farn gyffredinol yw y dylid datblygu sgiliau llawysgrifen pob unigolyn yn ei amser ei hun.
- Myn rhai ysgolion bod angen gosod targedau tynnach a sicrhau defnydd o lawysgrifen ‘glwm, gyson a dealladwy’ erbyn diwedd Blwyddyn 3.
- Sylwer ar y Polisi Enghreifftiol a ganlyn.
- Ar ddiwedd y dydd rhaid i athrawon ddiwygio ac addasu eu hathroniaeth a’u polisi yn ôl y disgyblion sydd yn eu gofal.

# Polisi Llawysgrifen

Dilynir cynllun llawysgrifen yr ysgol a ddiwygiwyd ym Mehefin 2004.

**Cyfrwng yr ysgrifennu:**

Pensil yw'r cyfrwng ysgrifennu gorau i'r plant ar gyfer eu holl gwaith ysgrifenedig trwy Adran y Babanod.

**Pam pensil?**

- Mae'n hawdd cael gwared ar gamgymeriadau heb ddifetha'r ddarn o waith.
- Mae'n galluogi'r plentyn i ysgrifennu'n fwy rhugl a hyderus heb boeni am wneud camgymeriadau
- 'Dyw pensil ddim yn cael ei dynnu ar hyd y papur os yw'r plentyn yn tynnu llaw drosto wrth iddo ysgrifennu (hyn yn digwydd yn aml gyda phlant ifanc sy'n dysgu'r grefft o ysgrifennu a gydag ysgrifenwyr llaw chwith).

**Datblygiad y llawysgrifen:**

Yn y Blynyddoedd Cynnar cyflwynir ac ymarferir sgiliau trin pensil yn ôl patrymau sylfaenol ysgrifennu yn gyntaf. Eir ymlaen wedyn i ymarfer ysgrifennu holl lythrennau'r wyddor wrth ysgrifennu dros ysgrifen yr athrawes yn gyntaf, ac yna ymlaen i'w wneud yn annibynnol wrth iddynt aeddfedu a dod yn fwy hyderus.

Yng Nghyfnod Allweddol Un bydd y plant yn ymarfer eu sgiliau llawysgrifen yn gyson er mwyn ceisio sicrhau y byddant yn ffurfio llythrennau mawr a bach yn y ffordd gywir ac yn ddarllenadwy. Pan yn cyflawni eu tasgau ysgrifenedig bydd mwy a mwy o gysondeb ym maint eu llythrennau.

Yng Nghyfnod Allweddol Dau bydd llawer iawn o ddatblygiad yn llawysgrifen y plant rhwng blynyddoedd Tri a Chwech.

Ym Mlwyddyn Tri dylid ceisio sicrhau bod unrhyw anhaswter trin pensil a / neu ffurfio llythrennau sy'n parhau yn cael eu dileu er mwyn gwneud y trosglwyddiad i ysgrifennu'n ddwbwl yn haws. Mae Blwyddyn Tri yn flwyddyn bwysig i estyn rhuglder, cyflymdra a hyder y plant yn eu llawysgrifen cyn mynd ati i ysgrifennu'n ddwbwl. Dylid cyflwyno a dechrau ymarfer ysgrifen glwm ym Mlwyddyn Tri os yw safon llawysgrifen y plant yn dangos eu bod yn barod i gymryd y cam yma.

Ym Mlwyddyn Pedwar dylai'r plant ddod i ddefnyddio llawysgrifen glwm ar gyfer eu tasgau ysgrifenedig yn fwyfwy rhwydd, taclus ac annibynnol. Erbyn diwedd y flwyddyn dylai'r plant gynhyrchu llawysgrifen glwm, gyson a dealladwy.

Ym Mlwyddyn Pump a Chwech dylai rhuglder a hyder ysgrifennu'r plant gynyddu'n gyson. Dylent, erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, fod wedi datblygu arddull llawysgrifen bersonol ac unigol yn seiliedig ar yr arweiniad a roddwyd iddynt ar hyd eu gyrfa ddysgol. Bydd eu llawysgrifen yn glir, yn glwm ac yn rhugl. Lle bo hynny'n briodol, byddant yn addasu eu llawysgrifen i bwrpas, e.e. printio ar gyfer labelu; ysgrifennu'n fras a thrwm i ddenu sylw at air neu frawddeg mewn stori.

# Llawysgrifen

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn disgwyl i blant greu llawysgrifen glir a darllenadwy er mwyn gwella eu hysgrifennu ym mhob maes o'r cwricwlwm.

Daw ffurfio llythrennau'n gywir yn awtomatig gydag ymarfer, Fodd bynnag, mae'n sgìl ar wahân ac ni ddylai ei feistroli amharu ar greu na chreadigrwydd na dylanwadu'n amhriodol ar y broses ysgrifennu.

Nodweddir llawysgrifen dda gan sawl arwedd: -


- Cyfeirioldeb - mae angen i blant ddysgu ysgrifennu o'r chwith i'r dde ac o frig y dudalen i waelod y dudalen.
- Lleoli – rhaid i lythrennau gael eu ffurfio gan ddefnyddio'r pwyntiau dechrau a gorffen cywir. Dylai'r esgynyddion a'r disgynyddion fod yn gyfochrog ac yn gymesur.
- Maint – dylai pob llythyren mewn teulu o lythrennau fod yn perthyn o ran uchder a lled ynghyd â siâp. Gellir dysgu llythrennau mewn teuluoedd, e.e. c o a.

Pethau i'w hystyried wrth fformiwleiddio Polisi Llawysgrifen yr Ysgol


- Cysondeb arddull ac eglurdeb y dull dysgu drwy yr ysgol.
- Darparu papur ac offer ysgrifennu sy'n addas ar gyfer oedran a chyfnod datblygiad y plentyn ac sy'n caniatâu dilyniant a chynnydd.
- Cyd-destun y cytunwyd arnynt ar gyfer ymarfer llawysgrifen, e.e. llinynnau llythrennau, detholiadau barddoniaeth, arddangosiadau etc.
- Dysgu llawysgrifen yn uniongyrchol ym mhob cyfnod fel sy'n addas, e.e. patrymau, llythrennau, cysylltiadau priodol.
- Ystafelloedd dosbarth llawn iaith gydag enghreifftiau o wahanol ddyfeisiau ac arddulliau cyflwyno ar gyfer effeithiau a chynulleidfaeodd gwahanol.
- Darparu gwybodaeth i rieni ar ddull dysgu llawysgrifen yr ysgol yn enwedig ar gyfer y cyfnodau cynharaf.
- Ystyried sut y caiff cynnydd ei fonitro a'i asesu.

Ystyriaethau arbennig ar gyfer plant sy'n ysgrifennu â'u llaw chwith neu blant sy'n cael trafferthion gafael mewn pensil / beiro.


- Gall beiros / pensiliau treipod a gafaelion rwber trionglog gynorthwyo rhai plant.
- Gall fod angen cymorth ar blant llaw chiwth wrth ddatblygu gafaeliad addas. Rhaid iddynt ganfod cyfuniad cyfforddus o safle'r papur, lleoliad y llaw a'u gafael yn y beiro.



Llaw islaw y llinell




Llaw uwchben y llinell




Dull arall o ddal y beiro


- Mae angen dangos i'r plant y man gorau o osod y papur fel nad yw'r llaw ysgrifennu yn cael ei thynnu ar draws y corff. Ar gyfer plentyn llaw dde dylai'r papur fod i'r dde o ganol y corff, ar gyfer plant llaw chwith dylai fod i'r chwith.



Llaw chwith    Llaw dde



Llaw chwith
(y naill ogwydd neu'r llall)



Llaw dde

- Er cyfforddusrwydd, dylai plant llaw chwith eistedd i'r chwith o blant llaw dde.

# Datblygu Llawysgrifen

Yn ystod y blynyddoedd cynnar mae angen amrywiaeth o weithgareddau addas ar blant i'w cynorthwyo wrth ddatblygu sgiliau symud llwyr a manwl.
Mae arnynt angen mowldio, torri, bwydo, adeiladu a chysylltu yngyd â pheintio, tynnu llun, dargopïo a chwblhau patrymau. Mae'r broses llawysgrifen yn cynnwys trosysgrifo (dargopïo) ac yna copïo. Gellir tynnu llythrennau yn yr awyr, mewn tywod, â phaent neu ar fwrdd gwyn â phinnau trwchus.

Er nad yw'n addas dadlau dros gynllun masnachol penodol, gall ysgolion ei chael yn ddefnyddiol mabwysiadu'r dull systematig canlynol.

Mae angen cyfleoedd ar blant fel a ganlyn: -

**Derbyn**

- defnyddio gafaeliad pensil cyfforddus ac effeithiol.
- creu llinell dan reolaeth, sy'n cefnogi ffurfio llythrennau.
- ysgrifennu llythrennau gan ddefnyddio'r gyfres symudiadau cywir (trefn gywir).
- ffurfio llythrennau bach yn gywir mewn llawysgrifen a fydd yn hawdd ei chlymu yn ddiweddarach, h.y. defnyddio clymau.
- ffurfio priflythrennau.
- ymarfer llawysgrifen ar y cyd â chyflwyno patrymau ffonig a sillafu.

**Blwyddyn 1**

- ymarfer llawysgrifen ar y cyd â sillafu ac ysgrifennu anibynnol, gan sicrhau lleoli, ffurfio a chyfran llythrennau cywir mewn arddull sy'n gwneud llawysgrifen yn hawdd ei chlymu yn ddiweddarach.
- defnyddio ac ymarfer clymu llythrennau syml
    - clymau lletraws i lythrennau heb esgynyddion, e.e ai, ar, un.
    - clymau llorweddol i lythrennau heb esgynyddion, e.e yw, ŵy, awr.

**Blwyddyn 2**

- defnyddio ac ymarfer cysylltiadau syml i lythyren.
  - clymau lletraws i lythrennau heb esgynyddion, e.e. ai, ar, un.
  - clymau llorweddol i lythrennau heb esgynyddion, e.e. yw, ŵy, awr.
- clymau lletraws i lythrennau gydag esgynyddion, e.e. at, ti, fi.
- clymau llorweddol i lythrennau gydag esgynyddion, e.e. ôl, wyt, nid.
- sicrhau cysondeb o ran maint a chymesuredd llythrennau a'r bylchau rhwng llythrennau a geiriau.

**Blwyddyn 3**

- cyflymu llawysgrifen, llithrigrwydd a darllenadwydd drwy ymarfer.
- datblygu eu harddull eu hunain.
- defnyddio llawysgifen glwm ar gyfer pob darn ysgrifenedig heblaw bod angen ffurfiau arbennig.

**Blwyddyn 4 / 5**

Gwybod pryd i ddefnyddio: -

- llawysgrifen glir a thaclus ar gyfer gwaith sydd i'w gyflwyno.
- ysgrifennu anffurfiol ar gyfer gwaith anffurfiol dyddiol, nodiadau etc.
- sicrhau cysondeb o ran maint a chymesuredd llythrennau a bylchau rhwng llythrennau a geiriau.
- amrywiaeth o sgiliau cyflwyno, e.e. llawysgrifen fras ar gyfer penawdau, is-benawdau a labeli, priflythrennau ar gyfer posteri, tudalennau blaen, penawdau.

# Y Chwe Math o Destun

**Dwyn i gof**

**Adroddiad**

**Esbonio**

**Cyfarwyddiadol**

**Perswadio**

**Trafod**

**Mewn rhai dogfennau cyfeirir at y testun 'cyfarwyddiadol / trefniadol' ac 'Egluro' yn lle 'Esbonio'**

# Testun Dwyn i Gof

- ail-adrodd digwyddiadau neu brofiadau mewn trefn gronolegol
- medru bod yn: adroddiad o ymweliad neu weithgaredd, dyddiadur, erthygl ar gyfer cylchgrawn, bywgraffiad, hunangofiant, portread, llythyr, adroddiad papur newydd a.y.y.b
- medru cynnwys ysgrifennu o safbwynt bersonol neu amhersonol.
- **nodweddion iaith**: amser gorffennol, geiriau treigl amser, y person cyntaf neu'r ail berson, enwau pobl, lleoedd, pethau

# Testun Esboniadol

- rhoi cyfarwyddiadau
- egluro sefyllfa, digwyddiadau neu broses
- egluro pam neu sut mae rhywbeth yn digwydd
- achos ac effaith
- yn aml mewn trefn gronolegol
- gwelir testun esboniadol mewn: rhannau o lyfr ffeithiol *(e.e. daearyddiaeth),* gwerslyfr gwyddoniaeth, adroddiad gwyddonol, rhannau o wyddionadur, cyfarwyddiadau sut i weithio peiriant *(e.e. fideo, teledu)*
- **nodweddion iaith**: yr amser presennol, iaith achosol *(oherwydd, felly, os....yna...., y rheswm bod ....)* cysyllteiriau trefn, iaith amhersonol, geirfa dechnegol.

# Testun Trafod

- Cyflwyno dadleuon a gwybodaeth o wahanol safbwyntiau
- 'o blaid' ac 'yn erbyn'
- **nodweddion iaith**: yr amser presennol, enwau diriaethol *(gwirionedd, cyfiawnder, ateb ....)*, y trydedd person, cysyllteiriau *(oherwydd, felly, beth bynnag)*

# Testun Perswadiol

- cyflwyno dadl dros safbwynt arbennig
- gellir cael un neu fwy o safbwyntiau – elfen o 'hard sell'
- medru bod yn: hysbyseb, catalog, erthygl cylchgrawn, pamffled, poster, llyfryn gwyliau, broliant llyfr, llythyr at olygydd
- **nodweddion iaith**: amser presennol, tactegau perswadio, cysyllteiriau rhesymegol *(oherwydd, fel canlyniad ....)*, cysyllteiriau yn dangos y symud o un pwynt i'r llall *(i ddechrau, yn ail....)*

# Testun Cyfarwyddiadol

- egluro sut i wneud rhywbeth
- mewn trefn gronolegol
- medru bod yn: rysait, rheolau, cyfarwyddiadau a.y.y.b
- nodweddion iaith: iaith syml a chlir, berfau yn y gorchmynol (cymysgwch, gwasgwch ....), yr ail berson, manylion hanfodol yn unig, cysyllteiriau trefn a / neu drefnolion

# Trefn Adroddiad

- dim rhaid ysgrifennu mewn trefn amser
- cyflwyno gwybodaeth o fewn categorïau
- cyflwyno ffeithiau clir, di-amwys
- yr amser presennol
- iaith eithaf ffurfiol

# Ysgrifennu ar Draws y Cwricwlwm

| | |
|---|---|
| **Dwyn i gof** | • Digwyddiad personol / ysgol<br>• Ymweliad<br>• Digwyddiad hanesyddol<br>• Storïau o wahanol grefyddau<br>• Bywgraffiad – hanes, cerdd |
| **Adroddiad** | • Hanes – agwedd o fywyd bob dydd<br>• Gwyddoniaeth – disgrifio nodweddion<br>• Daearyddiaeth – disgrifio a chymharu ardaloedd neu nodweddion daearyddol<br>• Addysg Grefyddol – disgrifio nodweddio gwahanol grefyddau neu ddulliau o fyw |
| **Cyfarwyddiadol** | • D a Th – sut i gynllunio a gwneud rhywbeth<br>• TGCh – sut i weithio'r cyfrifiadur<br>• Celf – sut i wneud / creu<br>• Gwyddoniaeth – sut i wneud arbrawf<br>• Addysg Gorfforol – sut i chwarae gêm<br>• Mathemateg – sut i greu siâp |
| **Esbonio** | • Gwyddoniaeth – egluro trydan, grymoedd, y tymhorau, cylch bywyd<br>• Hanes – egluro dyfeisiadau fel y ffôn<br>• Daearyddiaeth – egluro cylchred dŵr<br>• Addysg Grefyddol – egluro defodau addoli |
| **Perswadio** | • Hanes – llythyron, ymgyrch cyhoeddusrwydd<br>• Daearyddiaeth – llythyron ar faterion cyfoes fel diogelu'r fforestydd glaw<br>• Gwyddoniaeth – posteri, erthyglau ar fyw yn iach, gofalu am eich dannedd |
| **Trafod** | • Hanes – trafod agweddau at : lliw, hil<br>• Daearyddiaeth – trafod llygredd, trafnidiaeth, defnydd tir<br>• Gwyddoniaeth – trafod llysieuaeth, teithio i'r gofod |

# Blwyddyn 1 – 6

# Ffocws Benodol Fesul Blwyddyn

Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

# Gair o gyngor ………

Ni ellir addysgu darllen ac ysgrifennu heb hybu sgiliau llafar ar yr un pryd.

Cofiwch beth a nodir ar wefan Cynnal o ran cyd-ddibynniaeth y sgiliau:

"

**Trafod Ysgrifennu**

Bydd angen cyfle i siarad cyn, ystod a / neu ar ôl yr ysgrifennu hefo oedolyn yn unigol, fesul pâr, mewn grŵp, a'r plant heb oedolyn. Dylai'r cwestiynau sy'n codi hogi'r meddwl ac annog y plant i ganolbwyntio mwy ar eu hysgrifennu.

Ar adegau bydd angen siarad cyn dechrau ysgrifennu, dro arall, gall gormod o siarad rwysto'r ysgrifennu. Da o beth ydi cael toriad rhwng y siarad a'r ysgrifennu, e.e. amser chwarae neu dros nos.

Bydd symbyliad da yn dwyn i gof lawer o bethau eraill. Wrth ymdrin â gwrthrychau, bydd beirdd yn aml yn gofyn i blant:

"beth mae *hwn* yn gwneud i chi feddwl amdano?"
"pe bai *hwn* yn fyw, beth / pwy fyddai?"
"sut fath o berson / anifial fyddai?"
"pa gwestiwn y hoffech chi ofyn iddo / iddi?"

gyda'r bwriad o symbylu dychymyg y plant."

http://www.cynnal.co.uk/llythrennedd/Athrawon/canllawiau/ysgol.htm

Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

Sylwch ar yr enghreifftiau penodol o drafod testunau yn llyfryn HMS CBAC

**‘Codi Safonau Llythrennedd’**

Ymdrinir â:

(i) **Parti’r Mochyn Bach**
**Jeremy Strong**

(ii) **Dyfal Donc (Llyfrau Lloerig)**

(iii) **Trafod fideo ‘Dai ar y Piste’**

(iv) **Ragsi Ragsan, Mair Wynn Hughes**

Mynnwch gopi o ‘Pryfed Pori’ gan Eirlys Eckley a Yan James – Awdurdodau Addysg Caerdydd a Powys i gael syniadau pellach o ran hybu sgiliau darllen drwy siarad a thrafod, e.e.

**‘Cytseiniaid yn clecian’ ‘Holi’r ffotograff’ ‘Snap odlau’**

Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

# Ffocws Penodol

# Darllen Blwyddyn 1

**I ddatblygu ystod o strategaethau darllen.**

**I ddeall prif nodweddion storïau syml.**

**I ddeall prif nodweddion, trefniadaeth a phwrpas testunau ffeithiol.**

Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cygnor Bwrdeistref Sirol

# Darllen – Blwyddyn 1

**Arlwy ddarllen –**
Chwedlau syml, hwiangerddi, cerddi, storïau a storïau ail-iaith sy'n hybu patrymau iaith penodol.

**Drwy ddarllen ar y cyd / darllen dan arweiniad / darllen yn annibynnol, mi ddylai'r disgyblion, e.e.: -**

| Testun | Brawddeg | Gair |
|---|---|---|
| • Deall y ciwiau a'r cliwiau darllen sylfaenol.<br><br>• Darllen yn ystyrlon gyda goslef ac ynganiad cywir. | • Adnabod trefn brawddeg syml, e.e. mynegi hoffter / diffyg hoffter.<br>*'Rwy'n hoffi banana.'*<br><br>• Adnabod atalnod llawn a phrif lythyren mewn brawddeg. | • Adnabod deuseiniad a chytseiniad clwm penodol mewn gêm eiriau a chynnig enghreifftiau.<br><br>• Adnabod geiriau a brawddegau sy'n cyflythrennu ac odlau syml.<br><br>• Deall bod enwau pobl a lleoedd yn cychwyn gyda phriflythyren. |
| • Creu llyfr dosbarth syml i adnabod a defnyddio ystod gynyddol o eirfa. | • Dechrau creu brawddegau, e.e. tywydd a dau amser o'r ferf, e.e.<br>*'Heddiw mae'n oer.'*<br>*'Ddoe roedd hi'n wyntog.'* | • Grwpio a threfnu geiriau sy'n dechrau gyda'r un llythyren neu sy'n perthyn i'r un teulu, e.e. enwau bwyd.<br><br>• Deall y syniad o'r amser gorffennol,<br>*'Es i.....' 'Ces i .....'* |
| • Deall bod stori'n cynnwys cymeriadau a deialog a digwyddiadau.<br><br>• Darllen rhai adroddiadau dwyn i gof yn dilyn ymweliad.<br><br>• Testunau / cyfarwyddiadol trefniadol. | • Adnabod swigod llafar a swigod meddwl.<br><br>• Ail-adrodd stori drwy ail-drefnu brawddegau. | • Adnabod rhai o brif eiriau stori 'un dydd' a'r prif eiriau treigl amser *'yna'*, *'wedyn'*. |

# Hybu Llafaredd

**Dylai disgyblion fedru: -**

Trafod a disgrifio lluniau mewn llyfrau.
Cynnig geiriau a / neu brawddegau llawn wrth ymateb ar lafar.
Trafod yn syml beth yw pwrpas atalnod llawn.
Canu penillion sy'n odli a chreu odlau.
Gofyn cwestiwn syml i gymeriad mewn llyfr.
Disgrifio cymeriad o ran ymddangosiad a phersonoliaeth gan ddefnyddio *enwau lliwiau, rhannau'r corff, enwau dillad* etc. a rhai ansoddeiriau sy'n disgrifio personoliaeth cymeriad – *cas, caredig* etc.
Rhoi newyddion syml yn y person cyntaf – gorffennol cryno / amherffaith.
Chwarae rôl cymeriad o lyfr ar lefel sylfaenol.
Defnyddio TGaCh i gyflwyno testun mewn modd arbennig, e.e. lliw penodol i ansoddeiriau.
Ail-drefnu brawddegau i greu deialog syml.
Adnabod a defnyddio teitlau, pennawdau a chapsiynau.
Disgrifio teimladau cymeriadau.
Egluro'r hyn mae cymeriadau'n ei wneud mewn brawddegau syml ac ystod o ferf enwau pwrpasol, e.e. *crio, chwarae, chwerthin.*
Ailadrodd rhai o'r digwyddiadau a chyfeirio at brofiadau personol, tebyg.
Cymharu dau gymeriad mewn dwy wahanol stori.
Chwarae rôl stori / digwyddiad.
Crisialu thema / un digwyddiad o stori mewn brawddeg ar ddull nôd llyfr.
Deall athrawes yn egluro pwrpas ysgrifennu ffeithiol a'r gwahaniaeth rhyngddo â stori ar lefel syml.
Dechrau deall sut y cyflwynir gwybodaeth – deiagramau, y dilyniant etc.
Trafod penawdau a sut y trefnir y wybodaeth / ffeithiau mewn testun ffeithiol / cofnodol.
Parhau i ddysgu am drefn a ffurf y wyddor Gymraeg, gan roi ffocws ar y seiniau / ffurfiau penodol Gymraeg os oes angen (ng, ch, dd, ll).

# Ffocws Penodol
# Ysgrifennu Blwyddyn 1

**I ymateb yn ysgrifenedig i rai o'r storïau a'r cerddi a glywyd ar lafar.**

**I ysgrifennu testun cyfarwyddiadol.**

**I ysgrifennu adroddiad 'dwyn i gof' byr.**

# Ysgrifennu – Blwyddyn 1

**Ffocws :** Naratif

**Drwy weithio ar y cyd / weithio dan arweiniad / weithio yn annibynnol, mi ddylai'r disgyblion, e.e.: -**

| Testun | Brawddeg | Gair |
|---|---|---|
| • Ail ysgrifennu rhan o stori.<br>• Drafftio dyddiadur un-dydd. | • Cadarnhau defnydd o brif lythyren ac atalnod llawn. | • Grwpio geiriau ar bysgod cardfwrdd a'u cadw mewn tanc. |
| • Creu brawddeg glo newydd.<br>• Nodi geiriau newydd a ddysgwyd. | • Adnabod rhai berfau siarad fel 'dywedodd' a llunio swigod llafar personol i gyd-fynd a nhw. | • Trefnu a chasglu geiriau a ail-adroddir neu eu tanlinellu. |
| • Ysgrifennu adolygiad mewn brawddegau ar ffurf nod llyfr a hybu patrwm iaith penodol.<br>*'Fy hoff ran i ydy .....'*<br>*'Fy hoff gymeriad ydy ....'* | • Disgrifio cymeriad o stori – ffeil o ffaith syml. | |
| • Ysgrifennu cerdd o fewn patrwm / scaffaldau penodol.<br>• Dechrau adnabod a llunio cwestiynau perthnasol i'w gofyn am stori. | • Cwblhau brawddegau gan ddefnyddio odlau.<br>• Ymestyn brawddegau drwy ychwanegu gair newydd / amgen. | • Trafod a chasglu geiriau addas ar gyfer gwerthfawrogiad, e.e. geiriau teimladau ofnus / cyffrous<br>• Dewis geiriau amgen i'r rhai a gyflwynwyd mewn stori. |

# Ysgrifennu – Blwyddyn 1

**Ffocws :** Ffeithiol

**Drwy ysgrifennu ar y cyd / ysgrifennu dan arweiniad / ysgrifennu yn annibynnol, mi ddylai'r disgyblion, e.e.: -**

| Testun | Brawddeg | Gair |
| --- | --- | --- |
| • Darllen ac ail ddarllen enghreifftiau o destun cyfarwyddiaol syml, e.e. sut i addurno Ŵy Pasg, sut i wneud angel Nadolig.<br>• Arsylwi ar yr athro yn modelu testun cyfarwyddiadol | • Marcio testun, e.e. penawdau, teitlau.<br>• Deall bod y brawddegau yn aml yn cychwyn gyda berf gorchmynnol yn cwpla gyda '-wch'. | • Darllen a dysgu rhestr o eirfa o fewn testun, e.e. paent, brwsh, glud, papur. |
| • Creu sy'n berthnasol.<br>• Cyfrannu mewn sesiwn o ysgrifennu ar y cyd.<br>• Sicrhau dilyniant cywir i luniau a chyfarwyddiadau a theitlau wrth lunio testun trefniadol / cyfarwyddiadol. | • Adnabod a defnyddio rhai geiriau treigl amser – *'yna' 'wedyn' 'ar ôl hyn' 'yn olaf'* mewn brawddegau.<br>• Creu brawddeg rheol ar gyfer y dosbarth, e.e. *'Cerddwch yn dawel.' 'Cauwch y drws.'* | • Adnabod a defnyddio'r geiriau '-wch'. Torrwch, plygwch, gludwch. (y berfau bossy yn Saesneg)<br>• Adnabod geiriau topig penodol a'u harddangos.<br>• Dysgu sillafu'r geiriau amledd uchel, h.y. sy'n digwydd yn aml. |

Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

# Hybu Llafaredd

**Dylai disgyblion fedru: -**

Cyfrannu mewn trafodaeth dosbarth cyfan o ran cynnwys, dilyniant a chymeriadau stori, cynnwys cerdd, neu newyddion personol.

Adrodd / llefaru cerddi ac odlau syml mewn eisteddfod pum munud.

Cyfrannu at ail-adrodd stori, neu rannau penodol.

Mynegi hoffter / diffyg hoffter am stori.

Llunio rhai cardiau cwestiwn syml a gofyn am wybodaeth gan eraill am y stori ddosbarth neu am adroddiad 'dwyn i gof' disgybl arall.

Cyfrannu mewn trafodaeth dosbarth i bwt o fideo neu symbyliad arall, e.e. teganau meddal / pypedau.

Ymateb i gwestiynau agored am stori neu gerdd neu fideo

- Beth sydd fan hyn?
- Ydy e'n hapus?
- Sut mae e'n teimlo nawr?

Gwrando a deall yr athrawes yn egluro'n syml beth yw pwrpas testun cyfarwyddiadol.

# Ffocws Penodol

# Darllen Blwyddyn 2

**I ddefnyddio ystod o strategaethau – gydag anibyniaeth gynyddol, i ddarllen yn gywir.**

**I adnabod a thrafod nodweddion ac adeiladwaith storïau a cherddi syml.**

**I adnabod nodweddion, trefn a phwrpas testunau cofnodol / ffeithiol.**

Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

# Darllen – Blwyddyn 2

**Arlwy ddarllen –**
Storïau cyfoes a thraddodiadol, odlau, cerddi a dramodigau syml a thestunau ffeithiol fel adroddiad, testun dwyn i gof a thestun cyfarwyddiadol / trefniadol.

**Drwy ddarllen ar y cyd / darllen dan arweiniad / darllen yn annibynnol, mi ddylai'r disgyblion, e.e.: -**

| Testun | Brawddeg | Gair |
|---|---|---|
| • Parhau i ddefnyddio ystod o giwiau a chliwiau i ddarllen yn gywir.<br>• Mynd i'r afael â geiriau / ymadroddion newydd. | • Bwrw amcan beth yw dechrau / diwedd brawddegau.<br>• Disodli geiriau i newid ystyr brawddeg – o stori neu gerdd. | • Parhau i ddeall bod berfau yn golygu newid amser.<br>• Parhau i ddysgu am sillafau mewn geiriau a'u canu. |
| • Adnabod collnod ac ebychnod ac i ddarllen gyda mynegiant a goslef gywir.<br>• Atgyfnerthu geirfa a phatrymau a ddysgwyd eisoes drwy ystod o weithgareddau.<br>• Sylwi ar gytseiniaid clwm a deuseiniaid o dan gyfarwyddyd yr athrawes. | • Marcio testun o ran collnod ac ebychnod.<br>• Parhau i ddeall a dysgu am drefn brawddeg yn y Gymraeg a lleoliad y ferf. Hybu a drilio hyn yn seiliedig ar destun. | • Sylwi bod cychwyn rhai geiriau yn newid, e.e. dau frawd, i gysgu |
| • Deall rôl gwahanol gymeriadau a thrafod y gyd-berthynas rhyngddynt. | • Parhau i ddeall bod dilyniant i ddigwyddiadau mewn stori, drwy rhoi nifer o frawddegau yn eu trefn. | • Casglu geiriau thema benodol, e,e hud a lledrith:<br>*gwrach, dewin, hud* |

**Parhad …**

| Testun | Brawddeg | Gair |
|---|---|---|
| • Adnabod deialog a newid goslef y llais wrth ddarllen. | • Marcio testun o ran marciau siarad.<br>• Parhau i adnabod priflythrennau a phryd y dylid eu defnyddio. | • Adnabod rhai berfau siarad *'dywedodd'*, *'atebodd'* etc. a gwneud casgliad ohonynt er mwyn gêm disodli. |
| • Adnabod yn fras gyd-destun stori o ran lleoliad ac amser.<br>• Darllen cerddi eu hunain.<br>• Creu poster dosbarth o hoff frawddegau, neu benillion. | • Adnabod cyfeiriadau at synhwyrau mewn storiau a cherddi. | • Marcio testun a / neu creu banc o arddodiaid a ddefnyddir i nodi lleoliad pethau a phobl mewn testun. |
| • Darllen ystod o adroddiadau heb drefn amser iddynt, e.e. adroddiad ar gadw anifail answes. | • Adnabod nodweddion cyflwyniad – penawdau, pwyntiau bwled, is-bennawd, deiagramau. | • Dysgu enwau fel atalnod marc cwestiwn a collnod. |
| • Adnabod pwrpas y testun – i roi gwybodaeth / cyfarwyddiadau etc. | • Tanlinellu'r modd gorchmynnol. | |
| • Adnabod gwahanol ffyrdd o osod a chyflwyno gwybodaeth ffeithiol. | • Adnabod sut mae defnydd o eiriau treigl amser yn amrywio dechreuadau brawddegau. | • Rhestru'r adferfau amser, e.e *'neithiwr,' 'ddoe'* a'u defnyddio'n gywir. |
| • Adnabod rhai o nodweddion iaith gwahanol fathau o destun.<br>• Defnyddio geiriaduron yn weddol hyderus. | • Adnabod brawddegau sy'n cynnwys geiriau technegol. | • Chwilio ystyron geiriau eithaf technegol, pwnc benodol. |

# Hybu Llafaredd

**Dylai disgyblion fedru: -**

Trafod yn syml beth yw pwrpas collnod ac ebychnod.

Rhoi cynnig ar beth fydd diweddglo brawddeg mewn testun.

Cysylltu thema / digwyddiad mewn stori â phrofiadau personol.

Actio rhannau o'r stori fel chwarae rôl.

Nodi ar lafar rhai o'r digwyddiadau yn nhrefn amser gan ddefnyddio geiriau treigl amser fel *'wedyn' 'yna' 'y bore wedyn'*.

Cymharu storïau ar lefel sylfaenol, gan roi ffocws ar iaith benodol, e.e. yn fwy, diddorol, doniol, trust

Trafod adeiladwaith testun, e.e. brawddegau byr.

Defnyddio nifer gyfyng o batrymau iaith i werthfawrogi testun, e.e.

*'Fy hoff frawddeg i ydy .....'*

Defnyddio geiriau fel cerdd, bardd, pennill, yn synhwyrol mewn gwaith llafar.

Ffurfio cwestiynau syml i ofyn am gynnwys (neu gyflwyniad) cerdd neu stori.

# Ffocws Penodol
# Ysgrifennu Blwyddyn 2

**Adnabod strwythur / adeiladwaith storïau.**

**Defnyddio cynlluniau gwahanol storïau a cherddi fel sylfaen i ysgrifennu.**

**I ysgrifennu adroddiadau heb drefn amser anghronolegol yn seiliedig ar adeiladwaith testunau cyfarwydd.**

Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cygnor Bwrdeistref Sirol

# Ysgrifennu – Blwyddyn 2

**Ffocws** : Naratif

I adnabod strwythur / adeiladwaith storïau.

**Drwy weithio ar y cyd / weithio dan arweiniad / weithio yn annibynnol, mi ddylai'r disgyblion, e.e.: -**

| Testun | Brawddeg | Gair |
|---|---|---|
| • Dadansoddi storïau cyfarwydd ar ffrâm ysgrifennu (a rhai anghyfarwydd i ddilyn). | • Ysgrifennu brawddegau i ychwanegu at y ffrâm. | • Adnabod geiriau o'r stori fydd o ddefnydd. |
| • Cyflwyno engh'au ysgrifenedig sydd wedi eu seilio ar arddull y testun a astudir.<br>• Ysgrifennu'n annibynnol mewn arddull wedi ei fodelu ar destun cyfarwydd. | • Cynnig brawddegau yn arddull a strwythur y testun a rennir ac yn arddull testun cyfarwydd. | • Gwnewch restrau o'r geiriau / ymadroddion perthnasol o'r testun. |
| • Ysgrifennu 'adolygiad' syml o gerdd neu stori yn dilyn fframwaith. | • Brawddegau llawn yn nodi hoffter ag ati.<br>*Rwy'n hoffi'r stori o ….. achos……*<br>*Fy hoff ran ydy ……*<br>*Cymeriad diddorol ydy …..* | • Adeiladu ar y stôr o ansoddeiriau.<br>• Ymestyn brawddegau drwy ddefnyddio cysyllteiriau.<br>• Dechrau defnyddio adferfau fel *yn dawel, yn araf.* |
| • Astudio rhai adroddiadau heb drefn amser ac adnabod rhai nodweddion iaith penodol ac adeiladwaith. | • Adnabod rôl y penawdau a'r is-benawdau. | • Astudio elfennau penodol, e.e. ansoddeiriau / adferfau. |

**Parhad …**

| Testun | Brawddeg | Gair |
|---|---|---|
| • Cyfrannu tuag at gynllunio ac ysgrifennu ar bwnc o ddiddordeb ar y cyd. | • Llunio brawddegau addas ar gyfer gwahanol rannau o'r gwaith. | • Rhestri geiriau penodol, adnabod y prif nodweddion iaith. |
| • Creu llyfryn o bosau neu gerdd draws gwricwlaidd.<br><br>• Darllen gwahanol fathau o adroddiadau ac astudio'r iaith a'r strwythur.<br><br>• Defnyddio scaffaldau ysgrifennu i lunio enghraifft o adroddiad. | • Llunio posau<br>*'Dw i'n oer'*<br>*'Dw i'n llwyd a glas'* etc.<br><br>• Ysgrifennu cyfres o frawddegau sy'n disgrifio agwedd o'r pwnc dan sylw, e.e. disgrifiad, nodweddion, bwyd. | |
| • 'Cofio' ar lafar ddigwyddiadau yn eu trefn. | • Ymestyn brawddegau drwy ddefnyddio cysyllteiriau. | • Ffocws ar gysyllteiriau a geiriau treigl amser penodol. |

Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

# Hybu Llafaredd

**Dylai disgyblion fedru: -**

Cyfrannu mewn trafodaeth ar adeiladwaith stori y 3D –

***D**echrau, **D**igwyddiadau, **D**iwedd.*

Defnyddio geiriau pwrpasol wrth drafod stori, e.e. cymeriadau, problem, treigl amser.

Trafod rhai nodweddion arddull mewn llyfr penodol a phatrymau iaith penodol.

Cynnig llwybr amgen i lif stori neu ddatblygiad cymeriad.

Datblygu sgiliau mynegi barn ar lafar – wedi meistroli'r prif batrymau iaith, e.e.

*'Rwy'n hoffi ..... o achos mae e'n .....'*

*'Rwy'n hoffi'r diwedd o achos.....'*

*'Fy hoff gymeriad ……'*

*'Ar ôl gorffen y stori, roeddwn i'n teimlo'n .....'*

Drilio'r presennol, gorffennol cryno a'r amherffaith mewn sesiynau Cadair Goch (rhai enghreifftiau yn unig).

Drilio cwestiynau *'ydy' 'oes' 'oedd'* yn seiliedig ar y stori a astudiwyd yn y gadair goch.

# Cyfnod Allweddol Dau

**Noder y newid fformat yn dilyn sefydlu athroniaeth lefel testun / brawddeg / gair yn CA1.**

# Ffocws Penodol

# Darllen Blwyddyn 3

**I ddarllen ystod o wahanol destunau gyda chywirdeb ac annibynniaeth gynyddol.**

**I ddarllen, paratoi a chyflwyno cerddi, dramodigau a deialogau.**

**I adnabod nodweddion trefn a phwrpas testunau ffeithiol / cofnodol a thestunau storïol.**

# Darllen – Blwyddyn 3

**Ffuglen** : Storïau, cerddi, dramau
**Ffeithiol** : testunau trafod, adroddiad, dwyn i gof, cyfarwyddiadol.

I ddarllen ystod o wahanol destunau gydag annibynniaeth a chywirdeb gynyddol.

**Drwy ddarllen ar y cyd / darllen dan arweiniad / darllen yn annibynnol, mi ddylai'r disgyblion, e.e.: -**

Parhau i ddatblygu sgiliau darllen o ran goslef ac ynganiad gan gofio rôl y gofynnod a marciau siarad etc.

Defnyddio cliwiau / ciwiau i fynd i'r afael â geiriau newydd / dieithr, gan gynnwys y prif ffurfiau treigledig.

Adnabod berfau a berfenwau mewn brawddegau a'u disodli gan ferfenwau addas eraill.

Adnabod brawddegau sy'n disgrifio cymeriadau a thrafod, e.e. ansoddeiriau perthnasol eraill i'r cyd-destun.

Datblygu sgiliau atalnodi drwy farcio testun a / neu gêmau.

Parhau i gyfeirio at 'eiriau treigl amser' (*'wedyn,' 'y bore wedyn'*) a 'berfau siarad' ('*atebodd', 'gwaeddodd'*) wrth farcio testun / modelu arddull.

Adnabod plot / llinyn stori / thema mewn stori (ac ysgrifennu pennawd papur newydd os dymunir).

Adnabod rhai technegau arddull, e.e. ailadrodd geiriau, llythrennau cychwynnol (cyflythreniad, rhythmau brawddegau).

Dilyniannu brawddegau i hybu dealltwriaeth o ddechrau / canol / diweddglo.

Darllen cerddi yn ystyrlon.

Gwahaniaethu rhwng cerddi odlog a cherddi di-odl.

Gwahaniaethu rhwng deialog a rhyddiaith.

**Parhad …**

Darllen ystod o destunau ffeithiol / cofnodol, gan gynnwys testunau trafod, adroddiad, cyfarwyddiadol a dwyn i gof.

Adnabod eu prif nodweddion o ran cyflwyniad, egluro'r 'broblem' neu'r 'pwnc llosg' y casgliad neu'r diweddglo a chrynodeb o'r dadleuon.

Defnydd o gysyllteiriau a brawddegau creiddiol / allweddol.

Defnydd o baragraffau i gyflwyno gwahanol agweddau o'r pwnc / thema.

Defnydd o wahanol brint, is-bennawdau ag ati i gyflwyno'r gwaith yn effeithiol.

Pwysleisio geirfa arbenigol a'u hychwanegu at gronfa geiriau topig.

# Hybu Llafaredd

**Dylai disgyblion fedru: -**

Trafod agweddau o atalnodi mewn testun.

Nodi pam y newidir cytseiniaid cychwynnol rhai geiriau yn y Gymraeg treigladau.

Trafod rôl berf mewn brawddeg.

Trafod geiriau ‘cryf’ mewn geiriau sy’n cael impact (effaith) ar y darllenydd.

Disgrifio a mynegi barn bersonol am gymeriadau mewn stori.

Cynnig diweddglo gwahanol.

Cyfiawnhau barn bersonol drwy gyfeirio at dystiolaeth o’r testun.

Trafod thema stori a chyfeirio at themâu mewn storïau eraill.

Rhagfynegi’r cam nesaf.

Creu brawddegau cyflythrennol.

Dechrau trafod pwrpas gwahanol destunau ffeithiol / cofnodol.

# Ffocws Penodol

# Ysgrifennu Blwyddyn 3

**Cynllunio ac ysgrifennu ystod o storïau mewn gwahanol 'genres'.**

**Ysgrifennu cyd-destun stori.**

**Cynnwys deialogau pwrpasol sy'n dangos y rhyngweithio rhwng cymeriadau mewn stori.**

**Barddoni yn ôl eu gallu a'u hoed a llunio dramodigau syml.**

**Cynllunio ac ysgrifennu testunau:**

| | |
|---|---|
| **Trafodaeth** | **Adroddiad** |
| **Cyfarwyddiadol / Trefniadol** | **Dwyn i gof** |

**gan ddechrau arddangos sgiliau trawsieithu sylfaenol o ran cysyniadau, gwybodaeth a chywirdeb iaith.**

Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cygnor Bwrdeistref Sirol

# Ysgrifennu – Blwyddyn 3

**Ffocws** : Naratif

Cynllunio ac ysgrifennu ystod o storïau mewn gwahanol 'genres'.

**Drwy weithio ar y cyd / weithio dan arweiniad / weithio yn annibynnol, mi ddylai'r disgyblion, e.e.: -**

Adnabod cynllun, adeiladwaith a rhai o nodweddion ieithyddol stori.

Dadansoddi a thracio datblygiad stori ar ffrâm gynllunio.

Cynllunio ac ysgrifennu stori wreiddiol ar y cyd.

Tasgu syniadau a'u cofnodi ar ffrâm o dan benawdau:

**Disgrifio Cymeriadau**

**Creu cyd-destun / naws**

**Prif ddigwyddiadau**

**Problem**

**Datrysiad**

**Brawddeg agoriadol**

**Brawddeg glo**

Marcio testun o ran brawddegau agoriadol a chlo (gellir gwneud hyn yn y Gymraeg a'r Saesneg a chreu banc dwyieithog o eiriau ac ymadroddion pwrpasol, e.e. *'Diwrnod i'r Brenin'*.

Cofnodi geiriau / ymadroddion pwrpasol, e.e. i ddisgrifio teimladau / emosiynau / naws / idiom addas.

Yn ystod y broses, cyfoethogi geirfa a mynegiant drwy ddefnyddio geiriaduron / thesawrws.

**Parhad …**

Amrywio hyd brawddegau i greu naws arbennig.

Defnyddio deialog yn effeithiol.

Cynnwys yn eu storïau rhai technegau cyfoethogi megis

- elfen o eironi
- digwyddiadau doniol / annisgwyl
- tro yn y gynffon.

Astudio neu greu cerddi'r wyddor, e.e.

*Mae afal gen i*
*Mae banana gen i*
*Mae creision gen i*
*Rwy'n hoffi amser cinio.*

*Arth mawr trist*
*Babŵn mawr blinedig*
*Crocodeil hir, trist a Changarŵ,*
*Mae'n gas 'da fi'r sŵ.*

Cymharu â cherddi'r wyddor Saesneg.

Creu cerddi cyflythrennu seiliedig ar batrwm, e.e. *'Gwm Cnoi Gludiog Glyn'* a *'Nicars Neli'*

# Ysgrifennu – Blwyddyn 3

**Ffocws** : Ffeithiol - **Trafod**, adroddiad, cyfarwyddiadol a dwyn i gof.

**Drwy weithio ar y cyd / gweithio dan arweiniad / gweithio'n annibynnol, mi ddylai'r disgyblion, e.e.: -**

Deall trefn a strwythur un math o destun trafod ar bwnc arbennig.

Brawddeg cyflwyno'r pwnc;

**Dadleuon o blaid**

**Dadleuon yn erbyn**

**Casgliad.**

Grwpio'r / tanlinellu brawddegau 'o blaid' a brawddegau 'yn erbyn'.

Ychwanegu brawddegau personol i gefnogi dwy ochr y ddadl.

Adnabod a dechrau defnyddio y geiriau cyffredinol: **'llawer'**, **'rhai'** yng nghyd-destun y frawddeg Gymraeg.

Sylweddoli na ellir **cychwyn** brawddeg gyda'r geiriau yma – fel y gwneir yn y testunau Saesneg, e.e. 'Mae **rhai** yn dweud...', 'Barn **llawer** yw bod...'

Adnabod a dechrau defnyddio cysyllteiriau fel

*'Felly,'* *'I orffen,'* *'Fel canlyniad'*

Cofiwch – tudalen 13, Llyfryn Trafod Delyth Eynon

Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

# Ysgrifennu – Blwyddyn 3

**Ffocws** : Ffeithiol – Trafod, **adroddiad**, cyfarwyddiadol a dwyn i gof.

I gynllunio ac ysgrifennu adroddiadau sy'n gysylltiedig â gwahanol feysydd cwricwlaidd.

**Drwy weithio ar y cyd / gweithio dan arweiniad / gweithio'n annibynnol, mi ddylai'r disgyblion, e.e.: -**

Adnabod nodweddion adeiladwaith / strwythur 'testun adroddiad', e.e cyflwyniad, cyflwyno gwybodaeth yn drefnus yn ôl gwahanol gategoriau (a pharagraffau).

Cytuno ar ba gwestiynau y seilir y wybodaeth arni.

Cymharu cychwyn brawddegau mewn testunau Cymraeg / Saesneg.

Adnabod a chanfod ystyr geiriau arbenigol, technegol a'u cofnodi (yn ddwyieithog os dymunir – mewn gwahanol ddulliau).

Adnabod sut y trefnir a chyflwynir yr adroddiad yn ei gyfanrwydd.

Rhoi cynnig ar dasgau 'lefel gair' megis anifeiliaid a'u ffurfiau lluosog *'-aid'*, *'-od'* colli'r *'en'* etc. enwau rhannau corff yr anifail a'r prif dreigladau perthnasol.

Cyfrannu at ysgrifennu ar y cyd adroddiad syml.

# Ysgrifennu – Blwyddyn 3

**Ffocws :** Ffeithiol – Trafod, adroddiad, **testun cyfarwyddiadol** a dwyn i gof.

I ddwyn i gof digwyddiadau mewn gwahanol ffyrdd.

**Drwy weithio ar y cyd / gweithio dan arweiniad / gweithio'n annibynnol, mi ddyali'r disgyblion, e.e.: -**

Dadansoddi ystod o destunau sy'n cyfarwyddo ac i adnabod nodweddion trefnu'r testun.

Adnabod nodweddion ieithyddol testun cyfarwyddiadol yn arbennig ffurfiau gorchmynnol a
*'Byddwch chi angen .....'*

*'Bydd angen ..... arnoch chi'*
*'Mae angen ..... arnoch chi'*
*'Peidiwch â .....' (Treiglad Llaes P,T,C)*

Tynnwch sylw at ganlyniad y gweithredu –
*'hyd nes bydd e'n .....'*
*feddal*
*grwn*

I hybu'r Treiglad Meddal, gellir enghreifftio fel hyn:

| | |
|---|---|
| *Cymysgwch flawd a llaeth* | *Cymysgwch y blawd a'r llaeth* |
| *Torrwch ddarn* | *Torrwch un darn* |
| *Pwyswch fenyn* | *Pwysywch y menyn* |
| *Ychwanegwch ddŵr* | *Ychwanegwch y dŵr* |

Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

# Ysgrifennu – Blwyddyn 3

**Ffocws** : Ffeithiol – Trafod, adroddiad, testun cyfarwyddiadol a **dwyn i gof**.

I ysgrifennu testun cyfarwyddiadol mewn trefn drwy ddefnyddio'r fframweithiau ysgrifennu a dyfeisiadau trefnu'r testun.

**Drwy weithio ar y cyd / gweithio dan arweiniad / gweithio'n annibynnol, mi ddyali'r disgyblion, e.e.: -**

Trafod pwrpas testunau dwyn i gof, e.e. cofnodi trefn a dilyniant digwyddiadau.

Cofnodi'r wybodaeth mewn testun dwyn i gof ar linell amser.

Creu llinellau amser personol yn seiliedig ar ymweliadau a digwyddiadau.

Marcio testun o ran, e.e. idiomau Cymraeg pwrpasol, berfau trawiadol newydd.

Adnabod a chynyddu yn eu defnydd o'r gorffennol cryno a'r amherffaith,
*Roedd e'n / Roedd hi'n / Roeddwn i'n* ….. i fynegi barn a theimladau.
*Gwelsom ….. / Cawsom gyfle i ….. / Mwynheuon y …..*

# Ffocws Penodol

# Darllen Blwyddyn 4

**I ddarllen ystod gynyddol o destunau yn gywir.**

**I adnabod prif nodweddion testun naratif.**

**I ddethol, paratoi a darllen ar goedd / actio cerddi dramodigau.**

**I adnabod prif nodweddion ac adeiladwaith testunau ffeithiol / cofnodol.**

Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

# Darllen – Blwyddyn 4

**Ffocws** : Ffuglen, ystod o storïau, dramodigau, cerddi.
**Ffeithiol** : Testunau esbonio / trafodaethau, esbonio, trafod, cyfarwyddiadol / trefniadol a dwyn i gof.

**Drwy ddarllen ar y cyd / darllen dan arweiniad / darllen yn annibynnol, mi ddylai'r disgyblion, e.e.: -**

Dysgu termau atalnodi yn y Gymraeg a'u hadnabod mewn testunau a deall beth yw eu swyddogaeth.

Adnabod trefn naratif a llinyn amser mewn stori.

Ymchwilio i sut y datblygir cymeriadau a chyd-destun / cefndir mewn storïau.

Marcio testun o ran y brawddegau / geiriau allweddol.

Ehangu ystod o eiriau / ymadroddion treigl amser a sylwi sut y cyfleir treigl amser mewn naratif.

Adnabod trobwynt mewn stori a sut y cyfleir hyn.

Sylwi ar batrymau iaith newydd / geirfa newydd a'u cofnodi / enghreifftio ymhellach a'u dysgu.

Adnabod sut y gellir dechrau datblygu tensiynau rhwng cymeriadau mewn stori.

Adnabod y 'broblem' neu'r deilema mewn stori a beth yw'r datrysiad.

Dechrau adnabod trosiadau a chymariaethau a gwahanol batrymau odli mewn cerddi gan gynnwys elfennau o gynghanedd a lled-gynghanedd.

Adnabod prif nodweddion testun esbonio.
Pwrpas (egluro proses).
Adeiladwaith – cyflwyniad, eglur cam wrth gam.
Nodweddion iaith.

**Parhad ….**

| |
|---|
| Defnydd o’r amser presennol – os nad yw e’n eglurhad hanesyddol.<br><br>Adnabod berfau goddefol<br>*‘Mae ….. yn cael ei …..’*<br><br>Adnabod a deall pwrpas nodweddion cyflwyno’r testun (Capsiynau, deiagramau ag ati). |

# Ffocws Penodol

# Ysgrifennu Blwyddyn 4

**I gynllunio storïau mewn gwahanol ffyrdd.**

**I greu cymeriadau byw, diddorol.**

**I lunio disgrifiadau o leoliadau / cefndir storïau.**

**I ysgrifennu stori am bwnc llosg neu ddeilema.**

**I ysgrifennu ystod o wahanol gerddi.**

**I adnabod ac enghreifftio adeiladwaith testun esbonio.**

**I gynllunio a threfnu testunau trafod, testunau cyfarwyddiadol ac adroddiadau mewn gwahanol ffyrdd.**

**I arddangos sgiliau trawsieithu.**

**I ysgrifennu adroddiadau o ddigwyddiadau mewn dull papur newydd.**

**I ysgrifennu adroddiad dwyn i gof yn null adroddiad papur newydd.**

Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cygnor Bwrdeistref Sirol

# Ysgrifennu – Blwyddyn 4

**Ffocws** : Naratif

I gynllunio storïau a gwahanol ffyrdd.

**Drwy weithio ar y cyd / gweithio dan arweiniad / gweithio'n annibynnol, mi ddylai'r disgyblion, e.e.: -**

Adnabod paragraffau a threfnu eu gwaith eu hunain i baragraffau addas – yn dilyn prif gamau stori. Sylwi eto ar y geiriau treigl amser sy'n cyflwyno paragraff.

Gwybod sut mae cywain a threfnu gwybodaeth fel paratoad cyn creu stori (nodiadau, tasgau syniadau, labeli).

Arddangos sgiliau trawsieithu.

Creu pwyntiau bwled i fapio prif ddigwyddiadau stori.

Creu brawddegau agoriadol a chlo.

Cynnwys rhai o'r dyfeisiadau cyfoethogi mynegiant a ddysgwyd eisoes, e.e. berfau trawiadol – idiomau bachog.

Adnabod a pharhau i wneud defnydd eithaf cywir a chyson o'r gorffennol cryno a'r treiglau meddal dilynol.

*'Gwelais i ddyn mawr, hyll, trist .....'*

Ysgrifennu ffeil-o-ffaith yn seiliedig ar gymeriad mewn stori.

Ysgrifennu 'yng nghroen' cymeriad, e.e. ymson, cerdyn post, gan gyfeirio at y stori'n llawn.

Adnabod 'grym iaith' wrth greu tensiwn, codi disgwyliadau'r darllenydd, awgrymu'n gynnil.

Cynyddu ymwybyddiaeth a ddefnydd o arddodiaid yn dilyn berfau siarad – *'dweud wrth' 'gofyn i ' 'siarad â' ' sylwi ar'*

Cyfrannu syniadau at greu a chynhyrchu cerdd strwythuredig, e.e. haiku, cerdd acrostig, cerdd barodi, e.e. *"A fuoch chi 'rioed yn snorclo?"*

# Ysgrifennu – Blwyddyn 4

**Ffocws :** Ffeithiol / cofnodol testun esbonio, trafod, adroddiad, cyfarwyddiadol a dwyn i gof

I adnabod ac enghreifftio adeiladwaith (testun esbonio).

**Drwy weithio ar y cyd / gweithio dan arweiniad / gweithio'n annibynnol, mi ddylai'r disgyblion, e.e.: -**

Darllen, deall a dadansoddi ystod o wahanol destunau esbonio a thrafod eu pwrpas a'u cynulleidfa darged.

Enghreifftio sut i gyflwyno topig neu bwnc penodol ac i strwythuro a datblygu'r wybodaeth yn rhesymegol ac yn drefnus.

Gwybod sut i gyflwyno deiagramau a siart-fflipiau a'u labelu'n gywir.

Egluro proses yn dilyn gwers Gwyddoniaeth gan roi sylw i'r iaith a'r fformat.

Sylwi ar a meistroli'r patrymau iaith angenrheidiol, e.e.

*'Pan fo ….. yna mae ….. (yn digwydd)'*

*'Os dydy'r ….. ddim yn ….. bydd ….. yn …..'*

*'Y rheswm dros hyn yw …..'*

*'Yn dilyn hyn bydd …..'*

Gwybod sut i gyfleu 'canlyniad' gwahanol 'weithredoedd', e.e. *hau hadau mewn tywyllwch.*

# Ysgrifennu – Blwyddyn 4

**Ffocws :** Ffeithiol / Cofnodol, esbonio, **trafod**, adroddiad, cyfarwyddiadol a dwyn i gof.

**Drwy weithio ar y cyd / gweithio dan arweiniad / gweithio'n annibynnol, mi ddylai'r disgyblion, e.e.: -**

Adnabod y ddau fath o drefn sy'n bosibl i strwythuro testun trafod

1. **Dull Blwyddyn 3**
   Nodi'r broblem / pwnc llosg
   Dadleuon o blaid
   Dadleuon yn erbyn
   Casgliad / Diweddglo

2. **Nodi'r pwnc llosg / broblem**
   Cyflwyno'r dadleuon o blaid / yn erbyn fesul un pwynt ar y tro
   Casgliad / Diweddglo
   Cynllunio adroddiad yn dilyn patrwm neu fodel a gyflwynwyd eisoes
   Defnyddio iaith addas, e.e.
   *'Tra bo rhai yn ..... mae eraill yn .....'*

- **Cofiwch ystyried iaith cadw cydbwysedd.**
- **Peidiwch â mynegi barn bersonol.**
- **Cyflwynwch ffeithiau syml clir.**
- **Ceisiwch gyfiawnhau eich barn.**

**Blwyddyn 4 Adroddiad**

Arddangos sut y rhennir testun adroddiad i adrannau ac is-adrannau.

Defnydd o benawdau a ffontau.

- Trefnu a chynllunio'r adroddiad ffeithiol drwy:

1. Tasgu syniadau
2. Trefnu'r categorïau
3. Tracio popeth ar ddull 'cynllun corryn'

**Blwyddyn 4 Cyfarwyddiadol**

- Arddangos sut mae cyfleu dilyniant eglur i'r darllenydd.
- Wedi astudio enghraifft, dangos ymwybyddiaeth dda o'r elfennau ieithyddol sylfaenol i'w defnyddio.
- Trefnu'r testun yn rhesymegol, nodi'r broses cam wrth gam.
- Cyflwyno 'gair o gyngor' a nodi canlyniad ambell weithred ar hyd y daith.

**Blwyddyn 4 Adroddiad dwyn i gof**

- Dangos ymwybyddiaeth o iaith ac arddull papurau newydd.
- Dadansoddi penawdau, paragraffau agoriadol.
- Deall beth mae'r darllenydd eisiau gwybod mewn adroddiadau newyddion, e.e.
  Am bwy mae e'n sôn?
  Beth sydd wedi digwydd?
  Pryd?
  Ble?
- Adnabod 'grym geiriau' mewn adroddiad papur newydd, e.e. ansoddeiriau / adferfau trawiadol. Defnydd o'r berfau amhersonol : *'Cafodd dyn ei anafu'*
- Brawddeg glo yr adroddiad
- Defnydd o ddyfynnu tyst neu arbenigwr : *"Dywedodd Mr Jones ...."*

# Hybu Llafaredd

**Dylai disgyblion fedru: -**

Trafod nodweddion storïau o ran treigl amser, cymeriadau ac adeiladwaith.

Trafod pam fo cymeriadau yn ymateb / ymddwyn mewn ffordd arbennig.

Trafod emosiynau a gweithredoedd cymeriadau.

Trafod technegau'r awdur a mynegi barn ar ei ddewis o iaith benodol.

Ymateb yn bersonol i adwaith cymeriadau yn y storïau.

Tynnu sylw at ansoddeiriau ac adferfau a'u haddasrwydd.

Ffurfio cwestiynau ar y cyd i'w gofyn i eraill ar ystod o wahanol destunau.

Trafod sut i gyflwyno gwybodaeth yn dilyn arbrawf, neu waith ymchwil.

Egluro proses drwy gyfeirio at y paratoi, y sefydlu a'r canlyniadau.

Defnyddio iaith mynegi barn sy'n gynyddol mwy soffistigedig iaith tafoli barn a dod i gytundeb neu ddiweddglo pwrpasol.

Trafod a / neu ateb cwestiynau o ran adeiladwaith rhai testunau gan ddefnyddio geirfa bwrpasol, e.e. is-bennawd, is-adran un/dwy/tair/pedair adran

Cyflwyno ar lafar sut i wneud / creu rhywbeth, e.e. o gardfwrdd, gan egluro'r broses yn drefnus.

# Ffocws Penodol
# Darllen Blwyddyn 5

- **I ddarllen yn ystyrlon ystod eang o destunau a datblygu sgiliau crynhoi gwybodaeth a'r hyn a awgrymir yn gynnil mewn testunau.**

- **I ddarllen a dadansoddi ystod o gerddi a dramodigau.**

- **I adnabod nodweddion testunau ffeithiol / cofnodol.**

Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

# Darllen – Blwyddyn 5

**Ffocws:** Ffuglen – nofelau, storïau, dramodigau, cerddi.
Ffeithiol – testunau dadlau a pherswâd, esboniadau, trafod, adroddiad,
Testunau cyfarwyddiadol mewn gwahanol ffurfiau.

**Drwy ddarllen ar y cyd / darllen dan arweiniad / darllen yn annibynnol, mi ddylai'r disgyblion, e.e.: -**

- Datblygu i fod yn ddarllenwyr pwerus sy'n gallu rhagweld digwyddiadau a chymeryd ochr cymeriad.
- Adnabod prif nodweddion gwahanol fathau o genres, e.e. chwedlau, antur, ffuglen-wyddonol.
- Deall sut y cyflwynir cymeriadau – drwy ddisgrifiad, gair, neu weithred.
- Adnabod adeiladwaith stori o ran paragraffau a phenodau.
- Cymharu agoriad gwahanol genres.
- Adnabod a chasglu idiomau a phriod-ddulliau.
- Adnabod yr atalnodi mewn deialog.
- Casglu a / neu gategoreiddio adferfau / ansoddeiriau effeithiol a'u defnyddio.
- Parhau i astudio berfau siarad – sibrydodd, gwaeddodd etc.

Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cygnor Bwrdeistref Sirol

I ddarllen a dadansoddi ystod o gerddi a dramodigau.

- Dadansoddi a chymharu arddull gwahanol gerddi a gwahanol ffurfiau barddonol.
- Parhau : adnabod rhai agweddau ar y gynghanedd, trosiad a chymhariaeth.
- Dethol cerddi ar gyfer blodeugerdd ddosbarth a chyfiawnhau'r dewis.
- Deall a defnyddio'r enwau cywir am wahanol fathau o gerddi, haiku, hen benillion, cerdd acrostig.
- Adnabod beirdd lleol a'u gwaith, e.e. Dafydd Rowlands, Abiah Roderick.
- Mapio'n gronolegol ar siart-lif y prif ddigwyddiadau mewn cerdd naratif, e.e. baled.
- Nodi'r prif wahaniaethau rhwng cerdd Gymraeg a chyfieithad i'r Saesneg ohoni.
- Cyfieithu cerdd o un iaith i'r llall gan wneud defnydd effeithiol o eiriadur a dechrau dangos ymwybyddiaeth dda o'r gwahaniaethau cystrawennol rhwng y ddwy iaith.

I adnabod nodweddion testunau ffeithiol / cofnodol..

- Darllen amrywiaeth o destunau ar draws y cwricwlwm a deall eu pwrpas ac i bwy y cawsant eu hysgrifennu.
- Darllen, gwerthfawrogi a gwerthuso llythyrau, erthyglau etc. sy'n ceisio perswadio, cyflwyno gwybodaeth benodol neu brotestio.
- Darllen hysbys, penawdau newyddion, taflenni etc. sy'n rhoi gwybodaeth benodol neu'n perswadio.
- Adnabod y ffeithiau, adnabod barn neu chwaeth bersonol awduron.
- Deall sut mae arddull, iaith, fformat etc. y darnau darllen yma yn dylanwadu ar y darllenydd.
- Adnabod y triciau neu'r dyfeisiadau iaith a ddefnyddir i dynnu sylw i gael 'impact', i apelio at yr unigolyn a.y.y.b.
- Crynhoi prif negeseuon testunau perswadiol.
- Gwerthuso pa mor effeithiol ydyn nhw a pham.
- Crynhoi a dosbarthu pwyntiau gwrthgyferbyniol o dan y categorïau o blaid / yn erbyn.
- Ailddarllen darnau neu frawddegau cymhleth i sicrhau dealltwriaeth lawn.
- Adnabod gwahanol amserau berfol mewn testunau.

# Ffocws Penodol
# Ysgrifennu Blwyddyn 5

- **I gynllunio neu fapio allan testunau ysgrifenedig er mwyn dangos datblygiad a strwythur a'r cysylltiadau rhwng paragraffau.**

- **I ysgrifennu disgrifiadau llawn ac effeithiol o gymeriadau.**

- **I adnabod a defnyddio rhai technegau ysgrifennu naratif ac i ysgrifennu mewn gwahanol ffurfiau naratif.**

- **I barhau i ddatblygu sgiliau trawsieithu disgyblion wrth iddynt gywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau Cymraeg a Saesneg, er mwyn llunio testun perswadio.**

Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

# Ysgrifennu – Blwyddyn 5

**Ffocws:** Naratif

I gynllunio neu fapio allan testunau a dangos datblygiad a rôl paragraffau.

**Drwy weithio ar y cyd / weithio dan arweiniad / weithio yn annibynnol, mi ddylai'r disgyblion, e.e.: -**

- Adnabod patrwm a datblygiad naratif drwy gategoreiddio'r prif nodweddion.
- Gwneud defnydd mwy cyson o ystod ehangach o eiriau treigl amser, e.e.

  *Gyda'r nos, Ben Bore, Mewn amrantiad*

  Yn ogystal â; e.e.

  | | |
  |---|---|
  | *Drannoeth* | (yn lle *'Y bore wedyn ..... '*) |
  | Neithiwr | (yn lle *'Y noson cyn hynny ..... '*) |
  | Eleni | (yn lle *'Y flwyddyn yma ..... '*) |
  | Y llynedd | (yn lle *'Blwyddyn diwethaf ..... '*) |

- Deall sut mae'r geiriau arbennig yma yn 'symbyliadau' i baragraffau.
- Adnabod a chofio 'symbyliadau' eraill i baragraffau, e.e. adferfau

  *'Yn sydyn, .......... '*

  *'Yn ara deg ......... '*

I lunio disgrifiadau effeithiol o gymeriadau.

- Dechrau arddangos technegau mwy soffistigedig o ddisgrifio cymeriadau – drwy weithred, ystum neu air. Efelychu cynildeb arddull awduron, e.e. datgelu manylion am gymeriad yn ara deg.
- Adnabod dulliau effeithiol o ddisgrifio cymeriadau, e.e. *'Cawr o ddyn'*
- Ysgrifennu disgrifiadau gan gynyddu'r ystod o ansoddeiriau mwy arbenigol, e.e. *'eiddil' 'penderfynol'*
- Categoreiddio ansoddeiriau addas ar gyfer cymeriadau cryf, hyderus a'r rhai gwan di-hyder.
- Adnabod yr ansoddeiriau sy'n disgrifio nodweddion allanol a'r rhai sy'n disgrifio personoliaeth cymeriad.

I adnabod a defnyddio rhai technegau naratif ac i ysgrifennu mewn gwahanol ffurfiau naratif..

- Cadarnhau ymwybyddiaeth o wahanol dechnegau cyflwyno stori, e.e. drwy farcio testun.
- Ysgrifennu stori o safbwynt rhywun arall.
- Newid cynnwys cyflwyniad stori drwy ddilyn cyfarwyddiadau penodol, e.e.
  - cyflwyno tri anifail i mewn i'r stori.
  - newid y berfau siarad (*atebodd, rhuodd*)
- Rhestru ac arddangos agoriadau i stori.
- Llunio ac arddangos brawddegau sy'n cynnwys yr un patrymau iaith, e.e.
  *'Roedd syched ar y ferch fach.'*
  *'Roedd syched arnaf i ddoe amser chwarae.'*
- Amrywio hyd brawddegau, e.e.
  *'Bore Oer. Bore diflas.*
  *Roedd y diwrnod mawr wedi cyrraedd ac roeddwn i ar bigau'r drain.'*
- Rhestrwch y newid agwedd o ran gweithred a gair mewn cymeriadau crwn mewn storïau.
- Llunio cerddi / barddoni o fewn strwythur neu thema penodol, e.e.
  cerdd teimladau / lliwiau a.y.y.b.
- Disodli rhai agweddau ar gerdd disgybl arall, e.e. newid pob ansoddair.
- Adnabod sut y creir naws arbennig mewn cerdd a llunio enghraifft bersonol neu mewn cerdd grŵp (gan newid y naws yn gyfan gwbl os dymunir).
- Adnabod y gwahanol symbyliadau sydd y tu ôl i gerddi.
- Adnabod a defnyddio ystod gynyddol o dechnegau fel onomatopoeia, cyflythrennu.
- Cynhyrchu sgript ddrama fechan – yn deillio o nofel neu stori neu bwnc llosg a drafodwyd.
- Dechrau defnyddio iaith cyfarwyddo llwyfan a chyfarwyddiadau drama eraill.

# Ysgrifennu – Blwyddyn 5

**Ffocws** : Dadl / Perswadio

I gynllunio a chynllunio dadl o un safbwynt yn unig.

**Drwy weithio ar y cyd / gweithio dan arweiniad / gweithio'n annibynnol, mi ddylai'r disgyblion, e.e.: -**

Adeiladu ar waith ysgrifennu tebyg a gyflawnwyd ym Mlwyddyn 3 a 4.

Dangos sut i gyflwyno dadl a pherswadio rhywun / cynulleidfa i fod o blaid rhyw safbwynt benodol.

Defnyddio strwythur cynllunio addas ar gyfer y genre yma ac arddull a nodweddion iaith addas.

Ysgrifennu ac arddangos brawddegau agoriadol / brawddegau clo defnyddiol neu'r prif batrymau iaith i'w defnyddio, e.e.

*'Heb os nac onibai .....'*
*'Ar y naill llaw .....'*
*'Mae'n rhaid cofio bod .....'*
*'Beth bynnag .....'*
*'Ar ben hyn i gyd .....'*

Adnabod a defnyddio iaith emosiynol gref er mwyn ennill y dydd:

- *Rwy'n gwybod eich bod chi'n cytuno.*
- *Does dim dwywaith amdani.*

Defnyddio ail-adrodd i greu effaith.

Ysgrifennu ymateb i erthygl o safbwynt yr ochr arall, e.e. dod a ffonau symudol i'r ysgol.

Ysgrifennu llythyr yn cytuno / anghytuno / perswadio gan ddefnyddio fformat a chynllun addas.

Casglu ac arddangos mewn brawddegau ystod o bynciau llosg y dydd – ar ffurf penawdau papur newydd os dymunir, e.e.

*'Mae plant Cymru'n byw ar greision a siocled'*

Parhad ...

- Rhestru geiriau allweddol o ran perswadio cynulleidfa

  *'Os bosib, .....'*

  *'Mae'n amlwg i bawb .....'*

  *'Mae pawb yn cytuno bod .....'*

- Rhestru geiriau allweddol o ran trefn a dilyniant dadl.

  *' Yn gyntaf, ....'*

  *'I gychwyn, .....'*

  *'Nesaf, .....'*

  *'Yn ychwanegol at hyn, .....'*

  *'A beth bynnag, .....'*

  *'Ac yn olaf, .....'*

  *'Ac i gau pen y mwdwl, .....'*

  *'Ac i gwpla / derfynu, .....'*

# Ysgrifennu – Blwyddyn 5

**Ffocws:** Esboniad.

I gynllunio ac i ysgrifennu testun egluro manylach.

**Drwy weithio ar y cyd / weithio dan arweiniad / weithio yn annibynnol, mi ddylai'r disgyblion, e.e.: -**

- Astudio a thrafod prif nodweddion testunau sy'n rhoi eglurhad yn ôl ffurfiau ieithyddol, strwythur ac arddull.
- Adnabod mewn testunau sut mae nôd a phwrpas a chynulleidfa'r gwaith yn effeithio ar sut y cyflwynir y gwaith a'r iaith a ddefnyddir.
- Newid ac addasu testun i fod yn addas ar gyfer cynulleidfa wahanol, e.e. disgyblion Blwyddyn 3.
- Adnabod y gwahaniaeth rhwng gosodiadau personol a gosodiadau cyffredinol, e.e. *'Roedd blodyn Rhys a fi yn y tywyllwch am wythnos. Dydy e ddim yn fyw nawr.'* *'Mae eisiau golau ar blanhigion'*
- Adnabod geiriau pwnc benodol a thermau arbenigol, e.e. planhigion yn gwywo.
- Llunio geiriadur topig dwyieithog ar ffurf nod llyfr.

# Ysgrifennu – Blwyddyn 5

**Ffocws:** Ffeithiol – Dadl / Perswad, Esboniad, **Adroddiad**, Cyfarwyddiadol, Dwyn i gof.

**Drwy weithio ar y cyd / weithio dan arweiniad / weithio yn annibynnol, mi ddylai'r disgyblion, e.e.: -**

- Ysgrifennu mewn pwyntiau bwled rai o'r nodweddion iaith a ddefnyddir mewn testun sy'n cymharu a chyfosod dau neu mwy o 'eitemau', e.e.
  *'Tra bo'r .....'*
  *'Yn wahanol i'r ....'*
  *'Yn gwbl wahanol i'r .....'*
  *'Maen nhw i gyd ......'*
- Ysgrifennu un neu ddwy frawddeg sy'n crisialu prif neges paragraff mewn testun ffeithiol.
- Defnyddio'r eirfa allweddol i'r math yma o ysgrifennu – geiriau sy'n cyffredinoli am y testun, e.e.
  *'Ar y cyfan, ....'*
  *'Fel arfer, .....'*
  *'Mae tuedd i .....'*
  *'Mae rhan fwyaf .....'*

# Ysgrifennu – Blwyddyn 5

**Ffocws:** Adroddiad dwyn i gof.

I ysgrifennu adroddiadau dwyn i gof ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd.

**Drwy weithio ar y cyd / weithio dan arweiniad / weithio yn annibynnol, mi ddylai'r disgyblion, e.e.: -**

- Creu rhagor o linellau amser er mwyn rhoi trefn ar ddigwyddiadau, e.e. mewn gwers hanes.
- Rhannu'r gwaith ysgrifennu i mewn i baragraffau pendant yn ôl
  - *newid amser*
  - *newid lleoliad*
  - *newid digwyddiad*
  - *i gyfleu 'tro ar fyd'*
- Defnyddio'r symbyliadau cywir a'r geiriau treigl amser addas i gychwyn paragraffau.
- Defnyddio fformiwla a gytunwyd eisoes a/ neu ffrâm / sgaffaldau ysgrifennu, e.e.

  *Pryd?*
  *Ble?*
  *Pwy?* } *aeth*
  *Pam?*
  *Sut?*
  *Beth welwyd yno?*
  *Beth wnaed yno?*
  *Barn bersonol.*
  *Diweddglo.*
- Defnyddio 'angorion iaith', e.e.
  'Y peth mwyaf diddorol i fi oedd ......'
  'Wrth i mi gyrraedd Llangrannog, roeddwn i'n teimlo'n ....... o achos .......'

Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

# Hybu Llafaredd

**Dylai disgyblion fedru: -**

- Trafod eu hoff gymeriadau mewn testunau a chymharu cymeriadau, e.e. mewn cerdd neu chwedl.
- Trafod datblygiad stori.
- Ail-adrodd rhannau o stori o bersbectif gwahanol neu o satbwynt cymeriad arall.
- Crynhoi prif neges / thema mewn gwaith o ffuglen.
- Trafod perthynas cymeriadau ag eraill.
- Trafod dewis a defnydd awduron o iaith arbennig.
- Adrodd cerdd neu ddarn o ryddiaith, e.e. mewn acen wahanol mewn ffug-eisteddfod.
- Trafod rôl yr atalnodi, 'impact' geiriau unigol.
- Adnabod 'penllanw neges' mewn testun.
- Egluro sut mae cyflwyniad a fformat testunau ffeithiol yn gwahaniaethu a pham.
- Trafod sut gellir ychwanegu cymeriadau newydd at stori.
- Trafod addasrwydd gwahanol berfau siarad – sibrydodd / bloeddiodd / rhuodd.
- Cyfrannu at drafodaeth ddosbarth, e.e. llythyr yn cwyno.
- Cyflwyno dwy ochr dadl ar lafar.
- Egluro sut maen nhw wedi cynllunio / paratoi ar gyfer darn o waith ysgrifenedig.

# Blwyddyn 6

**Noder**

I raddau helaeth mae'r gwaith darllen, ysgrifennu a'r llafaredd ym Mlwyddyn 6 yn cyfannu'r holl waith a wnaed yn y blynyddoedd blaenorol.

Nodir y ffocysau penodol ar gyfer Darllen ac Ysgrifennu ar y dudalen nesaf.

# Ffocws Penodol
# Darllen Blwyddyn 6

- **I ddarllen, deall a thrafod ystod o destunau naratif.**

- **I ddarllen, trafod a gwerthuso ystod o gerddi.**

- **I ail-edrych ar ystod o destunau ffeithiol – eu nodweddion penodol ac i sylwi ar y gwahanol ffyrdd y cânt eu cyflwyno.**

Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

# Darllen – Blwyddyn 6

**Ffocws:** Ffuglen – nofelau, storïau byrion, dramâu clasurol, barddoniaeth.
Ffeithiol – ystod eang o fathau o destunau – taflenni, erthyglau, dyddiaduron a.y.y.b

**Drwy ddarllen ar y cyd / darllen dan arweiniad / darllen yn annibynnol, mi ddylai'r disgyblion, e.e.: -**

- Deall prif nodweddion strwythur naratif o ran treigl amser mewn stori ac thracio datblygiad.
- Deall pa fath o ymateb byddai awdur yn ei ddisgwyl.
- Deall bwriad a neges awdur.
- Deall sut yr addasir rhannau o nofel ar gyfer fersiwn fideo, e.e. Tân ar y Comin, T. Llew Jones
- Deall sut y creir naws a thensiwn.
- Crynhoi prif neges / thema / moeswers / mewn testun
- Cymharu thema ac arddull dau wahanol fardd.
- Dadansoddi teimladau / agweddau / negeseuon bardd.
- Gwerthfawrogi rhythm a mydr mewn barddoniaeth.
- Adnabod unrhyw neges gudd neu iaith awgrymog mewn cerddi.
- Newid rhan o gofiant i hunangofiant.
- Darllen ystod o adroddiadau papur newydd.
- Darllen ystod o destunau perswadiol.
- Adnabod dadleuon unochrog a dadleuon cytbwys.

# Ffocws Benodol

# Ysgrifennu Blwyddyn 6

- **I adnabod uchafbwyntiau ac isafbwyntiau stori.**
- **I adnabod a defnyddio ystod o dechnegau naratif.**
- **I ddefnyddio gwahanol genres fel modelau ysgrifennu.**
- **I werthuso ac i ail-edrych ar destunau ysgrifenedig.**
- **I grynhoi prif nodweddion testunau.**
- **I ysgrifennu mewn gwahanol ffurfiau naratif.**
- **I gynllunio plot, cymeriadau a strwythur stori'n effeithiol a hyderus.**
- **I lunio dadleuon effeithiol mewn gwahanol ffurfiau.**
- **I ysgrifennu ystod o esboniadau ar draws pynciau'r cwricwlwm.**
- **I ysgrifennu adroddiad ar dopig o ddiddordeb personol.**
- **I ysgrifennu testunau dwyn i gof a chyfarwyddiadol o ansawdd.**
- **I hybu a datblygu ymhellach sgiliau trawsieithu, cyfieithu a chywain gwybodaeth disgyblion.**

Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

# Ysgrifennu – Blwyddyn 6

**Ffocws**: Naratif

**Drwy ysgrifennu ar y cyd / ysgrifennu dan arweiniad / ysgrifennu'n annibynnol, mi ddylai'r disgyblion, e.e.: -**

- Adnabod a thracio tensiynau ac uchafbwynt(iau) mewn stori.



- Adnabod cynllun neu strwythur stori, e.e.

Gosod y cyd-destun / cefndir

↓

Cyflwyno cymeriadau

↓

Cyflwyno'r 'broblem' (y gwae neu'r gwynfyd)

↓

Cyrraedd uchafbwynt / isafbwynt

↓

Addasu

↓

Datrysiad / Diweddglo

- Adnabod yr eirfa a'r patrymau iaith a ddefnyddir i gyfleu tensiwn / rhyddhad, e.e.

'*Roedd e ar bigau'r drain ...'*

*'Roedd hi â'i gwynt yn ei dwrn...'*

*'Roeddwn yn crynu fel jeli'*

*'Aeth ias i lawr fy nghefn'*

*'Delwais'*

*'Rhewais'*

*'Roedd fy nghalon fach yn curo, curo.'*

Parhad ....

- Defnyddio'r cynllun Holi Deg Cwestiwn

1. Sut fath o stori fydd hi?
2. Pwy sy yn y stori?
3. Beth yw'r lleoliad a'r flwyddyn / amser?
4. Fydd y lleoliad yn newid?
5. Pwy sy'n adrodd y stori?
6. Sut mae'r stori'n agor ac yn cloi?
7. Beth yw'r digwyddiad mawr yn y stori?
8. Beth yw effaith y digwyddiad yma?
9. Beth sy'n digwydd wedyn?
10. Sut mae'r stori'n cwpla?

- Gellir hefyd llunio Canllaw Cyfoethogi Cymraeg ar gyfer disgyblion.
- Gall disgyblion baratoi'n ieithyddol ar gyfer tasgau drwy benderfynu (o flaen llaw, y math o batrymau, weithiau) a nodweddion ieithyddol y byddant yn dymuno gwneud defnydd ohonynt, e.e.
    - amrywio hyd brawddegau bachog.
    - 3 gwahanol gair treigl amser
    - 1 idiom
    - 3 ansoddeiriau negyddol / positif
    - adferfau effeithiol
    - disgrifio teimladau

Creu tabl dwyieithog o wahanol dechnegau ieithyddol a ddefnyddir gan awduron, e.e.

| | |
|---|---|
| whispered Gareth quietly | |
| screamed Siân in pain | |
| suggested Paul with a big smile on his face | |
| roared the old man like an angry lion | |

Parhad .....

- Cymharu iaith, cynnwys ac arddull testunau mewn Cymraeg a Saesneg a disodli rhai cynigion y cyfieithydd.
- Newid geirfa a nodweddion tafodieithol y gogledd i ffurfiau deheuol.
- Ysgrifennu tri math o gerdd ar yr un thema, haiku, limrig, cerdd acrostig.
- Ysgrifennu cerddi'n ymwneud ag elfennau trawsgwricwlaidd, e.e. Gwyddoniaeth.

# Ysgrifennu – Blwyddyn 6

**Ffocws**: Ffeithiol – atgyfnerthu'r ffurfiau i gyd.

**Drwy weithio ar y cyd / weithio dan arweiniad / weithio yn annibynnol, mi ddylai'r disgyblion, e.e.: -**

- Parhau i astudio ystod o destunau perswadiol, e.e. hysbys, llythyrau'n cwyno, broliant, posteri a.y.y.b
- Cynllunio ac ysgrifennu erthygl ar bwnc dadleuon, e.e. brecwast i blant yn yr ysgol.
- Cynllunio ac ysgrifennu taflen berswadiol i hysbysu, e.e. canolfan hamdden.
- Gwneud defnydd o iaith benodol, bwrpasol i'r dasg, e.e.
  Yr amodol a'r diffygiol.
  Pe basech chi'n - basech chi'n siŵr o
  Os ydych chi'n – dylech chi
- Arbrofi gyda chynllun a gosod y gwaith ysgrifennu: (lliw, ffont, blychau, lluniau digidol)
- Rhagweld ochr arall y ddadl a'i llorio, e.e.
  *'Costio gormod? Na. Llai na phunt y mis!'*
- Defnyddio rhai o'r graddau cyfartal, cymharol ac eithaf cymharu ansoddeiriau (*mor, mwy, mwyaf*), e.e.
  '*Dyma'r lle mwyaf diddorol yn ne Cymru.'*

Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

# Ysgrifennu – Blwyddyn 6

**Ffocws**: Adroddiad

I ddewis arddull a ffurf addas i ysgrifennu adroddiad ar dopig o ddiddordeb.

**Drwy weithio ar y cyd / weithio dan arweiniad / weithio yn annibynnol, mi ddylai'r disgyblion, e.e.: -**

- Ymchwilio a chynllunio adroddiad.
- Cynllunio sut i osod y gwaith mas a sicrhau bod yr iaith a'r cynnwys yn berthnasol o gofio'r gynulleidfa a phwrpas yr adroddiad.
- Sicrhau gwaith gorffenedig o ran agoriad a diweddglo.
- Defnyddio'r modd goddefol a'r amser presennol yn eithaf hyderus

  *Ceir dau fath o ......*

  *Gwelir llawer o .....*
- Er bod ..... a ..... yn wahanol maen nhw'n debyg mewn sawl ffordd hefyd.
- Mae'r ddau yn gallu ..... a .....

**Ffocws**: Adroddiad Dwyn i gof

Bwydo iaith benodol ar gyfer y gwahanol genres yn hollbwysig, e.e. Dwyn i gof wedi taith i Barc Margam / Sain Ffagan:

- Cyn i mi fynd ar ymweliad â ........ roeddwn i'n meddwl byddwn i'n ........
- Ond wedi cyrraedd yno, gwelais .....
- Dysgais i hefyd am .....
- Yn ogystal, sylweddolais i fod .....
- Ffaith ddiddorol arall dysgais i oedd bod .....
- Yn olaf, dysgais fod .....

**Ffocws**: Cyfarwyddiadol

I ysgrifennu testun trefniannol ar gyfer gwahanol bwrpasau a chynulleidfaoedd.

**Drwy weithio ar y cyd / weithio dan arweiniad / weithio yn annibynnol, mi ddylai'r disgyblion, e.e.: -**

- Arddangos sut i ddefnyddio'r cynllun pedwar rhan wrth baratoi testun trefniannol.
- Casglu enghreifftiau o batrymau iaith addas ar gyfer yr adroddiad.
- Llunio brawddegau sy'n cychwyn gyda'r modd gorchmynnol ac arddangos ymwybyddiaeth eithaf cyson o'r treiglau meddal yn dilyn y gorchmynnol

  *Torrwch ddau ddarn ......*

  *Ychwanegwch flawd ....*

  A'r treiglau llaes ar ôl y negyddol

  *Peidiwch â thorri*

  *Peidiwch â chymysgu*
- Defnyddio cysyllteiriau pwrpasol a gyflwynwyd eisoes

  *Yn gyntaf .....*

  *Wedyn .....*

  *Cyn hynny .....*

  *Yna .....*

  *Ac i gloi ......*

**Ffocws:** Cofiant

- Ail ystyried ystod o destunau addas – adroddiad papur newydd / dyddiadur ac adolygu'r prif nodweddion o ran cynllun a chynnwys.
- Ysgrifennu cofiant byr am berson enwog, e.e. Winston Chruchill neu gymeriad lleol. Dechrau hyn gyda llinell amser.
- Penderfynu ar frawddeg glo fydd yn crynhoi neu'n osodiad cyffredinol ar fywyd y person yr ysgrifennir amdani / o.
- Cyfleu treigl amser mewn cofiant drwy ddefnyddio'r ffurfiau Cymraeg

  *Ar ôl iddo fe / iddi hi*

  *Cyn iddyn nhw wneud hyn*

# Ysgrifennu – Blwyddyn 6

**Ffocws** : Esboniad

I ysgrifennu ystod o esboniadau sy'n berthnasol i feysydd cwricwlaidd eraill.

**Drwy weithio ar y cyd / gweithio dan arweiniad / gweithio'n annibynnol, mi ddylai'r disgyblion, e.e.: -**

Sicrhau dealltwriaeth o'r mathau hyn o destun drwy, e.e. llunio siart-lif

Casglu gwybodaeth ar ffurf grid / siart mewn gwers Gwyddoniaeth, Daearyddiaeth a chyflwyno'r wybodaeth ar ffurf testun esboniad.

Gwerthuso ystod o destunau esboniad gan nodi'r nodweddion iaith.

Deall a defnyddio ffurfiau goddefol / amhersonol

*'Mae'r dŵr yn cael ei gario .....'*

*'Mae hyn yn cael ei ffurfio .....'*

**Iaith bwrpasol**

*I ddechrau / Mae'n dechrau drwy .....*

*Ac mae hyn yn golygu bod .....*
*newid i .....*
*gwneud i'r .....*

*O ganlyniad i hyn .....*

*Effaith hyn yw .....*

*Nesaf .....*

*Yn dilyn hyn .....*

*Y canlyniad terfynol yw bod .....*

# Ysgrifennu – Blwyddyn 6

**Ffocws:** Trafod

I barhau i lunio testunau trafod effeithiol

**Drwy weithio ar y cyd / weithio dan arweiniad / weithio yn annibynnol, mi ddylai'r disgyblion, e.e.: -**

- Sicrhau dealltwriaeth o'r math hyn o destun o ran cynnwys, arddull a mynegiant.
- Defnyddio techngeau cyflwyno dau ochr i ddadl mewn iaith berthnasol, e.e.

✓ Mae llawer o ddadlau am .....
drafodaeth am .....

✓ Mae pobl yn honni bod .....

✓ Maen nhw hefyd yn dadlau .....

✓ Dadl arall sy' gyda nhw yw bod .....

✓ Ond mae dadleuon cryf yn erbyn y safbwynt .....

✓ Ar ôl pwyso a mesur popeth .....

✓ Yn ogystal â hynny .....

✓ Fodd bynnag .....

✓ Un factor arall yw .....

# Cynllunio Ar Draws

Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

# Darllen

| Trwy ddarllen ar y cyd, gyda'r athro/athrawes ac ar eu pennau eu hunain bydd plant yn cael eu dysgu i ddarllen llythyron, dyddiaduron, erthyglau, adroddiadau newyddion ffeithiol, cylchlythyron, llythyron – ffurfiol/anffurfiol, dadleuon, posteri, hysbysiadau/taflenni/hysbysebion, cyfweliadau, ryseitiau, adolygiadau / amrediad o ffuglen fodern gan awduron o bwys sy'n ysgrifennu i blant / amrediad o farddoniaeth gyfoes o safon / peth barddoniaeth 'glasurol' Gymreig / testunau a dynnwyd o amrywiaeth o ddiwylliannau a thraddodiadau / mythau, chwedlau a storïau traddodiadol a hwiangerddi.. | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhuglder** | | | | | | |
| **Derbyn** | **Blwyddyn 1** | **Blwyddyn 2** | **Blwyddyn 3** | **Blwyddyn 4** | **Blwyddyn 5** | **Blwyddyn 6** |
| • Ailadrodd naratif<br>• Defnyddio amrywiaeth o giwiau<br>• Darllen ei (h)enw ei hun<br>• Darllen labeli<br>• Darllen rhai geiriau amledd uchel mewn cyd-destun. | • Ailadrodd storïau gan roi'r prif bwyntiau mewn trefn<br>• Darllen capsiynau a labeli syml<br>• Defnyddio cyd-destun ffonig a chliwiau cystrawen i ragfynegi ac i wneud synnwyr o'r hyn a ddarllenir<br>• Darllen testunau syml yn annibynnol<br>• Gwella adnabyddiaeth o eiriau<br>•Dysgu ac adrodd rhythmau a cherddi syml. | • Ailadrodd storïau'n unigol<br>• Dysgu, ailddarllen ac adrodd hoff gerddi gan roi sylw i atalnodi<br>• Darllen cyfarwyddiadau syml, ryseitiau, cynlluniau<br>• Defnyddio geiriaduron a rhestrau geiriau i leoli geiriau trwy ddefnyddio'r llythyren gyntaf<br>• Sganio a dod o hyd i eiriau allweddol<br>•Brasddarllen teitl a chynnwys, tudalen, pennod, penawdau<br>• Gwella adnabyddiaeth o eiriau<br>• Defnyddio cyd-destun ffonig, cystrawen a gwybodaeth graffig i ddatrys, rhagfynegi, gwirio ystyr geiriau anghyfarwydd a gwneud synnwyr. | • Bod yn ymwybodol o leisiau gwahanol mewn storïau, trwy ddefnyddio darlleniadau wedi'u dramateiddio<br>• Darllen yn uchel ac adrodd cerddi<br>• Darllen a chyflwyno sgriptiau drama syml<br>• Lleoli gwybodaeth trwy ddefnyddio'r cynnwys, mynegai, rhestr eiriau, pennawd neu lyfryddiaeth<br>• Sganio mynegeion, cyfeiriaduron a ffynonellau TGCh. | • Paratoi , darllen a pherfformio sgriptiau drama<br>• Darllen amrediad o storïau gan gynnwys dyddiaduron<br>• Sganio testun mewn print ac ar y sgrîn i leoli geiriau ac ymadroddion allweddol. | • Darllen testunau mwy cymhleth yn rhwydd e.e. cerddi naratif, storïau traddodiadol.<br>• Darllen a pherfformio cerddi a storïau ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol<br>• Darllen sgriptiau drama<br>• Lleoli gwybodaeth yn hyderus ac yn effeithlon gan ddefnyddio amrediad o strategaethau gwahanol e.e. marcio testun. | • Darllen a dehongli cerddi<br>• Brasddarllen a sganio a thynnu gwybodaeth o destun rhoddedig |
| **Amgyffred** | | | | | | |
| • Gwahaniaethu rhwng testun a darlun<br>• Deall a defnyddio amrediad o dermau am lyfrau a phrint<br>• Dilyn y testun yn y drefn gywir<br>• Bod yn ymwybodol o strwythur y stori. | • Defnyddio'r term ffuglen/ffeithiol<br>• Defnyddio'r teitl, clawr, tudalennau, darluniau, crynodeb i ragfynegi'r stori<br>• Trafod rhesymau am ddigwyddiadau mewn storïau<br>• Disgrifio lleoliadau a digwyddiadau'r stori<br>• Adnabod a thrafod cymeriadau<br>• Darllen testunau ffeithiol mewn ffordd ddewisol<br>• Sylweddoli bod gwybodaeth yn cael ei chyflwyno mewn ffyrdd gwahanol. | • Trafod themâu stori cyfarwydd a chysylltu â phrofiad personol e.e. salwch<br>• Deall amser a pherthnasau dilynol<br>• Rhagfynegi diwedd y stori neu ddigwyddiadau<br>• Trafod lleoliadau'r stori ac adnabod y geiriau sy'n eu disgrifio nhw<br>• Adnabod a disgrifio cymeriadau<br>• Adnabod rhigwm, rhythm a phatrymau cyflythrennol<br>• Deall bod geiriaduron a rhestrau geiriau'n rhoi diffiniadau ac esboniadau<br>• Deall y gwahaniaeth rhwng ffaith a ffuglen<br>• Gofyn cwestiynau cyn darllen deunydd ffeithiol i ddod o hyd i atebion. | • Cymharu amrediad o leoliadau stori<br>• Dewis geiriau ac ymadroddion sy'n disgrifio lleoliadau<br>•Adnabod sut y cyflwynir deialog mewn storïau<br>• Adnabod y gwahaniaethau allweddol rhwng rhyddiaith a sgript drama<br>• Adnabod themâu nodweddiadol storïau e.e. da yn goresgyn drwg<br>• Trafod teimladau cymeriadau Crynhoi prif bwynt adran mewn un frawddeg ar lafar<br>• Defnyddio'r termau ffaith, ffuglen a ffeithiol yn briodol. | • Archwilio lleoliadau a chymeriadau<br>• Deall sut y defnyddir paragraffau neu benodau i gasglu, trefnu neu adeiladu syniadau<br>• Deall sut y defnyddir iaith ffigurol ac adnabod cyffelybiaeth<br>• Adnabod mathau gwahnol o destun e.e. cynnwys, strwythur, geirfa, arddull, cynllun a diben<br>• Adnabod nodweddion testun ffeithiol e.e. penawdau, pwyntiau bwled, rhestrau ac ati<br>• Deall a defnyddio'r termau ffaith a barn<br>• Adnabod sut y defnyddir paragraffau i strwythuro gwybodaeth. | •Dadansoddi nodweddion da ar ddechrau stori<br>• Cymharu strwythurau storïau gwahanol – rhediad, creu disgwyl<br>• Disgrifio'r sefyllfa o safbwynt cymeriad arall<br>•Dadansoddi a chymharu arddulliau gwahanol beirdd gwahanol<br>•Gwahaniaethu rhwng awdur ac adroddwr<br>•Gwerthuso llyfr trwy gyfeirio at fanylion ac enghreifftiau yn y testun<br>• Gwerthuso testunau'n feirniadol<br>• Casglu ac archwilio'r defnydd o ddyfeisiau ieithyddol e.e. diffiniadau, cwestiynau ac ymadroddion rhethregol. | • Diffinio ymateb personol a sylweddoli sut mae testun yn effeithio ar y darllenwr<br>• Deall agweddau ar strwythur naratif e.e. sut mae'r awdur yn ymdrin ag amser<br>• Adnabod sut mae beirdd yn llywio geiriau er effaith e.e. sain neu ystyr<br>• Dadansoddi sut y cyfleir negeseuon, awyrgylch a theimladau mewn barddoniaeth<br>• Dadansoddi llwyddiant testun wrth effeithio ar ei ddarllen e.e. tyndra, disgwyliad<br>• Adnabod prif nodweddion iaith ffurfiol e.e. amser presennol, llais goddefol<br>• Deall nodweddion testun ffeithiol h.y. amser, arddull amhersonol, iaith ddisgrifiadol. |

# Ysgrifennu Naratif
## Amrediad o ffurfiau gwahanol ar ysgrifennu

| **Cyfnod Allweddol 1** | **Cyfnod Allweddol 2** |
|---|---|
| Llyfrau llun, dramâu, cerddi a storïau â lleoliadau cyfarwydd yn ogystal â'r rheiny a seiliwyd ar fydoedd dychmygol a ffantasi. Llyfrau a cherddi a sgrifennwyd i blant gan awduron o bwys. Ailadrodd storïau tylwyth teg a gwerin traddodiadol. Storïau a cherddi o Gymru ac o amrediad o ddiwylliannau. Storïau, cerddi a siantiau sy'n cynnwys iaith batrymedig a rhagfynegadwy. Storïau a cherddi sy'n arbennig o heriol o ran hyd neu eirfa. | Amrediad o ffuglen fodern gan awduron o bwys sy'n sgrifennu i blant. Peth ffuglen i blant sydd wedi hen ennill ei phlwyf. Amrediad o farddoniaeth fodern o safon. Peth barddoniaeth glasurol. Testunau a dynnwyd o amrywiaeth o ddiwylliannau a thraddodiadau. Mythau, chwedlau a storïau traddodiadol. |

| | **Derbyn** | **Blwyddyn 1** | **Blwyddyn 2** | **Blwyddyn 3** | **Blwyddyn 4** | **Blwyddyn 5** | **Blwyddyn 6** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **DIBEN A THREFNIANT** | • Ysgrifennu/ gwneud marc wrth ymateb i stori, digwyddiadau, ymweliad. (Athro/Athrawes yn ysgrifennu beth mae'r plentyn yn dweud ei fod e/hi wedi'i ysgrifennu. | • Ysgrifennu brawddeg/brawddegau (ysgrifennu cychwynnol) i ailadrodd rhan o stori mewn trefn<br>• Ysgrifennu geiriau/meddyliau cymeriadau mewn swigen siarad<br>• Darlunio a disgrifio cymeriad yn y stori. | • Dechrau cynllunio ac ysgrifennu stori a ysbrydolwyd gan gymeriadau, digwyddiadau neu arddull llyfr<br>• Ysgrifennu am ddigwyddiadau gwirioneddol neu ddychmygol mewn trefn, gyda dechrau, canol a diwedd<br>• Cynnwys cymeriad<br>• Defnyddio dechrau priodol i'r stori. | • Cynllunio ac ysgrifennu stori'n annibynnol gan ddefnyddio iaith briodol gan gynnwys deialog<br>• Cynnwys disgrifiadau o leoliadau a chymeriadau. | • Cynllunio ac ysgrifennu stori mewn o leiaf dau genre penodol gan ddefnyddio nodweddion iaith priodol<br>• Datblygu disgrifiad o'r lleoliad<br>• Datblygu cymeriadaeth trwy weithred a/neu lleferydd<br>• Defnyddio paragraffau i ddynodi prif ddyraniadau'r naratif. | • Cynllunio ac ysgrifennu amrediad o storïau mewn genres gwahanol<br>• Cydbwyso gweithred/deialog/ disgrifiad<br>• Defnyddio paragraffau'n gyson i drefnu a strwythuro naratif. | • Cynllunio ac ysgrifennu amrediad o storïau gwahanol gyda rheolaeth ar strwythur yn dangos datblygiad plot a thema<br>• Ysgrifennu ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol e.e. cyfoedion neu blant iau<br>• Defnyddio amrediad o dechnegau naratif i ddal sylw'r darllenydd. |
| **ARDDULL** | • Ysgrifennu, gan ddefnyddio strwythurau iaith lafar syml<br>• Arbrofi gyda geirfa. | • Ysgrifennu brawddeg/cyfres o frawddegau (ysgrifennu cychwynnol) | • Defnyddio cysyllteiriau syml, sef ac, wedyn, ond<br>• Defnyddio cyfystyron, gwrthenwau i estyn/ gwella ysgrifennu. | • Datblygu arddull trwy ddefnyddio cysyllteiriau syml e.e. ond, pan, felly, achos er mwyn egluro'r berthynas rhwng syniadau e.e. cyferbyniad mewn amser, esboniad.<br>• Defnyddio ymadroddion (enw ac adferf) i ychwanegu diddordeb. Defnyddio rhagenwau yn lle enwau priod. Defnyddio amser yn gyson mewn brawddegau. | • Defnyddio mathau gwahanol o gysyllteiriau brawddeg i greu brawddegau mwy cymhleth e.e. os, pan, yn hytrach na, er, fodd bynnag<br>• Defnyddio amser yn gyson<br>• Defnyddio ymadroddion cyffredinol neu leoledig i fireinio'r disgrifiad (ymadroddion arddodiadol)<br>• Ysgrifennu cyffelybiaethau syml. | • Defnyddio cydbwysedd o frawddegau syml a chymhleth er effaith<br>• Gwneud dewisiadau geirfa llawn dychmyg. | • Defnyddio amrediad llawn o strwythurau brawddeg a geirfa amrywiol i greu effaith arbennig ar gyfer y math o stori, cerdd neu ddrama e.e. delweddaeth, trosiadau, cyffelybiaethau |
| **ATALNODI** | • Dangos peth cyfatebiaeth o ran llythrennau a seiniau<br>• Dechrau defnyddio peth atalnodi<br>• Dysgu sut i ysgrifennu llythrennau bras a bach. | • Defnyddio llythrennau bras ac atalnod llawn i ddynodi brawddegau. | • Defnyddio llythrennau bras, atalnodau llawn, gofynodau<br>• Defnyddio llythrennau bras ar gyfer enwau a lleoedd. | • Defnyddio llythrennau bras, atalnodau llawn, gofynodau yn gyson Dechrau defnyddio dyfynodau ar gyfer lleferydd a phwyslais<br>• Defnyddio atalnodau ar gyfer rhestrau<br>•Defnyddio ebychnodau mewn lleferydd<br>• Defnyddio collnodau ar gyfer cwtogiadau. | • Dechrau defnyddio atalnodau i wahanu elfennau brawddeg, rhestrau, ymadroddion byr, cymalau.<br>• Defnyddio dyfynodau. | • Defnyddio atalnodau i gyflwyno ac i ddod â lleferydd uniongyrchol i ben<br>• Defnyddio llythrennau bras ar gyfer pob enw priod<br>• Defnyddio cromfachau, gwahanodau a cholonau i strwythuro brawddegau hir<br>• Defnyddio collnodau i ddynodi meddiant. | • Defnyddio amrediad llawn o atalnodi i amrywio rhediad ac i egluro ystyr<br>• Defnyddio atalnodau, gwahanodau a cholonau i osgoi amwysedd o fewn brawddegau<br>• Defnyddio cromfachau i fireinio disgrifiad (er mwyn adlewyrchu ac ar gyfer neillebau. |

# Ysgrifennu Ffeithiol
# Amrediad o ffurfiau gwahanol ar ysgrifennu

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bwydlenni, posteri, negeseuon, rhestrau, llythyron, arddangosfeydd yn y dosbarth, y maent yn gallu cynnwys mathau o destun na ddysgwyd yn benodol | | | | Adroddiadau newyddion, cylchlythyron, llythyron – ffurfiol/anffurfiol, dadlau, posteri, hysbysiadau/taflenni/hysbysebion, cyfweliadau, ryseitiau, adolygiadau, fformatiau TGCh gan gynnwys e-bost | | | |
| | **Derbyn** | **Blwyddyn 1** | **Blwyddyn 2** | **Blwyddyn 3** | **Blwyddyn 4** | **Blwyddyn 5** | **Blwyddyn 6** |
| **PWRPAS A THREFNIANT** | Dwyn i gof | Cyfarwyddiadol<br>Dwyn i gof | Adroddiad<br>Cyfarwyddiadol<br>Dwyn i gof | Trafod<br>Adroddiad<br>Cyfarwyddiadol<br>Dwyn i gof | Esbonio<br>Trafod<br>Adroddiad<br>Cyfarwyddiadol<br>Dwyn i gof | Perswadiol<br>Esbonio<br>Trafod<br>Adrodd<br>Cyfarwyddiadol<br>Dwyn i gof | Amrediad o ffurfiau gwahanol ar ysgrifennu at ddibenion gwahanol ac ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol |
| | • Gwneud marc at ddiben (Athro/athrawes yn ysgrifennu beth mae'r plant yn dweud eu bod wedi ysgrifennu). | • Ysgrifennu cyfres o bwyntiau sy'n berthnasol i'r pwnc. | • Ysgrifennu cyfres o bwyntiau mewn trefn ddealladwy. | • Cynnwys datganiad i gyflwyno (cyd-destun gosodedig) a chyfres o bwyntiau mewn trefn sy'n perthyn i'r pwnc. | •Sicrhau:-<br>•Cydbwyso pwyntiau mewn trefn dda, cyflwyniad a datganiad i gloi<br>• Syniadau sy'n cael eu cynnal a'u datblygu<br>• Defnyddio cynllun a nodweddion priodol ar gyfer y drefn<br>• Defnyddio paragraffau i grwpio gwybodaeth. | • Strwythur ar gyfer trefn benodol<br>• Dangos ymwybyddiaeth o gynulleidfa Cynnwys lefel briodol o fanylder<br>•Defnyddio paragraffau a dyfeisiau cynllunio eraill e.e. blychau ar gyfer golwg gyffredinol<br>• Rheoli syniadau i ennyn diddordeb y darllenydd a'i gynnal. | • Sicrhau bod yr ysgrifennu yn fanwl ac yn ddatblygedig<br>• Defnyddio technegau penodol sy'n cyd-fynd â'r drefn benodol e.e. mae'r cyflwyniad yn sefydlu llais a rôl yr awdur ac mae'r diwedd yn cynnig crynodeb i berswadio neu apelio at y darllenydd. |
| **ARDDULL** | •Ysgrifennu gan ddefnyddio strwythurau iaith lafar syml<br>• Arbrofi gyda geirfa. | • Ysgrifennu brawddeg/cyfres o frawddegau (ysgrifennu cychwynnol). | •Defnyddio cysyllteiriau syml – a, wedyn, ond, achos.<br>• Defnyddio cysyllteiriau rhesymegol – wedyn, ar ôl, nesaf. | • Defnyddio geiriau sy'n cyffredinoli<br>• Defnyddio cysylltleiriau i strwythuro amser/trefn<br>• Defnyddio rhagenwau yn lle enwau priodol Defnyddio ymadroddion enwol<br>• Defnyddio amserau'n gyson mewn brawddegau. | • Defnyddio amrediad o gystrawennau cymhleth i estyn ystyr<br>• Defnyddio cysylltleiriau er pwyslais<br>• Defnyddio iaith ffurfiol/anffurfiol yn gyson ar gyfer y darllenydd<br>• Defnyddio ymadroddion cyffredinol neu rai sydd wedi'u lleoli i gyflwyno themâu disgrifiadol e.e. ymadroddion arddodiadol – o flaen. | • Dangos amrywiaeth yng nghystrawen y frawddeg e.e. grwpio'r goddrych cyn y ferf neu gyfeirio'n ôl ac ymlaen gan ddefnyddio hwn, y rhain, fe/hi i osgoi ailadrodd<br>• Defnyddio cystrawen oddefol | •Defnyddio amrywiaeth o eirfa er effaith<br>• Amrywio trefn geiriau er effaith<br>• Defnyddio amrediad o gystrawennau a hyd brawddegau er effaith<br>• Cynnal y lefel o ffurfioldeb a ddewiswyd. |
| **ATALNODI** | • Dysgu sut i ysgrifennu llythrennau bras a llythrennau bach. | • Defnyddio llythrennau bras ac atalnodau llawn. | •Defnyddio llythrennau bras, atalnodau llawn a gofynodau<br>• Defnyddio llythrennau bras ar gyfer enwau a lleoedd. | •Defnyddio atalnodau ar gyfer rhestrau<br>• Defnyddio collnodau ar gyfer cwtogiadau. | • Defnyddio atalnodau i wahanu elfennau mewn brawddeg. | • Defnyddio cromfachau, gwahanodau a cholonau i strwythuro brawddegau hir | •Defnyddio amrediad o atalnodi i amrywio rhediad ac egluro ystyr. |

# Atodiadau

Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

# Atodiad 1

Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

# Canolfan Gymraeg San Helen, Abertawe

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | S | | | | |
| C | o | n | f | e | n | s | i | y | n | a | u |
| e | | | | | | | ll | | | | |
| r | | | | | y | m | a | t | e | b | |
| dd | | | | | | | f | | | | |
| i | | | | | | | u | | | | |

# Ysgrifennu yng Nghyfnod Allweddol 2

**Len Jones**
**Mehefin, 2003**

# Gwella Ansawdd Gwaith Ysgrifennu

1. Enghreifftiau o'r frawddeg syml – yr un sydd fwyaf cyfarwydd i blant ifanc yw'r canlynol:

   *Mae'r oen yn pori yn y cae.*
   *Roedd llawer o bobl yn byw yn y dref.*
   *Cefais anrhegion diddorol ar fy mhenblwydd.*

Brawddegau sy'n 'dweud un peth', yn gwneud yn gosodiad, ydyn nhw, ac, yn ôl trefn y gystrawen Gymraeg, y ferf sy'n cychwyn y frawddeg.

Datblygiadau amlwg sy'n dangos aeddfedrwydd cynyddol, felly, ydy:
a) ychwanegu at y cymalau.
b) cyfnewid neu amrywio trefn y geiriau.

a) mae'r cysyllteiriau *'a'* ac *'ond'* yn caniatau inni gael dau gymal cydradd a dwy ferf:

   *Fe gyrhaeddodd yr ysgol yn hwyr* ***ac*** *fe gollodd y wers fathemateg.*
   *Rhedodd nerth ei draed* ***ond*** *ddaliodd o mo'r bws.*

   Yn gyffredinol mae plant, o oedran ifanc iawn, yn gorddefnyddio *'a'* neu *'ac'* ac yn rhestru digwyddiadau yn union fel petaen nhw'n adrodd hanesyn ar lafar. Y gamp, yn aml, ydy eu perswadio i ymatal ac i gychwyn brawddeg newydd. Mae'n rhaid eu hannog i ddefnyddio *'ond'* er mwyn rhoi tro syniadol yn y frawddeg.

b) Y gyfrinach o safbwynt is-gymalau, sydd yn ymestyn brawddegau ac yn cynnig amrywiaeth cystrawennol, ydy annog plant i feddwl am gychwyn eu brawddegau gyda'r geiriau bach hynny: *pan, os, er, wrth, cyn, tra, am ….*

***Er*** *fod Mr Hughes yn gwybod am y digwyddiad, soniodd o 'run gair wrth ei fam.*

***Pan*** *fyddaf i'n fawr dwi am fod yn beilot.*

***Os*** *bydd hi'n bwrw glaw eto fory fe ofynnaf i Sion ddod i chwarae efo fi.*

***Am*** *na welson nhw ragolygon y tywydd fe fentron nhw'n rhy bell ar y mynydd.*

***Wrth*** *inni basio'r fynwent dawel fe glywsom sisial y gwynt yn y brigiau.*

***Tra*** *roedd y wraig wedi troi ei chefn rhuthrodd y llanciau am ei bag.*

Wrth gwrs, fe ellir cadw'r ystys ond newid y pwyslais drwy amrywio'r drefn:

***Fe*** *glywsom sisial y gwynt yn y brigiau wrth basio'r fynwent dawel.*

2. Nodwedd arall o frawddegau mwy aeddfed ydy'r defnydd o ymadroddion bychan. Yn aml, rhai yn ymwneud ag 'amser' ydyn nhw, ac fe'u gellir yn cychwyn y frawddeg neu oddi mewn iddi:

***Fel arfer*** *byddai'r Rhufeiniaid yn gosod baddonau yn eu tai.*

*Mae gwylio Lerpwl yn chwarae yn rhoi pleser imi* ***bob amser****.*

***Ambell dro*** *byddent yn oedi i wylio'r awyrennau mawr yn codi a glanio yn y maes awyr.*

*Daeth mwy o ddyfeisiadau* ***yn raddol*** *i helpu'r gweithwyr.*

3. Mae hyn yn arwain yn naturiol at y defnydd o briod-ddulliau, sydd yn cyfoethogi'r brawddegau bob amser (er na ddylid eu gorddefnyddio!):

| | | |
|---|---|---|
| *ymhen hir a hwyr* | *â'i phen yn ei phlu* | *wrth eu bodd* |
| *cyn bo hir* | *cael a chael* | *bob hyn a hyn* |
| *o dipyn i beth* | *dros ben llestri ….* | |

4. Yn gyffredinol mae plant yn ei chael yn anodd i ddefnyddio'r gorffennol amherffaith, sef berfau yn diweddu ag *'-ai', '-em'* neu *'-ent'*, ond mae cyfansoddi brawddegau fel hyn yn sicr o gyfrannu at wella ansawdd gwaith ysgrifennu. Maen nhw'n ddefnyddiol ar gyfer:
   a) gosod sefyllfa neu awyrgylch mewn stori
   (***Byddent*** *yn treulio llawer o amser yn ystod y gwyliau yn chwarae wrth yr afon ac fe* ***wyddai*** *eu mam eu bod yn berffaith saff yno.)*

   b) cofnodi arferion mewn gwaith ffeithiol
   *(****Byddai*** *pobl Oes y Cerrig yn hela am eu bwyd ….)*

5. Mae'r ffurf amhersonol yn un anaml ei defnydd yng ngwaith plant, hefyd, er ei bod i'w gweld yn aml mewn llyfrau gwybodaeth. Dyma'r geiriau sy'n diweddu ag *'-ir'* ac *'-wyd'*:

   ***Cynhyrchir*** *y nwyddau hyn yn y ffatrioedd sydd ar gwr y trefi prysur.*

   ***Adeiladwyd*** *rheilffyrdd gan David Davies, a bellach roedd modd cludo'r glo i'r porthladdoedd.*

6. Nodwedd arall sy'n cyfoethogi gwaith ysgrifennu'r plant ydy'r defnydd o adferfau. Mae'r rhain yn cryfhau'r 'gwneud' (berfau) lawn cymaint ag y mae ansoddeiriau yn cryfhau'r 'pethau' (enwau). Felly, mae angen ymarfer y grefft o ddisgrifio'r ferf:

   *Dringodd* ***yn ofalus*** *o fodfedd i fodfedd.*

   *Darllenais y nodyn* ***yn frysiog*** *cyn ei daflu'n* ***ddifeddwl*** *i'r tân.*

# Confensiynau'r Gymraeg

Pa rai ydyn nhw?

**(a) Sillafu Atalnodi (b) Treiglo Cystrawen**

Y rhain sy'n peri i ysgrifennu fod yn gywir neu'n anghywir, yn hytrach na bod yn ddiddorol neu anniddorol, yn wallus yn hytrach nag yn wan.

Y rhain ydi'r pethau sy'n cael y prif sylw pan fyddwn yn cywiro gwaith y plant.

Gan fod y Gymraeg yn iaith sy'n 'anodd ei chael yn iawn,' mae gwallau fel y rhain yn niferus yng ngwaith plant. A'n cywiriadau ninnau, felly, yn niferus.

***Pam** fod y Gymraeg yn 'anodd ei chael yn iawn'?*

Am ei bod yn ei hanfod yn iaith sydd â *newidiadau* yn greiddiol i'w gramadeg hi; felly, mae yna gymysgu, anwybyddu neu gamddeall y newidiadau.
Mae rhai o'r newidiadau yn ymwneud â lleoliad geiriau mewn brawddeg; eraill yn ymwneud â phwrpas neu ffrwythiant gair neu ymadrodd.

Ystyrier y plentyn o ddysgwr, druan, sydd wedi dysgu fod 'two' yn cael ei gyfieithu yn 'dau'. Cyn hir mae'n gallu dweud, *'Mae dau ffenest yn fy lloft.'*
Fe'i cywirwn o yn sensitif: *'Oes, wir? Oes 'da ti ddwy ffenest yn dy lofft, felly?'*
Yn sydyn mae'r 'dau' gwreiddiol wedi mynd yn '*ddwy*' – sef wedi newid mewn dau le!
O dipyn i beth, fel y daw'r dysgwr yn fwy rhugl, fe fydd yn cael ei gyflwyno i ffurfiau fel 'nwy' – nid y tanwydd anweledig ond '*fy nwy fraich*' neu '*fy nwy chwaer*.'
Mae pethau'n waeth pan mae o'n dysgu gair fel 'pedwar'. Daw i sylweddoli fod yna 'bedwar', 'mhedwar' a 'phedwar'. Yn ogystal, wrth gwrs, â 'pedair, 'bedair', 'mhedair' a 'phedair'. A phob un yn gywir mewn lleoedd penodol yn y frawddeg, ond yn anghywir mewn lleoedd eraill.

Mae gwallau categori **(a)** uchod yn rhai sy'n ymwneud yn unig ag ysgrifennu – y llygad yn unig sy'n sylwi arnyn nhw. Felly, gellir honni mai trwy roi sylw i fedrau darllen ac ysgrifennu (y ddwy grefft weledol) y mae rhoi sylw iddyn nhw.

Mae gwallau categori **(b)** yn amharu ar ansawdd llafaredd yn ogystal â bod yn wendidau ysgrifennu. Mae rhain angen sylw o fewn llafaredd, darllen ac ysgrifennu. Ond, yn arwyddocaol – gan mai cofnodi yr hyn sy'n cael ei gyfansoddi 'yn y pen' a wneir wrth ysgrifennu – mae'r gwallau angen eu dileu yn y pen, yn y glust ac oddi ar y tafod.
Dyna pam fod gwaith llafar cyson yn bwysig.
Nid yn unig mae hyn yn rhoi cyfle i blant siarad / trafod / cyfathrebu a meithrin hyder ynddyn nhw i fentro eu sylwadau o flaen grŵp / dosbarth.

Mae, hefyd, yn fodd i **ni** ganfod ble mae gwendidau'r mynegiant llafar:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwendidau ynganiad, efallai - | *'castach'* | *'trwyfo'* | *'meffu'* |
| Gwendidau rhagenw, efallai - | *'yn cael o'* | *'côt fi'* | |
| Gwendidau arddodiaid, efallai - | *'yn rhoi i nhw'* | | |
| Gwendidau ffurfiau berfol, efallai - | *'mae ni'n mynd'* | | |

Yn y cyfnod llafar yma mae caboli a graenuso cymaint ag a allwn ni ar y mynegiant. Wedi'r cyfan, bydd yn anodd i blentyn ysgrifennu'n gywir bethau y mae'n eu dweud yn anghywir.

Mae'n debyg fod y geiriau bach – y rhagenwau blaen ac ôl, yr ymadroddion meddiannol – yn baglu plant yn aml.
Dyna sy'n gyfrifol am inni glywed pethau fel *'côt fi'*, *'pêl chdi'*, *'mam fi'*, mor aml – y plant yn cynnwys rhagenw ôl yn hytrach na rhagenw blaen.
Yn wir, maen nhw'n defnyddio'r rhagenw personol yn hytrach na'r rhagenw ôl. Dydyn ni oedolion ddim yn dweud *'côt chdi'*, ond *'dy gôt'* neu *'dy gôt di.*
Llygriad o 'ti' ydy 'chdi' a defnyddiwn ef i bwysleisio'r person: *'Chdi wnaeth'* (yn y De – '*Ti dorrodd y ffenest.'*) Maen nhw, felly, yn ddigon doeth i osgoi'r angen i dreiglo, fel byddai angen ei wneud gyda *'fy….ei….dy….'* sef y rhagenwau o flaen nifer dda o eiriau.

Clywir, a gwelir, ffurfiau fel *'yn gweld fi'* hefyd, ble mae'r plentyn eto yn anwybyddu'r rhagenw pwysicaf a dweud *'yn fy ngweld.'*

# Gweithgaredd

Cardiau gwyrdd yn cynnwys:
*Fi ti chi Sion Siân Mr Jones Miss Evans*
a chardiau melyn efo nifer o ferfau penodol:
*gweld, clywed, taro, gwrthod, croesawu, caru, hoffi, casáu, gwthio, curo, taflu, gwylltio, dewis ….*

Plentyn yn codi un o bob lliw ac i ddweud yr ymadrodd cywir, e.e.
Codi ***Miss Evans*** a ***caru*** i ddweud *'ei charu hi'*
Codi ***fi*** a ***gwrthod*** i ddweud *'fy ngwrthod i'*

Sylwer nad ydi'r plentyn i ddweud y geiriau fel y maent ar y cardiau, dim ond eu defnyddio i ddefnyddio rhagenwau a threiglad cywir y ferf.

**Treigladau:**
Does dim gobaith inni ddisgwyl i blant ddysgu rheolau treiglo; maen nhw'n rhy niferus ac yn rhy gymhleth. Wedi'r cyfan, dydyn ni, oedolion, ddim yn treiglo'n gywir oherwydd ein gwybodaeth o'r rheolau, ond oherwydd fod ein clustiau wedi eu tiwnio i'r ffurfiau llafar cywir, a hynny o oedran cynnar.

Mae'n bosib cynnig arweiniad i blant unwaith eto trwy dynnu sylw at rai geiriau bach sy'n ddigon pwysig i beri newid yn y gair sy'n ei dilyn.

1. **i** ac **o**

Dyma ddau arddodiad sy'n cael eu dilyn yn aml (er nad bob amser) gan dreiglad, e.e. mynd – **i f**ynd
rhedeg – **i r**edeg
Llanelli – **o L**anelli
pwdin – **o b**wdin

**Gweithgaredd ar ôl ysgrifennu, felly:**

- Darllenwch eich gwaith yn ofalus, gan sylwi ar unrhyw **i** ac **o** sydd ynddo.
- Ydi'r gair sy'n dilyn yn treiglo, tybed?

2. **Y Meddiannol:**

Mae treiglad yn dilyn y patrwm *'Mae gen i …. / Mae gennyt ti …. / Mae ganddo / ganddi …. / Mae gennym …. / Mae ganddyn nhw….'*

Hefyd, gan fod plant yn aml yn ysgrifennu yn y person cyntaf mae yma gyfle i ymarfer llafar neu ddrilio patrwm y rhagenw + enw gwrthrych.

**Gweithgaredd: Ymarfer 'fy….':**
Gosod cardiau gydag enwau pethau / perthnasau mewn pentwr (wyneb i waered); grŵp o blant yn cymryd eu tro i godi cerdyn o'r pentwr, edrych ar y gair a rhoi 'fy' o flaen, e.e. 'côt' – dweud *'fy nghôt'*
'bwyd' – dweud *'fy mwyd'*

I blant sy'n ansicr neu'n ddihyder iawn gellir gosod y cardiau i gyda â'u pennau i fyny ar y bwrdd fel bod y plentyn yn dewis un gall ei wneud yn llwyddiannus.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Geiriau:** | tedi | teulu | tŷ |
| | ci | côt | cath |
| | papur | partner | pensil |
| | brawd | bwyd | banana |
| | doctor | dillad | dosbarth |
| | gwaith | gardd | goriad |
| | ffrind | siswrn | rhieni |
| | llyfr | afal | eliffant |

*Dro arall*, gellir ymarfer 'dy' ac 'ei (gwrywaidd a benywaidd)

3. **Gweithgaredd:**

Cardiau ag enwau gwrthrychau arnynt ond gyda (gwr.) neu (ben.) hefyd, e.e.

| | | |
|---|---|---|
| drws (gwr.) | ffenest (ben.) | llawr (gwr.) |
| gwynt (gwr.) | bwrdd (gwr.) | papur (gwr.) |
| carreg (ben.) | coeden (ben.) | tŷ (gwr.) |
| cannwyll (ben.) | hosan (ben.) | pêl (ben.) |

Codi cerdyn yn eu tro, a chynnig cymaint a ferfau posib y gellir ei 'wneud' i'r gwrthrych, e.e.

| | | |
|---|---|---|
| **bwrdd (gwr.)** - | ei glirio fe | ei werthu e |
| | ei osod e | ei lanhau o |
| **ffenestr (ben.)** – | ei thorri hi | ei hagor hi |
| | ei chau hi | ei chloi hi |

ond gan ddefnyddio'r rhagenw a'r treiglad priodol, wrth gwrs.

# Treiglo: Rhai Canllawiau

1. Mae cyflwyno cyfres o reolau yn anymarferol lle mae plant yn y cwestiwn, oherwydd:
   a) mae yna ormod ohonyn nhw
   b) dydyn ni fel oedolion ddim yn gwybod y rheolau er ein bod yn treiglo yn eithaf cywir
   c) ni fydd plant yn gallu cofio na deall llawer o'r rheolau

2. Llawer pwysicach ydy trio meithrin y glust i **glywed** y gwahanol synnau. Os ydy plant yn cam-dreiglo yn eu gwaith ysgrifennu maen nhw'n cam-dreiglo yn ei llafaredd. Maen nhw'n aml yn ysgrifennu'r hyn maen nhw'n ei ddweud.

3. Felly, mae'n bwysig cynnal sesiynau o dynnu sylw llafar at eiriau sydd wedi eu treiglo mewn sgwrs neu mewn testun, fel bod ymwybyddiaeth y plant o amlder treiglo yn cael ei feithrin (yn arbennig y treiglad meddal, er nad oes angen enwi'r tri math o dreiglad i'r plant)

   e.e. 'Glywsoch chi beth dd'weddodd Sioned rwan:
   *'Dwi'n mynd i gael rhagor o bwdin.'*

   Pa ddau air sydd wedi eu treiglo yn y frawddeg? Dyna chi – **gael** a **bwdin**. Sut fyddai'r geiriau yna i'w gweld mewn geiriadur, tybed?

   Felly, dyna ddwy reol bach:
   **Mae geiriau yn treiglo yn aml ar ôl *'i'* ac ar ôl *'o'***

   Beth am feddwl am nifer o eiriau i ddilyn 'i' –
   i lawr / i weld / i roi / i basio / i dynnu …. (Geiriau gwneud neu ferfau)

   i Gaerdydd / i Bontardawe / i fasged / i dŷ (lleoedd neu enwau)

   Ac ar ôl 'o' – o Gastell Nedd / o Lanelli / o bethau / o ddwylo / o deisen / o funudau

4. Beth am y brawddegau yma?
   *'Mae ganddo lawer o ddefiad ar y mynydd'.*
   *'Does ganddyn nhw ddim bwyd yn y tŷ.'*
   *'Roedd ganddo gar coch.'*
   *'Mae gennych lyfrau darllen.'*
   *'Mae gen i fwyd blasus.'*

Mae *lawer / ddim / gar / lyfrau / fwyd* wedi cael eu treiglo. Pam, tybed?

Rheol arall, felly:
**Mae *gan / gennym / ganddo / ganddi / gennych* yn achosi treiglad yn y gair sy'n dilyn.**

5. **Darllen:** Edrychwch ar un dudalen o'ch llyfr darllen Cymraeg. Pa eiriau sydd wedi eu treiglo yna?
   Gwnewch restr ohonyn nhw (neu dewisiwch unrhyw ddwsin) a gyferbyn â phob un ysgrifennwch y gair *heb* ei dreiglo.

   Pa rai sydd wedi treiglo oherwydd rheol ***'i'*** ac ***'o'***?

6. Sesiwn lafar sionc: **Ar ôl 'i'**: mynd
   cael
   dwyn
   gwneud
   rhedeg
   **Ar ôl 'o'**: bwyd
   casglu
   defaid
   tŷ
   gwaelod

7. Sesiynau byr ond cyson i ymarfer ei …. (gwr. a ben.), e.e. Athrawes yn galw allan engreifftiau fel ***'coes John' / 'map Lowri' / tŷ Melangell' / 'poen Sion'*** ar plant i ateb: ***ei goes / ei map / ei thŷ / ei boen***

8. **Ysgrifennu:**
   gofalu fod y plant yn mabwysiadu'r arfer o ail-ddarllen eu gwaith cyn ei roi i'r athrawes i'w farcio, gan gofio am rai canllawiau fel:
   *'Mae geiriau bach, bach, fel i / o / fy / dy / ei yn ddigon pwerus, yn aml, i achosi newid yn y gair sy'n eu dilyn.'*

# Y Gors Arswydus

## Pennod Un

Camodd Matt yn araf a phryderus i fyny'r grisiau tywyll. Teimlai pob gris yn ofnadwy o wan ac ansad, a chodai rhyw ddrewdod llaith o bob man. Arogl tŷ a fu'n wag ers blynyddoedd.

Sgrialodd rhywbeth yn sydyn yn y cysgodion. Llygoden fawr? Y-ych! Crogai gweoedd pry cop o'r nenfwd gan ysgubo ar draws ei wyneb ac yng ngolau'i dorts gwelai bry cop anferth, blewog yn dringo'r canllaw wrth ei law. Rhedodd ias i lawr ei asgwrn cefn.

Y tu allan, disgwyliai ei ffrind, Andrew, amdano. Roedd yntau'n poeni braidd am iddo herio Matt i aros am hanner awr gyfan yn y tŷ. Safai Tyddyn Waen yng nghanol cors, a heddiw gorweddai blanced o niwl trwchus dros yr holl dir. Codai'n ddioglyd weithiau i ddangos ambell lwyn pigog a dafad neu ddwy.

Roedd yr hen dŷ yn perthyn i deulu Matt ers canrif a mwy, ond doedd neb wedi byw ynddo ers blynyddoedd. Ar fferm ddefaid gerllaw roedd Matt a'i deulu'n byw.

Ysai Andrew am gael gwybod mwy am yr hen le. Syllodd i fyny ato. Chwyrlïai'r niwl o'i amgylch gan wneud i'r ffenestri edrych fel llygaid yn rhythu arno.

**Dau sŵn 'y'**

1. Darllenwch y darn yn ofalus i ganfod pob gair sy'n cynnwys y llythyren *'y'* ynddo.
2. Rhestrwch y geiriau mewn tair colofn:
    a) *'y'* sy'n gwneud ei sŵn ei hun
    *b)* *'y'* sy'n gwneud sŵn *'u bedol'* neu *'i'*
    c) dau sŵn *'y'* yn y gair
3. Oes posib llunio rheol ynglŷn â hyn?

Un diwrnod braf ym mis Hydref, pan own i'n ddeg oed, roedd fy nhad a finne wedi codi'n fore iawn ac wedi casglu tri deg o ddefaid at 'i gilydd i fynd â nhw i lawr i hen dafarn y Garth i gwrdd â'r porthmyn, oedd bob amser yn aros yno ar eu ffordd i Aberhonddu. Rown i'n teimlo'n gynhyrfus iawn y bore hwnnw, ac yn dipyn o ddyn hefyd. On'd oedd Mam-gu wedi dweud 'mod i nawr yn ddigon mawr ac yn ddigon cryf i fynd gyda 'nhad pan âi â'r defaid i gwrdd â'r porthmyn yn y Garth?
Doeddwn i erioed wedi bod o'r blaen, am fod y daith yn un hir iawn i blentyn – wyth milltir i lawr y mynydd. Ond roeddwn i wedi clywed llawer o sôn am y porthmyn – y dynion garw hynny ar gefn ceffylau neu ar droed – a fyddai'n gyrru cynifer â dwy fil o ddefaid dros y mynydd i Aberhonddu, ac weithiau mor bell â Lloegr hefyd. Yn awr roeddwn i'n mynd i gael y cyfle i'w gweld â'm llygaid fy hunan.

(allan o 'Lladron Defaid,' Alison Morgan, addas. T Llew Jones)

1. Efelychu brawddeg, e.e. y frawddeg gyntaf
Un___________________ , pan______________ , roedd __________________ wedi _________________ ac wedi _________________ i _________________ i ______________________, oedd ___________________.

2. Chwilio am dreigladau:
Rhestrwch y geiriau sydd wedi eu treiglo yn y darn.
Gyferbyn â phob un rhestrwch y gair *heb* ei dreiglo

# Storïau Plant

O ran ***confensiynau*** y gwendidau pennaf yw'r hyn sy'n wendidau yn eu llythyrau, eu holiaduron, eu dyddiaduron, eu protreadau, eu hadroddiadau, eu cerddi…
Oherwydd mae cywirdeb yn gyffredin i bob math o ysgrifennu.

O ran ***cynnwys*** yr hyn sy'n wendid yw:

1. Diffyg meddwl am y plot – yr hyn sydd yn digwydd, canlyniad hynny, gweithred bellach a datrysiad neu diweddglo. Dymunaf i blant erbyn Blwyddyn 4 – 6 feddwl am stori fel: -

**'dechrau….canol….canol….canol….diwedd'**

(er ei bod yn dderbyniol i blant ieuengach feddwl am 'ddechrau, canol, diwedd,' wrth gwrs)

2. Yr ***'Eastenders Syndrome'*** neu'r '***Pobol y Cwm Syndrome'***.
Gormod o ddeialog a phrinder naratif. Mae eu storïau yn aml yn '*digwydd a dweud'* – dydyn nhw ddim yn oedi i nodi teimladau / meddyliau neu i ddisgrifio lleoliad.

**Awgrymiadau:**
- Darllen darn o stori i'r dosbarth yn gyson, gyson, fel bod y plant yn dod i 'ymglywed' ag arddull a iaith llyfr.
- Gosod tasgau aml a byr i lunio gwahanol frawddegau agoriadaol, heb o anghenraid arwain at ysgrifennu stori gyfan bob tro. Gallai ymarferiadau fel hyn fod yn waith 5 munud yn unig. Gallent, hefyd, fod yn ymarferiadau llafar.
- Gwaith grŵp: dadansoddi nifer o baragraffau agoriadol mewn gwahanol lyfrau, gan gofnodi'r hyn a gesglir ar ffurf grid.
- Gosod tasg creu stori trwy awgrymu'r thema, yn hytrach na rhoi'r union deitl. Wedi cyfansoddi, gall yr unigolion benderfynu ar deitl i'w storïau.
- Derbyn na fydd pob plentyn yn storïwr llwyddiannus (faint o storïau ydym ni, oedolion, yn eu creu?) – ond y gall pob un wella ar rai rhannau o'r hyn a gynhyrchant ar hyn o bryd.

# Stori

Elfennau creiddiol unrhyw stori a phob stori, wrth gwrs, ydy

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Pwy** | **Ble** | **Pryd** | **Beth** |

neu

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cymeriadau** | **Lleoliad** | **Amser** | **Plot** |

Ond ar eu pennau hunain dydyn nhw ddim digon!
Mae angen manylu ar rai o'r elfennau cyn inni ystyried fod stori'n llwyddiannus.
Ateb y cwestiwn **Sut?** ydi un dull o wneud hyn.
*Sut un ydi'r prif gymeriad?* neu *Sut rai oedd y dieithriad?*
Mae ateb 'sut' yn rhoi nodweddion pryd a gwedd a / neu nodweddion cymeriad / phersonoliaeth.
Defnyddio **ansoddeiriau** wnawn ni yn aml i wneud hyn, e.e.

*'Roedd golwg arw ar y dyn, gyda'i wyneb rhychiog a'i wallt hir, blêr.'*
neu
*'Un o'r creaduriaid addfwyn, clên hynny oedd Gareth – bob amser yn gwrtais ac yn ofalgar.'*

Sylwer fod yr ansoddeiriau yn disgrifio enwau, er nad bob amser yn dod yn union ar ôl yr enw.

**Ond mae disgrifio symudiadau a gweithrediadau yn bwysig, hefyd.**

Mae dweud *'Dringodd y graig a gwelodd y nyth yno o'i flaen.'*

yn gwella wrth inni ddweud

*'Dringodd y graig yn ofalus a phwyllog, a chyn hir roedd o'n syllu'n edmygus ar y nyth.'*

Cofier, felly, fod yr **adferf** yn gallu bod lawn mor werthfawr â'r ansoddiar.

Sut mae pethau'n digwydd?

**yn gynhyrfus** **yn araf** **yn ddiofal** **ar frys**

**yn ddigalon** **yn obeithiol** **yn siomedig**

**yn ddiolchgar** **yn llawen** **yn gariadus** **yn edmygus**

# Adferfau

Defnyddio adferfau *(yn o flaen ansoddair)* yw pwyllo wrth ysgrifennu i ddisgrifio sut mae pethau'n cael eu gwneud, eu dweud a'u teimlo.

- Cerddodd Gwyn ………………………… tua'r traeth.
- Gafaelwch ynddyn nhw ………………………… .
- Taflodd Mari'r bêl ………………………… i'r fasged.
- Gosododd Llion y llyfrau'n ……………………….. ar y silffoedd.
- Meddyliais ………………………… am yr hyn a ddywedodd wrthyf.
- Dringodd ………………………… i'r copa uchaf.
- Pan gyrhaeddodd, yn …………… a …………… roedd yn gobeithio gweld ei gyfaill.
- 'Dyna ddiwedd ar dy lol wirion,' meddai'n ………………………… .
- 'Be gebyst wyt ti'n wneud?" holodd ………………………… .

a) *Newidiwch* y berfau a'r adferfau, rwan.

b) Lluniwch frawddegau newydd, gan eu *cychwyn* gydag adferfau.

# Ymateb i Waith

Fe allwn yn weddol hawdd wella'r hyn a ysgrifennodd y plentyn heddiw; ein tasg yw peri'r hyn a fydd yn ei ysgrifennu fory fod yn well.

Hynny yw, nid yr un peth yn union yw

**gwella'r darn o ysgrifennu â gwella'r plentyn fel ysgrifennwr**

Mae marcio, fel arfer, yn ymwneud â gwella'r gwaith; rhaid inni ystyried yn fwy gofalus sut y mae gwella gallu'r ysgrifennwr yn ogystal.

Mae yna gwestiynau y dylem eu gofyn:

1. Beth ydy pwrpas y marcio / cywiro a wnaf?

2. Beth sy'n diwgydd i'r gwaith wedi iddo gael ei farcio / cywiro?

3. Beth ydy rôl y plentyn yn y marcio?
   - gwyliwr mud?
   - absennol?
   - rhan o'r broses?

4. Os ydy hi rwan yn fis Mai, ai'r un gwallau iaith sy'n cael sylw ag a farciwyd / gywirwyd ym mis Medi?

Mae ystyried atebion i gwestiynau fel hyn yn bwysicach na phendroni ynglŷn â pha liw o inc a ddefnyddiwn wrth farcio!

# Polisi Cywiro (ynteu Polisi Ymateb ynteu Polisi Marcio?)

**Amcanion**

- Cynorthwyo'r plentyn i wella yr hyn a ysgrifennodd.

- Cynorthwyo'r plentyn i fod yn well ysgrifennwr.

- Cynorthwyo'r plentyn i fod yn hunan-feirniadol ynglŷn â'i waith.

- Bod yn 'ddarllenwr' i waith y plentyn trwy ymateb i'w ymdrech i drosglwyddo gwybodaeth / mynegi ei deimladau / creu darn dychmygus / cofnodi proses a.y.y.b

**Canllawiau**

- Cynnig sylwadau positif (nid yw 'Da' yn ddigon da!)

- Cynnig awgrymiadau sut i wella rhan / rhannau.

- Tynnu sylw at wallau trwy ddefnydd, efallai, o symbolau marcio.

- Blaenoriaethu pa wallau i ymwneud â hwy.

- Os mai 'tic' yn unig mae'r gwaith yn ei haeddu mae'n debyg nad oedd pwrpas digonol iddo, neu nad ydym fel athrawon yn rhoi gwerth ar gynnwys y darn, neu nad oedd y gwaith yn ddigon heriol i'r plentyn.

Os yw'r plentyn yn gwybod pa bethau (nodweddion / meini prawf / dangosyddion llwyddiant…) sy'n ofynnol iddo roi sylw iddynt cyn cychwyn y darn ysgrifennu mae'n rhesymol ystyried mai'r rhain fydd yn cael ein sylw wrth ymateb i'r darn.

Ystyried hyn sy'n rhesymol o safbwynt gallu'r plentyn.
Mae'n hawdd inni 'gywiro' 30 o wallau ar y tro. Ydy'r plentyn yn 'gywirach' pan fydd o'n ysgrifennu nesaf?


## Canllawiau Stori 1

**BETH?**

stori am **un** digwyddiad?
rhywun yn cynllunio / cynllwynio?
ynteu damwain?

**PWY?**

oes yna brif gymeriad?
ai stori am griw o blant?
ydi hi'n cynnwys bechgyn **a** merched?



**PRYD?**

yn amser y goits-fawr?
yn ein dyddiau ni?
yn y flwyddyn 2200?

**BLE?**

stori am un lleoliad?
y pentref / dref leol?
y gofod? glan-y-môr?



**SUT?**

antur?
doniolwch?
syrpreis?



Len Jones

## Canllawiau Stori 2


**Pethau i'w cofio:**

1. does dim rhaid cychwyn efo 'Un bore braf …'! neu 'Un dydd Sadwrn…'




2. Mae **rhywfaint** o deialog yn help.
   Mae **gormod** o ddeialog yn troi'r stori yn sgript ddrama.

3. Ai'r storïwr ydych chi? Ynteu ydych chi, hefyd, yn un o'r cymeriadau yn y stori?



4. Trïwch osgoi gorffen efo '…a dyma fi'n deffro! Breuddwyd oedd y cyfan!'

5. Efallai mai'r mater **olaf** un fydd rhoi teitl i'r stori – wedi i chi ystyried y cynnwys?

# Atodiad 2

Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

# Llythrennedd

**Menna Roberts**
**Ysgol Sant Baruc,**
**Y Barri**

# Dosbarth Derbyn

**Ffuglen a Barddoniaeth**

- Penillion traddodiadol a chyfoes
- Hwiangerddi
- Rhigymau
- Penillion sy'n cynnwys symudiadau
- Caneuon
- Cerddi
- Storïau sy'n dilyn strwythur pendant ac yn defnyddio iaith ailadroddus
- Deunydd ffeithiol syml

- Sali Mali
- Teulu Tomos
- I mewn
- Yn y bocs
- Fferm
- Gwyliau

- Ble?
- Bwyd
- Sioni Rhew
- Dewi Dinosor
    - Y Tywydd
    - Y Llyfr Lliw
    - Eisteddfod

- Mrs Wishi Washi
- Sanau Newydd Sali
- Pobl sy'n ein helpu
- Stori Dewi
- Paentio Llun

# Blwyddyn 1

**Tymor 1**

**Storïau a chefndir cyfarwydd**
**Storïau a phatrymau ailadroddus hawdd eu rhagfynegi**

- Alun yr Arth a'r Iar Fach yr Haf
- Tŷ Owen Bowen
- Elen Benfelen (Llyfr Mawr Personnol)
- ***Cyfres Wil Wiwer***
    - Chwarae cuddio
    - Y Frech Goch
    - Cotiau Newydd
- ***Cyfres Coeden Ddarllen Rhydychen***
    - Bath Mwlsyn
    - Sgidiau Ymarfer Newydd
    - Pen Tost
    - Dyddiadur Onw
    - Tedi Coll
- ***Cyfres Dewi Dinosor***
    - Eisteddfod
    - Siapiau
    - Blodyn
- ***Cyfres y Ddraig***
    - Tedi
- ***Cyfres Anifeiliad Difyr***
    - Paentio'r Drws
    - Bwci Bo
    - Croeso i Gartref Llew
    - Y Meddyg
    - Nos Da Arthur
    - Cyfrinach
    - Sioe Ffasiwn Siw
    - Yn y Siop
- ***Cynllyn Meithrin Iaith Gynnar***
    - Nel Dwy L
    - Dau Dau a'r Ŵy
    - Trybini
    - Rhidian Rhys

# Blwyddyn 1

**Tymor 2**

**Storïau traddodiadol**
**Storïau Tylwyth Teg**
**Storïau mewn iaith gyfarwydd batrymog hawdd ei ragfynegi**

- Un Tro
- Jac a'r Goeden Ffa
- Stori'r Tri Mochyn Bach
- Jac yn y Siop Degannau
- Blaidd wrth y drws
- Naw Hwyaden Fechan
- Stori Dewi
- Alwen y Falwoden
- Bili Broga
- Snichod

**Ffeithiol**

- Sut wyt ti'n teimlo?
- Gofal ar yr Heol

**Barddoniaeth**

- Cerddi "Mae gen i…" (Taflen rhannu'r wyneb)
- Ticiti – Toc – Fy hoff anifail
- Cerddi Call a Cherddi Gwirion

# Blwyddyn 1

**Tymor 3**

**Storïau byd ffantasi**

- Ffred a'r Ysbrydion
- Sami Swigen Binc
- Beth Nesaf?
- Rydyn ni'n mynd i hela Arth
- Heddwch o'r diwedd
- Perlau Neli
- Sanau Newydd Sali

**Ffeithiol**

- Sblish, Sblash, Sblosh
- Cadno, Eliffant, Tsimp

**Barddoniaeth**

- Yr Arth a'r Noson Frawychus (Barddoniaeth batrymog)

# 2002 – 2003
# Llyfrau a ddefnyddir gan Ddosbarth 1

**Tymor 1**

| | |
|---|---|
| • Cyfrinach | Cyfres Anifeiliad Difyr |
| • Siw a'r ffrindiau | Cyfres Anifeiliad Difyr |
| • Tedi | Cyfres y Ddraig |
| • Elen Benfelen | Personnol |
| • Tedi Blêr | Llyfr wedi'i addasu |
| • Llyfr Mawr y Nadolig | |
| • Tedi (Barddoniaeth) | Barddoniaeth Dosbarth |

**Tymor 2**

| | |
|---|---|
| • Croeso i gartref Llew | Anifeiliad Difyr |
| • Bili Broga | Cyfres 3D |
| • Codi | Cyfres Rhydychen |
| • Bath Mwlsyn | Cyfres Rhydychen |
| • Snichod | |
| • Cwac | |
| • Stori'r Pasg | Beibl Bach i blant |

**Ffeithiol**

| | |
|---|---|
| • Stori Jac | Daearyddiaeth |

**Tymor 3**

| | |
|---|---|
| • Cuddio | Cyfres Wini Wiwer |
| • Alun yr Arth a Iar Fach yr Haf | |
| • Beth Nesaf? | |
| • Heddwch o'r Diwedd | |
| • Perlau Neli | |
| • Rydym ni'n mynd i hela Arth | |

# Blwyddyn 2

**Tymor 1**

| **Storïau a chefndir cyfarwydd** |
| --- |

- Naw Hwyaden Fechan
- Marged a'r Deinosor
- Cyfres Coeden Ddarllen Rhydychen
  - Onw y Clown
  - Abracadabra
  - Y Pwll Dolffiniaid
  - Mal yn yr Ysbyty
- Ryan a'i Esgidiau Glaw
- Ryan a'i Wobr Penblwydd
- Ryan a'r Helfa Drysor

**Ffeithiol**

- Laura Ashley
- Susan Rees - Merch y Pwll Glo

- Cerddi Call a Gwirion
- Ticiti-Toc
- Odl a Chodl

# Blwyddyn 2

**Tymor 2**

| **Storïau traddodiadol Cymreig a storïau o draddodiadau eraill** |
|---|

- Wendi Wlanog
- Stori Santes Dwynwen
- Y Môr - Grwban Ehedog
- Y Sialc Glas
- Amser maith yn ôl Gwasg Carreg Gwalch
- Dewi Sant

**Ffeithiol**

- Dilyn Afon
- Deinosoriaid
- William Morgan a'r Beibl Cymraeg
- Jane Pritchard – Plentyn y Plas

**Barddoniaeth**

- Blwyddyn Newydd Dda traddodiadol
- Ticiti – Toc
- Cerddi Call a Gwirion

# Blwyddyn 2

**Tymor 3**

**Storïau estynedig.**
**Storïau awduron plant cydnabyddedig.**
**Storïau gwahanol gan yr un awduron.**
**Storïau doniol.**

- Cosyn – Angharad Tomos
- Cyfres Rala Rwdins (Llyfrau 1 – 13)
- Deri'r Diogyn
- Dyna beth dwl
- Cwac
- Cyfres Harri Parri (Llyfrau 1 – 7)
- Cyfres Teigr Bach
  - Dwi ddim isio mynd i'r gwely
  - Syrpreis Mawr i Teigr Bach
  - Aros amdana i Teigr Bach

**Ffeithiol**

- Gofal ar yr Heol
- Sut oedd bywyd cyn Trydan

- Cerddi Doniol
- Cerddi Myrddin ap Dafydd – Tawelwch Tarannodd Miss

# Blwyddyn 3

**Tymor 1**

| **Storïau a lleoliadau cyfarwydd** |
|---|

- Wendi Wlanog
- Deri'r Diogyn
- Dyna beth dwl
- Mins Sbei
- Ffortiwn i Pom Pom
- Syniad Gwich
- Un nos o rew ac eira
- Parti'r Mochyn Bach  Codi Safonau Llythrennedd
- Dyfal Donc  Codi Safonau Llythrennedd
- Coeden Ddarllen Rhydychen
  - Rhys yn mynd i'r Ffair
  - Tŷ ar werth
  - Druan o Mam
  - Adam yn mynd i siopa
- Mi welais long yn hwylio
- Viva Cymro
- Malwod  Ffeithiol
- Eliffantod  Ffeithiol
- Dramâu
  - Cyfres Chwilio
  - Chwarae Rôl (BBC)

# Blwyddyn 3

**Tymor 2**

| **Mythau, Chwedlau, Moeswersi, Damhegion, Storïau traddodiadol** |
|---|

| | |
|---|---|
| • Cantre'r Gwaelod | |
| • Chwedl Branwen | |
| • Chwedl Llyn y Fan | Cynllun y Porth |
| • Chwedlau Groeg a Rhufain | Cynllun y Porth |
| • Dwy Droed Chwith | |
| • Fel fflam yn y Nos | |
| • Sglod a Blod | |
| • Cawl Carreg | |
| • Hanesion Cymru i Ddysgwyr | ACEN |
| - Dwynwen | |
| - Twm Sion Cati | |
| - Beca | |
| - Ogof Arthur | |
| - Y Delyn Aur | |

- Llyfrau Lliwio
- Damhegion o'r Beibl
- Porthi'r Pum Mil
- Y Ddafad Golledig

# Blwyddyn 3

**Tymor 3**

| **Storïau antur a dirgelwch**<br>**Storïau gan yr un awdur** |
|---|

- Mistar Bwci Bo
- Dannodd Babadrac
- Miss Bwgan
- Mistar Ffranceinstein
- Cemlyn a'r Gremlin

- Y Fflit – Fflat
- Y Fferwr Fferau
- Ffortiwn i Pom Pom
- Penri'r Ci Poeth
- Penblwydd Hapus Blodwen

# Blwyddyn 4

**Tymor 1**

**Storïau hanesyddol a nofelau byrion**

- Gelert
- Llywelyn ein Llyw Olaf
- Owain Glyndwr — Gwasg Gomer
- Strach go iawn — Trafod Testun
- Mac Pync
- Cochyn
- Ta ta Tryweryn

- Llyfrau Lloerig

- Cyfres y Corryn

- **Dramáu**
  - Cyfres Clic (6 drama)
  - Dramáu — Defnyddio Iaith – BBC, Uned 4 a 5
  - Cyfres Longman

# Blwyddyn 4

**Tymor 2**

**Storïau a nofelau am fydoedd dychmygol, anturiathau, ffugwyddonol a ffantasi.**
**Storïau cyfres.**

.

- Y Gors Arswyd
- Bwthyn Bwganod
- Y Bws Ysbryd
- Cur yn y Pen
- Jean ar y Sgrin — Cyfres y Corryn
- Y Peiriant Amser — Cyfres y Corryn
- Bwrw Swyn — Cyfres y Corryn
- Y Brodyr Hynod — Cynllun y Porth – DWR
- Serenola
- Coeden Ddarllen Rhydychen — Yr Allwedd Hud
  Anghenfil o Joc

**Ffeithiol**

Hanes Loch Ness — Defnyddio Iaith, BBC – Uned 2
Diwrnod Golchi — Cyfres y Porth – Ddoe a Heddiw
Clociau
Argraffu 'Slawer Dydd

# Blwyddyn 4

**Tymor 3**

| |
|---|
| **Storïau a nofelau byrion sy'n trafod pynciau llosg, e.e. bwlio, galar, annhegwch.**<br>**Storïau gan yr un awdur** |

- Betsan a'r Bwlis
- Hen Fabi Ych a Fi
- Mac Pync
- Brawd Newydd Y Lolfa / CBAC
- Ragsi Ragsan Y Lolfa / CBAC
- Colli Pêl Y Lolfa / CBAC
- Ffrindiau Pennaf Y Lolfa / CBAC
- Dwyn Afalau Y Lolfa / CBAC
- Tobi a Straeon eraill
  - Mae'n iawn crio weithiau
  - Marwolaeth yn y teulu
- Nhw Drws Nesaf
- Cyfres Elgan Phillip Davies Cyfres Plant Blwyddyn 4
- Cadw'r lle yn daclus Amgylchedd

# Blwyddyn 5

**Tymor 1**

**Nofelau gan awduron cydnabyddedig**

- Teitlau o **Gyfres Cled** gan gynnwys ***Y Mochyn Defaid*** gan Dick King Smith. Mae pecyn gweithgareddau Sir Ddinbych ar gael i gyd-fynd â'r llyfr. Bydd y plant yn gyfarwydd â'r ffilm ***Babe*** a'r llyfr Saesneg.
- ***Wmffra*** gan Emily Huws. Mae pecyn gweithgareddau i gyd-fynd â'r llyfr.

**Storïau gan awduron cydnabyddedig**

**O'n Cwmpas – Cynllun y Porth:**
- ***Coed Derw***, Huw John Hughes
- ***Cofio***, Elfyn Pritchard
- ***Dros Ben Llestri***, Emily Huws
- ***Y Parc***, addas. Elfyn Pritchard ac Elisabeth Davies
- ***Storm ar yr Wyddfa***, Alwena Williams

**O Le i Le – Cynllun y Porth:**
- ***Anna Ffenna Ffostus***, Emily Huws / Elisabeth Davies
- ***Owain***, Gwilym Dyfri Jones
- ***Y Trysor***, Elfyn Pritchard

**Yr Ysgol – Cynllun y Porth:**
- ***Y Diwrnod Cyntaf Un***, Alwena Williams
- ***Mae'n gas 'da fi bêl-droed***, Elwyn Ashford Jones
- ***Pnawn Dydd Iau, Amser Chwarae, Radio Newydd, Arlunio***, Emily Huws
- ***Ysgol y Llan***, O.M. Edwards

**Storïau a Chwedlau – Cynllun y Porth:**
- ***Cur yn y Pen,*** Elfyn Pritchard
- ***Tu ôl i'r Drws,*** Shoned Wyn Jones
- ***Y Tŷ Dol,*** Katherine Mansfield
- ***Llyn y Fan,*** Elfyn Pritchard
- ***Merch Llyn y Fan Fach,*** Aeres Evans
- ***Un Bore Braf,*** Emily Huws
- ***Hafoc Harold,*** Sioned Huws
- ***Chwedlau Groed a Rhufain***
  - ***Demeter a Peresphone***
  - ***Lladd ar y trên a storïau eraill,*** R Madlwyn Thomas
    - ***Lladd Cynta'r Rhyfel***
    - ***Yr Arwr Coll***
    - ***Lladd ar y trên* (stori radio)**
    - ***Caffi Eidalaidd Dowlias***

# Blwyddyn 5

**Dramâu**

- ***Byrti a'i Ewythr Basil*** Project Llyfrau Longman
- ***Cyfrinachau'r Nos*** Project Llyfrau Longman
  (teithio nôl mewn amser i oes Fictoria)
- ***Mynd i'r Sw*** Project Llyfrau Longman
  - Mynd i'r Sw (moesoldeb mynd ar drip ysgol i sw)
  - Hen Geg Fawr (merch sy'n cyhuddo eraill o'i bwlian i gael sylw)

- ***Defnyddio Iaith CA2*** BBC
  - *Torolo*
  - *Casandra*
  - *Y Dywysoges Go-iawn*
  - *Iaith mewn gwahanol sefyllfaoedd:*
    - ❑ Prynu a gwerthu nwyddau
    - ❑ Dychwelyd nwyddau i siop
    - ❑ Achwyn / ffraeo: bachgen yn cicio pêl ac yn torri ffenest tŷ gwydr
    - ❑ Iaith clecs: ennill £10.00 yn y loteri

**Deunydd ffeithiol: adroddiadau am ddigwyddiadau, gweithgareddau ac ymweliadau, gwaith cofnodi, adroddiadau newyddion**

- ***Defnyddio Iaith CA2*** Uned 2 (b+c) BBC
- ***Dewch i goginio***, addas. Elin Meek Gomer (Llyfr Mawr)
- ***Taflenni ryseitiau*** Dudley a.y.y.b
- ***Ffeil*** Tapiau o'r BBC
- ***Papurau Bro***

# Blwyddyn 5

**Tymor 3**

**Nofelau o wahanol gyfnodau, traddodiadau a diwylliannau**

- ***Yr Eboni a'r Llwyn Mwcatwc*** Project Llyfrau Longman
- ***Y Fodrwy Aur*** Project Llyfrau Longman
- ***Rajo a Raja*** Project Llyfrau Longman
- ***Os Mêts, Mêts***, addas Brenda Wyn Jones Ail Ryfel Byd
  *Mae Jonathan wedi gorfod symud i fyw i ardal newydd lle nad yw'n adnabod neb. Ond cyn hir mae ganddo ffrind newydd, anghyffredin iawn – ysbryd bachgen o'r un oed ag e oedd yn byw adeg y rhyfel.*
- ***Mêts o Hyd***, addas. Brenda Wyn Jones Ail Ryfel Byd
- ***Lloches Ddirgel***, addas. Sioned Puw Rowlands Ail Ryfel Byd
  *Stori sy'n troi o gwmpas hen loches ryfel yng nghwaelod yr ardd. Beth ddigwyddodd yno yn ystod yr Ail Ryfel Byd?*
- ***Rhyfel Sam***, Glenys Lloyd Ail Ryfel Byd
  *Mae Sam yn byw drwy'r Blitz yn Lerpwl. Dyma brofiad poenus iawn ond rhaid iddo adael ei gartref hefyd. Gadael Lerpwl a symud i lannau'r Afon Menai, a sŵn a bwrlwm y ddinas i dawelwch y wlad, o gymdeithas ddinesig i gymdeithas glòs Cymraeg ei hiaith. Mae Sam yr ifaciwî croenddu yn gymeriad diddorol dros ben.*
- ***Cochyn***, Gwen Redvers Jones
- ***Ta-ta Tryweryn***, Gwenno Hughes
- ***Lladron Defaid***, Alison Morgan, addas. T. Llew Jones

# Blwyddyn 5

**Tymor 1**

**Dramâu**

| Teitl | Manylion Pellach (awdur) |
|---|---|
| Byrti a'i Ewyrth Basil (ffantasi) | Llyfrau Longman, CBAC |
| Torolo | |
| Casandra | |
| Y Dywysoges Go-iawn (ffantasi) | |
| Iaith mewn gwahanol sefyllfaeoedd:<br>- prynu a gwerthu nwyddau<br>- dychwelyd nwyddau isiop<br>- achwyn/ffraeo: bachgen yn cicio pêl ac yn torri ffenest tŷ gwydr<br>- iaith clecs: ennill £10.00 yn y loteri | |
| | |
| | |

# Blwyddyn 6

**Tymor 1**

| **Clasuron o blith dramâu, nofelau a storïau** |
|---|

**Dramâu Saunders Lewis i blant a phobl ifanc**
- ***Blodeuwedd*** CBAC
- ***Esther*** CBAC
- ***Siwan*** CBAC

**Shakespeare**
- ***Breuddwyd Nos Ŵyl Ifan*** CBAC
- ***Y Dymestl*** CBAC

**T. Llew Jones**
- ***Trysor Plas y Wernen***
- ***Tân ar y Comin***, (Sipsiwn)
- ***Un noson Dywyll***, (Y tollbyrth)
- ***Y Ffordd Beryglys***, (Twm Siôn Cati)
- ***Ymysg Lladron***, (Twm Siôn Cati)
- ***Dial o'r Diwedd***, (Twm Siôn Cati)
- ***Barti Ddu***
- ***Corn, Pistol a Chwip***, (Cyfnod y goets fawr)
- ***Ofnadwy Nos***, (Llongddrylliad y Royal Charter)
- ***Trysor y Môr-Ladron***, (Helyntion Harri Morgan)
- ***Cri'r Dylluan***, (Cyfnod Beca)
- ***Arswyd Y Byd***, (Tair stori)
- ***Ysbryd Plas Nant Esgob***, (Ysbryd hen fôr-leidr)
- ***Y Merlyn Du***, (Merlyn du gwerthfawr)
- ***Dirgelwch yr Ogof***, (Stori Antur)
- ***Cyfrinach y Lludw***, (Anturiaethau plismon)
- ***Y Corff ar y Traeth***
- ***Modrwy Aur y Bwda***, (Chwe stori antur)

**Brenda Wyn Jones**
- ***Bwli a Bradwr***
- ***Sais ydi o, Miss***

**Emily Huws**
- Eich fferfyn gan yr awdures

**Mair Wynn  Hughes**
- Eich fferfryn gan yr awdures

# Blwyddyn 6

**Tymor 1**

| |
|---|
| *Clasuron o blith dramâu, nofelau a storïau* |

**Dramâu Saunders Lewis i blant a phobl ifanc**

- ***Blodeuwedd*** CBAC
- ***Esther*** CBAC
- ***Siwan*** CBAC

**Shakespeare**

- ***Breuddwyd Nos Ŵyl Ifan*** CBAC
- ***Y Dymestl*** CBAC

**T. Llew Jones**

- ***Trysor Plas y Wernen***
- ***Tân ar y Comin***, (Sipsiwn)
- ***Un noson Dywyll***, (Y tollbyrth)
- ***Y Ffordd Beryglys***, (Twm Siôn Cati)
- ***Ymysg Lladron***, (Twm Siôn Cati)
- ***Dial o'r Diwedd***, (Twm Siôn Cati)
- ***Barti Ddu***
- ***Corn, Pistol a Chwip***, (Cyfnod y goets fawr)

**Brenda Wyn Jones**

- ***Bwli a Bradwr***
- ***Sais ydi o, Miss***

**Emily Huws**

**Mair Wynn Hughes**

# Blwyddyn 6

**Tymor 2**

**Storïau a nofelau o fwy nag un *genre* i'w hastudio a'u cymharu, e.e. storïau dirgelwch, doniol, ffugwyddonol, hanesyddol, ffantasi, goruwchnaturiol**

**Storïau dirgelwch**

- ***Dirgelwch yr Ogof***, T. Llew Jones
- ***Y Corff ar y Traeth***, T. Llew Jones
- ***Y Dyn â'r groes o haearn***, J. Selwyn Lloyd Cyfres Cled
- ***Fe ddaeth yr awr***, Elfyn Pritchard
- ***Rêl dictectifs***, Mair Wynn Hughes

**Storiau doniol**

- ***Modryb Lanaf Lerpwl***, Meinir Pierce Jones Cyfres Cled
- ***Iechyd Da, Modryb!***, Meinir Pierce Jones Cyfres Cled
- ***Y Mochyn Defaid***, Dick King-Smith, addas. Emily Huws

**Storïau ffugwyddonol**

- **Dim ar gael**

**Storïau hanesyddol**

- **Gweler Blwyddyn 5, Tymor 3**
- ***Un Noson Dywyll***, T. Llew Jones
- ***Corn, Pistol a Chwip***, T. Llew Jones
- ***Cri'r Dylluan***, T. Llew Jones
- ***Mwy nag aur***, Meinir Wyn Edwards Cyfres Cled
  *Stori am dri phlentyn yn mynd ar goll ar drip ysgol. Cawn gipolwg ar gywyd yn oes y Celtiaid a'r Rhufeiniad wrth i'r plant gael eu cipio'n ôl mewn amser.*

**Storïau ffantasi**

- ***Wham-bam-bang***, Dick King-Smith, addas. Emily Huws
- ***Gan yr Iâr***, addas. Emily Huws Cyfres Cled
- ***Yr Indiad yn y Cwpwrdd***, Euryn Dyfed
- ***Nefi Bliwl***, addas. Emily Huws Cyfres Cled
- ***Gwe Gwenhwyfar*** Cyfres Cled
- ***Tân Gwyllt***, Dic Jones Cyfres Cled
- ***Delyth a'r Tai Haf***, Dic Jones Cyfres Cled
- ***Adenydd dros y Môr***, Dic Jones Cyfred Cled

**Storïau goruwchnaturiol**

- **Cyfres Gwaed Oer**
- **Cyfres Graffics Gomer**
- **Unrhyw deitl rydych yn teimlo'n hapus yn ei ddarllen i'ch ddosbarth**

# Blwyddyn 6

**Tymor 3**

**Nofelau: cymharu gwaith gan awduron plant:**
a) **gwaith gan yr un awdur**
b) **ymdriniaeth awduron gwahanol â'r un thema**

**Deunydd ffeithiol:**
- **Testunau sy'n esbonio – cysylltu â gwaith mewn pynciau eraill**
- **Adroddiadau anghronolegol – cysylltu â gwaith mewn pynciau eraill**
- **Testunau cyfeiriadol, ystod o eiriaduron, thesawrysau a ffynonellau TGCh**

# Atodiad 3

Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

# Mapio'r Lleoliad!

| Blwyddyn 1 / 2 | Blwyddyn 3 / 4 | Blwyddyn 5 / 6 |
|---|---|---|
| • Ble mae'r stori'n digwydd? | • Ydi'r lleoliad yn rhywle<br>- real / go wir<br>- ddychmygus<br>- cyfuniad o le<br>- dychmygus a real? | • Ydy'r stori'n digwydd yn yr un lle trwy'r amser?<br>• Lluniwch siart lleoliad y stori. |
| • Oes yna lun yn dangos ble mae'r stori'n digwydd? | • Fedrwch chi fynd i'r lle sydd yn y stori tybed? Os na, pam? | • Fedr y stori ddigwydd mewn man neu le arall? |
| • Fedrwch chi dynnu llun o'r lle mae'r stori'n digwydd? | • Ydy'r awdur yn mynd â ni am dro o gwmpas y lle trwy ddisgrifio? Disgrifiwch y lle. | • Pam fod yr awdur wedi dewis y lleoliad yma / math o le fel hyn yn ei stori? |

# Plotio'r Plot

<table>
<tr><th>Blwyddyn 1 / 2</th><th>Blwyddyn 3 / 4</th><th>Blwyddyn 5 / 6</th></tr>
<tr><td>• Beth sy'n digwydd ar ddechrau'r stori?</td><td>• Beth yw dechrau, canol a diwedd y stori?<br><br>• Beth yw'r darn mwyaf cynhyrfus, diddorol, dychrynllyd, llawn tensiwn yn y stori.<br>Dyma'r uchafbwynt!</td><td>• Sut fath o blot sydd yn y stori?<br>- plot problem ac ateb?<br>- plot, achos ac effaith?<br><br>• Mae'r achos yn gwneud i gymeriad orfod penderfynu beth i'w wneud, fel ateb problem, osgoi problem.<br><br>• Yr effaith ydy beth sy'n digwydd i gymeriad ar ôl iddo benderfynu beth i'w wneud.</td></tr>
<tr><td>• Beth sy'n digwydd yng nghanol y stori?</td><td>• Beth sy'n gwneud i'r stori symud – oes yna broblem, cymryd camau i ddatrys y broblem, ateb y broblem?<br><br>• Ewch drwy'r stori i ddangos beth sy'n gwneud i'r plot symud.</td><td>• Oes mwy nag un plot yn y stori?<br><br>• Beth yw'r plot pwysicaf (prif plot) a beth yw'r plot lleiaf pwysiag (is-blot)?</td></tr>
<tr><td>• Sut mae'r stori'n gorffen?</td><td>• Sut fath o ddiweddglo sydd i'r stori:<br>- diweddglo lle mae popeth yn ôl fel ag yr oedd yn y dechrau?<br>- diweddglo sy'n rhoi canlyniad. Dweud beth sydd wedi digwydd?<br>- diweddglo anniswgyl na lwyddodd neb i'w ddyfalu na'i ragfynegi?</td><td>• Sut fath o ddiweddglo sydd i'r stori:<br>- diweddglo sy'n rhoi pethau at ei gilydd i wneud synnwyr (plot dirgelwch)?<br>- diweddglo agored sy'n gadael pethau yn yr awyr?<br>- diweddglo sy'n awgrymu er mwyn gwneud i ni feddwl?</td></tr>
</table>

Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

# Cracio'r Cymeriad

| Blwyddyn 1 / 2 | Blwyddyn 3 / 4 | Blwyddyn 5 / 6 |
|---|---|---|
| • Pwy ydy'r cymeriad?<br>• Ydy e'n berson, anifail neu degan? | • Beth rydym yn ei wybod am y cymeriad?<br>- sut mae e/hi'n edrych ac yn gwisgo?<br>- sut berson yw'r cymeriad tu mewn? | • Sut mae'r awdur yn cyflwyno cymeriad?<br>- trwy ddeialog?<br>- trwy ddigwyddiadau?<br>- trwy ddisgrifiad? |
| • Siaradwch am y cymeriad.<br>• Beth sy'n digwydd iddo/i?<br>• Ydy e/hi'n gwneud rhywbeth rhyfedd, da, gwirion, annifyr ….? | • Sut rydym yn gwybod yr holl bethau hyn am y cymeriad?<br>- trwy adael i'r cymeriad siarad?<br>- trwy ddangos sut un ydyw pan fo rhywbeth yn digwydd iddo/i?<br>- trwy ddisgrifio? | • Sut mae'r awdur yn datblygu'r cymeriad?<br>- trwy adael iddo/i siarad?<br>- trwy eu meddyliau / teimladau?<br>- trwy gymeriadau eraill?<br>- trwy digwyddiadau? |
| • Ydych chi'n hoffi / casáu'r cymeriad?<br>Cofiwch ddweud pam. | • Oes yna rai cymeriadau pwysicach na'i gilydd yn y stori (prif ac is gymeriadau) | • Ydy'r cymeriad yn newid yn ystod y stori?<br>• Cymharwch y cymeriad ar ddechrau ac ar diwedd y stori. |
| | | • Beth yw perthynas cymeriadau'r stori gyda'i gilydd? |

Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

# Astudio Agoriad

| Blwyddyn 1 / 2 | Blwyddyn 3 / 4 | Blwyddyn 5 / 6 |
|---|---|---|
| • Ydyn ni'n cyfarfod **cymeriad** ar ddechrau'r stori? | • Pryd a lle mae'r stori'n digwydd? | • Wrth ddarllen agoriad y stori, fedrwch chi ddyfalu / rhagfynegi sut fath o stori fydd hi?<br>- ysbryd<br>- stori bob dydd<br>- ffantasi<br>- fugwyddonol<br>- antur<br>- dirgelwch<br>- chwedl |
| • Ydyn ni'n gwybod lle mae'r stori'n digwydd? | • Pa gliwiau ar ddechrau'r stori sy'n awgrymu beth sy'n mynd i ddigwydd? | • Sut mae'r awdur yn cyflwyno gwybodaeth i ni?<br>- trwy ddisgrifiad?<br>- trwy ddeialog?<br>- trwy osodiad?<br>- trwy gwestiwn?<br>- trwy deimladau?<br>- trwy greu awyrgylch? |
| • Ydyn ni'n gwybod pryd mae'r stori'n digwydd? | • Pa wybodaeth mae'r awdur yn ei gyflwyno i ni yn yr agoriad?<br>- pryd a lle mae'r stori'n digwydd?<br>- gwybodaeth am gymeriad/au<br>- gwybodaeth am ddigwyddiad sydd ar fin digwydd neu wedi digwydd?<br>- gwybodaeth sy'n awgrymu fod rhywbeth am ddigwydd? | • Pa eiriau, ymadroddion cyffelybiaeth, disgrifiadau sy'n creu awyrgylch yn yr agoriad? (gwael, oeraidd, gwylb, annifyr, teimlo'n ofnus, ar bigau'r drain, gwynt yn udo, crynu fel deilen, poeth fel haul Sbaen, llawn bwrlwm, prysur fel nyth morgrug, distawrwydd cyn storm…) |
| • Fedrwn ni ddyfalu / rhagfynegi beth sy'n digwydd nesaf yn y stori? | • Petach chi'n gwneud llun o'r agoriad, sut fath o lun fyddai gennych yn llygaid eich meddwl?<br>• Siaradwch am y lle, neu tynnwch lun. | • Dewiswch ddau agoriad gwahanol a thrafodwch:<br>- pa wybodaeth mae'r awdur yn ei rhoi i ni yn yr agoriad?<br>- sut mae'r awdur yn cyflwyno'r wybodaeth i ni?<br>- sut mae'r awdur yn creu awyrgylch? |

# Taclo'r Teitl

| Blwyddyn 1 / 2 | Blwyddyn 3 / 4 | Blwyddyn 5 / 6 |
|---|---|---|
| Darllenwch y teitl.<br>• Ydy'r teitl yn<br>- enw cymeriad / anifail yn y stori?<br>- sôn am ddigwyddiadau yn y stori? | • Ydy'r teitl yn:<br>- enw cymeriad neu ddigwyddiad yn y stori?<br>- air neu ddywediad sydd wedi'i godi o'r stori? | • Ydy'r teitl yn:<br>- enw cymeriad, anifail gwrthrych yn y stori?<br>- ymadrodd, dyfyniad, dywediad o'r stori?<br>- ddigwyddiad o'r stori?<br>- chwarae ar eiriau: cyflythrennau, onomatopeia? |
| • Ymhle mae'r teitl?<br>- ar y clawr pen uchaf?<br>- yn y canol?<br>- ar y gwaelod?<br>• Pam tybed? | • Ydy'r teitl:<br>- ym mhen uchaf y clawr?<br>- yn y cefndir?<br>- yn y gwaelod?<br>- ar draws y llun?<br>- dros y llun?<br>- mewn ffrâm?<br>• Pam tybed? | • Fasech chi wedi dewis teitl gwahanol?<br>• Meddyliwch am deitlau gwahanol wrth edrych ar y rhestr uchod. |
| • Ydy'r teitl yn rhoi cliw i ni am gymeriad / ddigwyddiad yn y stori? | • Ydy'r llun / ffotograff yn hollol wahanol i'r teitl / yn cyd-fynd gyda'r teitl? | • Ydy'r dylunwyr wedi dewis ffont addas i'r teitl? e.e ffont crynedig i gyd-fynd â'r stori arswyd. |
| • Disgrifiwch y llun / ffotograff. | • Ydy'r llun / ffotograff yn dweud rhywbeth mwy wrthym am deitl y stori? | • Ydy'r llun / ffotograff yn cyd-fynd â'r testun?<br>- yn ychwanegu at y testun neu'n dweud stori hollol wahanol? |

Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

# Atodiad 4

Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

# Tracio'r Sgiliau Blwyddyn 1 - 6

Cynhwysir yn yr adran hon:

**Taith Iaith Blwyddyn 1 – 6 o A.A.Ll Powys**

Cofier bod angen ystyried holl botensial gwaith llafar wrth fynd i'r afael â'r sgiliau darllen ac ysgrifennu a nodir yn y gridiau yma

# Taith Iaith – Lefel Brawddeg Blwyddyn 1 - 6

| Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 | Blwyddyn 6 |
|---|---|---|---|---|---|
| - ddefnyddio cyd-destun i ganfod ystyr gan gadw mewn cof synnwyr y darn fel dyfais wirio;<br>- adolygu'r llythrennau dwbl;<br>- ymgyfarwyddo â deuseiniad;<br>- atgyfnerthu gwaith ar lythrennau gan ganolbwyntio ar sŵn y llythyren gyntaf, sŵn canol gair, sŵn diwedd gair;<br>- dad-ddynodi geiriau newydd trwy adnabod y llythyren gyntaf neu gyfuniad o lythrennau mewn sillaf;<br>- defnyddio ystod o strategaethau i sefydlu ystyr; rhediad stori, mewn sain llythrennau;<br>- adnabod geiriau aml eu defnydd yn gywir gan cynnwys teuluoedd sillafu;<br>- ymarfer sillafu geiriau newydd a geiriau amlsillafog, trwy ddefnyddio'r strategaeth: *'Edrych, Dweud, Gorchuddio, Ysgrifennu, Gwirio'*<br>- adnabod ac enwi llythrennau'r wyddor; ymgyfarwyddo â threfn yr wyddor; defnyddio gwybodaeth o drefn yr wyddor i chwilio am wybodaeth;<br>- dechrau defnyddio geiriaduron / geirlyfrau personol;<br>- datblygu ac ehangu geirfa a chreu banciau o eiriau a geirfa a gwyd o waith ar draws y cwricwlwm ac o fewn thema / topig;<br>- dechrau defnyddio rhagenwau yn gywir;<br>- chwarae ag iaith drwy adnabod, creu a defnyddio odl syml, wneud posau chwilio am eiriau sy'n gorffen gyda'r un sŵn;<br>- datblygu ymwybyddiaeth o genedl enwau;<br>- datblygu ymwybyddiaeth o ffurfiau unigol o lluosog;<br>- ymgyfarwyddo â geirynnau holi – *Sut? Ble? Beth? Pryd? Pam?*<br>- datblygu llawysgrifen trwy ffurfio llythrennau bychain a phriflythrennau'n gywir; datblygu ymwybyddiaeth o esgyn a disgyn; ysgrifennu geiriau ar linellau a datblygu llawysgrifen yn ôl polisi'r ysgol;<br>- defnyddio TGCh i ymarfer a datblygu sgiliau iaith. | - ddefnyddio cyd-destun i ganfod ystyr gan gadw mewn cof synnwyr y darn fel dyfais wirio;<br>- atgyfnerthu gwybodaeth o lythrennau dwbl a deuseiniaid;<br>- atgynferthu gwaith ar lythrennau trwy ganolbwyntio ar sŵn y llythyren gyntaf, sŵn canol gair a sŵn diwedd gair;<br>- adnabod a defnyddio odl syml;<br>- dad-ddynodi geiriau newydd trwy adnabod y llythyren gyntaf neu gyfuniad o lythrennau mewn sillaf, ac i ddefnyddio ystod o strategaethau i'w cynorthwyo i sefydlu ystyr;<br>- adnabod a sillafu geiriau aml eu defnydd; geiriau strwythyr a geiriau sylfaenol yn gywir;<br>- ymarfer sillafu geiriau newydd, geiriau amlsillafog, geiriau lle'r anwybyddir y collnod yn aml, geiriau lle ddefnyddir yr acen grom i ddynodi llafariad hir, a ffurfiau berfol;<br>- gwybod bod angen ymgyfarwyddo â threfn yr wyddor a'i ddefnyddio i ganfod gwybodaeth;<br>- defnyddio geiriaduron syml a geirlyfrau personol;<br>- datblygu ac ehangu geirfa a chreu banciau o eiriau, geirfa dosbarth o eirfa allweddol a gwyd o waith ar draws y cwricwlwm;<br>- dechrau gwirio ystyr geiriau newydd trwy ddefnyddio'r cyd-destun a geiriaduron;<br>- ymgyfarwyddo â geiriau holi – *Ble? Beth? Sut? Pryd? Pam?* a'u defnyddio mewn sefyllfaoedd amrywiol;<br>- dechrau datblygu diddordeb mewn geiriau a'u hystyron trwy archwilio geiriau cyfystyr a chroes eu hystyr;<br>- datblygu ymwybyddiaeth o genedl enwau;<br>- ymestyn gwybodaeth o ffurfiau unigol a lluosog;<br>- meithrin ymwybyddiaeth o eiriau sy'n gysylltiedig â threfn gronolegol a rhifolion: *yn gyntaf, yn ail, wedyn, yn olaf, neithiwr, ddoe, yna, un tro, drannoeth, nesaf, cyntaf, ail, trydydd*;<br>- datblygu gwybodaeth o eiriau sy'n ymwneud â rhif, e.e. *ychydig, rhai, llawer, i gyd*;<br>- dysgu ac ymateb i eiriau sy'n gysylltiedig â rhoi gorchmynion / cyfarwyddiadau, e.e. *rhowch, dodwch, eisteddwch*;<br>- datblygu'r defnydd cywir o ragenwau syml;<br>- ysgrifennu geiriau unigol a rhestrau'n annibynnol;<br>- datblygu llawysgrifen trwy ffurfio llythrennau bychain a phriflythrennau'n gywir; datbygu ymwybyddiaeth o esgyn a disgyn; ysgrifennu geiriau ar linellau a datblygu llawysgrifen yn ôl polisi'r ysgol;<br>- defnyddio TGCh i ymarfer a datblygu sgiliau iaith. | - adnabod a sillafu geiriau aml eu defnydd yn gywir;<br>- dysgu sillafu geiriau amlsillafog ac archwilio a chasglu enghreifftiau o eiriau o fewn geiriau;<br>- dysgu pa bryd mae defnyddio'r acen grom yn gywir i ddynodi llafariad hir;<br>- defnyddio ffurf gorchmynnol y gair;<br>- defnyddio rhagenwau;<br>- adeiladu geiriau; ffurfio geiriau cyfansawdd;<br>- datblygu gwybodaeth o drefn a lleoliad llythrennau'r wyddor gan ddechrau ar yr ail lythyren;<br>- parhau i ddefnyddio geiriadur gan ystyried chwilio am air wrth yr ail lythyren;<br>- deall, ynganu a sillafu geirfa ar draws y cwricwlwm;<br>- dechrau dethol geiriau addas i greu effaith;<br>- dysgu a defnyddio'r cenedl enwau'n dilyn rhifolion; *dau, dwy, tri, tair, pedwar, pedair;*<br>- adolygu, archwilio a datblygu gwybodaeth o rai o ffurfiau lluosog gan gynnwys rhai ffurfiau afreolaidd, e.e. *ci, cŵn*<br>- dysgu geiriau sy'n gysylltiedig â threfn gronolegol;<br>- datblygu ysgrifennu geiriau unigol a rhestau'n annibynnol;<br>- datblygu llawysgrifen;<br>- defnyddio TGCh yn gyson i ymarfer a datblygu sgiliau iaith. | - ddefnyddio cyd-destun i ganfod ystyr gan gadw mewn cof synnwyr y darn fel dyfais wirio;<br>- sillafu geiriau aml eu defnydd a chyfarwydd o fewn eu profiad / thema yn gywir;<br>- ymarfer sillafu geiriau newydd, geiriau aml sillafog, geiriau lle anwybyddir y collnod, geiriau lle defnyddir yr acen grom, ffurfiau berfol, e.e. *gorchmynol, rhagenwau* a geiriau lle y dyblir y cytseiniad *'r', 'n'* trwy ddefnyddio'r strategaeth: *'Edrych, Dweud, Gorchuddio, Ysgrifennu, Gwirio';*<br>- adeiladu geiriau, a ffurfio geiriau cyfansawdd;<br>- defnyddio gwybodaeth o drefn yr wyddor i chwilio am wybodaeth;<br>- defnyddio geiriaduron a thesawrws;<br>- datblygu ac ehangu geirfa gan gynnwys termau a chreu banciau o eiriau, o eirfa allweddol a gwyd o waith yn y pynciau eraill;<br>- cywain a nodi geiriau newydd;<br>- datblygu diddordeb mewn geiriau a'u hystyron trwy archwilio geiriau cyfystyr a chroes eu hystyr; chwarae ag iaith drwy wneud posau, chwarae ag odl a chasglu enghreifftiau o eiriau o fewn geiriau;<br>- adnabod a defnyddio'r termau 'llafariad (-aid) cytsain (cytseiniaid)<br>- datblygu ymwybyddiaeth o genedl enwau a ffurfiau benywaidd ansoddeiriau;<br>- adolygu, archwilio a datblygu gwybodaeth o ffurfiau unigol a lluosog gan gynnwys ffurfiau afreolaidd;<br>- datblygu ymwybyddiaeth o'r cysyllteiriau;<br>- meithrin ymwybyddiaeth o ffurfiau safonol geiriau;<br>- meithrin ymwybyddiaeth o wahaniaethau tafodieithol a dysgu'r term tafodiaith;<br>- meithrin ymwybyddiaeth o wahanol fathau o brint;<br>- parhau i feithrin llawysgrifen darllenadwy wrth brintio ac wrth ysgrifennu'n glwm;<br>- defnyddio TGCh yn gyson i ymarfer a datblygu sgiliau iaith. | - ddefnyddio cyd-destun i ganfod ystyr gan gadw mewn cof synnwyr y darn fel dyfais wirio;<br>- sillafu geiriau aml eu defnydd a chyfarwydd o fewn eu profiad / thema yn gywir;<br>- ymarfer sillafu, cofio a defnyddio geiriau newydd mewn amrywiol ffyrdd;<br>- deall y defnydd o fyrfoddau;<br>- adeiladu a ffurfio geiriau cyfansawdd;<br>- ysgrifennu geiriau unigol a rhestrau yn annibynnol;<br>- archwilio ac ymchwilio i sut mae geiriau'n creu effaith a naws;<br>- defnyddio gwybodaeth o drefn yr wyddor i chwilio am wybodaeth; gwirio ystyr drwy ddefnyddio cyd-destun a geiriaduron;<br>- defnyddio geiriaduron a thesawrws;<br>- datblygu diddordeb mewn geiriau a'u hystyron drwy archwilio geiriau cyfystyr a chroes eu hystyr, dulliau negyddu geiriau, datblygu'r defnydd o odl;<br>- adnabod a defnyddio'r termau llafariad (-iaid), cytsain (cytseiniaid);<br>- datblygu ymwybyddiaeth o genedl enwau;<br>- adolygu, archwilio a datblygu gwybodaeth o ffurfiau unigol a lluosog gan gynnwys ffurfiau afreolaidd;<br>- parhau i ddatblygu'r ymwybyddiaeth o'r cysyllteiriau;<br>- defnyddio ffurfiau safonol geiriau wrth ysgrifennu;<br>- datblygu gwybodaeth o eiriau tafodieithol a defnyddio'r term tafodiaith;<br>- parhau i feithrin llawysgrifen ddarllenadwy wrth brintio ac wrth ysgrifennu'n glwm;<br>- defnyddio TGCh yn gyson i ymarfer a datblygu sgiliau iaith. | - ddefnyddio cyd-destun i ganfod ystyr gan gadw mewn cof synnwyr y darn fel dyfais wirio;<br>- defnyddio geiriau aml eu defnydd a chyfarwydd o fewn eu profiad / thema yn gywir;<br>- adolygu ac ymarfer sillafu geiriau newydd; geiriau aml-sillafog; geiriau lle'r anwybyddir y collnod yn aml; geiriau lle defnyddir yr hirnod i ddynodi llafariaid hir; a ffurfiau berfol yr amser presennol; amherffaith dyfodol; a gorchmynol; ffurfiau berfol afreolaidd; rhagenwau, geiriau lle dyblir y cytseiniaid *'r'* a *'n'* trwy ddefnyddio'r strategaeth *'Edrych, Dweud, Gorchuddio, Ysgrifennu, Gwirio*; arborfi â gwahanol ffyrdd o gofio geiriau a sillefir (cofyddiaeth);<br>- deall y defnydd o fyrfoddau;<br>- adeiladu geiriau, a ffurfio geiriau cyfansawdd;<br>- defnyddio geiriau sy'n creu effaith yn llafar / ysgrifenedig;<br>- defnyddio geiriaduron, atlasau, cylchgronau i gasglu ac i edrych ar darddiad geiriau;<br>- datblygu diddordeb mewn geiriau a'u hystyron trwy archwilio geiriau cyfystyr a chroes eu hystyr, dulliau negyddu geiriau, datblygu'r defnydd o odl;<br>- defnyddio'r termau, e.e. llafariaid / cytseiniaid / berfau / rhagenwau<br>- defnyddio cenedl enwau yn gywir yn gyson;<br>- adolygu, archwilio a datblygu gwybodaeth o ffurfiau unigol a llusosog gan gynnwys ffurfiau afreolaidd;<br>- datblygu ymhellach ymwybyddiaeth o gysyllteiriau;<br>- meithrin chwilfrydedd am iaith trwy ymddiddori mewn tarddiad geiriau;<br>- meithrin chwilfrydedd ynglŷn ag enwau personau;<br>- defnyddio ffurfiau safonol geiriau wrth ysgrifennu;<br>- datblygu ymhellach wybodaeth o eirfa dafodieithol;<br>- defnyddio TGCh yn gyson i ymarfer a datblygu sgiliau iaith. |

# Taith Iaith – Lefel Ffeithiol Blwyddyn 1 - 6

| Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 | Blwyddyn 6 |
|---|---|---|---|---|---|
| - ddefnyddio gwybodaeth o'r cyd-destun wneud synnwyr o'r print, e.e. *rhagfynegi ystyr gair o'r testun;*<br>- darllen ar goedd gyda mynegiant a dealltwriaeth;<br>- defnyddio darllen fel model ar gyfer cyfathrebu er mwyn ysgrifennu ymadroddion a brawddegau byrion;<br>- sylweddoli bod gwahaniaeth rhwng brawddeg a llinell o ysgrifennu;<br>- dod yn ymwybodol o leoliad stori;<br>- deall bod trefn geiriau mewn brawddeg syml yn hanfodol i wneud synnwyr a chreu ystyr;<br>- dod yn ymwybodol o atalnodi sylfaenol brawddegau: priflythyren, atalnod llawn, atalnod, ebychnod, gofynnod;<br>- cyfathrebu drwy ysgrifennu brawddegau syml gan ddefnyddio priflythyren ac atalnod llawn;<br>- dechrau cysylltu brawddegau trwy ddefnyddio cysyllteiriau syml fel *a*, *ac*, *ond*;<br>- llunio cwestiynau, e.e. *Ble? Sut? Pwy?*<br>- ymgyfarwyddo â ffurfiau berfol aml eu defnydd a dechrau eu defnyddio;<br>- sylwi ar ffurfiau negyddol;<br>- ail ddarllen eu gwaith i sicrhau synnwyr;<br>- defnyddio TGCh i ymarfer a datblygu sgiliau iaith. | - ddefnyddio dealltwriaeth o ramadeg a gwybodaeth o'r cyd-destun i wneud synnwyr o'r print, e.e rhagfynegi ystyr gair o'r testun;<br>- darllen ar goedd gyda mynegiant a dealltwriaeth;<br>- defnyddio darllen fel model ar gyfer ysgrifennu;<br>- gwybod bod trefn geiriau i frawddeg wrth ymwneud â gwahanol weithgareddau;<br>- amrywio arddull brawddeg wrth newid trefn geiriau;<br>- dechrau lliwio mynegiant trwy ddefnyddio ansoddeiriau a phriod-ddulliau;<br>- dod yn ymwybodol o elfennau atalnodi i ddangos ystyr a phwyslais: priflythyren, atalnod llawn, atalnod, ebychnod, gofynnod, dyfynodau, y collnod a'r acen grom;<br>- ymestyn brawddegau trwy ddefnyddio cysyllteiriau syml;<br>- llunio cwestiynau amrywiol;<br>- dod yn ymwybodol o derfyniadau berfau ac arddodiaid;<br>- dysgu sut i lunio brawddegau negyddol syml;<br>- defnyddio rhagenwau i greu cydlyniaeth;<br>- dechrau dod yn ymwybodol o dreigladau;<br>- dechrau ail-ddrafftio'u gwaith ysgrifenedig i sicrhau synnwyr a chywirdeb;<br>- defnyddio TGCh i ddatblygu sgiliau iaith. | - ddefnyddio dealltwriaeth o ramadeg a gwybodaeth o'r cyd-destun i wneud synnwyr o'r print, e.e *rhagfynegi ystyr gair o'r testun: parhau i ddarllen ac yna i ddychwelyd at y gair;*<br>- paratoi a darllen testun ar goedd gyda goslef a mynegiant sy'n briodol i'r gramadeg a'r atalnodi yn ogystal â'r cynnwys;<br>- defnyddio darllen fel model ar gyfer ysgrifennu, e.e. dechrau a gorffen stori; ysgrifennu disgrifiadau ac ati;<br>- deall bod trefn geiriau i frawddeg wrth ymwneud ag amrywiaeth o weithgareddau ysgrifennu;<br>- amrywio arddull brawddeg trwy newid trefn geiriau;<br>- dysgu a gwneud defnydd cyson o batrymau brawddegol a'u ffurfiau cadarnhaol, negyddol a gofynnol;<br>- lliwio mynegiant drwy ddefnyddio ansoddeiriau, cymariaethau a phriod-ddulliau;<br>- datblygu ymwybyddiaeth o elfennau atalnodi i ddangos ystyr a phwyslais: priflythyren, atalnod llawn, atalnod, ebychnod, gofynnod, dyfynodau, y collnod a'r acen grom;<br>- ymestyn brawddegau trwy ddefnyddio cysyllteiriau;<br>- dechrau defnyddio ffurfiau berfol yn gywir a'u defnyddio mewn brawddegau;<br>- dechrau datblygu gwybodaeth a defnydd o rediad rhai arddodiaid a llunio brawddegau syml yn gywir;<br>- defnyddio rhagenwau i greu cydlyniaeth;<br>- datblygu ymwybyddiaeth o dreigladau;<br>- dechrau dysgu termau gramadeg, e.e. enw, ansoddiar;<br>- parhau i ail-ddrafftio a golygu eu gwaith ysgrifenedig i sicrhau synnwyr, cydlyniaeth a chywirdeb;<br>- defnyddio TGCh i datblygu sgiliau iaith. | - ddefnyddio dealltwriaeth o ramadeg a gwybodaeth o'r cyd-destun i wneud synnwyr o'r print, e.e. rhagfynegi ystyr gair o destun; parhau i ddarllen ac yna i ddychwelyd at y gair;<br>- paratoi a darllen testun ar goedd gyda goslef a mynegiant sy'n briodol i'r gramadeg a'r atalnodi;<br>- defnyddio testunau fel modelau ar gyfer ysgrifennu;<br>- ymgyfarwyddo â'r frawddeg bwysleisiol a sut mae aildrefnu geiriau mewn brawddeg yn effeithio ar ystyr;<br>- dysgu a gwneud defnydd cyson o batrymau brawddegol a'u ffurfiau cadarnhaol, negyddol a gofynnol;<br>- lliwio mynegiant trwy ddefnyddio ansoddeiriau (gan gynnwys ffurfiau cymharol, cymariaethau, priod-ddulliau);<br>- archwilio ffyrdd o ysgrifennu'n gryno;<br>- deall yr hyn yw paragraff a dechrau defnyddio paragraff i drefnu eu hysgrifennu;<br>- ymestyn brawddegau trwy ddefnyddio cysyllteiriau;<br>- datblygu eu defnydd o elfennau atalnodi i ddangos ystyr a phwyslais; priflythyren, atalnod llawn, atalnod, ebychnod, gofynnod, dyfynodau, y collnod a'r acen grom;<br>- datblygu'r defnydd o ffurfiau berfol a'u defnyddio'n gywir;<br>- datblygu'r defnydd a gwybodaeth o rediad rhai arddodiaid;<br>- defnyddio rhagenwau i greu cydlyniaeth;<br>- ymgyfarwyddo ag ymadroddion sy'n cyfleu amser mewn testun;<br>- datblygu eu hymwybyddiaeth o dreigladau;<br>- ail-ddraftio eu gwaith ysgrifenedig i sicrhau synnwyr a chywirdeb;<br>- defnyddio TGCh i ddatblygu sgiliau iaith. | - ddefnyddio dealltwriaeth o ramadeg a gwybodaeth o'r cyd-destun i wneud synnwyr o iaith anghyfarwydd, defnyddio cyd-destun i ddehongli ystyr, sylwi a nodi;<br>- geiriau newydd;<br>- darllen fel ysgrifennwyr;<br>- defnyddio testunau fel modelau ar gyfer ysgrifennu ac ymarfer defnyddio gramadeg ac atalnodi i ddehongli testun gyda mynegiant priodol a diddorol;<br>- defnyddio'r frawddeg bwysleisiol a deall sut mae aildrefnu geiriau mewn brawddeg yn effeithio ar yr ystyr;<br>- dysgu a gwneud defnydd cyson o batrymau brawddegol a'u ffurfiau cadarnhaol, negyddol a gofynnol;<br>- lliwio a chyfoethogi mynegiant trwy ddefnyddio ansoddeiriau (gan gynnwys ffurfiau cymharol), cymariaethau, a phriod-ddulliau;<br>- archwilio ffyrdd o ysgrifennu'n gryno;<br>- archwilio sut mae ysgrifennu deialogau mewn naratif;<br>- deall yr hyn yw paragraff a defnyddio paragraffau i drefnu eu hysgrifennu;<br>- meithrin cywirdeb yn gyson wrth atalnodi i ddangos ystyr a phwyslais; priflythyren, atalnod llawn, atalnod, ebychnod, gofynnod, dyfynnod, y collnod a'r acen grom;<br>- dysgu a deall y term 'berf, 'amser' a therfyniadau cywir (ffurfiau aml eu defnydd – Y Presennol, Y Gorffennol, Yr Amherffaith a'r Dyfodol; ffurfiau ateb cwestiwn a'u defnyddio mewn brawddegau;<br>- datblygu eu defnydd o arddodiaid, cysyllteiriau a rhagenwau (gan gynnwys y rhagenw perthynol); datblygu gwybodaeth o adferfau;<br>- archwilio'r modd y defnyddir geiriau cysylltiol i ddatblygu strwythur darn;<br>- datblygu eu defnydd o dreigladau;<br>- archwilio rhai o'r prif wahaniaethau rhwng yr iaith lafar a'r iaith ysgrifenedig;<br>- ailddrafftio eu gwaith ysgrifenedig i sicrhau synnwyr a chywirdeb gan ystyried y cynnwys yn ogystal;<br>- defnyddio TGCh i ddatblygu sgiliau iaith. | - defnyddio dealltwriaeth a gwybodaeth o'r cyd-destun i wneud synnwyr o iaith anghyfarwydd, defnyddio cyd-destun i ddehongli ystyr, sylwi a nodi geiriau newydd;<br>- ymarfer defnyddio gramadeg ac atalnodi i ddarllen testun ar goedd gyda mynegiant priodol a diddorol a defnyddio testunau darllen fel modelau ar gyfer ysgrifennu;<br>- dysgu a gwneud defnydd cyson o batrymau brawddegol a'u ffurfiau cadarnhaol, negyddol a gofynnol;<br>- ymgyfarwyddo â defnyddio brawddegau cymhleth;<br>- lliwio a chyfoethogi mynegiant trwy ddefnyddio ansoddeiriau (gan gynnwys ffurfiau cymharol), cymariaethau, priod-ddulliau a diarhebion;<br>- ysgrifennu'n gryno pan fo'n briodol;<br>- ysgrifennu deialogau mewn naratif;<br>- deall yr hyn yw paragraff gan ddefnyddio paragraffau i drefnu eu hysgrifennu;<br>- meithrin cywirdeb yn gyson wrth atalnodi i ddangos ystyr a phwyslais: priflythyren, atalnod llawn, atalnod, ebychnod, gofynnod, dyfynnod, y collnod a'r acen grom a chromfachau;<br>- dysgu a deall y term 'berf', 'amser' a therfyniadau cywir y ferf; ffurfiau cryno ffurfiau aml eu defnydd – Y Presennol, Y Gorffennol, Yr Amherffaith a'r Dyfodol; ffurfiau ateb cwestiwn a'u defnyddio mewn brawddegau;<br>- defnyddio cysyllteiriau a rhagenwau (y rhagenw perthynol) gyda chywirdeb cynyddol;<br>- datblygu eu gwybodaeth o dreiglo;<br>- ailddrafftio eu gwaith ysgrifenedig i sicrhau synnwyr a chywirdeb gan ystyried cynnwys yn ogystal;<br>- defnyddio TGCh i ddatblygu sgiliau iaith. |

Powys

# Taith Iaith – Lefel Ffuglen Blwyddyn 1 - 6

| Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 | Blwyddyn 6 |
|---|---|---|---|---|---|
| - wrando a darllen, deall a thrafod llyfrau stori syml cyfarwydd gan ddechrau dweud ac ail ddweud rhannau o'r stori;<br>- dangos ymwybyddiaeth o ddilyniant a threfn stori;<br>- dechrau adnabod geirfa byd llyfrau, e.e. *teitl, arlunwyr, awdur, clawr, tudalen, lluniau, darluniau, stori (dechrau – canol – diwedd);*<br>- adnabod patrymau a chonfensiynau mewn stori, e.e. *amrywiol ffyrdd o ddechrau a diweddu stori*;<br>- dod yn ymwybodol o leoliad stori;<br>- dod yn ymwybodol o gymeriadau, arwyr, arwresau a dihirod mewn storïau ac ymateb trwy fynegi barn arnynt a'u portreadu mewn sefyllfa chwarae rôl;<br>- deall pwysigrwydd atalnodi i gyfleu ystyr;<br>- dechrau adnabod deialogau o fewn cyddestun;<br>- dod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd mewn stori gan ddechrau dehongli rhannau o stori ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol;<br>- cymryd rhan mewn cyflwyniadau a gweithgareddau dramatig;<br>- dysgu rhigymau, hwiangerddi a cherddi syml ar y cof a llefaru ar goedd gyda phwyslais ar ynganu a goslefu priodol a deallus;<br>- meithrin ymwybyddiaeth o sŵn geiriau a rhythm;<br>- dechrau creu barddoniaeth syml eu hunain yn dilyn modelau a gyflwynir gan yr athro;<br>- dod i adnabod y gwahaniaeth rhwng barddoniaeth a stori;<br>- dechrau ymateb yn bersonol i stori neu gerdd trwy sôn am hoff gerdd, stori neu ddigwyddiad o fewn stori. | - darllen, deall a thrafod amrywiaeth o destunau;<br>- dangos ymwybyddiaeth o ddilyniant a threfn;<br>- defnyddio geirfa briodol wrth drafod llyfrau, e.e. *awdur, teitl, broliant, clawr, mynegai, arlunydd, lluniau, gwasg, stori (dechrau – canol – diwedd)*;<br>- adnabod patrymau a chonfensiynau mewn stori, e.e. amrywiol ffyrdd o ddechrau, datblygu a diweddu stori;<br>- disgrifio lleoliad stori, sef ble mae'r stori'n digwydd a sut rydym yn gwybod hynny;<br>- dod yn ymwybodol o gymeriadau, arwyr, arwresau a dihirod mewn stori, uniaethu â nhw ac ymateb trwy fynegi barn arnynt a'u portreadu mewn sefyllfaoedd chwarae rôl;<br>- trafod cynnwys stori a'r prif ddigwyddiadau ynddi;<br>- defnyddio gwybodaeth o atalnodi i ddehongli testun yn ystyrlon a diddorol;<br>- adnabod deialogau a naratif o fewn cyd-destun;<br>- cymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae rôl;<br>- parhau i ddysgu rhigymau a cherddi syml ar y cof neu ddarllen cerdd ar goedd gyda phwyslais ar ynganu a goslefu priodol a deallus;<br>- datblygu ymwybyddiaeth o hyd llinell, rhythm a nodweddion sŵn mewn cerddi;<br>- datblygu ymwybyddiaeth o batrymau a lleoliad odl;<br>- adnabod natur geiriau a dulliau sy'n creu effaith mewn barddoniaeth;<br>- adnabod a defnyddio rhai termau syml, e.e. llinell, pennill, bardd, odl;<br>- gwrando ar farddoniaeth yn cael ei darllen gan sylwi ac ymateb;<br>- creu barddoniaeth syml eu hunain yn defnyddio modelau a gyflwynir;<br>- ymateb yn bersonol i stori neu gerdd trwy sôn am hoff gerdd, stori neu ddigwyddiad o fewn stori;<br>- dechrau dod yn gyfarwydd â gwaith awduron / beirdd. | - ddarllen, deall a thrafod detholiadau o amrywiol storïau, nofelau a sgriptiau;<br>- darllen a gwrando ar chwedlau o Gymru a gwledydd eraill;<br>- dangos gwybodaeth o ddilyniant a threfn stori;<br>- defnyddio geirfa briodol wrth drafod llyfrau, e.e. *awdur, clawr, mynegai, darluniau, stori (dechrau – canol – diwedd), teitl, broliant, arlunydd, gwasg, cyfres, gwreiddiol, addasiad, trosiad*;<br>- meithrin ymwybyddiaeth o leoliad stori a thrafod yr eirfa ac ymadroddion sy'n dynodi lleoliad, amser a chyfnod;<br>- meithrin ymwybyddiaeth o nodweddion prif gymeriad/au mewn storïau a thrafod eu teimladau, eu hymddygiad a'u perthynas â chymeriadau eraill;<br>- disgrifio cynnwys stori a'r prif ddigwyddiad ynddi;<br>- meithrin ymwybyddiaeth o'r brif neges mewn stori a chyfeirio at storïau eraill lle gwelir negeseuon tebyg;<br>- defnyddio gwybodaeth o atalnodi a pharagraffu i ddehongli testun yn ystyrlon a diddorol;<br>- meithrin ymwybyddiaeth o'r iaith sy'n creu naws mewn stori;<br>- cymharu ystod o storïau ac ystyried geiriau sy'n disgrifio sefyllfaoedd a chymeriadau;<br>- adnabod nodweddion testunau ffuglen a ffeithiol;<br>- adolygu nodweddion testunau ffuglen a ffeithiol;<br>- adolygu llyfr trwy fynegi barn yn fyr;<br>- dysgu ar y cof a darllen cerddi ar goedd gan ddangos ymwybyddiaeth o rhythm, odl a chonfensiynau atalnodi i greu ystyr; i ynganu a gosledu'n briodol a deallus;<br>- datblygu ymwybyddiaeth o hyd llinell, rhythm a nodweddion synau eraill mewn cerddi;<br>- datblygu ymwybyddiaeth o batrymau a lleoliad odl o fewn llinell, cwpled neu stori;<br>- darganfod a diddordeb mewn natur geiriau a dulliau sy'n creu effaith mewn barddoniaeth;<br>- adnabod a defnyddio rhai termau barddol, e.e. *llinell, pennill, carol, hwiangerdd, cân, cwpled, barddionaeth siâp, bardd*;<br>- gwrando ar farddoniaeth yn cael ei darllen gan sylwi ac ymateb i wahanol gyflwyniadau;<br>- creu barddoniaeth eu hunain yn dilyn modelau a gyflwynir;<br>- ymateb yn bersonol a chreadigol i farddoniaeth trwy fynegi barn ar amrywiaeth o gerddi a chreu llinellau newydd gan ddilyn patrwm;<br>- gwneud casgliad o farddoniaeth dosbarth;<br>- ymgyfarwyddo â gwaith gwahanol awduron a dechrau ymgyfarwyddo â gwaith beirdd lleol. | - ddarllen, deall detholiadau o amrywiol storïau, nofelau, dramadigau a sgriptiau;<br>- darllen a gwrando ar chwedlau o Gymru a gwledydd eraill;<br>- dangos gwybodaeth o ddilyniant a threfn stori;<br>- defnyddio geirfa briodol wrth drafod llyfrau, e.e. *awdur, clawr, mynegai, darluniau, stori (dechrau – canol – diwedd), stori / nofelau ffantasi, teitl, broliant, gwasg, addasid;*<br>- meithrin ymwybyddiaeth o adeiladwaith stori, a sut i fireinio ei dechrau, canol a'i diwedd; dangos gwybodaeth o ddilyniant a threfn stori trwy nodi geirfa sy'n amlygu hynny;<br>- ymchwilio i sut y mae lleoliad ac amser yn cael eu hadeiladu o fewn stori;<br>- darganfod nodweddion cymeriad/au trwy'r hyn a awgrymir o fewn stori; trafod eu teimladau eu hymddygiad a'u perthynas â chymeriadau eraill; uniaethu â chymeriad;<br>- disgrifio cynnwys stori a'r prif ddigwyddiadau ynddi;<br>- meithrin ymwybyddiaeth o'r brif neges mewn stori a chyfeirio at storïau eraill lle gwelir negeseuon tebyg;<br>- defnyddio gwybodaeth o atalnodi a pharagraffu i ddehongli testun yn ystyrlon a diddorol; dysgu sut mae paragraffu a phenawdau yn rhoi trefn ar syniadau awdur;<br>- deall sut mae awduron yn defnyddio iaith ddisgrifiad i greu naws mewn stori;<br>- cymharu ystod o storïau a dewis geiriau sy'n disgrifio sefyllfaoedd a chymeriadau;<br>- datblygu ymwybyddiaeth o ffurf dramodig gan ganolbwyntio ar olygfa, diweddglo, cymeriadau;<br>- adnabod nodweddion testunau ffuglen a ffeithiol;<br>- adolygu llyfr gan gyfeirio at y testun, cymeriadau, datblygiad *'genre'*, diweddglo;<br>- dysgu ar y cof a darllen cerddi ar goedd gan ddangos ymwybyddiaeth o rhythm, odl a chonfensiynau atalnodi i greu ystyr, i ynganu a goslefu'n briodol a deallus;<br>- datblygu ymwybyddiaeth o hyd llinell a'r hyn yw rhythm a nodweddion synau eraill mewn cerddi;<br>- datblygu ymwybyddiaeth o batrymau a lleoliad odl o fewn llinell, cwpled neu stori;<br>- darganfod a datblygu diddordeb mewn natur geiriau a dulliau beirdd o greu effaith gyda geiriau;<br>- datblygu adnabyddiaeth a'r defnydd o gymariaethau a phriod-ddulliau fel dyfais farddol;<br>- adnabod a defnyddio rhai termau, e.e *pennill, carol, hwiangerddi, cân, cwpled, limrig, haiku, triban, barddoniaeth siâp, bardd*;<br>- gwrando ar farddoniaeth yn cael ei darllen gan sylwi ac ymateb i wahanol gyflwyniadau;<br>- creu eu barddoniaeth eu hunain ar amrywiaeth o ffurfiau;<br>- ymateb yn bersonol a chreadigol i farddoniaeth trwy fynegi barn ar amrywiaeth o gerddi a chreu llinellau newydd gan ddilyn patrwm, yn ogystal â chreu barddoniaeth yn seiliedig ar yr hyn a ddarllenwyd ganddynt;<br>- gwrando, darllen a chasglu amrywiaeth o farddoniaeth, e.e. *cerddi doniol, cerddi antur, haiku, emynau, limirigau plant, tribannau*;<br>- ymgyfarwyddo ac ymateb i gerddi rhydd modern;<br>- gwneud casgliad o farddoniaeth dosbarth;<br>- ymgyfarwyddo â gwaith gwahanol awduron a beirdd gan gynnwys beirdd lleol. | - darllen, deall detholiadau o amrywiol storïau, nofelau, dramodigau a sgriptiau;<br>- darllen a gwrando ar chwedlau o Gymru a gwledydd eraill;<br>- dangos gwybodaeth o dilyniant a threfn stori;<br>- defnyddio geirfa briodol wrth drafod llyfrau, e.e. *awdur, clawr, mynegai, darluniau, stori (dechrau – canol – diwedd), teitl, broliant, cyfres, gwasg, addasiad, trosiad*;<br>- ymchwilio i adeiladwaith stori a sylwi ar ddull awduron o ddechrau stori, ei datblygu a'i diweddu;<br>- dechrau deall beth yw 'golygfa' yng nghyd-destun stori / dramodig; ymchwilio i sut y mae lleoliad ac amser yn cael eu hadeiladu o fewn stori;<br>- darganfod nodweddion cymeriad/au, trwy'r hyn a awgrymir o fewn stori; trafod eu teimladau eu hymddygiad, a'u perthynas â chymeriadau eraill; uniaethu â chymeriad;<br>- sôn am y prif ddigwyddiadau a dangos sut y maent yn cysylltu â'i gilydd i greu un stori;<br>- datblygu ymwybyddiaeth fod prif neges / thema mewn stori / nofelau a chyfeirio at storïau / nofelau eraill lle gwelir negeseuon / themâu tebyg;<br>- defnyddio gwybodaeth o atalnodi a pharagraffu i ddehongli a darllen testun yn ystyrlon a diddorol; dysgu sut mae paragraffau a phenawdau yn rhoi trefn ar syniadau awdur;<br>- deall sut mae awduron yn defnyddion iaith i greu effaith;<br>- cymharu ystod o storïau dewis geiriau sy'n disgirfio sefyllfaoedd a chymeriadau;<br>- ymgyfarwyddo â ffurfiau dramodig, sgriptiau a dramodigau radio;<br>- adnabod nodweddion testunau ffuglen a ffeithiol;<br>- adolygu llyfr gan gyfeirio at y testun, cymeriadau, datblygiad *'genre'*, diweddglo;<br>- archwilio dulliau bardd o greu effaith trwy ddefnyddio rhai dyfeisiau barddol, e.e. *personol, defnyddio cymhariaeth a throsiad*;<br>- gwybod a defnyddio termau priodol ar gyfer trafod barddoniaeth, e.e. *pennill, carol, hwiangerddi, cân, cwpled, limrig, triban, cerdd rydd, englyn, sillaf, odl, barddoniaeth siâp, bardd*;<br>- gwrando ar farddoniaeth yn cael ei darllen gan sylwi ac ymateb i wahanol gyflwyniadau;<br>- creu barddoniaeth gan ddilyn modelu yn ogystal â chreu barddoniaeth yn seiliedig ar yr hyn a ddarllenwyd ganddynt;<br>- ymateb yn bersonol a chreadigol i farddoniaeth trwy fynegi barn ar amrywiaeth o gerddi;<br>- ymateb yn greadigol ar lafar i farddoniaeth;<br>- gwrando, darllen a chasglu amrywiaeth o farddoniaeth, e.e. *cerddi doniol, cerddi antur, haiku, emynau, limrigau plant, tribannau*;<br>- gwrando, darllen ac astudio rhai cerddi rhydd modern i ymgyfarwyddo â rhythm;<br>- darllen amrywiaeth o gerddi sy'n adrodd stori, e.e. *y faled*;<br>- gwneud casgliad o farddoniaeth ar destunau / themau arbennig;<br>- adnabod gwahanol ffurfiau barddonol a bod yn ymwybodol o'r gwahaniaethau, e.e. *englyn (rhoi sylw i'r siâp, nifer y llinellau, trefn yr odl, sôn yn fyr am y gynghanedd) cerddi haiku, limrig, triban*;<br>- ymgyfarwyddo â gwaith awduron / beirdd amrywiol. | - deall nodweddion stori / nofel hanesyddol, stori / nofel wyddonias, stori / nofel ysbryd, arswyd, stori / nofel ddirgelwch, ffuglen, realistig;<br>- darllen a gwrando ar chwedlau o Gymru a gweldydd eraill;<br>- dangos gwybodaeth o ddilyniant a threfn stori;<br>- gwerthfawrogi cynnwys llyfrau stori trwy ddefnyddio geirfa briodol, e.e. *awdur, clawr, mynegai, darluniau, stori, adeiladwaith stori, stori / nofel ffantasi*;<br>- ymchwilio i adeiladwaith stori, a sylwi ar ddull awdruon o ddechrau stori, stori / nofel ffantasi;<br>- defnyddio'r term 'golygfa' / 'golygfeydd' wrth drafod stori / nofel / dramodig; ymchwilio i sut y mae lleoliad ac amser yn cael eu hadeiladu o fewn stori;<br>- darganfod nodweddion cymeriad/au trwy'r hyn a awgrymir o fewn stori; trafod eu teimladau, eu hymddygiad a'u perthynas â chymeriadau eraill; uniaethu â chymeriad;<br>- trafod y prif ddigwyddiadau a dangos sut y maent yn cysylltu â'i gilydd i greu un stori; dangos ymwybyddiaeth o'r hyn yw 'plot';<br>- defnyddio gwybodaeth o atalnodi a pharagraffu i ddehongli a darllen testun yn ystyrlon a diddorol; dysgu sut mae paragraffau a phenawdau yn rhoi trefn ar syniadau awdur;<br>- deall 'arddull' awduron;<br>- ymgyfarwyddo â ffurfiau dramodig, sgriptiau a dramodigau radio;<br>- adnabod nodweddion testunau ffuglen a ffeithiol;<br>- adolygu llyfr gan gyfeirio at y testun, cymeriadau, themâu ac arddull;<br>- archwilio dulliau bardd o greu effaith trwy ddefnyddio rhai dyfeisiau barddol, e.e. *personoli, creu delweddau trwy gyfrwng cymhariaeth a throsiad*;<br>- gwybod a defnyddio termau priodol ar gyfer trafod barddoniaeth, e.e. *pennill, carol, hwiangerdd, cân, cwpled, limrig, haiku, triban, cerdd rydd, englyn, sillaf, odl, barddoniaeth siâp, rhythm, cynghanedd, cerdd*;<br>- gwrando ar farddoniaeth yn cael ei darllen gan sylwi ac ymateb i wahanol gyflwyniadau;<br>- creu barddoniaeth yn seiliedig ar yr hyn a ddarllenwyd ganddynt;<br>- ymateb yn bersonol a chreadigol i farddoniaeth trwy fynegi barn ar amrywiaeth o gerddi;<br>- cyflwyno barddoniaeth ar lafar mewn amrywiol ddulliau;<br>- gwrando, darllen ac astudio rhai cerddi rhydd modern i ymgyfarwyddo â rhythm;<br>- darllen amrywiaeth o gerddi sy'n adrodd stori, e.e. *y faled*;<br>- gwneud casgliad o farddoniaeth ar destunau / ffurfiau arbennig;<br>- adnabod gwahanol ffurfiau barddonol a bod yn ymwybodol o'r gwahaniaethau, e.e. *englyn (rhoi sylw i'r siâp, nifer y llinellau, trefn yr odl, sôn yn fyr am y gynghanedd) cerddi haiku, limrig, triban*;<br>- gwrando, darllen a chasglu amrywiaeth o farddoniaeth, e.e. *tribannau, englynion*;<br>- creu llyfryn am hoff awdur / bardd / feirdd lleol a chenedlaethol. |

# Taith Iaith – Lefel Ffuglen Blwyddyn 1 - 6

| Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 | Blwyddyn 6 |
|---|---|---|---|---|---|
| - wybod bod gwahanol ffyrdd o ddefnyddio print i gyflwyno gwybodaeth yn yr ystafell ddosbarth, e.e. *arwyddion, labeli, capsiynau, rhestrau*;<br>- darganfod y gwahaniaeth rhwng llyfrau ffuglen (llyfr stori) a llyfrau gwybodaeth;<br>- ymgyfarwyddo â phrif nodweddion llyfrau gwybodaeth syml; teitl, clawr, cefn y llyfr, penawdau, print, lluniau, tudalen gynnwys;<br>- dechrau ymgyfarwyddo â strategaethau priodol i ganfod gwybodaeth;<br>- dechrau meithrin ymwybyddiaeth o'r broses o fynd ati i ymchwilio am wybodaeth ar lefel elfennol trwy ofyn cwestiynau a chwilio am atebion syml;<br>- darllen a defnyddio llyfrau gwybodaeth a chyfeiriol sy'n ymwneud â themâu a thopigau ar draws y cwricwlwm;<br>- dechrau ymgyfarwyddo â geiriaduron syml, llun a gair;<br>- ysgrifennu ffurfiau ffeithiol syml; labeli, rhestrau, posteri, llenwi holiadur, llythyron;<br>- defnyddio fframweithiau ysgrifennu fel canllawiau – pan fo'n briodol – i holi a chyflwyno gwybodaeth mewn gwahanol ffurfiau;<br>- creu llyfr gwybodaeth syml;<br>- defnyddio TGCh i gyflwyno gwybodaeth. | - adnabod y gwahaniaeth rhwng llyfrau ffuglen (llyfr stori) a llyfrau gwybodaeth;<br>- ymgyfarwyddo â phrif nodweddion llyfrau gwybodaeth: teitl, clawr, cefn y llyfr, lluniau, ffotograff, capsiynau, penawdau, tudalen gynnwys, print â ffont, mynegai, diagramau a siartiau;<br>- ymgyfarwyddo â strategaethau priodol i ganfod gwybodaeth;<br>- ymgyfarwyddo â'r broses o fynd ati i ymchwilio am wybodaeth ar lefel elfennol trwy ofyn cwestiynau a chwilio am atebion syml;<br>- darllen a defnyddio llyfrau gwybodaeth a chyfeiriol sy'n ymwneud â themâu a thopigau ar draws y cwricwlwm;<br>- ymgyfarwyddo â defnyddio geiriaduron;<br>- ysgrifennu ffurfiau ffeithiol syml: rhestrau, posteri, cardiau post, hysbysebion, pamffledi, llenwi holiadur, nodyn, llythyron;<br>- defnyddio fframweithiau ysgrifennu fel canllawiau – pan fo'n briodol – i holi a chyflwyno gwybodaeth mewn gwahanol ffurfiau;<br>- creu llyfr gwybodaeth;<br>- defnyddio TGCh i chwilio am wybodaeth ac i gyflwyno gwybodaeth. | - egluro y gwahaniaeth rhwng llyfrau ffuglen (llyfr stori) a llyfrau gwybodaeth;<br>- deall strwythur a phrif nodweddion llyfrau gwybodaeth; teitl, clawr, cefn y llyfr, lluniau, ffotograff, capsiynau, penawdau, tudalen gynnwys, print â ffont, mynegai, diagramau a siartiau;<br>- canfod gwybodaeth mewn llyfrau ffeithiol trwy ddefnyddio tudalen gynnwys, mynegai, penawdau, is-benawdau, rhif tudalennau, llyfryddiaeth;<br>- ymarfer strategaethau priodol i ganfod gwybodaeth, sef cip-ddarllen, llithr-ddarllen, craff-ddarllen a darllen cyflym;<br>- datblygu ymwybyddiaeth o'r broses a'r camau o fynd ati i ymchwilio am wybodaeth, cadarnhau gwybodaeth ac ailgyflwyno gwybodaeth;<br>- gofyn cwestiynau a chwilio am atebion o sawl ffynhonnell;<br>- darllen a defnyddio llyfrau gwybodaeth a chyfeiriol sy'n ymwneud â themâu a thopigau ar draws y cwricwlwm;<br>- deall a defnyddio geiriaduron dan gyfarwydd a dechrau dysgu sut i ddefnyddio thesawrws;<br>- deall strwythur gwyddionadur ac atlas;<br>- darllen llyfrau a thestunau cyfarwyddiadol, rheolau, a chynlluniau, e.e *sut i wneud rysait, drwy ddilyn y broses, darllen – oedi – gwneud – gwirio*;<br>- darllen, dadansoddi ac ysgrifennu ystod o ffurfiau ffeithiol estynedig, e.e. *llythyron personol a ffurfiol*;<br>- dechrau deall sut i gymryd nodiadau syml;<br>- defnyddio fframweithiau ysgrifennu i holi a chyflwyno gwybodaeth mewn gwahanol ffurfiau;<br>- creu llyfr gwybodaeth, e.e. *llyfr cyfarwyddiadol*;<br>- defnydio TGCh i chwilio am wybodaeth ac i gyflwyno gwybodaeth. | - adnabod nodweddion ffurfiau testunau gwybodaeth amrywiol, e.e. *adroddiadau ac erthyglau papur newydd a chylchgronau, data mewn atlas*;<br>- dechrau gwahaniaethu rhwng ffaith a barn;<br>- deall strwythur a phrif nodweddion llyfrau gwybodaeth; teitl, clawr, cefn y llyfr, lluniau, ffotograff, capsiynau, penawdau, tudalen gynnwys, print â ffont, mynegai, diagramau a siartiau;<br>- canfod gwybodaeth mewn llyfrau ffeithiol trwy ddefnyddio tudalen gynnwys, mynegai, penawdau, is-benawdau, rhif tudalennau, llyfryddiaeth;<br>- ymarfer strategaethau priodol i ganfod gwybodaeth, sef cip-ddarllen, llithr-ddarllen, craff-ddarllen a darllen cyflym;<br>- datblygu'r sgiliau a'r broses o fynd ati i ymchwilio am wybodaeth mewn ffynonellau ar yr un thema, sef datblygu ymwybyddiaeth o'r broses a'r camau o sut i fynd ati i ymchwilio am wybodaeth, cadarnhau gwybodaeth ac ailgyflwyno gwybodaeth;<br>- gofyn cwestiynau a chwilio am atebion o sawl ffynhonnell;<br>- darllen a defnyddio llyfrau gwybodaeth a chyfeiriol sy'n ymwneud â themâu ar draws y cwricwlwm;<br>- deall pwrpas geiriadur a thesawrws a sut i'w defnyddio;<br>- deall llyfrau a thestunau cyfarwyddiadol, rheolau a chynlluniau, e.e. *sut i wneud rysait, drwy ddilyn y broses, darllen – oedi – gwneud – gwirio*;<br>- dechrau ymgyfarwyddo ag enghreifftiau o ffurfiau hysbysebu sy'n dwyn perswâd;<br>- darllen, dadansoddi ac ysgrifennu ystod o ffurfiau ffeithiol estynedig;<br>- creu llyfr gwybodaeth;<br>- defnyddio TGCh i chwilio am wybodaeth ac i gyflwyno gwybodaeth. | - adnabod nodweddion a defnyddio amrywiaeth o lyfrau cyflwyno gwybodaeth a chyfair i bwrpas; cyfarwyddiadol, eglurhaol, proses, perswâd;<br>- gwahaniaethu rhwng ffaith a barn wrth ddarllen deunyddiau sy'n dwyn perswâd;<br>- deall strwythur a phrif nodweddion llyfrau gwybodaeth; teitl, clawr, cefn y llyfr, lluniau, ffotograff, capsiynau, penawdau, tudalen gynnwys, print â ffont, mynegai, deiagramau a siartiau;<br>- canfod gwybodaeth mewn llyfrau ffeithiol trwy ddefnyddio tudalen gynnwys, mynegai, penawdau, is-benawdau, rhif tudalenaau, llyfryddiaeth;<br>- ymarfer strategaethau priodol i ganfod gwybodaeth, sef cip-ddarllen, llithr-ddarllen, craff-ddarllen a darllen cyflym;<br>- datblygu'r sgiliau ymchwiliol, ynghyd â sgiliau gofyn cwestiynau pwrpasol a chwilio am atebion mewn sawl ffynhonnell er mwyn ymgyfarwyddo â defnyddio ystod o ffynonellau cyfeiriol;<br>- gofyn cwestiynau a chwilio am atebion o sawl ffynhonnell;<br>- ymgyfarwyddo â defnyddio ystod o lyfrau / ffynonellau cyfeiriol;<br>- deall sut i ddefnyddio geiriadur a thesawrws;<br>- deall strwythur gwyddionadur ac atlas;<br>- darllen llyfrau a thestunau cyfarwyddiadol, rheolau a chynlluniau;<br>- ymgyfarwyddo ag enghreifftiau o ffurfiau hysbysebu sy'n dwyn perswâd;<br>- darllen, dadansoddi ac ysgrifennu ystod o ffurfiau ffeithiol estynedig;<br>- deall sut i gymryd nodiadau;<br>- creu llyfrau gwybodaeth;<br>- defnyddio TGCh i chwilio am wybodaeth ac i gyflwyno gwybodaeth. | - adnabod, dewis a thrafod nodweddion testunau / llyfrau ffeithiol gan gynnwys testunau perswadiol, llyfrau cyfarwyddiadol a llyfrau sy'n adrodd profiadau a digwyddiadau, e.e. *cofiannau a hunangofiannau, testunau newyddiadurol*;<br>- trafod nodweddion a defnyddio amrywiaeth o lyfrau / ffynonellau cyfair yn effeithiol; geiriaduron, thesawrws, gwyddionadur, CD Rom;<br>- gwahaniaethu rhwng ffuglen, ffaith a barn, a thuedd (bias) o fewn testun;<br>- darllen ac ailddarllen testun ffeithiol gan ddefnyddio holl strategaethau darllen er mwyn holi cwestiynau pwrpasol ar y testun, nodi'r prif bwyntiau / coladu gwybodaeth, nodi a chymharu yr hyn sy'n debyg an anhebyg mewn testun;<br>- mynegi barn am effeithiolrwydd ffurf gan roi rhesymau;<br>- defnyddio ystod o ffynonellau cyfair yn effeithiol;<br>- darllen ac ail-ddarllen testunau ffeithiol gan ddefnyddio holl strategaethau darllen, sef cip-ddarllen, llithr-ddarllen, craff-ddarllen a darllen cyflym;<br>- datblygu'r sgiliau a'r broses o fynd ati i ymchwilio am wybodaeth trwy wneud defnydd o amrywiaeth o destunau ffeithiol;<br>- darllen, dadansoddi ac ysgrifennu ystod o ffurfiau ffeithiol estynedig, e.e. *llythyron personol a ffurfiol*;<br>- deall sut i gymryd nodiadau;<br>- defnyddio fframweithiau ysgrifennu i holi a chyflwyno gwybodaeth mewn gwahanol ffurfiau;<br>- creu llyfrau gwybodaeth;<br>- defnyddio TGCh i chwilio am wybodaeth ac i gyflwyno gwybodaeth. |

# Darllen

Trwy ddarllen ar y cyd, gyda'r athro / athrawes ac ar eu pennau eu hunain bydd plant yn cael eu dysgu i ddarllen llythyron, dyddiaduron, erthyglau, adroddiadau newyddion ffeithiol, cylchlythyron, llythyron ffurfiol / anffurfiol, dadleuon, posteri, hysbysiadau / taflenni / hysbysebion, cyfweliadau, ryseitiau, adolygiadau / amrediad o ffuglen fodern gan awduron o bwys sy'n ysgrifennu i blant / gweithiau gan awduron Cymreig sy'n ysgrifennu yn Saesneg a'r gweithiau hynny sydd â chefndir Cymreig neu sydd â pherthnasedd arbennig i Gymru / peth ffuglen i blant sy'n dyddio o gyfnodau cyn yr ugeinfed ganrif / amrediad o farddoniaeth gyfoes o safon / peth barddoniaeth glasurol / testunau a dynnwyd o amrywiaeth o ddiwylliannau a thraddodiadau / mythau, chwedlau a storïau traddodiadol.

## Rhuglder

| Derbyn | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 | Blwyddyn 6 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| • Ailadrodd naratif.<br>• Defnyddio amrywiaeth o giwiau.<br>• Darllen ei (h)enw ei hun.<br>• Darllen labeli.<br>• Darllen rhai geiriau amledd uchel mewn cyd-destun. | • Ailadrodd storïau gan roi'r prif bwyntiau mewn trefn.<br>• Darllen capsiynau a labeli syml.<br>• Defnyddio cyd-destun ffonig a chliwiau cystrawen i ragfynegi ac i wneud synnwyr o'r hyn a ddarllenir.<br>• Darllen testunau syml yn annibynnol.<br>• Gwella adnabyddiaeth o eiriau.<br>• Dysgu ac adrodd rhythmau a cherddi syml. | • Ailadrodd storïau'n unigol.<br>• Dysgu, ailddarllen ac adrodd hoff gerddi gan roi sylw i atalnodi.<br>• Darllen cyfarwyddiadau syml, ryseitiau, cynlluniau.<br>• Defnyddio geiriaduron a rhestrau geiriau i leoli geiriau trwy ddefnyddio'r llythyren gyntaf.<br>• Sganio a dod o hyd i eiriau allweddol.<br>• Brasddarllen teitl a chynnwys, tudalen, pennod, penawdau.<br>• Gwella adnabyddiaeth o eiriau.<br>• Defnyddio cyd-destun ffonig, cystrawen a gwybodaeth graffig i ddatrys, rhagfynegi, gwirio ystyr geiriau anghyfarwydd a gwneud synnwyr. | • Bod yn ymwybodol o leisiau gwahanol mewn storïau, trwy ddefnyddio darlleniadau wedi'u dramateiddio.<br>• Darllen yn uchel ac adrodd cerddi.<br>• Darllen a chyflwyno sgriptiau drama syml.<br>• Lleoli gwybodaeth trwy ddefnyddio'r cynnwys. Mynegai, rhestr eiriau, pennwad neu lyfryddiaeth.<br>• Sganio mynegion, cyfeiriaduron a ffynonellau TGCh. | • Paratoi, darllen a pherfformio sgriptiau drama.<br>• Darllen amrediad o storïau gan gynnwys dyddiaduron.<br>• Sganio testun mewn print ac ar y sgrîn i leoli geiriau ac ymadroddion allweddol. | • Darllen testunau mwy cymhleth yn rhwydd, e.e. *cerddi naratif, storïau clasurol*.<br>• Darllen a pherfformio cerddi a storïau ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol.<br>• Darllen sgriptiau drama.<br>• Lleoli gwybodaeth yn hyderus ac yn effeithlon gan ddefnyddio amrediad o strategaethau gwahanol, e.e. *marcio testun*. | • Darllen a dehongli cerddi.<br>• Brasddarllen a sganio a thynnu gwybodaeth o destun rhoddedig. |

Powys

# Amgyffred

| Derbyn | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 | Blwyddyn 6 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| • Gwahaniaethu rhwng testun a darlun.<br>• Deall a defnyddio amrediad o dermau am lyfrau a phrint.<br>• Dilyn y testun yn y drefn gywir.<br>• Bod yn ymwybodol o strwythur y stori. | • Defnyddio'r term ffuglen / ffeithiol.<br>• Defnyddio'r teitl, clawr, tudalennau, darluniau, crynodeb i ragfynegi'r stori.<br>• Trafod rhesymau am ddigwyddiadau mewn storïau.<br>• Disgrifio lleoliadau a digwyddiadau'r stori.<br>• Adnabod a thrafod cymeriadau.<br>• Darllen testunau ffeithiol mewn ffordd ddewisol.<br>• Sylweddoli bod gwybodaeth yn cael ei chyflwyno mewn ffyrdd gwahanol. | • Trafod themâu stori cyfarwydd a chysylltu â phrofiad personol, e.e. *salwch*.<br>• Deall amser a pherthnasau dilynol.<br>• Rhagfynegi diwedd y stori neu ddigwyddiadau.<br>• Trafod lleoliadau'r stori ac adnabod y geiriau sy'n eu disgrifio nhw.<br>• Adnabod a disgrifio cymeriadau.<br>• Adnabod rhigwm, rhythm a phatrymau cyflythrennol.<br>• Deall bod geiriaduron a rhestrau geiriau'n rhoi diffiniadau ac esboniadau.<br>• Deall y gwahaniaeth rhwng ffaith a ffuglen.<br>• Gofyn cwestiynau cyn darllen deunydd ffeithiol i ddod o hyd i atebion. | • Cymharu amrediad o leoliadau stori.<br>• Dewis geiriau ac ymadroddion sy'n disgrifio lleoliadau.<br>• Adnabod sut y cyflwynir deialog mewn storïau.<br>• Adnabod y gwahaniaethau allweddol rhwng rhyddiaith a sgript drama.<br>• Adnabod themâu nodweddiadol storïau, e.e. *da yn goresgyn drwg*.<br>• Trafod teimladau cymeriadau. Crynhoi prif bwynt adran mewn un frawddeg ar lafar.<br>• Defnyddio'r termau ffaith, ffuglen a ffeithiol yn briodol. | • Archwilio lleoliadau a chymeriadau.<br>• Deall sut y defnyddir paragraffau neu benodau i gasglu, trefnu neu adeiladu syniadau.<br>• Deall sut y defnyddir iaith ffigurol ac adnabod cyffelybiaeth.<br>• Adnabod mathau gwahanol o destun, e.e. *cynnwys, strwythur, geirfa, arddull, cynllun a diben*.<br>• Adnabod nodweddion testun ffeithiol, e.e. *penawdau, pwyntiau bwled, rhestrau ac ati.*<br>• Deall a defnyddio'r termau ffaith a barn.<br>• Adnabod sut y defnyddir paragraffau i strwythuro gwybodaeth. | • Dadansoddi nodweddion da ar ddechrau stori.<br>• Cymharu strwythurau storïau gwahanol – rhediad, creu disgwyl.<br>• Disgrifio'r sefyllfa o safbwynt cymeriad arall.<br>• Dadansoddi a chymharu arddulliau gwahanol beirdd gwahanol.<br>• Gwahaniaethu rhwng awdur ac adroddwr.<br>• Gwerthuso llyfr trwy gyfeirio at fanylion ac enghreifftiau yn y testun.<br>• Gwerthuso testunau'n feirniadol.<br>• Casglu ac archwilio'r defnydd o ddyfeisiau ieithyddol, e.e. *diffiniadau, cwestiynau ac ymadroddion rhethregol*. | • Diffinio ymateb personol a sylweddoli sut mae testun yn effeithio ar y darllenwr.<br>• Deall agweddau ar strwythur naratif, e.e. *sut mae'r awdur yn ymdrin ag amser*.<br>• Adnabod sut mae beirdd yn llywio geiriau er effaith, e.e. *sain neu ystyr*.<br>• Dadansoddi sut y cyfleir negeseuon, awyrgylch a theimladau mewn barddoniaeth.<br>• Dadansoddi llwyddiant testun wrth effeithio ar ei ddarllen, e.e. *tyndra, disgwyliad*.<br>• Adnabod prif nodweddion iaith ffurfiol, e.e. *amser presennol, llais goddefol*.<br>• Deall nodweddion testun ffeithiol, h.y. amser, arddull amhersonol, iaith ddisgrifiadol. |

# Ysgrifennu Naratif
# Amrediad o ffurfiau gwahanol ar ysgrifennu

| Cyfnod Allweddol 1 | Cyfnod Allweddol 2 |
|---|---|
| Llyfrau llun, dramâu, cerddi a storïau â lleoliadau cyfarwydd yn ogystal â'r rheiny a seilwyd ar fydoedd dychmygol a ffantasi. Llyfrau a cherddi a ysgrifennwyd i blant gan awduron o bwys. Ailadrodd storïau tylwyth teg a gwerin traddodiadol. Storïau a cherddi o Gymru ac o amrediad o ddiwylliannau. Storïau, cerddi a siantiau sy'n cynnwys iaith batrymedig a rhagfynegadwy. Storïau a cherddi sy'n arbennig o heriol o ran hyd neu eirfa. | Amrediad o ffuglen fodern gan awduron o bwys sy'n ysgrifennu i blant. Gweithiau gan awduron Cymreig sy'n ysgrifennu yn Saesneg a'r gweithiau hynny sydd â chefndir Cymreig neu sydd â pherthnasedd arbennig i Gymru. Peth ffuglen i blant sydd wedi hen ennill ei phlwyf. Amrediad o farddoniaeth fodern o safon. Peth barddoniaeth glasurol. Testunau a dynnwyd o amrywiaeth o ddiwylliannau a thraddodiadau. Mythau, chwedlau a storïau traddodiadol. |

| | Derbyn | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 | Blwyddyn 6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| DIBEN A THREFNIANT | • Ysgrifennu / gwneud marc wrth ymateb i stori, digwyddiadau, ymweliad.<br>(Athro / Athrawes yn ysgrifennu beth mae'r plentyn yn dweud ei fod e/hi wedi'i ysgrifennu.) | • Ysgrifennu brawddeg / brawddegau (ysgrifennu cychwynnol) i ailadrodd rhan o stori mewn trefn.<br>• Ysgrifennu geiriau / meddyliau cymeriadau mewn swigen siarad.<br>• Darlunio a disgrifio cymeriad yn y stori. | • Dechrau cynllunio ac ysgrifennu stori a ysbrydolwyd gan gymeriadau, digwyddiadau neu arddull llyfr.<br>• Ysgrifennu am ddigwyddiadau gwirioneddol neu ddychmygol mewn trefn, gyda dechrau canol a diwedd.<br>• Cynnwys cymeriad.<br>• Defnyddio dechrau priodol i'r stori. | • Cynllunio ac ysgrifennu stori'n annibynnol gan ddefnyddio iaith briodol gan gynnwys deialog.<br>• Cynnwys disgrifiadau o leoliadau a chymeriadau. | • Cynllunio ac ysgrifennu stori mewn o leiaf dau *genre* penodol gan ddefnyddio nodweddion iaith priodol.<br>• Datblygu disgrifiad o'r lleoliad.<br>• Datblygu cymeriadaeth trwy weithred a / neu lleferydd.<br>• Defnyddio paragraffau i ddynodi prif ddyraniadau'r naratif. | • Cynllunio ac ysgrifennu amrediad o storïau mewn *genre*s gwahanol.<br>• Cydbwyso gweithred / deialog / disgrifiad.<br>• Defnyddio paragraffau'n gyson i drefnu a strwythuro naratif. | • Cynllunio ac ysgrifennu amrediad o storïau gwahanol gyda rheolaeth ar strwythur yn dangos datblygiad plot a thema.<br>• Ysgrifennu ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol, e.e. *cyfoedion neu blant iau.*<br>• Defnyddio amrediad o dechnegau naratif i ddal sylw'r darllenydd. |
| ARDDULL | • Ysgrifennu, gan ddefnyddio strwythurau iaith lafar syml.<br>• Arbrofi gyda geirfa. | • Ysgrifennu brawddeg / cyfres o frawddegau (ysgrifennu cychwynnol). | • Defnyddio cysyllteiriau syml sef, *ac, wedyn, ond.*<br>• Defnyddio cyfystyron gwrthenwau i estyn / gwella ysgrifennu. | • Datblygu arddull trwy ddefnyddio cysyllteiriau syml, e.e. *ond, pan, felly, achos,* er mwyn egluro'r berthynas rhwng syniadau, e.e. *cyferbyniad mewn amser, esboniad.*<br>• Defnyddio ymadroddion (enw ac adferf) i ychwanegu diddordeb.<br>• Defnyddio rhagenwau yn lle enwau priod.<br>• Defnyddio amser yn gyson mewn brawddegau. | • Defnyddio mathau gwahanol o gysyllteiriau brawddeg i greu brawddegau mwy cymhleth, e.e. *os, pan, yn hytrach na, er, fodd bynnag.*<br>• Defnyddio amser yn gyson.<br>• Defnyddio ymadroddion cyffredinol neu leoledig i fireinio'r disgrifiad (ymadroddion arddodiadol).<br>• Ysgrifennu cyfelybiaethau syml. | • Defnyddio cydbwysedd o frawddeg syml a chymhleth er effaith.<br>• Gwneud dewisiadau gerifa llawn dychymyg. | • Defnyddio amrediad llawn o strwythurau brawddeg a geirfa amrywiol i greu effaith arbennig ar gyfer y math o stori, cerdd neu ddrama, e.e. *delweddaeth, trosiadau, cyffelybiaethau.* |
| ATALNODI | • Dangos peth cyfatebiaeth o ran llythrennau a seiniau.<br>• Dechrau defnyddio peth atalnodi.<br>• Dysgu sut i ysgrifennu llythrennau bras a bach. | • Defnyddio llythrennau bras ac atalnod llawn i ddynodi brawddegau. | • Defnyddio llythrennau bras, atalnodau llawn, gofynodau.<br>• Defnyddio llythrennau bras ar gyfer enwau a lleoedd. | • Defnyddio llythrennau bras, atalnodau llawn, gofynodau yn gyson. Dechrau defnyddio dyfynodau ar gyfer lleferydd a phwyslais.<br>• Defnyddio atalnodau ar gyfer rhestrau.<br>• Defnyddio ebychnodau mewn lleferydd.<br>• Defnyddio collnodau ar gyfer cwtogiadau. | • Dechrau defnyddio atalnodau i wahanu elfennau brawddeg, rhestrau, ymadroddion byr, cymalau.<br>• Defnyddio dyfynodau. | • Defnyddio atalnodau i gyflwyno ac i ddod â lleferydd uniongyrchol i ben.<br>• Defnyddio llythrennau bras ar gyfer pob enw priod.<br>• Defnyddio cromfachau, gwahanodau a cholonau i strwythuro brawddegau hir.<br>• Defnyddio collnodau i ddynodi meddiant. | • Defnyddio amrediad llawn o atalnodi i amrywio rhediad ac i egluro ystyr.<br>• Defnyddio atalnodau, gwahanodau a cholonau i osgoi amwysedd o fewn brawddegau.<br>• Defnyddio cromfachau i fireinio disgrifiad (Er mwyn adlewyrchu ac ar gyfer neillebau). |

# Ysgrifennu Ffeithiol
# Amrediad o ffurfiau gwahanol ar ysgrifennu

| **Cyfnod Allweddol 1** | **Cyfnod Allweddol 2** |
|---|---|
| Bwydlenni, posteri, negeseuon, rhestrau, llythyron, arddangosfeydd yn y dosbarth, y maent yn gallu cynnwys mathau o destun na ddysgwyd yn benodol. | Adroddiadau newyddion, cylchlythyron, llythyron – ffurfiol / anffurfiol, dadlau, posteri, hysbysiadau / taflenni / hysbysebion, cyfweliadau, ryseitiau, adolygiadau, fformatiau TGCh gan gynnwys e-bost. |

| | Derbyn | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 | Blwyddyn 6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| PWRPAS A THREFNIANT | **Ailadrodd** | **Trefn**<br>Ailadrodd | **Adrodd**<br>Trefn<br>Ailadrodd | **Trafod**<br>Trafod<br>Adrodd<br>Trefn<br>Ailadrodd | **Esbonio**<br>Trafod<br>Adrodd<br>Trefn<br>Ailadrodd | **Dadlau / Perswadio**<br>Esbonio<br>Adrodd<br>Trefn<br>Ailadrodd | **Amrediad o ffurfiau gwahanol ar ysgrifennu at ddibenion gwahanol ac ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol** |
| | • Gwneud marc at ddiben (athro / athrawes yn ysgrifennu beth mae'r plant yn dweud eu bod wedi ysgrifennu). | • Ysgrifennu cyfres o bwyntiau sy'n berthnasol i'r pwnc. | • Ysgrifennu cyfres o bwyntiau mewn trefn ddealladwy. | • Cynnwys datganiad i gyflwyno (cyd-destun gosodedig) a chyfres o bwyntiau mewn trefn sy'n perthyn i'r pwnc. | Sicrhau: -<br>• Cydbwyso pwyntiau mewn trefn dda, cyflwyniad a datganiad i gloi.<br>• Syniadau sy'n cael eu cynnal a'u datblygu.<br>• Defnyddio cynllun a nodweddion priodol ar gyfer y drefn.<br>• Defnyddio paragraffau i grwpio gwybodaeth. | • Strwythur ar gyfer trefn benodol.<br>• Dangos ymwybyddiaeth o gynulleidfa Cynnwys lefel briodol o fanylder.<br>• Defnyddio paragraffau a dyfeisiau cynllunio eraill, e.e. *bylchau ar gyfer golwg gyffredinol.*<br>• Rheoli syniadau i ennyn diddordeb y darllenydd a'i gynnal. | • Sicrhau bod yr ysgrifennu yn fanwl ac yn ddatblygiedig.<br>• Defnyddio technegau penodol sy'n cyd-fynd â'r drefn benodol, e.e. *mae'r cyflwyniad yn sefydlu llais a rôl yr awdur ac mae'r diwedd yn cynnig crynodeb i berswadio neu apelio at y darllenydd.* |
| ARDDULL | • Ysgrifennu gan ddefnyddio strwythurau iaith lafar syml.<br>• Arbrofi gyda geirfa. | • Ysgrifennu brawddeg / cyfres o frawddegau (ysgrifennu cychwynnol). | • Defnyddio cysyllteiriau syml – a, *wedyn, ond, achos.*<br>• Defnyddio cysyllteiriau rhesymegol – *wedyn, ar ôl, nesaf.* | • Defnyddio geiriau sy'n cyffredinoli.<br>• Defnyddio cysyllteiriau i strwythuro amser / trefn.<br>• Defnyddio rhagenwau yn lle enwau priodol. Defnyddio ymadroddion enwol.<br>• Defnyddio amserau'n gyson mewn brawddegau. | • Defnyddio amrediad o gystrawennau cymhleth i estyn ystyr.<br>• Defnyddio cysyllteiriau er pwyslais.<br>• Defnyddio iaith ffurfiol / anffurfiol yn gyson ar gyfer y darllenydd.<br>• Defnyddio ymadroddion cyffredinol neu rai sydd wedi'u lleoli i gyflwyno themâu disgrifiadol, e.e. *ymadroddion arddodiadol* – o flaen. | • Dangos amrywiaeth yng nghystrawen y frawddeg, e.e. *grwpio'r goddrych cyn y ferf neu gyfeirio'n ôl ac ymlaen gan ddefnyddio hwn, y rhain, fe/hi i osgoi ailadrodd.*<br>• Defnyddio cystrawen oddefol.<br>• Defnyddio ehangiad cyn yr enw mewn brawddegau cymhleth. | • Defnyddio amrywiaeth o eirfa er effaith.<br>• Amrywio trefn geiriau er effaith.<br>• Defnyddio amrediad o gystrawennau a hyd brawddegau er effaith.<br>• Cynnal y lefel o ffurfioldeb a ddewiswyd. |
| ATALNODI | • Dysgu sut i ysgrifennu llythrennau bras a llythrennau bach. | • Defnyddio llythrennau bras ac atalnodau llawn. | • Defnyddio llythrennau bras, atalnodau llawn a gofynodau.<br>• Defnyddio llythrennau bras ar gyfer enwau a lleoedd. | • Defnyddio atalnodau ar gyfer rhestrau.<br>• Defnyddio collnodau ar gyfer cwtogiadau. | • Defnyddio atalnodau i wahanu elfennau mewn brawddeg. | • Defnyddio cromfachau, gwahanodau a cholonau i strwythuro brawddegau hir.<br>• Defnyddio collnodau i ddynodi meddiant. | • Defnyddio amrediad o atalnodi i amrywio rhediad ac egluro ystyr. |

# Atodiad 5

Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

# Trawsieithu

**Beth yw e?**

Er ei fod yn gysyniad eithaf cymhleth, yn sylfaenol trawsieithu yw derbyn gwybodaeth mewn un iaith a defnyddio'r wybodaeth honno mewn iaith arall.

Fe welir y broses ar waith yn aml pan fo disgyblion yn gwneud gwaith ymchwil, e.e. ar gyfer prosiect arbennig.

Wrth chwilota am wybodaeth mewn wahanol ffynonellau, bydd ein disgyblion yn gorfod dibynnu ar adnoddau Saesneg a Chymraeg.

Felly derbynnir y wybodaeth weithiau drwy ddarllen yn Saesneg a defnyddir y wybodaeth i ysgrifennu i bwrpas arbennig yn y Gymraeg.

Gellir datblygu sgiliau trawsieithu disgyblion drwy amrywio sgiliau iaith derbyn gwybodaeth a sgiliau iaith defnyddio gwybodaeth.

Enghraifft o hyn fyddai gwrando a darllen am bwnc fel 'Corrynnod' yn Saesneg a chynnal sesiwn llafar / trafodaeth yn y Gymraeg.

Gall trawsieithu fod yn gyfrwng i ddatblygu medrau llythrennedd deuol ein disgyblion yn CA2 ond mae na dystiolaeth gadarn bellach bod trawsieithu'n hogi'r ymenydd ac yn hybu sgiliau meddwl a sgiliau trefnu gwybodaeth yn ogystal.

*"Translanguaging has two potential advantages. It may promote a deeper and fuller understanding of the subject matter. It is possible in a monolingual context, for students to answer questions or write an essay without fully understanding the subject. Whole sentences or paragraphs can be copied or adapted from a textbook without really understanding them. This is less easy in a bilingual situation. To read and discuss a topic in one language, and then to write about it in another, means that the subject matter has to be properly 'digested' and reconstructed. Translanguaging may also help students develop skills in their weaker language….."*

*Yr Athro Colin Baker; The Care and Education of Youn Bilinguals. Multilingual Matters, 2000*

*** Am wybodaeth bellach neu hyfforddiant, cysyllter â'r Awdurdod Addysg.**

# Geirfa

| | | |
|---|---|---|
| **A** | **adalw** – *to recall*<br>**adborth** – *feedback*<br>**amgen** – *alternative*<br>**amrediad** – *range* (ystod)<br>**ansoddol** – *qualitative* | **amnewid** – *to substitute*<br>**amledd** – *frequency*<br>**arsywli** – *to observe*<br>**arsylwadau** – *observations*<br>**amfygythiol** – *non threatening* |
| **B** | **bwrw amcan** – *to guess*<br>**bylchiad** – *a gap* | |
| **C / Ch** | **credadwy** – *credible*<br>(**credinedd** neu **hygrededd** – *credibility*)<br>**cyfarwyddiadol -** *instructional* | **chwilfrydedd** - *curiosity* |
| **D /Dd** | **dibenion** – *puposes*<br>**dilyniant** – *sequence*<br>**dilyniannu** – *to sequence*<br>**diamwys** – *unambiguous* | **dynwared** – *to imitate*<br>**dargopïo** – *to trace*<br>**datrysiad -** *solution* |
| **E** | | |
| **F / Ff** | | |
| **G / H** | **geiriau treigl amser** – *word connectives*<br>**gwe geiriau** – *spidergram* (cynllun corryn) | **gwirio** – *to check*<br>(rhestr wirio – *check list*)<br>**gwniadur** – *a thimble*<br>**grymuso** – *to empower* |
| **I** | | |
| **L / Ll** | | |
| **M** | **meintiol** - *quantitive* | |
| **N** | **nod llyfr** – *book mark* | |
| **O** | | |
| **P** | **perthynol** – *relative*<br>**prawf ddarllen** – *proof read* | |
| **R / Rh** | **rhagfynegi** – *to predict*<br>**rhagweithio** –*interact*<br>**rhyngweithio** – *to network* | |
| **S / T** | **tafladwy** – *disposable*<br>**tasgu syniadau / tanio syniadau** – *brainstorming*<br>**troshaen** – *overlay* | |
| **U** | **uniaethu** - *identify* | |
| **W** | | |
| **Y** | | |